



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Swansea University E-Theses

Problemau Awduraeth a Dilysrwydd y Cerddi a Briodolir i Dafydd ap Gwilym.

Jones, Sian Eleri

How to cite:

Jones, Sian Eleri (2006) *Problemau Awduraeth a Dilysrwydd y Cerddi a Briodolir i Dafydd ap Gwilym..* thesis, Swansea University.

<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42210>

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>

Problemau Awduraeth a Dilysrwydd y Cerddi
a Briodolir i Dafydd ap Gwilym

Sian Eleri Jones

Cyflwynwyd i Brifysgol Cymru yn unol â'r gofynion ar gyfer
Gradd MPhil yn y Gymraeg

Prifysgol Abertawe
2006

ProQuest Number: 10797912

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



ProQuest 10797912

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.

This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346



CRYNODEB

Bwriad y traethawd hwn yw edrych yn feirniadol ar rai o'r meini prawf a ddefnyddiodd Thomas Parry wrth lunio ei gasgliad o waith Dafydd ap Gwilym. Mae rhai beirniaid wedi codi cwestiynau ynghylch methodoleg Parry, yn eu plith Helen Fulton, a ganddi hi y ceir y syniad o ddadl gylch sy'n greiddiol i'r traethawd. Mae'r traethawd yn ceisio ymateb i'r cwestiwn sylfaenol a godir gan Fulton, sef, i ba raddau yr oedd Parry yn dewis a dethol cerddi i'w cynnwys yn y canon gan ddefnyddio tystiolaeth hollol wrthrychol ac i ba raddau yr oedd ei benderfyniadau wedi'u dylanwadu gan ei ragdybiaethau am y math o fardd oedd Dafydd ap Gwilym a'r math o waith a ganai?

Mae'r traethawd yn edrych ar y ddadl gylch o sawl cyfeiriad. Yn gyntaf, mae'n crynhoi ac yn dadansoddi tystiolaeth y llawysgrifau cynharaf ac yn cynnig craidd o gerddi sydd i'w cael yn y llawysgrifau hynny. Defnyddir y dystiolaeth hon i edrych ar rai enghreifftiau penodol o'r anghysondeb sydd i'w weld yn y modd y cymhwysodd Thomas Parry y maen prawf hwn. Trafodir hefyd lawysgrif Hafod 26, a diddorol gweld cyfraniad y llawysgrif hon i'r canon.

Yna, ystyrir rhai o'r casgliadau llai o waith Dafydd ap Gwilym mewn ymgais i greu craidd o gerddi poblogaidd neu graidd y tybir eu bod yn dangos canu Dafydd ar ei orau. Y cam naturiol wedyn yw gweld faint o orgyffwrdd sydd yna rhwng y ddau graidd o gerddi a gofyn a yw'r naill graidd neu'r llall yn cynnig modd o dorri'r ddadl gylch? Mae'r traethawd yn gorffen trwy ystyried elfennau mwy haniaethol gan ofyn a yw personoliaeth y bardd a'r weledigaeth a geir yn ei waith yn cynnig i ni ryw fodd o adnabod ei gerddi pan fo ystyriaethau eraill yn methu?

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac ni chyflwynwyd ef ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd... (ymgeisydd)

Dyddiad.....1/05/06.....

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ymchwiliadau i fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd... (ymgeisydd)

Dyddiad.....1/05/06.....

GOSODIAD 2

Rhoddaf yma gydsyniad i'm traethawd, os derbynir ef, fod ar gael i lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd... (ymgeisydd)

Dyddiad.....1/05/06.....

CYNNWYS

	Tudalen
Byrfoddau	i
Pennod 1	
Rhai sylwadau ar lunio <i>Gwaith Dafydd ap Gwilym</i> a'r ymateb iddo.....	1
Pennod 2	
Golwg ar y llawysgrifau.....	21
Pennod 3	
Ystyried tystiolaeth y llawysgrifau.....	43
Pennod 4	
Hafod 26.....	59
Pennod 5	
Y cerddi 'poblogaidd'.....	78
Pennod 6	
Y chweched synnwyr ac ystyriaethau mwy haniaethol.....	112
Diwedd glo	132
Atodiad A	
Dadansoddi Peniarth 49.....	142
Llyfryddiaeth	149

Byrfoddau

- CMCS - *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981 – 1993
- CMOC - *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
- DAGP - *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*, gol. Rachel Bromwich (Llandysul, 1982)
- DGA - *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, gol. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG - *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- GDG - *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GWL ii - *A Guide to Welsh Literature 1282-c.1550 Volume II*, goln A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes, argraffiad diwygiedig, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1997)
- HCG - *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980)
- LIC - *Llên Cymru*, 1950 -
- MWM - *Medieval Welsh Manuscripts*, Daniel Huws (Cardiff, 2003)
- MWP - *Medieval Welsh Poems An Anthology*, Translation and Commentary by Richard Loomis and Dafydd Johnston (New York, 1992)
- OBWV - *The Oxford Book of Welsh Verse*, gol. Thomas Parry (Oxford, 1976)
- THSC - *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3 –
- YB - *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965-)

Pennod 1

Rhai sylwadau ar lunio *Gwaith Dafydd ap Gwilym* a'r ymateb iddo

Mae'r *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* yn disgrifio Dafydd ap Gwilym fel 'bardd disgleiriaf Cymru yn yr Oesoedd Canol, onid ym mhob cyfnod',¹ ac mae'n siŵr bod pawb ohonom yn gwbl gyfarwydd â chlywed disgrifiadau o'r fath o Dafydd ap Gwilym. Bu'r beirniaid llenyddol yn hael iawn eu canmoliaeth ohono ar hyd y blynyddoedd ac mae'r beirniadaethau o'i waith yn frith o ddisgrifiadau sy'n datgan athrylith Dafydd. Fodd bynnag, ychydig ohonom sy'n aros i ystyried ar ba sail y ceir y ganmoliaeth hon.

Bellach a hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi *Gwaith Dafydd ap Gwilym* yn 1952, anodd os nad amhosibl yw ystyried gwaith y bardd hwnnw heb ystyried campwaith Thomas Parry, bron nad yw'r naill yn gyfystyr â'r llall. Teg fyddai dweud felly, fel y mae Helen Fulton yn dadlau mewn amryw o'i hysgrifau, mai'r gyfrol hon sydd wedi caniatáu i feirniaid ddod i bob math o gasgliadau am Dafydd ap Gwilym a'i waith; mae'r darlennydd modern yn teimlo'n hyderus bod ganddo adnabyddiaeth o'r bardd a'r math o waith a ganai, a hynny ar sail yr hyn a geir yng nghasgliad Thomas Parry. Yn ei adolygiad o ail argraffiad *Gwaith Dafydd ap Gwilym* meddai E. I. Rowlands: '...ar waith testunol Dr Parry y bydd raid seilio pob ymdriniaeth â Dafydd ap Gwilym...Ar y sylfaen diogel hwn y codir pob damcaniaeth o hyn allan...'²

Roedd Parry yn sicr yn fwy ymwybodol na neb o anferthedd y dasg a'i hwynebai wrth geisio llunio casgliad o waith Dafydd ap Gwilym, ac er tegwch iddo, mae'n cyfaddef yn ei ragymadrodd i'r gwaith nad yw'n gwbl ddi-ffael. Nid oedd Parry yn ei dwyllo'i hun am un eiliad ei fod wedi llwyddo i lunio casgliad di-fwlch a di-fai; meddai:

...er cymhwyso pob praw y gellir ei ddychmygu, ac er bod weithiau'n rhyfygus o fentrus a phryd arall yn wylriadwrus iawn, ni ddeuir byth bellach i wybod yn gwbl sicr pa awdlau a chywyddau a ysgrifennodd Dafydd ap Gwilym...³

Mae'n siŵr bod tuedd erbyn heddiw i anghofio hyn.

¹ *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Adargraffiad diwygiedig, Caerdydd, 1992), t. 129

² Adolygiad E. I. Rowlands, 'Thomas Parry (gol), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Ail Argraffiad)', *LIC* VIII (1964-1965), t. 112

³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952), t. cv. O hyn allan cyfeirir at y gyfrol hon fel *GDG* ac oni nodir yn wahanol at yr argraffiad cyntaf y cyfeirir bob tro.

Er bod y traethawd hwn felly yn bwriadu ystyried awduraeth y cerddi a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym, hoffwn bwysleisio o'r dechrau un nad ceisio adfer cerddi i'r canon na throi cerddi allan ohono yw diben yr astudiaeth hon. Y bwriad yn hytrach yw ailystyried yn feirniadol rai o'r meini prawf a ddefnyddiodd Parry wrth lunio ei ganon, gan ganolbwyntio'n bennaf ar dystiolaeth y llawysgrifau.

I ddechrau, bwriedir trafod rhywfaint ar ddatblygiad y traddodiad llawysgrifol cyn mynd ati i ystyried rhai o'r llawysgrifau hynny sy'n cynnwys enghreifftiau o waith Dafydd. Yna bwriedir symud ymlaen i edrych ar rai o'r casgliadau llai a gyhoeddwyd o waith Dafydd ap Gwilym ar hyd y blynyddoedd, mewn ymgais i weld pa rai o blith yr holl gerddi a briodolir i Dafydd sydd wedi dod yn gerddi poblogaidd ac sy'n cael eu hystyried yn fwyaf nodweddiadol o'i waith. Trwy'r cyfan o'r trafodaethau hyn, rhoddir sylw hefyd i rai o'r problemau neu anghysondebau sy'n codi wrth geisio cymhwyso meini prawf Thomas Parry. Mae'n siŵr y gwelir mai codi cwestiynau a wna'r traethawd hwn yn hytrach na chynnig atebion.

Dylid nodi wrth fynd heibio y gallai'r traethawd hwn fod yn amserol, gan fod y gwaith o'i baratoi yn cyd-daro â'r gwaith o ailolygu gwaith Dafydd ap Gwilym sydd yn mynd rhagddo yn rhan o brosiect a noddir gan Fwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a fydd yn arwain yn y pen draw at gyhoeddi argraffiad newydd o waith y bardd. Fe welir bod ffrwyth y gwaith ymchwil hwnnw yn cyfrannu at y drafodaeth hon mewn manau.

Yn y cyflwyniad hwn i'r traethawd felly y bwriad yw edrych yn fras ar y meini prawf a ddefnyddiodd Parry, cyn symud ymlaen i ystyried syniadau a dadleuon rhai beirniaid eraill ynghylch methodoleg Parry a'r casgliad o gerddi a luniodd gan ddefnyddio'r fethodoleg honno.

Yn ei ragymadrodd hirfaith i *Gwaith Dafydd ap Gwilym* mae Parry'n trafod y saith maen prawf a ddefnyddiodd wrth ddewis a dethol y cerddi i'w cynnwys yn ei gasgliad. Y maen prawf cyntaf a restrir gan Parry yw 'Tystiolaeth y Llawysgrifau'. Gellid ystyried mai'r llawysgrifau yw'r man cychwyn amlycaf ar gyfer unrhyw drafodaeth sy'n ymwneud ag awduraeth a dilysrwydd cerddi o'r cyfnod canol. Ar un olwg, mae'r dystiolaeth hon yn wrthrychol gan nad yw'n ddibynnol ar farn neu

ragdybiaethau'r sawl sy'n ceisio pennu awduraeth. Fodd bynnag, o durio ymhellach i'r cofnodion llawysgrifol, buan y gwelir mai darlun go gymhleth a geir ynddynt, gyda'r naill yn aml yn gwrth-ddweud y llall a thystiolaeth un yn tanseilio awdurdod un arall. Mae rhai beirniaid hefyd, fel y gwelir yn y man, yn dadlau nad yw'r testunau llawysgrifol mor wrthrychol ac awdurdodol ag y byddid yn tybio. Yn ôl y beirniaid hynny, mae testunau'r llawysgrifau hefyd, fel unrhyw gyhoeddiad neu gasgliad modern, yn gynnyrch eu cyfnod ac yn ddibynnol i raddau helaeth ar fympwyon a rhagdybiaethau'r copiwyd.

Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n gallu bod yn ddryslyd felly, ac nid yw'r ffaith bod y casgliadau o gerddi a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym wedi cynyddu o ran eu nifer a'u maint wrth i'r blynyddoedd a'r canrifoedd fynd rhagddynt yn gwneud dim i leihau'r cymhlethdod hwnnw. Hawdd anghofio weithiau bod bwlch o ryw ganrif rhwng adeg marw Dafydd ap Gwilym a dyddiad y casgliadau ysgrifenedig cynharaf o'i waith sydd ar gael i ni heddiw.⁴ Afraid dweud bod y bwlch sylweddol hwnnw yn ychwanegu at yr anawsterau sy'n wynebu'r beirniad modern; fel y noda Parry, 'yr oedd can mlynedd o amser yn ddigon i awduriaeth y cerddi fynd yn ansicr'.⁵

Yn ei drafodaeth ar y llawysgrifau, yn ogystal â thynnu sylw at y prif gasgliadau mae Parry hefyd yn ceisio olrhain y berthynas rhyngddynt. Bwriedir edrych yn fanylach ar arwyddocâd ac awdurdod rhai o'r prif llawysgrifau hynny yn ddiweddarach yn y traethawd, felly nid oes diben ymhelaethu yn y fan hon. Am y tro, digon yw nodi bod Thomas Parry yn fwy ymwybodol na neb o ffaeleddau'r llawysgrifau ac mae'n cydnabod '...mai cyfyngedig yw gwerth astudio'r llsgrau. i bennu awduriaeth neu destun, a rhaid cyfnerthu'r astudiaeth hon ag ystyriaethau eraill'.⁶

Ceir cyswllt anorfod rhwng tystiolaeth y llawysgrifau a'r ail faen prawf a restrir gan Parry, sef 'Priodoli i fwy nag un awdur'. Fel y crybwyllwyd eisoes roedd y llawysgrifau yn aml yn gwrth-ddweud ei gilydd, nid yn unig o ran darlleniadau'r cerddi a geid ynddynt ond hefyd o ran y beirdd y priodolwyd y cerddi hynny iddynt. Wrth i'r casgliadau o waith Dafydd ap Gwilym amlhau noda Parry bod 'tuedd gref i

⁴ Dylid nodi bod tri darn o waith y derbynir erbyn heddiw eu bod yn waith Dafydd ap Gwilym, wedi'u cadw fel testunau eilaidd mewn llawysgrifau sy'n dyddio yn ôl i'r 14eg ganrif; cyfeirir yn fanylach at y rhain eto yn y drafodaeth lawnach ar y llawysgrifau.

⁵ *GDG*, t. lxxv

⁶ *Ibid.*, t. lxxviii

briodoli i Ddafydd ap Gwilym unrhyw gywydd i serch a natur...'⁷ ac mae'n bur debyg bod sawl bardd llai adnabyddus wedi colli ei gerddi i'r bardd enwocaf un.

Fel y crybwyllwyd felly, cynyddodd nifer y cerddi a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym yn gyson ar hyd y blynyddoedd, ac roedd yn rhaid i Parry felly wahaniaethu, nid yn unig rhwng cerddi Dafydd a rhai ei gyfoeswyr ond hefyd rhwng cerddi Dafydd a cherddi beirdd a ganodd hanner canrif neu fwy ar ei ôl. Nid rhyfedd felly bod mwy nag un o'r meini prawf yn seiliedig ar geisio dyddio'r cerddi dan sylw. Dyna i bob pwrpas yw diben y meini prawf nesaf a restrir gan Parry, sef 'Arddull ac iaith' a 'Crefft y cywydd', a'r rhain o bosibl yw'r elfennau sydd wedi ennyn yr ymateb mwyaf gan feirniaid eraill.

Yn ei erthyglau ar 'Twf y Gynghanedd' a 'Datblygiad y Cywydd'⁸ mae Parry'n disgrifio'r modd y datblygwyd ac y cywreiniwyd y cywydd a'r gynghanedd. Yn yr erthygl ar ddatblygiad y cywydd yn benodol, mae Parry'n olrhain y datblygiad o ddyddiau'r Gogynfeirdd, pan welwyd egin y gynghanedd yn ymffurfio yn yr awdlau a ganent, hyd at ganu cypledol y cywyddwyr mwy diweddar megis Dafydd Nanmor a Tudur Aled.

Yn ei sylwadau yn y rhagymadrodd i *Gwaith Dafydd ap Gwilym* mae Parry'n canolbwyntio'n fwy penodol ar y gwahaniaethau sydd i'w gweld rhwng cywyddau'r 14eg ganrif a'r 15fed ganrif gan ddadlau bod yna wahaniaethau amlwg i'w cael rhwng cywyddau'r ddwy ganrif. Mae'n dweud bod arddull ac iaith y cywydd wedi newid gyda threigl y blynyddoedd a 'bod y newid hwnnw'n golygu symleiddio'r mynegiant ym mhob ffordd'.⁹

Trwy edrych ar yr iaith a ddefnyddiai rhai o gyfoeswyr Dafydd yn eu barddoniaeth mae Parry'n rhestru rhai o'r nodweddion mwy hynafol a geir yng ngwaith beirdd y 14eg ganrif sydd yn ei farn ef wedi diflannu erbyn y 15fed ganrif. Fodd bynnag, mae'n prysuro i ddweud bod beirdd y 14eg ganrif hefyd yn cynnwys ffurfiau mwy

⁷ *Ibid.*

⁸ Ymddangosodd yr erthygl 'Twf y Gynghanedd' yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 1936, tt. 143-160, ac ymddangosodd yr erthygl 'Datblygiad y Cywydd' yn *THSC* 1939, tt. 209 - 231

⁹ *GDG*, t. lxxx

cyfoes yn eu gwaith, ac at hynny mae'n derbyn bod arddull cerdd yn gallu amrywio yn ôl y testun y cenir iddo. I grynhoi'r drafodaeth meddai:

...y cwbl y gellir yn ddiogel ei ddweud parthed awduriaeth cywydd yw hyn: os oes ynddo hen eiriau, hen ffurfiau gramadegol, a chyflawnder o eiriau cyfansawdd, fe eill fod yn waith bardd o'r 14g. Ac os ceir ynddo ambell ffurf ddiweddar 'lwgr,' ni ddylid o anghenraid ei wrthod. Ar y llaw arall, os seml yw'r arddull, ac os oes amlder o ffurfiau diweddar, diogelach yw peidio ag amseru'r cywydd yn y 14g.¹⁰

Er bod Parry eto'n awyddus i bwysleisio nad yw'r maen prawf hwn yn ddigonol ynddo'i hun ac y dylid ei gymhwyso ochr yn ochr â rhai o'r meini prawf eraill, dyma fel y nodwyd eisoes, un o'r pwyntiau sy'n achosi'r gwahaniaeth barn mwyaf rhyngddo ef a rhai beirniaid eraill, fel y cawn weld yn y man.

Gan symud ymlaen i drafod crefft y cywydd mae Parry'n nodi mai dyma un o'r meini prawf gorau wrth geisio penderfynu 'a yw cywydd yn perthyn i Ddafydd ap Gwilym neu i'w gyfnod'.¹¹ Diddorol yw'r cyfeiriad hwn at 'cyfnod', ac mae hyn yn rhywbeth y dychwelir ato sawl gwaith eto yn ystod y drafodaeth hon.

Wrth olrhain datblygiad y cywydd dengys Parry y modd yr oedd y cywyddwyr cynharaf wedi dechrau cefnu ar draddodiadau'r Gogynfeirdd a'u canu epithetig gan dueddu mwyfwy i ganu fesul brawddeg, gan esgor ar yr arddull sangiadol sydd, yn ôl Parry, yn nodweddu cywyddau'r 14eg ganrif. Meddai Parry:

...fe ddarostyngwyd nodweddion y mydr i ofynion y frawddeg, eithr nid y frawddeg yn y ffurf gyffredin a oedd iddi mewn rhyddiaith, ond gyda'i threfn gystrawennol normal wedi ei gwyrddroi, a hynny'n erwin iawn weithiau. Y canlyniad yw fod dau air sydd mewn rhyddiaith yn sefyll wrth ymyl ei gilydd...yn mynd ymhell ar wahân, a phethau sy'n ymddangos yn amherthnasol a diystyr yn dod i mewn rhyngddynt. Yr oeddid felly'n cynhyrchu'r ffigur ymadrodd a elwir yn sangiad.¹²

Â Parry yn ei flaen i ddadlau bod yr arddull gymhleth hon yn diflannu erbyn y 15fed ganrif wrth i'r beirdd ddod i dderbyn mai'r cwpled oedd 'uned naturiol y cywydd'. Mae Parry'n ddigon hyderus felly pan ddywed:

¹⁰ *Ibid.*, t. lxxxviii

¹¹ *Ibid.*, t. xci

¹² *Ibid.*

Os yw cywydd yn mynd rhagddo o'i ddechrau i'w ddiwedd fesul cwpled, heb fyth estyn y frawddeg dros ffiniau'r cwpled, gellir bod yn bur sicr mai i gyfnod diweddarach na Dafydd ap Gwilym y mae'n perthyn. Os eir ymhellach, a bod yn y cywydd gwpledi twt a chofiadwy, gellir teimlo'n sicrach byth yn ei gylch...¹³

Sylwer eto ar y cyfeiriad at 'gyfnod'. Yn ei erthygl ar ddatblygiad y cywydd mae Parry'n dweud yn benodol am ganu Dafydd ap Gwilym: 'y mae cwpledi cofiadwy yn brin iawn yng ngwaith Dafydd ap Gwilym...'¹⁴ gan ddadlau bod yn well ganddo ganu fesul llinell neu frawddeg.

Yn ei sylwadau ar grefft y cywydd rhydd Parry sylw hefyd i'r gynghanedd, ac os yw'n dadlau bod y cywydd ei hun wedi symleiddio ar hyd y blynyddoedd, yna mae'n dadlau bod y gwrthwyneb yn wir am y gynghanedd a bod honno'n mynd yn fwy cymhleth a chywrair gydag amser. Dywed fod yna '[g]yntefigrwydd cynganeddol a diffyg...cymhlethdod'¹⁵ i'w cael yng ngherddi'r cywyddwyr cynharaf. Er mwyn ategu'r syniad hwn bod y gynghanedd yn mynd yn fwy cymhleth gyda threigl y blynyddoedd mae Parry'n dadlau bod y gynghanedd Groes o Gyswllt yn eithriadol iawn yn y cyfnod cynnar; meddai: 'Ni sylwais ar yr un enghraifft ynghanol y ganrif, ac nid oes dim un yng ngwaith dilys Dafydd ap Gwilym'.¹⁶ Yn wir, mor ffyddiog yw Parry ynghylch hyn nes ei fod hyd yn oed yn defnyddio'r ffaith bod enghraifft o'r gynghanedd Groes o Gyswllt i'w chael mewn cerdd fel rheswm dros ei gwrthod o'r canon.¹⁷

Yn ei erthygl ar dwf y gynghanedd dangosodd Parry sut y bu i'r gynghanedd ddechrau ymffurfio yn awdlau'r Gogynfeirdd wrth iddynt ddefnyddio cyfuniadau o gytseinedd ac odl i addurno'u cerddi. Penllanw'r cyfuno crefftus hwn oedd creu'r gynghanedd Sain ac mae Parry'n cynnig dadansoddiadau o gynganeddion rhai o gywyddau cyfoeswyr Dafydd ap Gwilym sy'n dangos bod y gynghanedd Sain lawer mwy cyffredin yng ngwaith y cywyddwyr cynnar nag ydyw yng ngwaith cywyddwyr y 15fed ganrif. Wrth grynhoi ei drafodaeth ar y cynganeddion meddai Parry:

¹³ *Ibid.*, t. xciii

¹⁴ Thomas Parry, 'Datblygiad y Cywydd', *THSC* 1939, t. 220

¹⁵ *GDG*, t. xciv

¹⁶ *Ibid.*, t. xcvi

¹⁷ Gweler rhifau 16 a 138 yn y rhestr o gerddi gwrthodedig y cyfeirir ati ymhellach ar dudalen 8.

Gellir defnyddio'r ffaith hon yn bur hyderus fel prawf o oedran cywydd. A siarad yn gyffredinol, gellir dweud, os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25 y cant, yna nid i'r 14g. y mae'n perthyn.¹⁸

Cawn weld cyn diwedd y drafodaeth hon, sut y mae'r pendantrwydd y mae Parry'n ei fynegi yn y fan hon wedi peri i feirniaid eraill godi cwestiynau ac amau cywirdeb rhai o'r datganiadau diwethaf hyn ynghylch arddull a chreffft y cywydd.

Gellir cyffwrdd yn gymharol frysiog â'r meini prawf sy'n weddill, sef 'Themâu Cyffredinol', 'Dau gywydd ar yr un testun' a 'Tystiolaeth fewnol'. Ychydig o sylwadau a geir ganddo ynghylch themâu cyffredinol lle mae Parry'n nodi'n syml bod yna themâu neu batrymau cyffredin i'w gweld yng ngwaith y cywyddwyr cynnar a bod y rhain weithiau yn gymorth i benderfynu ar awdur cerdd amheus ei hawduraeth.

Yna, wrth drafod dau gywydd ar yr un testun mae Parry'n cyfeirio at y tebygolrwydd bod rhai beirdd wedi mynd ati i ddyngwared ac efelychu gwaith Dafydd ap Gwilym a bod y ffugiadau yma, maes o law, wedi'u cambriodoli i Dafydd.

Yn olaf, cyfeiria Parry at y cyfeiriadau neu'r dystiolaeth fewnol a geir weithiau yn y cerddi sydd eto yn gymorth i briodoli neu ddyddio cerdd y mae ei hawduraeth yn ansicr a chyfeiria at ambell gerdd lle gwelir y broses hon ar waith. Un enghraifft o'r fath yw'r cywydd i'r Sêr. Er bod arddull a chreffft y gerdd hon, yn ôl cyfaddefiad Parry ei hun, yn dwyn nodau canu'r 14eg ganrif ac er bod ynnddi gyfartaledd uchel o gynganeddion Sain, mae Parry'n pwysu ar y dystiolaeth fewnol a'r cyfeiriadau a geir yn y gerdd at 'Fôn', fel cyfiawnhad dros wrthod y cywydd o'r canon.

Wrth gloi ei drafodaeth ar y meini prawf, mae Parry, fel y nodwyd eisoes, yn derbyn nad yw'r un o'r meini prawf yn ddigonol ar ei ben ei hun a bod angen pwysu a mesur yr holl dystiolaeth yn ofalus yn achos pob cerdd unigol.

Nid yw'r crynodeb byr yma o'r meini prawf yn gwneud cyfiawnder â llafur dwys a manwl Thomas Parry o bell ffordd ac nid dyna oedd y bwriad. Y bwriad yn hytrach oedd crynhoi'r meini prawf a'r fethodoleg yn fras er mwyn gallu symud ymlaen i

¹⁸ *GDG*, t. xcvi

ystyried yr ymateb a gafwyd i'r rhain gan y beirniaid a ddilynodd Thomas Parry. Ffolineb fyddai diystyru meini prawf Parry, ond hwyrach bod yna le i'w hailystyried yn feirniadol, a chawn weld bod y broses honno wedi dechrau i ryw raddau yn y cyfnod yn syth ar ôl cyhoeddi *Gwaith Dafydd ap Gwilym* ac eto yn fwy diweddar yn sgil cyhoeddi casgliad o gerddi'r apocryffa.¹⁹

Cyn gadael *Gwaith Dafydd ap Gwilym* am y tro, mae'n rhaid crybwyll un elfen bwysig arall a geir yn y rhagymadrodd i'r gyfrol honno. Yn ogystal â disgrifio'r meini prawf a ddefnyddiodd i lunio ei gasgliad, mae Thomas Parry hefyd yn mynd ati i restru rhai o'r cerddi gwrthodedig (177 i gyd), a'r rhesymau dros eu gwrthod. Nid yw'r rhestr hon wedi'i chynnwys yn yr argraffiadau mwy diweddar o'r gyfrol, ac mae hynny'n arwydd efallai bod cerddi'r apocryffa wedi cael eu hanghofio wrth i *Gwaith Dafydd ap Gwilym* ennill ei le fel casgliad cyflawn ac awdurdodol o waith y bardd. Fodd bynnag, wrth i'r traethawd hwn fynd rhagddo, gwelwn fod y rhestr hon o gerddi gwrthodedig a'r rhesymau a gynigir gan Parry dros eu gwrthod, yn gallu bod yn hynod o ddadlennol. Yn aml, maent yn dangos llawn cymaint i ni, os nad mwy, am y syniadau a goleddai Thomas Parry am y math o waith a ganai Dafydd, ag y mae'r cerddi a gynhwyswyd yn y canon. Fel y mae Helen Fulton yn dadlau yn ei rhagymadrodd i'w chasgliad, os mai i Thomas Parry y mae'r diolch am ganon Dafydd ap Gwilym, yna mae'r un peth yn wir i raddau helaeth am yr apocryffa:

...it is impossible to consider the apocrypha without also looking at the canon, and vice versa. They are two parts of the same whole. If the Dafydd ap Gwilym canon is effectively 'Parry's canon', then the apocrypha are also 'Parry's apocrypha', since it was he who defined their limits.²⁰

Mae'n sicr bod cyhoeddi *Gwaith Dafydd ap Gwilym* wedi sbarduno amryw o feirniaid i fynd ati i drafod a dadansoddi gwaith y bardd ar sail yr hyn a gafwyd yn y casgliad hwnnw; fodd bynnag, mentrodd eraill gynnig sylwadau ar ddulliau Parry o baratoi'r casgliad, a'r trafodaethau amlycaf o'r cyfnod cynnar hwnnw yw'r rheiny a gafwyd gan Saunders Lewis a D. J. Bowen.²¹

¹⁹ *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, gol. Helen Fulton (Llandysul, 1996). O hyn allan cyfeirir at y gyfrol hon fel *DGA*.

²⁰ *DGA*, t. xv

²¹ Ymddangosodd erthygl Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym' yn *LIC* II (1952-53), tt. 199-208. Cafwyd yr erthyglau canlynol gan D. J. Bowen: 'Sylwadau ar Waith Dafydd ap Gwilym', *LIC* VI (1960-1), tt. 36-45, 'Awduriaeth y Cywyddau i'r Eira a'r Sêr', *LIC* VII (1962-3), tt. 193-205, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', *LIC* VIII (1964-5), tt. 1-32. Cafodd Thomas Parry gyfle i ymateb i'r erthygl gyntaf honno gan D. J. Bowen ac ymddengys ei erthygl ef, 'Cywydd yr Eira a Chywydd y Sêr' yn *LIC* VI (1960-1), tt. 176-8.

Yn ei erthygl mae Saunders Lewis, wrth gydnabod y gamp a gyflawnodd Thomas Parry, yn codi cwestiynau ynghylch rhai o'r meini prawf a ddefnyddiodd. Yn wir, mewn ymateb i haerriad Thomas Parry nad oes yr un enghraifft o'r gynghanedd Groes o Gyswllt yng ngwaith Dafydd ap Gwilym mae Saunders Lewis yn rhestru 7 o enghreifftiau posibl a dynnwyd o'r canon.

Mae Saunders Lewis hefyd yn dadlau nad yw llinyn mesur y gynghanedd Sain a ffurfiwyd gan Thomas Parry yn gwbl ddi-ffael. Meddai:

...mae'r prawf yn bur sad ac yn werthfawr. Ond ceir eithriadau. Er enghraifft, 18 y cant sydd yng nghywydd y Cloc (66) ac ugain y cant yn "A gerddodd neb er gordderch" (83) sy'n waith Dafydd os yw dim.²²

Yn dilyn sylwadau Saunders Lewis cafwyd dadansoddiad cyfrifiadurol o'r gynghanedd yng ngwaith Dafydd ap Gwilym gan T. D. Crawford.²³ (Dylid nodi hefyd bod dadansoddiad mwy manwl eto wedi'i gyhoeddi'n fwy diweddar gan Peredur Lynch yn ei erthygl 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym', lle cesglir mai 'amwys ar y gorau, yw tystiolaeth y gynghanedd sain wrth geisio dyddio cerddi unigol.)²⁴ Yn ei erthygl ef, dengys Crawford bod 17 o'r cywyddau sydd wedi'u cynnwys yng nghanon Thomas Parry yn methu ar y prawf ac yn ôl ei ffigurau mae gan 6 o'r cerddi hynny gyfartaledd o 20% neu lai. Er hynny, noda Crawford bod Parry'n dewis gwrthod 15 o gerddi 'yn rhannol oherwydd y cyfartaledd isel o gynghaneddion Sain a welodd ynddynt'.²⁵

Mae'n amlwg y byddai Parry wedi cymhwyso'r maen prawf hwn ochr yn ochr â'r meini prawf eraill, yn wir cafodd Parry gyfle i ymateb i erthygl T. D. Crawford ac mae'n dweud: '*...un llath fesur yn unig yw'r prawf cynghanedd, i'w ystyried ochr yn ochr â phrofion eraill, megis oed ac ansawdd y llawysgrifau, nodweddion yr iaith, crefft y cywydd a'r holl brofion eraill a ddisgrifir*' ac meddai ymhellach: '*...i lwyr werthfawrogi mynychder y Gynghanedd Sain yng ngwaith beirdd y 14g. dylai dyn*

²² Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', *LIC* II (1952-3), t. 200

²³ T.D. Crawford, 'Cyfartaledd y Gynghanedd Sain yng Nghywyddau Dafydd ap Gwilym', *YB* XII (1982), tt. 131-142

²⁴ Peredur I. Lynch, 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym' yn Iestyn Daniel *et al.* (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), t. 130

²⁵ T. D. Crawford, 'Cyfartaledd y Gynghanedd Sain yng Nghywyddau Dafydd ap Gwilym', *YB* XII (1982), t. 135

gadw llygad ar y ffigurau am waith beirdd y 15g...mae'r gwahaniaeth yn drawiadol.²⁶

Fodd bynnag, mae'r amheuaeth a fynegwyd gan Saunders Lewis a'r ystadegau a gynigwyd gan T. D. Crawford yn ddigon i beri i ni ofyn a fu Thomas Parry yn gwbl wrthrychol a chyson yn y modd y cymhwysodd y maen prawf hwn.

A dychwelyd at erthygl Saunders Lewis felly, mae hefyd yn amau'r hyn a ddywed Parry am gywyddau cypledol a'r awgrym nad oedd y rhain i'w cael ymhlith gwaith y cywyddwyr cynnar. Dadleua Saunders Lewis nad yw hynny'n wir a chyfeiria at 'Mis Mai' (23), 'Yr Haf' (24), 'Dagrau Serch' (95) a 'Cystudd y Bardd' (102), fel enghreifftiau o ganu cypledol yn y canon, a theg dweud nad oes yn y rhain yr un torymadroddi ag a geir mewn amryw o gywyddau eraill y casgliad. Wedi dweud hynny, gellid dadlau bod cynnwys a strwythur y cerddi hyn yn milwrio yn erbyn defnyddio'r arddull sangiadol i ryw raddau; mae 'Mis Mai' a 'Yr Haf' yn gerddi sydd wedi'u canu ar un odl, sy'n ei gwneud hi'n anos rhedeg yr ystyr dros fwy nag un cwpled, a cheir cymeriad llythrennol trwy 'Dagrau Serch' a 'Cystudd y Bardd'.

Mae Saunders Lewis hefyd yn tynnu sylw at un o'r cerddi gwrthodedig sef 'Dal neithiwr, delwi wneuthum', y rhoddir mwy o sylw iddi maes o law. Gwrthododd Parry hon gan ddweud bod yr 'arddull ar y cyfan yn gypledol'. Mae Parry hefyd yn dweud: 'Nid oes enghr. ychwaith yn un man o DG yn galw ei gariad yn Wenonwy fel y gwneir yma'.²⁷ Dychwelir at y math hwn o sylw eto wrth drafod y gerdd hon yn llawnach. Eto mae Saunders Lewis yn anghytuno â chasgliad Parry gan ddadlau bod y gerdd hon yn amrywiol ei harddull a bod yna enghreifftiau mwy amlwg o ganu cypledol i'w cael ymhlith cerddi'r canon.

Fel yr awgrymwyd uchod, syniadau Parry ynghylch crefft ac arddull y cywydd sydd wedi ysgogi'r ymateb mwyaf ymhlith y beirniaid ac mae beirniaid eraill, megis D. J. Bowen a Helen Fulton hefyd wedi awgrymu bod Parry ar dir sigledig pan gyfeiria at grefft y cywydd a diffyg canu cypledol yng ngwaith y cywyddwyr cynnar. Mewn

²⁶ Thomas Parry, 'Dafydd ap Gwilym a'r Cyfrifiadur', *YB* XIII (1985), t. 120

²⁷ *GDG*, t. clxxv

ymateb i haeriad Parry mai yn y 15fed ganrif y llwyr sylweddolwyd mai'r cwpled oedd uned naturiol y cywydd, meddai D. J. Bowen:

Ni allaf lai na thybio y buasai'r cywyddwyr cynnar mor ymwybodol â neb o hanfod y mesur yr arbrofent ag ef, ac yn arbennig felly Dafydd ap Gwilym. Credaf mai'r hyn a ddigwyddodd oedd i'r arfer o ganu fesul brawddeg golli tir erbyn y bymthegfed ganrif ac i'r cwpled feddiannu'r maes i gyd, ac nid mai yn y ganrif honno y sylweddolwyd mai dyma hanfod y mesur...²⁸

Â D. J. Bowen yn ei flaen i ddarlunio'r amrywiaeth a geir yn arddull Dafydd ap Gwilym a sut y ceir enghreifftiau o ganu cypledol yn ei waith yn gymysg ag enghreifftiau o ganu sangiadol. Cymer y cywydd i'r Niwl (*GDG* 68) yn enghraifft. Egyr y cywydd hwn gyda chanu sangiadol wrth i'r bardd osod y cefndir ar gyfer y gerdd. Yna mae'r bardd yn symud yn ei flaen i ddyfalu'r niwl. Bryd hynny, canu cypledol a geir ganddo. Meddai D. J. Bowen:

Yr addurn bellach yw'r trosiad...ac nid oedd raid, felly, wrth dorymadroddi. Disgwylid i'r gynulleidfa ganolbwyntio yn awr ar y delweddau a greai'r bardd, ac nid oedd wiw gadael i gampau geiriol ddenu ei bryd. Buasai trosi a thorymadroddi'n cydieuo'n anghymarus...Bob tro y try Dafydd ap Gwilym at ddyfalu caiff y cwpled ei briod le yn ei ganu.²⁹

Mae D. J. Bowen yn dadlau bod Parry o bosibl wedi bod yn rhy llym yn ei ddefnydd o'r maen prawf hwn. Mae'n tynnu sylw at y cywydd gwrthodedig i'r Eira. Ymhlith ei resymau dros wrthod y cywydd hwn mae Parry'n nodi:

Y mae iaith y cywydd yn syml a'r arddull yn ddisangiad, ac isel iawn yw cyfartaledd y cynganeddion Sain (16 y cant). Y mae'n union yn null y 15g.³⁰

Fodd bynnag, mae D. J. Bowen yn pwysleisio eto mai'r ffaith mai cywydd dyfalu a geir yma sydd i gyfrif am yr arddull gypledol ac mae'n dadlau bod yr arddull honno i'w gweld hefyd mewn amryw o'r cywyddau dyfalu a geir yn y canon. Meddai:

...gwir fod Cywydd yr Eira yn gypledol ei symudiad, ond nid yw hynny'n gwarafun inni dybio mai gwaith Dafydd ap Gwilym ydyw, oblegid symudiad felly a geir mewn dyfaliadau eraill a dderbyniwyd fel yr eiddo ef, er enghraifft, Cywydd y Niwl...³¹

²⁸ D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', *LIC* VIII (1964), t. 17

²⁹ *Ibid.*, t. 22

³⁰ *GDG*, t. clxxxii

³¹ D. J. Bowen, 'Sylwadau ar Waith Dafydd ap Gwilym', *LIC* VI (1960-1), t. 40

Mae'n amlwg felly bod D. J. Bowen o'r farn na ddylai'r cywydd i'r Eira fod ymhlith y cerddi gwrthodedig. Mae'n dadlau bod y gerdd hon a'r dyfalu a'r delweddu a geir ynddi yn nodweddiadol o ganu Dafydd a'i bod, o ran ei thema, yn yr un llinach â'r gerdd i Fis Mai a Mis Ionawr (*GDG* 69):

Y mae ansawdd y dyfalu yn dwyn nodau canu Dafydd. Ni chanodd yr un bardd arall i fyd natur ac i elfennau natur yn y modd y gwnaeth ef...ffraethineb a gwelediad Dafydd ei hun sydd yma...³²

Yn ei ymateb i erthygl D. J. Bowen mae Parry'n dal i fynnu bod arddull y gerdd hon yn rhy syml ac mae'n cymharu'r cywydd i'r Eira â'r cywydd i'r Rhew (*GDG* 91). Mae Parry'n dadlau bod y bardd a ganodd y gerdd i'r eira yn datblygu ei ddelweddu fesul cwpled ac yn wir gellid dyfynnu amryw o gwpledi i ddarlunio hynny:

Blawd mân yw'r pân ar bob pill,
Blawd wybr fal blodau Ebrill.
Llen oergan uwch llwyn irgoed,
Llwyth o'r calch yn llethu'r coed.
Lledrith blawd gwenith a gad,
Llurig ystyn llawr gwastad. (*OBWV* 65)

Ac er i D. J. Bowen ddadlau wedyn bod enghreifftiau o ganu cypledol i'w cael hefyd yn y cywydd i'r Rhew,³³ mae natur ac ansawdd y delweddu braidd yn wahanol. Yma, gwelir y bardd yn symud ymlaen yn sydyn gan bentyrru delweddu un ar ôl y llall, ac yn aml mae'n cyflwyno dwy ddelwedd yn yr un llinell:

Gweau anaelau o nych
Gleision dan wybr goleusych.
Golwg pŵl amlwg plymlawr,
Gwydr ddrychau, marl byllau mawr.
Certh iawn ei llun, carthen llaid,
Cleddiwig lithrig lathraid...
Cyllyll a rhew defyll dioer
Newyddlif yn niweddloer,
Berwblor, rhewedig boerbla,
Bore oer, i'r berau ia. (*GDG* 91).

Yn y cywydd i'r Eira, ceir yr hyn y mae Parry'n eu disgrifio fel 'cwpledi smart, slic...'³⁴ a theg dweud bod y cywydd yn llifo'n rhwydd ac yn esmwyth, hyd yn oed pan fo'r bardd yn defnyddio geiriau cyfansawdd. Yn y cywydd i'r Rhew ar y llaw

³² *Ibid.*, t. 41

³³ D. J. Bowen, 'Awduriaeth y Cywyddau i'r Eira a'r Sêr', *LIC* VII (1962-3), t. 198

³⁴ Thomas Parry, 'Cywydd yr Eira a Chywydd y Sêr', *LIC* VI (1960-1), t. 177

arall, gwelir bod y mynegiant geiriog, ansoddeiriol yn arafu'r llif. Fel mewn cynifer o'r cerddi a briodolir i Dafydd mae'r mynegiant fel pe bai'n cyfoethogi'r hyn sy'n cael ei ddweud, a phob gair wedi'i ddewis yn bwrpasol. Defnyddir y gynghanedd sain er enghraifft i gyflwyno dwy ddelwedd yn yr un frawddeg 'Cyllyll a rhew defyll dioer', ac yn y llinell sy'n dilyn ceir dau air cyfansawdd yn ateb ei gilydd, 'Newyddlif yn niweddloer'. Hwyrach bod yna gyfiawnhad i honiad Parry bod y cwpledi sydd i'w cael yn y cywydd i'r Eira yn '...wahanol iawn...i ddim sydd gan Ddafydd – yn wahanol eu crefft ac yn wahanol eu hysbryd a'u hansawdd hefyd'.³⁵

A dychwelyd at y trafodaethau hynny am ddatblygiad y cywydd, mae Fulton hefyd yn mynegi'r un math o safbwyntiau ag a gafwyd gan Saunders Lewis a D. J. Bowen:

The couplet style may well be characteristic of the known poetry of the 15th century, but this does not mean it was not used in the 14th century as well...There is again the question of register. It could be argued that the couplet style is associated with particular registers – e.g. humorous, informal – or with genres, such as *dyfalu*, and is therefore not necessarily indicative of date...³⁶

A dychwelyd am ychydig at erthygl Saunders Lewis, fel yr oedd D. J. Bowen yn awgrymu na ddylid bod wedi gwrthod y cywydd i'r Eira o'r canon, mae Saunders Lewis yntau'n dadlau o blaid priodoli cywydd y Sêr i Dafydd ap Gwilym ac mae'n cynnig sylwadau a phwyntiau sy'n gwrthbwysu'r rhesymau a gynigiwyd gan Parry dros wrthod y gerdd. Yn wahanol i'r cywydd i'r Eira ac fel y crybwyllwyd eisoes, roedd Parry'n derbyn bod iaith, arddull a chrefft y cywydd hwn yn 'dwyn nodau'r 14g.'. Ond dewisodd ei hepgor o'r casgliad ar sail tystiolaeth fewnol.

Dyma, fel y dadleuodd Rachel Bromwich, un o'r meini prawf mwyaf sigledig erbyn hyn, o gofio mai ychydig mewn gwirionedd a wyddys am fywyd Dafydd ap Gwilym ac amryw o'i gyd-feirdd. Peryglus iawn felly fyddai dod i unrhyw gasgliadau pendant ar sail y cyfeiriadau a geir yn y cerddi gan fod cymaint o'r cefndir ar goll i ni:

...since we are in total ignorance as to the details alike of his movements and of his personal relationships, since also we are quite in the dark as to how far fantasy prevails over actuality in his allusions to his various adventures of

³⁵ *Ibid.*, t. 177

³⁶ *DGA*, t. xxiv

love, it is obviously fruitless to depend in any way upon the evidence of the names and place (*sic*) he alludes to in his episodic poems to support any argument for or against their authenticity.³⁷

Gan gyfeirio'n benodol at Gywydd y Sêr a'r anghydweld ynghylch ei awduraeth, meddai Rachel Bromwich:

...it is immaterial whether or not...the poet is describing a real journey to woo a girl whose home was in Anglesey, or whether he is merely expressing a wish to invoke the help of St Dwynwen in his love-affairs, since Dafydd is as likely as not to have invented the whole, and would surely have felt under no obligation to provide consistent clues as to his real life in his *cywyddau*.³⁸

Wedi'r dadleuon hyn gan D. J. Bowen, Saunders Lewis a T. D. Crawford, ychydig o drafodaeth a fu ar fethodoleg Parry hyd nes cyhoeddi casgliad o gerddi'r apocryff gan Helen Fulton yn 1996. Hi i raddau helaeth sydd wedi ailagor y drafodaeth ac wedi mynegi'r amheuon mwyaf ynghylch y meini prawf a'r fethodoleg a ddefnyddiodd Parry wrth lunio ei gasgliad.

Os yw Parry a'i ymdrech fawr i greu casgliad cyflawn o waith Dafydd ap Gwilym ar un pen i'r sbectrwm, yna mae'n sicr bod Helen Fulton ar y pen arall. Mae syniadau Helen Fulton am awduraeth a'r broses o lunio canon yn gwbl wahanol i rai Parry ac yn gallu bod yn eithafol iawn. I bob pwrpas, dau brif fyrddwn sydd yna i'r dadleuon y mae Helen Fulton yn eu datblygu yn ei hamrywiol erthyglau a chyhoeddiadau. Yn y lle cyntaf, mae'n tynnu sylw at y problemau ymarferol sy'n codi wrth geisio dyddio cerddi, ac nid oes ganddi lawer o ffydd bod modd gwahaniaethu'n bendant rhwng cywyddau'r 14eg ganrif a'r 15fed ganrif:

...it is not possible to assign a poem definitely to the 14th or 15th century on linguistic and metrical grounds alone. This of course is just what Parry has done with most of his canon and apocrypha...but Parry begins with assumptions about 14th- and 15th-century poetic conventions which I do not think are entirely proven or indeed provable.³⁹

Mae Fulton felly'n gwrthod y dadleuon a geir yn erthyglau Parry ar ddatblygiad y cywydd a'r gynghanedd. Dyfynnwyd eisoes ei sylwadau ynghylch dylanwad cynnwys neu *genre* cerdd ar yr arddull, sy'n ategu'r sylwadau a gafwyd gan

³⁷ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym' yn A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (goln), *GWL ii* (argraffiad diwygiedig, Dafydd Johnston gol., Caerdydd, 1997), tt. 119-120

³⁸ *Ibid.*, t. 120

³⁹ *DGA*, t. xxii

Saunders Lewis a D. J. Bowen. Dadleua Fulton ymhellach bod iaith y cerddi a gadwyd i ni yn y llawysgrifau a'u cynganeddion yn ddibynnol i raddau helaeth ar fympwyon y copiŵyr a fyddai'n diwygio neu'n 'cywiro' hen ffurfiau a oedd yn ddieithr iddynt neu gynganeddion a oedd yn 'anghywir' yn eu tyb hwy, a bod hynny felly'n amharu ar ein gallu i wahaniaethu'n ffyddiog rhwng iaith ac arddull y naill ganrif a'r llall.

Hyd yn oed os ydym yn cytuno â Parry ac yn derbyn bod modd gwahaniaethu rhwng cerddi'r naill gyfnod a'r llall, rhan o'r broblem yn unig yw honno. Rhaid wedyn geisio gwahaniaethu rhwng gwaith Dafydd ap Gwilym a gwaith ei gyfoeswyr ac mae honno, mae'n siŵr, yn dasg anoddach fyth. Gwelwyd bod Parry'n ystyried bod crefft y cywydd yn un o'r meini prawf gorau wrth geisio penderfynu 'a yw cywydd yn perthyn i Ddafydd ap Gwilym neu i'w gyfnod', ond mae yna gryn wahaniaeth rhwng profi cyfnod a phrofi awduraeth. Yn ôl Bromwich:

...within the fourteenth century itself we still lack anything approaching secure criteria by which we may in all instances distinguish Dafydd's own work from that of some gifted contemporary.⁴⁰

O gofio'r holl ddyfyniadau am athrylith a disgleirdeb Dafydd ap Gwilym, oni ddylai'r dasg o adnabod ei waith fod yn gymharol rwydd?

A dychwelyd at Fulton, mae ei dull o baratoi testun hefyd yn wahanol iawn i ddull Parry. Mae Fulton yn cyfeirio at ddull Parry fel 'patchwork method' am ei fod yn dewis y darlenniadau gorau neu fwyaf 'tebygol' o blith yr holl llawysgrifau gan greu testun nad yw'n bodoli yn y ffurf honno yn yr un o'r llawysgrifau. Meddai Fulton am y dull hwn, a ffafriwyd gan ysgolheigion Cymraeg ar hyd y blynyddoedd:

Virtually none of the poems in Parry's text occurs exactly in that form in any medieval or renaissance manuscript. They are the products of a twentieth-century editor, and not of a medieval scribe, let alone a fourteenth-century poet.⁴¹

Mae Fulton ar y llaw arall yn dewis yr hyn y mae'n ei alw'n 'master manuscript' sef y copi cynharaf gan amlaf, gan ymwrthod â'r duedd i geisio creu neu adfer y ffurfiau

⁴⁰ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL* ii, t. 117

⁴¹ Helen Fulton, 'The Editor as Author: Reproducing the Text. A case study of Parry's *Gwaith Dafydd ap Gwilym*', *Bulletin of the Bibliographical Society of Australia and New Zealand*, Volume 19 (1995), t. 73

y byddai'r beirdd eu hunain wedi'u defnyddio. Mae ei methodoleg yn hyn o beth yn gysylltiedig â'i syniadau a'i dadleuon ynghylch yr awdur ac awduraeth, sef yr ail elfen sy'n ymddangos drosodd a thro yn ei herthyglau a'i hysgrifau, wrth iddi symud ei golygon o'r problemau ymarferol i gysyniadau athronyddol.

Yn ei chyflwyniad i'w chasgliad o gerddi'r apocryffa, mae Fulton yn dadlau bod y syniad o awduraeth yn un cymharol fodern a ddaeth yn fwyfwy pwysig gyda dyfodiad y gweisg:

This construct of the author as a particularly gifted individual who has full control over all possible meanings of the text is a relatively modern idea connected in part to the rise of the publishing industry and the imperative of the name on the dustjacket. In the context of medieval society, where the culture was primarily oral rather than literate, the issues of individual authorship and 'original' compositions were far less relevant.⁴²

Ni ellir gwadu traddodiad llafar y cerddi ac fe ddychwelir at y mater pwysig hwn yn y bennod nesaf. Yn ei adolygiad o gasgliad Helen Fulton, mae Daniel Huws yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y traddodiad llafar a oedd yn gysylltiedig â'r baledi arwrol neu chwedlau 'lle bo'r awduron fel arfer yn ddiennw' a throsglwyddiad llafar y cywyddau. Meddai am y cywyddau:

O edrych ar y llyfrau cynharaf, y rheini sy'n tarddu o cyn tua 1500, cawn fod dros 90% o'r cywyddau ag enw bardd wrthynt: y disgwyl oedd, mae'n amlwg, fod cywydd yn gysylltiedig ag enw'r bardd a'i canodd, fod beirdd a datgeiniaid...yn gwybod cerddi wrth enwau beirdd.⁴³

Mae tystiolaeth y llawysgrifau felly'n awgrymu'n gryf bod awduraeth yn bwysig i'r copïwyr, a'u bod yn ymdrafferthu'n gyson i wahaniaethu (yn gam neu'n gymwys) rhwng gwaith y naill fardd a'r llall. Yn llawysgrif Peniarth 54 er enghraifft, ymhlith y rhes hir o gerddi a briodolir i Dafydd ap Gwilym, priodolir un gerdd i Madog Benfras, 'Mevanwy lywwy liwod'. Ac wrth ystyried Y Gododdin, un o'n cerddi cynharaf oll, mae geiriau'r copïwr ar ddechrau'r gerdd yn dangos ei fod yn awyddus i nodi mai Aneirin a'i canodd: 'Hwn yw e gododdin, aneirin ae cant'⁴⁴.

⁴² *DGA*, t. xxii

⁴³ Daniel Huws, 'Aporcyffa Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* CLII (1998), t. 202

⁴⁴ *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)

Mae Nicolas Jacobs yn ei erthygl 'Kindly Light or Foxfire? The Authorial Text Reconsidered', a ymddangosodd yn y gyfrol *A Guide to Editing Middle English*, hefyd yn cefnogi'r ddadl bod awduraeth yn ystyriaeth bwysig yn y traddodiad llawysgrifol Cymraeg o'r cychwyn, fel yr oedd yng ngweddill Ewrop a bod y sefyllfa yn Lloegr, lle roedd hi'n arfer ddigon cyffredin i adael gwaith yn ddi-enw, yn unigryw i ryw raddau. Meddai:

It has been argued that the anonymity of the great bulk of compositions in Middle English is evidence of the lack of a sense of authorship in the period. This situation is, however, anomalous in Western Europe...The compositions of the poets of the Welsh princes and their successors, active from the beginning of the twelfth century on, are assiduously attributed to their authors in the manuscripts in which they are preserved...Such attributions, true or false, demonstrate plainly that the concept of vernacular authorship was taken for granted in medieval Wales as it was on the continent in Europe.⁴⁵

Mae Fulton hefyd yn amau gwerth llunio canon a hyd yn oed yn amau a oes modd llunio canon. Mae hi'n dadlau yn hytrach bod y gwaith a geir yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym* yn ogystal â'r holl gerddi gwrthodedig yn gynnyrch ysgol o feirdd, yr oedd Dafydd ap Gwilym yn aelod amlwg ohoni:

Establishing a canon of 'authentic' poems by Dafydd ap Gwilym, or any other of the medieval *cywyddwyr*, can only be tentative and speculative, given the lack of textual or external evidence. I am inclined to doubt that all the poems in *GDG* were composed by a single author, and the most I can say about them is that they, along with the apocrypha and all the other *cywyddau* of the 14th and 15th centuries, represent the work of a school of poets of whom Dafydd ap Gwilym was evidently a prominent member.⁴⁶

Er y gallai syniadau a dadleuon Fulton yn hyn o beth fod yn ddeniadol iawn i'r rheiny y mae'r cwestiwn o awduraeth bron â'u danto, mae yna feirniaid sy'n dadlau ei bod yn rhy eithafol ei barn, ac fe ddychwelwn at y dadleuon hynny maes o law.

Erbyn cyhoeddi ei herthygl 'Awdurdod ac Awduraeth: Golygu'r Cywyddwyr'⁴⁷ yn 2003, gwelwn fod syniadau Fulton yn fwy dadleuol ac eithafol eto. Bellach, nid yw Dafydd ap Gwilym yn aelod amlwg o ysgol o feirdd, yn hytrach, mae'n enw a ddefnyddid yn y cyfnod ar fath arbennig o ganu. Meddai Fulton:

⁴⁵ Nicolas Jacobs, 'Kindly Light or Foxfire? The Authorial Text Reconsidered' yn Vincent P. McCarren a Douglas Moffat (goln), *A Guide to Editing Middle English* (Michigan, 1998), tt. 7-8

⁴⁶ *DGA*, t. xvi

⁴⁷ Helen Fulton, 'Awdurdod ac Awduraeth: Golygu'r Cywyddwyr' yn Iestyn Daniel *et al.* (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), tt. 50-76

Defnyddid enwau'r beirdd, felly, fel arwyddion generig gan gopiŵyr y llawysgrifau: barddoniaeth grefyddol a ddynodid gan 'Siôn Cent', canu serch gan 'Dafydd ap Gwilym', canu mawl swyddogol gan 'Tudur Aled'...I gopiŵyr y Dadeni, yr oedd 'Dafydd ap Gwilym' yn ffordd o ddisgrifio math arbennig o gerdd serch...Dyna fwy neu lai swyddogaeth enw'r awdur yn y llawysgrifau Cymraeg, sef gosod math 'Dafydd ap Gwilym' o gywydd ar wahân i fath 'Siôn Cent'...⁴⁸

Dyfynnwyd eisoes eiriau Thomas Parry a oedd yn dweud bod yna duedd i briodoli i Dafydd unrhyw gywyddau yn ymwneud â serch a natur, ond mae'n debyg bod y cambriodoli hwn yn wahanol i'r cyffredinol y mae Fulton yn ei ddisgrifio uchod.

Anodd cytuno â dadleuon eithafol Fulton ynghylch awduraeth a chreu testun, ond fodd bynnag, mae ei dadleuon ar eu cryfaf a'u mwyaf argyhoeddiadol pan fo'n sôn am y ddadl gylch a geir ym methodoleg Parry.

Does dim dwywaith fod gan Parry syniadau clir am Dafydd ap Gwilym a'r math o waith a ganai ac mae'n siŵr bod y cerddi yn y canon yn adlewyrchu'r syniadau hynny:

Parry believed in Dafydd as a poet of exceptional skill and brilliance and was anxious to raise his reputation from that of simple minstrel to polished court poet. In many cases then, Parry's canon represents the poems he thought Dafydd ought to have written, poems which supposedly reflect, but actually construct, the brilliance of the great man.⁴⁹

Fel y nodwyd eisoes, mae'n debyg bod y cerddi a wrthodwyd gan Parry yn dweud llawn cymaint, os nad mwy, am ei syniadau ynghylch y math o gerddi a ganai Dafydd ap Gwilym na'r rheiny a gynhwyswyd yn y canon. Mae'r nodiadau a geir am y cerddi gwrthodedig yn aml yn ddadlennol iawn.

Cyfeiriwyd eisoes at y modd y gwrthododd Parry gerddi o'r canon am fod ynddynt enghreifftiau o'r gynghanedd Groes o Gyswllt, ac yntau wedi honni'n ffyddiog nad oedd yr un enghraifft o'r gynghanedd honno yng ngwaith dilys Dafydd ap Gwilym. Yr hyn a olygai mewn gwirionedd oedd nad oedd yr un enghraifft ohoni yng ngherddi'r canon (er i Saunders Lewis ddadlau fel arall). Meddai Fulton:

⁴⁸ *Ibid.*, t. 63

⁴⁹ *DGA*, t. xvi

...Parry is supposed to be establishing the canon, but he also uses the canon as if it were itself evidence on which to base his definition of the canon.⁵⁰

Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith i Thomas Parry wrthod y gerdd 'Dal neithiwr, delwi wneuthum' am fod yr arddull yn gypledol, ond meddai ymhellach: "Nid oes enghr...yn unman o DG yn galw ei gariad yn Wenonwy, fel y gwneir yma."⁵¹ Eto, yr hyn y mae'n ei olygu yw nad oes yr un enghraifft yn ei gasgliad ef. Beth sydd i ddweud nad dyma'r un enghraifft lle mae Dafydd ap Gwilym yn cyfeirio at ei gariad yn y modd hwn?

O droi at rif 158 yn y rhestr o gerddi gwrthodedig, gwelir bod y rhesymau dros ei gwrthod yn rhoi sail i ddadl Fulton bod gan Parry ryw ddelfryd o Dafydd ap Gwilym ac na fyddai'n ystyried am un eiliad gynnwys cerdd o safon israddol yn y canon. Meddai Parry am y gerdd arbennig hon: 'Nid yw'n debyg i DG nac yn deilwng ohono.'⁵² Dyma felly ddarlunio'r hyn y mae Fulton yn ei olygu pan ddywed:

Many poems are rejected because they are nothing like Dafydd's work. But the only standard we have for assessing Dafydd's work is that supplied by Parry himself, who attributes to Dafydd only the highest technical and aesthetic accomplishments.⁵³

Mae Cywydd y Gal, sydd bellach wedi'i adfer i Dafydd ap Gwilym gan Dafydd Johnston yn ei gasgliad o ganu maswedd,⁵⁴ hefyd yn darlunio'r modd yr oedd Parry'n defnyddio safonau nad oeddynt yn gwbl wrthrychol wrth ddewis cerddi i'w cynnwys yn y canon. Mae'n amlwg ei fod wedi gwrthod y gerdd hon am resymau'n ymwneud â gweddustira yn hytrach nag ar sail unrhyw un o'r meini prawf a restrwyd ganddo. Rhaid cofio fodd bynnag, y cyfnod y cyhoeddwyd *Gwaith Dafydd ap Gwilym* ynddo, a'r syniadau a fyddai wedi bodoli yn y cyfnod hwnnw ynghylch yr hyn oedd yn weddus i'w gyhoeddi. Meddai Fulton:

...the final canon established by Parry contains the cream of the entire corpus...Parry's canon does not contain a single ribald or metrically defective poem, even though both types abound in the whole corpus of medieval Welsh

⁵⁰ *Ibid.*, t. xxviii

⁵¹ *GDG*, t.clxxv

⁵² *Ibid.*, t. clxxxviii

⁵³ Helen Fulton, 'The Editor as Author: Reproducing the Text. A case study of Parry's *Gwaith Dafydd ap Gwilym*', *Bulletin of the Bibliographical Society of Australia and New Zealand*, Volume 19 (1995), t. 71

⁵⁴ *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)

court poetry. Parry has constructed Dafydd ap Gwilym as a master poet, and his selection of poems for the canon expresses his editorial preconceptions.⁵⁵

Eto, ychydig yn eithafol yw haerriad Fulton nad oes yna unrhyw ddiffygion o ran y gynghanedd neu'r mesur yn y cerddi a gynhwysir yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, ond mae'r dyfyniad uchod yn dod â ni at graidd y traethawd, sef problem y ddadl gylch. Ceisiwyd dangos fel y mae ambell feirniad wedi codi cwestiynau ynghylch methodoleg Parry a'r bwriad yn awr yw ceisio edrych yn fanylach ar rai agweddau ar y meini prawf. Cyn gwneud hynny, mae'n werth nodi un sylw a wnaed gan Dafydd Johnston yn ei adolygiad o gasgliad Helen Fulton o gerddi'r apocryffa. Yn yr erthygl honno, mae'n dadlau bod Fulton braidd yn eithafol ei barn pan ddywed nad oes diben na modd llunio canon:

Mae'n rhaid cytuno mai goddrychol yn y pen draw yw pob barn ar ddilysrwydd cerdd...Ond nid yw'n dilyn felly mai diwerth yw pob ymgais i sefydlu awduraeth. Mae craidd digon sylweddol o gerddi na all fod amheuaeth ynghylch eu dilysrwydd, o ran tystiolaeth y llawysgrifau nac o ran arddull.⁵⁶

Y bwriad yn y penodau nesaf felly yw mynd ar drywydd y craidd hwnnw, a hynny o wahanol gyfeiriadau, er mwyn gweld a oes modd torri'r ddadl gylch.

⁵⁵ Helen Fulton, 'The Editor as Author: Reproducing the Text. A case study of Parry's *Gwaith Dafydd ap Gwilym*', *Bulletin of the Bibliographical Society of Australia and New Zealand*, Volume 19 (1995), t. 71

⁵⁶ Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym: Apocrypha', *LIC* XXI (1998), t. 202

Pennod 2

Golwg ar y llawysgrifau

Nodwyd ym mhennod gyntaf y traethawd bod tystiolaeth y llawysgrifau yn faes dyrys a chymhleth. Bwriad rhannau nesaf y traethawd felly yw edrych yn fanylach ar y maes hwnnw a hynny i ddau berwyl. Yn gyntaf, gan gofio'r dyfyniad a gafwyd gan Dafydd Johnston ar ddiwedd y bennod flaenorol, ceisir gweld a yw tystiolaeth y llawysgrifau mewn gwirionedd yn cynnig i ni graidd o gerddi y mae eu hawduraeth yn bur sicr. Yn ail, ceisir dangos hefyd bod yna le i amau a fu Thomas Parry mor wrthrychol ag y gallai fod wrth gymhwyso maen prawf tystiolaeth y llawysgrifau.

Cyn mynd ati i ystyried y ddau bwynt uchod, rhaid yn gyntaf fapio ychydig ar gefndir y llawysgrifau er mwyn rhoi cyd-destun i'r drafodaeth sy'n dilyn.

Nodwyd eisoes bod yna fwlch o ryw ganrif rhwng adeg marw Dafydd ap Gwilym a dyddiad y casgliadau cynharaf o'i waith sydd ar gael i ni heddiw. Ond fel yr awgrymwyd (gweler troednodyn 4), nid yw hynny'n hollol gywir gan fod tri darn o waith, y derbynnir erbyn heddiw eu bod o eiddo Dafydd, wedi'u cadw mewn llawysgrifau sy'n dyddio yn ôl i'r 14eg ganrif.

Mae'r enghreifftiau cynharaf hyn o waith Dafydd ap Gwilym wedi eu cadw i ni ar ffurf testunau eilaidd, h.y. testunau a ychwanegwyd yn ddiweddarach at lawysgrifau a oedd eisoes yn bodoli, a hynny ar dudalennau gwag ac ar ymylon tudalennau fel yr oedd lle yn caniatáu.

Yn ei erthygl 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym'⁵⁷ y dyfynnir yn helaeth ohoni yn ystod y drafodaeth hon, dengys Daniel Huws fod y ddwy lawysgrif y ceir y testunau hyn ynddynt, sef Llawysgrif Hendregadredd a Llyfr Gwyn Rhydderch, yn perthyn i Geredigion, sef ardal enedigol Dafydd ap Gwilym, a'u bod adeg ychwanegu'r cerddi dan sylw, ym mherchnogaeth teulu a fu'n noddi Dafydd.

Yn Llawysgrif Hendregadredd, ceir dau ddarn o waith y mae'r rhan fwyaf o feirniaid yn derbyn erbyn heddiw eu bod ill dau yn waith Dafydd ap Gwilym, sef yr awdl farwnad i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd ab Ieuan (*GDG* 16) a chadwyn o englynion

⁵⁷ Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2003)

i'r Grog o Gaer. Mae Ann Parry Owen wedi rhoi sylw i'r gyfres hon o englynion yn ei herthygl a gyhoeddwyd yn *Ysgrifau Beirniadol XXI*,⁵⁸ ac yn ei golygiad o'r englynion a gyhoeddwyd yng nghyfres Beirdd yr Uchelwyr.⁵⁹ Er iddo gydnabod yn yr ail argraffiad o *Gwaith Dafydd ap Gwilym* ei bod yn debygol mai Dafydd oedd awdur yr englynion,⁶⁰ gwrthodwyd y gyfres gan Parry'n wreiddiol ar sail 'tystiolaeth fewnol' gan iddo dybio mai at Gaer (Chester), yn hytrach na Chaerfyrddin, y cyfeiriai'r bardd a Parry o'r farn na fyddai Caer wedi bod o fewn cylch 'clera' Dafydd ap Gwilym. Fodd bynnag, yn y rhagymadrodd i'r gadwyn o englynion yn y gyfrol y cyfeirir ati uchod mae Ann Parry Owen yn dweud y '...gellir bod yn hollol sicr mai Caerfyrddin oedd cartref y grog y canodd Dafydd iddi...'.⁶¹ Yn y bennod flaenorol, gwelwyd bod Rachel Bromwich yn amau i ba raddau y gellid pwysu ar dystiolaeth fewnol fel maen prawf i brofi dilysrwydd cerdd, ac mae'r ffaith bod y gyfres hon o englynion bellach wedi'u derbyn yn waith Dafydd yn rhoi sail bellach i'r amheuaeth honno.

Nid yw'r englynion i'w cael yn yr un llawysgrif arall a thybir iddynt gael eu hychwanegu at Lawysgrif Hendregadredd yn ystod hanner cyntaf y 14eg ganrif. Noda Daniel Huws y gallai'r cerddi hyn fod wedi cael eu hychwanegu at y llawysgrif yn ystod oes Dafydd ap Gwilym ei hun, ac mae'n mentro ymhellach i ddweud mai'r englynion hyn i'r Grog o Gaer sydd fwyaf tebygol o fod yn llawysgrifen y bardd ei hun, os yw dim. Meddai: 'If his autograph survives, these *englynion* are its likeliest representative.'⁶² Enwir bardd yr englynion hyn fel 'Dauid Llwyd uab Gwilym Gam', awgrym efallai, fel y noda Daniel Huws, mai dechrau ar ei yrfa fel bardd yr oedd Dafydd adeg cyfansoddi'r englynion hyn ac nad oedd eto'n adnabyddus fel 'Dafydd ap Gwilym'.

Yn Llyfr Gwyn Rhydderch, sy'n dyddio yn ôl i tua 1350 ac a luniwyd ar gyfer Rhydderch mab Ieuan ac Angharad, ceir cyfres arall o englynion y tybir eu bod o eiddo Dafydd ap Gwilym sef 'Englynion y Cusan'. Fel yr englynion uchod, ac yn

⁵⁸ Ann Parry Owen, 'Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i'r Grog o Gaer', *YB XXI* (1996), tt. 15-36

⁵⁹ *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)

⁶⁰ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Ail argraffiad, Caerdydd 1963), t. 556

⁶¹ *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996), t. 51

⁶² Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *MWM*, t.89

wahanol i'r awdl farwnad i Angharad sydd ar gael mewn amryw o ffynonellau, nid yw'r rhain ychwaith wedi'u cadw yn yr un llawysgrif arall. Nid yw 'Englynion y Cusan' wedi'u cynnwys yng nghanon gwreiddiol Thomas Parry ychwaith a dim ond yn gymharol ddiweddar y mae beirniaid wedi dadlau dros eu dilysrwydd (a hynny am mai yn gymharol ddiweddar y cafodd yr englynion eu darganfod). Mewn erthygl yn rhifyn 23 o *Cambridge Medieval Celtic Studies* mae R. Geraint Gruffydd yn mynd ati i olygu'r englynion hyn am y tro cyntaf.⁶³ Gan gyfeirio at gywydd y Cusan (*GDG* 133), mae R. Geraint Gruffydd yn nodi nad dyma'r unig dro i Dafydd ganu cerdd i gusan. Yn ddiweddar, cynhwyswyd y gyfres hon o englynion a'r englynion i'r Grog o Gaer yn y cyhoeddiad Saesneg o waith y bardd a gyfieithwyd gan Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (2001).⁶⁴

Heblaw am y testunau eilaidd hyn, felly, mae yna fwch o ryw ganrif rhwng adeg marw Dafydd ap Gwilym a dyddiad y llawysgrif gynharaf o'i waith sydd ar gael i ni heddiw, ac mae Daniel Huws yn tynnu sylw at odrwydd y ffaith bod Dafydd ap Gwilym yn byw mewn cyfnod pan oedd mynd mawr ar gynhyrchu llawysgrifau ac eto rhaid aros canrif a mwy ar ôl ei farwolaeth cyn bod ei waith ef a gwaith amryw o'i gyfoeswyr i'w gael mewn casgliadau llawysgrifol:

Dafydd ap Gwilym lived in what was a golden age of Welsh book-production. To his and the two or three preceding generations we owe the manuscripts which have preserved most of what we prize of early and medieval Welsh literature...Dafydd, and some of his contemporaries...had had clerical as well as bardic training. Transmission of their poems from autograph manuscripts was feasible. And yet, looking at the surviving manuscripts earlier than about 1450, a century or so after Dafydd's death...we find in them next to nothing of the work of Dafydd ap Gwilym or any indeed of the early *cywyddwyr*...⁶⁵

Mae Daniel Huws yn mynd yn ei flaen i ddangos mai dim ond yn Llyfr Coch Hergest, sydd â dyddiad tua diwedd y 14eg ganrif, y ceir enghreifftiau o waith y cywyddwyr cynnar wedi'i gadw ar ffurf testun cynradd ac wedi'i gofnodi yn agos at adeg canu'r cerddi (os nad union adeg canu'r cerddi).⁶⁶ Ceir ynddo lond dwm o

⁶³ R. Geraint Gruffydd, 'Englynion y Cusan by Dafydd ap Gwilym', *CMCS* 23 (1992), tt. 1-6.

⁶⁴ *Dafydd ap Gwilym: His Poems*, translated by Gwyn Thomas (Cardiff, 2001)

⁶⁵ Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *MWM*, t. 87

⁶⁶ Sylwer bod Dafydd Johnston ac Ann Parry Owen yn eu herthygl 'Tri darn o farddoniaeth yn Llawysgrif Peniarth 10', a gyhoeddwyd yn *Dwned* 5 (Hydref 1999), yn tynnu sylw at y ffaith bod cywydd serch cynnar di-enw wedi'i gadw yn y llawysgrif honno, sydd â dyddiad c. 1325-75. Maent yn casglu felly mai dyma'r 'copi cynharaf o gywydd llawn sydd wedi goroesi...', ac maent yn awgrymu, ar sail arddull ac iaith, y gallai'r cywydd fod o waith Llywelyn Goch ap Meurig Hen.

gerddi gan rai o gyfoeswyr Dafydd, sef Iolo Goch, Llywelyn Goch a Gruffudd Gryg. Er bod yn y llyfr hwn gasgliad helaeth o lenyddiaeth, rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg, un enghraifft yn unig a geir o gywydd. Gan gyfeirio at Hopcyn ap Tomas, noddwr y llyfr, meddai Daniel Huws:

While his great book was planned as a repository of the classics of Welsh literature, the *cywydd* may have been too jumped-up a form, and the new subject-matter too modish, too tainted by foreign influence, to have found favour with the aged Hopcyn...The exclusion of *cywyddau* from the Red Book is not an unparalleled phenomenon.⁶⁷

Cawn ddychwelyd at arwyddocâd hyn eto yn y man.

Beth felly sydd i gyfrif am y bwlch sylweddol hwn rhwng cyfnod canu'r cerddi a'r copïau ysgrifenedig cynharaf ohonynt sydd wedi goroesi hyd heddiw? Nid yw'n amhosibl bod rhai llawysgrifau cynnar (a da) wedi eu colli i ni. Gwyddom am un llawysgrif o'r fath, sef Llyfr Gwyn Hergest a gollwyd mewn tân yn 1810 ac y rhoddir mwy o sylw iddi maes o law. Fodd bynnag, mae rhai beirniaid, Daniel Huws a Dafydd Johnston yn eu plith, wedi dadlau mai'r traddodiad o drosglwyddo'r cerddi hyn ar lafar sydd i gyfrif am y bwlch hwn i raddau helaeth.

Diau fod y gyfundrefn farddol yn ystod cyfnod y cywyddwyr cynnar, lle byddai uchelwr yn noddi beirdd a datgeiniaid i'w ddiddanu yn ei lys, yn hybu ac yn cynnal y trosglwyddiad llafar hwn. Meddai Daniel Huws:

Our lack of early manuscripts can be interpreted as evidence of the vigour of the oral tradition of the new poetry. There may even have been a reluctance on the part of the bards, and more so, of datgeiniaid, to commit to book poems which were their stock in trade.⁶⁸

Fel y nodwyd eisoes, awdl ac englynion yw'r cerddi cynharaf o waith Dafydd ap Gwilym sydd wedi'u cadw i ni, a dim ond un enghraifft o gywydd a gofnodwyd yn Llyfr Coch Hergest, a dyma ddychwelyd at arwyddocâd hynny. Mae'n debyg y byddai'r amharodrwydd hwn i gofnodi cerddi ar bapur yn arbennig o wir am y cywyddau gan mai'r ffurf hon a ddefnyddiwyd yn anad yr un arall yn gyfrwng i ddiddanu'r uchelwyr. Ni fyddai'r beirdd a'r datgeiniaid felly am weld y cerddi'n cael

⁶⁷ Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *MWM*, t. 87

⁶⁸ *Ibid.*, t. 90

eu cofnodi i'w defnyddio gan eraill a oedd yn cystadlu am nawdd yr uchelwyr. Roedd y cywyddau 'newydd' hefyd yn aml yn ysgafnach eu natur ac mae'n siŵr y byddai patrymau'r odl a'r gynghanedd yn eu gwneud yn haws i'w cofio.

Yn absenoldeb unrhyw gasgliadau o gerddi felly, teg fyddai casglu, fel y dengys Daniel Huws, fod y traddodiad llafar wedi para tan yr 16eg ganrif ac yn wir bod rhai cerddi wedi profi'n fwy poblogaidd ar lafar nag eraill. Mae Daniel Huws hefyd yn awgrymu bod yr arfer o gofnodi cerddi ar glawr fel pe bai wedi ennill tir yn gynt yn ne Cymru nag y gwnaeth yn y gogledd:

It has to be said that there is an almost total absence of any kind of pre-1500 poetry manuscripts from north Wales. Oral tradition may have prevailed longer...⁶⁹

Hwyrach y gwelwn fwy o dystiolaeth i ategu'r ddamcaniaeth hon wrth edrych yn fanylach ar ddisbarthiad y cerddi yn y llawysgrifau.

Sut felly y gallwn fod mor siŵr bod y cerddi wedi'u cadw ar lafar am gyfnodau hir cyn eu cofnodi ar bapur? Mae Daniel Huws yn dadlau bod y dystiolaeth a geir yn y llawysgrifau eu hunain yn brawf o drosglwyddiad llafar y cerddi:

Manuscript texts of the poetry of the pre-1450 cywyddwyr...are pervaded by what look like signs of oral transmission. There are verbal variants which are most simply explained as mishearing or as unconscious substitution of non-structural words, words, that is, which are not necessary for sense or for cynghanedd; there is omission of couplets or more extensive sections, and contamination by additions from other poems similar in subject; and, most tellingly, there is, in sections of poems which lack obvious logical development, frequent variation of the sequence of couplets...Multiple attributions are also symptomatic. While one should allow for the occasional scribe who thought he could improve the order in which he received a poem, the degree of variation of line-order in the surviving texts of some of the most copied poems of Dafydd ap Gwilym, and others, cannot easily be explained other than by supposing that they derive from a number of distinct crystallizations from oral tradition.⁷⁰

Yr arwydd amlycaf a sicraf o drosglwyddiad llafar y cerddi felly yw bod yna gryn amrywiaeth yn nhrefn llinellau'r cerddi o gopi i gopi. Darluniwyd hyn gan Dafydd

⁶⁹ *Ibid.*, t. 98

⁷⁰ *Ibid.*, t. 91

Johnston yn ei erthygl ‘Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition’⁷¹ Yno, mae’n ategu’r syniadau a geir yn y dyfyniad uchod ac yn dadlau mai amrywiaeth yn nhrefn y llinellau yw’r unig brawf pendant o drosglwyddiad llafar y cerddi:

Line order is of course not the only sign of oral transmission; others are variations in length of poems, lines having been either lost from one version or added in another, and variant readings, particularly the substitution of synonyms and minor words which make little difference to the sense. However, variation in line order is the only one of these signs which is sure evidence of oral transmission. In copying from a written exemplar scribes would occasionally change a reading and skip lines either deliberately or otherwise, but they would be most unlikely to make any substantial changes to the line order, beyond the accidental transposition of perhaps two lines or couplets...⁷²

Er mwyn darlunio’r dadleuon hyn mae Dafydd Johnston yn mynd yn ei flaen i gymharu pedwar testun o’r gerdd ‘Hwsmonaeth Cariad’ (*GDG*, 87) a gymerwyd o bedair ffynhonnell wahanol. Yn wahanol i gyfrol Thomas Parry, fe fydd yr ailolygiad o waith Dafydd ap Gwilym yn cynnwys gwybodaeth am drefn y llinellau yn y llawysgrifau, ac o’r gwaith ymchwil a wnaed ar y prosiect hwnnw y daw’r wybodaeth am yr amrywiol ddarlleniadau.

Isod, atgynhyrchir y wybodaeth am yr amrywiol ddarlleniadau hynny o daflen a rannwyd gan Dafydd Johnston mewn darlith ar y traddodiad llafar a draddodwyd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, ddydd Sadwrn 11 Mai 2002. Mae rhifau’r llinellau’n cyfeirio at rifau’r llinellau fel y’u gwelir yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym* a’r bachau sgwâr yn dynodi llinellau sydd ar goll:

Trefn llinellau y copïau cynnar:

Wynnstay 2 (< Llyfr Gwyn Hergest)

1-12, 17-18, 21-22, 13-14, 23-24, 19-20, 25-30, 15-16, 31-52, 57-60, 53-56, 61-68

Peniarth 67

1-12, 17-18, 21-22, 13-14, 23-24, 19-20, 25-36, 39-40, 15-16, 41-44, 37-38, 45-68

Peniarth 49, Llanstephan 6 (< Llyfr Wiliam Mathew)

1-4, 7-18, 21-22, 19-20, 23-26, 31-34, 27-28, 35-36, 53-54, 37-40, 55-56, 43-52, 57-60, 63-66, 61-62, 67-68

[5-6], [29-30], [41-42]

⁷¹ Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition’, *Studia Celtica* XXXVII (2003), tt. 143-161.

⁷² *Ibid.*, t. 143

Peniarth 57; Hafod 26 (Vetustus)

1-4, 7-8, 11-12, 15-24, 31-32, 25-26, 29-30, 27-28, 33-34, 39-40, 43-44, 37-38, 45-46, 49-50, 47-48, 51-58, 65-66, 61-64, 67-68
[5-6], [9-10], [13-14], [35-36], [41-42], [59-60]

Cymhariaeth estynedig a geir yn y gerdd hon lle mae'r bardd yn cyffelybu'r modd y mae'n meithrin ei gariad at Morfudd i ofal y ffermwr dros ei gnwd. Er bod y delweddau a geir yn y gerdd wedi'u tynnu o fyd amaeth nid yw strwythur y gerdd wedi'i gaethiwo gan droad y tymhorau, fel y byddid yn disgwyl efallai, ac mae'r ystadegau uchod yn dangos bod yna gryn amrywiaeth yn nhrefn y llinellau.

Mae Dafydd Johnston yn tynnu sylw at y broblem fethodolegol sydd ynghlwm wrth gymhariaeth o'r fath, lle mae'r amrywiaethau yn cael eu nodi yn erbyn y testun a gyflwynwyd gan Parry. Cofiwn o'r drafodaeth gynharach ar ddull Parry o baratoi testun, ei fod yn defnyddio'r hyn a alwai Fulton yn 'patchwork method' gan greu fersiwn nad oedd o reidrwydd yn bodoli ar y ffurf honno yn yr un o'r llawysgrifau.

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth uchod yn dangos bod y ddau gopi cynharaf, sef y copïau a geir yn Wynnstay 2 a Peniarth 67 yn debyg iawn i'w gilydd ac mae'r cwpledi coll a geir yn y ddau fersiwn arall, sydd ychydig yn ddiweddarach, yn darlunio'r modd y byddai testun yn dirywio gyda threigl amser.

Yn 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition' mae Dafydd Johnston hefyd yn tynnu sylw at y modd y cofnodwyd y gerdd 'Y Cwt Gwyddau' (GDG 126) yn llawysgrif Peniarth 55. Y cyfan a geir o'r gerdd hon yn Peniarth 55 yw geiriau cyntaf pob cwpled. Mae'r ffaith hon (na sylwyd arni gan Thomas Parry), yn amlwg yn ategu'r ddamcaniaeth bod y cerddi'n cael eu cadw ar gof y beirdd; nid oedd angen cofnodi'r gerdd gyfan air am air, byddai geiriau cyntaf pob cwpled yn ddigon i brocio'r cof.

Wrth drafod rhai o'r meini prawf eraill, megis iaith, arddull a chynghanedd, gwelir fel y dadleuodd Helen Fulton, bod i'r trosglwyddiad llafar hwn oblygiadau iddynt hwythau hefyd a'u dibynadwyedd fel modd o bennu awduraeth. Fel y nodwyd yn rhan gyntaf y traethawd, mae Fulton o'r farn bod tuedd y copïwyr i addasu hen eiriau a ffurfiau a'r gynghanedd yn ei gwneud hi'n anodd gweld datblygiad clir rhwng canu'r cywyddwyr cynharaf a chanu'r cywyddwyr a'u dilynodd.

Er gwaethaf amheuon Fulton sy'n tanseilio'r holl ymgais i bennu awduraeth, byddwn innau'n dal i ddadlau mai'r llawysgrifau yw'r man cychwyn amlycaf a'r ffynhonnell dystiolaeth fwyaf gwerthfawr i'r rheiny sy'n astudio'r cerddi heddiw, ac wrth geisio mapio tystiolaeth y llawysgrifau, mae'n amlwg bod rhai llawysgrifau a chasgliadau yn haeddu tipyn mwy o sylw nag eraill. Wrth edrych ar y llawysgrifau hynny sy'n cynnwys enghreifftiau o waith Dafydd ap Gwilym, felly, bwriedir cyfyngu'r astudiaeth fer hon i'r llawysgrifau cynharaf (gyda 'cynharaf' yn y cyddestun hwn yn golygu llawysgrifau'r 15fed ganrif a phrif gasgliadau hanner cyntaf yr 16eg ganrif).

Gan gynnwys y ddwy lawysgrif y cyfeiriwyd atynt eisoes lle ceir enghreifftiau o destunau eilaidd, rhyw 10 llawysgrif yn unig sy'n cynnwys peth o waith Dafydd ap Gwilym ac sydd â'u dyddiad yn gynharach na 1500, a diddorol yw nodi mai rhyw hanner yn unig o gerddi'r canon sydd i'w cael yn y llawysgrifau cynharaf hynny; meddai Daniel Huws:

By about 1500, sixty-eight poems attributed to Dafydd ap Gwilym, almost half the current canon, were represented in the ten known manuscripts. Of the sixty-eight, five in Thomas Parry's view are spuriously attributed. Only six of the sixty-eight occur in more than one manuscript...And only one occurs in more than two...⁷³

Mae yna le i gredu bod y ffigwr hwn ychydig yn uwch na 68, gweler tabl I ar ddiwedd y rhan hon o'r drafodaeth, ond hyd yn oed wedyn mae'r ffaith hon yn peri tipyn o anhawster i'r rheiny sy'n ceisio astudio'r cerddi heddiw gan fod rhaid dibynnu wedyn ar y dystiolaeth sydd i'w chael mewn llawysgrifau diweddarach.

Mae Daniel Huws yn awgrymu bod maint y casgliadau cynnar fel petai'n cadarnhau diffyg traddodiad llawysgrifol. Meddai : "The small scale of these collections in itself suggests an absence of substantial earlier ones."⁷⁴ Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwbl wir. Nodwyd eisoes bod un casgliad cynnar wedi ei golli i ni, sef Llyfr Gwyn Hergest sy'n dyddio yn ôl i'r 1460au. Yn ffodus codwyd rhai o gerddi'r Llyfr Gwyn i Peniarth 49, sef Llawysgrif John Davies a luniwyd yn ystod y 1590au.

⁷³ Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *MWM*, t. 97

⁷⁴ *Ibid.*, t.93

Hwyrach y bu tuedd i ystyried Peniarth 49 yn un ffynhonnell gyfan heb roi sylw dyledus i'r gwahanol adrannau o fewn y llawysgrif. Mae casgliad John Davies yn rhannu'n bedair adran bendant, gyda ffynhonnell pob un wedi'i chofnodi'n glir ar ddechrau'r adran berthnasol yn y llawysgrif a'r copiŵyr hefyd yn nodi amrywiadau yn y darlleniadau. Yn 'ail adran' y llawysgrif (cerddi 44-70) nodir bod y 27 cerdd ddilynol wedi'u codi o'r Llyfr Gwyn. Yr hyn sydd hefyd yn ddefnyddiol yw bod John Davies yn hytrach na chopio'r un gerdd o ddwy ffynhonnell, yn croesgyfeirio rhwng y ffynonellau; felly yn ogystal â'r 27 o gerddi a gopiwyd yn uniongyrchol o'r Llyfr Gwyn ceir hefyd gyfeiriadau wrth ymyl 11 o gerddi pellach yn nodi eu bod hwythau hefyd yn ymddangos yn y ffynhonnell honno. Gwyddom felly bod o leiaf 38 o gerddi yn Llyfr Gwyn Hergest, sydd yn gasgliad digon helaeth; tipyn mwy helaeth na chasgliadau eraill y 15fed ganrif fel y cawn weld yn y man. Dylid nodi, o blith y 38 o gerddi hyn, bod Parry wedi dewis gwrthod 3, sef 'Cywydd y Brithyll', 'Digiais am na chawn Degau' a 'Credaf i Naf o nefoedd'. Er ei chynhared felly, nid yw tystiolaeth y casgliad hwn yn gwbl ddi-ffael ym marn Parry.

Yn y darn ar dystiolaeth y llawysgrifau yn ei ragymadrodd mae Parry'n gresynu nad oes gennym fwy o lawysgrifau cynnar am eu bod yn aml yn cynnwys testunau sy'n wahanol ac yn well na'r rheiny a geir yn y llawysgrifau diweddarach. Noda Parry mai Peniarth 54 (y tybir bod ei dyddiad yn gynharach nag 1484), yw un o'r ffynonellau gorau am ei bod yn cynnwys 'darlleniadau, a llinellau weithiau, nas ceir yn yr un llsg. arall.'⁷⁵

Mater arall y mae'n rhaid ei ystyried yw'r berthynas rhwng y llawysgrifau a'i gilydd gan fod hwn yn aml yn effeithio ar ansawdd y dystiolaeth lawysgrifol. Trwy gymharu darlleniadau a threfn llinellau mae Parry wedi llwyddo i ddangos bod yna gysylltiadau pendant ac weithiau agos rhwng rhai o'r llawysgrifau a'i gilydd. Mae hyn yn aml yn arwain at wanhau tystiolaeth y llawysgrifau. Hynny yw, ar yr olwg gyntaf gall tystiolaeth y llawysgrifau edrych yn gadarn o blaid cerdd, ond o olrhain y cysylltiadau rhwng y gwahanol lawysgrifau gellir dangos bod amryw o'r copïau yn perthyn i'w gilydd ac felly yn y bôn yn cyfrif fel un ffynhonnell yn hytrach na sawl un. Mae'n debyg felly bod Peniarth 54 eto'n bwysig am nad yw'n rhannu unrhyw berthynas amlwg â'r llawysgrifau eraill. Meddai Parry eto:

⁷⁵ *GDG*, t. lxxv

Nid yw'n ymddangos, drwy unrhyw un o'r profion arferol, fod dim perthynas rhyngddi ac unrhyw un o'r llsgrau eraill. Y mae'n gwahaniaethu'n hanfodol yn ei darlleniadau drwodd a thro, a cheir llinellau mewn rhai cywyddau nas ceir yn unman arall. O ganlyniad y mae P54 yn dra phwysig a defnyddiol wrth lunio testun.⁷⁶

Mae Daniel Huws hefyd yn nodi bod Peniarth 54 yn llawysgrif ddiddorol iawn. Mae'n cynnwys 24 o gerddi a briodolwyd i Dafydd ac un ddiennw sydd wedi'i chynnwys yn y canon ('Noson Olau'). Ynghyd â Llyfr Gwyn Hergest, dyma'r casgliad o'r 15fed ganrif sy'n cynnwys y nifer fwyaf o gerddi gan Dafydd ap Gwilym ond, yn ogystal, mae'n cynnwys cerddi gan feirdd cyfoes a hynny, fe dybia Daniel Huws, yn eu llawysgrifen eu hunain:

Peniarth 54 seems to be witness...to a striking transition. Until about 1450 the work of the cywyddwyr is...virtually absent from the surviving manuscript tradition. Here a generation later, we meet not only retrospective collections of their work but collections also of poems of contemporaries in autograph.⁷⁷

Â Daniel Huws yn ei flaen i awgrymu mai bardd oedd prif gopiwr y llawysgrif hon ac a fu'n gyfrifol am gopïo'r holl gerddi a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym; mae'n rhaid cofio y byddai gan fardd fynediad i'r traddodiad llafar y cyfeiriwyd ato ac o bosibl at unrhyw draddodiad llawysgrifol a oedd yn dechrau datblygu. Mae Daniel Huws wedi awgrymu ymhellach mai Gwilym Tew, y bardd o Forgannwg oedd y bardd dan sylw.⁷⁸ Gwyddys mai ef fu'n gyfrifol am gopïo Peniarth 51 sy'n cynnwys dau gywydd o waith Dafydd ap Gwilym, sef y cywydd i Hywel ap Goronwy a 'Hudoliaeth Merch'. Gallai'r ffaith fod llawysgrif Peniarth 54 wedi'i lleoli yn ardal Aberhonddu ychwanegu pwysau at y ddadl bod y traddodiad ysgrifenedig wedi crisialu'n gynt yn y de-ddwyrain nag y gwnaeth yn y gogledd.

Er i Parry nodi bod Peniarth 54 yn llawysgrif o bwys, â yn ei flaen i nodi bod yn y llawysgrif hon hyd yn oed rai cerddi sydd yn ei fam ef wedi eu cambriodoli i Dafydd. Mae Parry'n gwrthod dwy o'r cerddi a briodolwyd iddo yn Peniarth 54, 'Yr haul deg ar fy neges' a 'Gwae fi o gariad gwiw fun.' Gwelwn felly fod yma rywffaint

⁷⁶ *Ibid.*, t. cxi

⁷⁷ Daniel Huws, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', *MWM*, t. 95

⁷⁸ Yn ei erthygl 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition', *Studia Celtica* XXXVII (2003), mae Dafydd Johnston yn nodi bod y wybodaeth hon wedi'i darparu gan Daniel Huws.

o wrthdaro, roedd Parry o'r farn bod hon yn un o'r llawysgrifau gorau a hynaf ac eto yn ei farn ef mae hefyd yn cynnwys rhai cerddi 'annilys'. Mae'n amlwg felly bod rhaid troedio'n ofalus iawn wrth ddefnyddio tystiolaeth y llawysgrifau fel maen prawf i brofi awduraeth cerdd. Rhaid hefyd ofyn sut mae barnu ansawdd llawysgrif? Onid yw cael un gerdd 'annilys' mewn casgliad yn ddigon i godi cwestiynau ynghylch awdurdod y casgliad hwnnw a dilysrwydd gweddill y cerddi a gynhwysir ynddo?

Yr un yw'r sefyllfa gyda Peniarth 48, un arall o'r casgliadau cynharaf sydd â dyddiad o c. 1450. Un gerdd yn unig a wrthodwyd o blith yr 8 a briodolir i Dafydd ap Gwilym, sef 'Credaf i Naf o nefoedd' ac mae'n siŵr bod rhaid gofyn cwestiynau ynghylch arwyddocâd yr un gerdd wrthodedig honno i weddill y cerddi 'dilys'.

Mae Peniarth 57 wedi'i rhannu'n ddwy. Mae'r ddwy ran yn annibynnol ar ei gilydd ac mae'n debyg bod y ddwy wedi'u cofnodi gan ddau gopiwr gwahanol. Yn y rhan gyntaf, sydd â dyddiad o c. 1450, ceir 5 cerdd sydd wedi'u priodoli i Dafydd ap Gwilym ac sydd wedi'u cynnwys yng nghanon Thomas Parry. Yn ail ran y llawysgrif, sydd yn ddiweddarach na'r rhan gyntaf, ceir saith cerdd arall sydd wedi'u priodoli i Dafydd ap Gwilym ac mae Parry'n dewis gwrthod 3 o'r rhain am wahanol resymau, sef 'Caru'r wyf pwy a'i cerydd, 'Dydd da yt gog serchogfwyn' a 'Fy swydd ers llawer blwyddyn'.

Er gwaetha'r ffaith felly bod Parry'n dewis gwrthod cerddi o bron bob un o'r casgliadau cynnar,⁷⁹ mae'n amlwg ddigon bod rhai llawysgrifau yn fwy gwerthfawr a dibynadwy nag eraill, ac afraid dweud mai bach iawn o bwys y gellid ei roi ar y casgliadau mwyaf diweddar wrth geisio pennu awduraeth cerdd arbennig.

Cyn gadael llawysgrifau'r 15fed ganrif dylid nodi'n gyflym mai un gerdd yn unig o eiddo Dafydd ap Gwilym a geir yn Peniarth 67, sef 'Hwsmonaeth Cariad' (*GDG* 87). Dau gywydd a geir yn Peniarth 52, sef 'Diolch am Fenig' (*GDG* 9) a 'Y Ceiliog Bronfraith' (*GDG* 123), ac mae Daniel Huws yn nodi y gallai'r llawysgrif hon fod wedi tarddu o Ogledd Cymru. Tri chywydd a geir yn Llanstephan 27, sef 'Taeru'

⁷⁹ Yr unig eithriadau i hyn yw'r pum cerdd a geir yn rhan gyntaf Peniarth 57 y mae pob un ohonynt i'w cael yn y canon, a'r wyth cerdd sydd i'w cael yn Peniarth 49 a godwyd o ffynhonnell a elwir yn 'Hen Lyfr Arall'. Wrth gwrs, ni wyddom a oedd y ffynhonnell hon yn cynnwys unrhyw gerddi eraill heblaw'r rheiny a godwyd i Peniarth 49.

(*GDG* 55), ‘Saethu’r Ferch’ (*GDG* 100) a ‘Yr Annerch’ (*GDG* 112) ac mae’n debyg i’r rhain gael eu hychwanegu at y llawysgrif yn hwyr yn y 15fed ganrif.

Heblaw am Lyfr Gwyn Hergest a Peniarth 54, gwelir felly mai am gasgliadau bach iawn y buwyd yn sôn hyd yma gydag ambell un o’r llawysgrifau cynharaf ond yn cynnwys rhyw un neu ddwy o gerddi Dafydd yma a thraw ymhlith cerddi eraill. Yn ystod yr 16eg ganrif y mae’r copïau a’r casgliadau o waith Dafydd ap Gwilym yn dechrau amlhau ac fe welwn fod rhai o gasgliadau hanner cyntaf y ganrif honno, casgliadau megis Llyfr Wiliem Mathew a’r *Vetustus*, wedi bod yn ganolog i’r broses o lunio canon Thomas Parry.

Wrth i’r darlun ddod yn gliriach felly, gwelir bod y rheiny ohonom sy’n ceisio pwysu a mesur gwerth y llawysgrifau fel ffynhonnell dystiolaeth fel petaem yn gweithio rhwng dau begwn eithafol. Ar wahân i’r ddau eithriad pwysig y cyfeiriwyd atynt, ceir ar y naill law y casgliadau bychan a phrin sy’n perthyn i’r 15fed ganrif, ac ar ben arall y pegwn ceir casgliad helaeth Owen Jones a William Owen a gyhoeddwyd yn 1789. Mae casgliadau megis Peniarth 49 a Hafod 26 felly yn cynrychioli rhyw fath o dir canol rhwng y llawysgrifau cynharaf a’r casgliadau helaeth (a mwy llwgr yn aml) a geir yn yr 17eg ganrif a’r 18fed ganrif. Maent yn ddefnyddiol am eu bod yn cynnwys tipyn mwy o gerddi na chasgliadau’r 15fed ganrif, ac er bod y llawysgrifau eu hunain wedi eu llunio yn ystod chwarter olaf yr 16eg ganrif mae modd olrhain yn weddol sicr y ffynonellau y maent wedi tarddu ohonynt; ffynonellau sy’n amrywio o ran eu dyddiad o ganol y 15fed ganrif hyd hanner cyntaf yr 16eg ganrif. Yn ei erthygl ar lawysgrifau John Davies, mae Daniel Huws yn cyfeirio at bwysigrwydd Peniarth 49, ac meddai:

It is a manuscript of high importance...it contains John Davies’s collection of the work of Dafydd ap Gwilym, and if any single manuscript had to serve as a bridge to the work of the poet, this would be it.⁸⁰

Cyfeiriwyd eisoes at y modd y rhannwyd Peniarth 49 yn bedair adran bendant. Daw’r 43 cerdd gyntaf o Lyfr Wiliem Mathew o Landaf (sydd â dyddiad cynharach na 1550). Yn y darn ar dystiolaeth y llawysgrifau yn y rhagymadrodd i *GDG*, dangosodd Thomas Parry fod yna berthynas rhwng tua hanner y cerddi hyn a rhai o

⁸⁰ Daniel Huws, ‘John Davies and his Manuscripts’, yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Caerdydd, 2004), t. 90

gerddi Llanstephan 6, un o llawysgrifau De Cymru a ysgrifennwyd tua 1520. Â Parry yn ei flaen i ddadlau bod Llanstephan 6 ymhellach oddi wrth y ffynhonnell wreiddiol gan nad yw darlleniadau'r llawysgrif honno gystal â rhai Llyfr Wiliem Mathew. Cofiw'n fodd bynnag mai copi o Lyfr Wiliem Mathew a geir yn Peniarth 49 ac ni allwn fod yn siŵr pa mor wahanol yw'r copi hwnnw i'r gwreiddiol.

Yna daw'r cerddi a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest ac yn dilyn y rheiny ceir casgliad bychan o 8 cerdd a godwyd o ffynhonnell a elwir yn 'hen lyfr arall' y mae ei dyddiad yn anhysbys. Mae gweddill y cerddi yn Peniarth 49 (rhif 79 hyd ddiwedd y llawysgrif), rhyw 59 o gerddi i gyd yn dod o ffynhonnell a elwir yn *Vetustus Codex*, ac yn ôl y nodiadau a geir yn Peniarth 49 mae i'r *Vetustus* ddyddiad o c. 1526.

Mae llawysgrif Thomas Wiliems, sef Hafod 26, ymhlith y cyntaf o'r llawysgrifau a ymddangosodd yn ystod cyfnod y Dadeni, ond er ei bod wedi ei dyddio tua 1574, mae Thomas Parry wedi dangos, trwy gymharu darlleniadau a threfn llinellau'r cerddi, bod y rhan helaeth o Hafod 26 yn rhannu perthynas agos â rhan olaf Peniarth 49, neu'r '*Vetustus*', h.y. mae'n tybio bod y ddwy wedi eu codi o'r un gynsail. Yn ôl Thomas Parry, 'Y mae'r holl gerddi sydd yn y rhan hon o P49, ag eithrio dau [*sic*], sef 119 a 138, i'w cael yn yr un drefn yn H26, rhifau 18-135'.⁸¹ Fel y nodwyd eisoes, yn llawysgrif Peniarth 49, ceir croesgyfeiriadau rhwng y gwahanol ffynonellau ac o'r herwydd ceir rhai cerddi yn Hafod 26 nad ydynt yn ymddangos yn rhan olaf Peniarth 49 a hynny am eu bod eisoes wedi eu codi i ran arall o'r llawysgrif honno. Fel y dangosodd Daniel Huws, John Davies a'i arfer o groesgyfeirio a chofnodi amrywiadau sy'n dod â ni agosaf at gasgliad beirniadol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oedd y copi'wyr diweddarach yn gyfarwydd â'r casgliad hwn ac felly yn hytrach nag adeiladu ar yr arferion da hyn, at ei gilydd, mae safon y copïau a'r copïo yn dirywio gydag amser.

Dywedwyd bod y 'rhan helaeth' o Hafod 26 yn perthyn yn agos i ran olaf Peniarth 49; fodd bynnag o boptu'r 'craidd' hwnnw o gerddi ceir dau gasgliad llai o gerddi gan gynnwys rhai a gynhwyswyd yn y canon. Mae'r ddwy ran hyn hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o gerddi 'annilys' a cheir trafodaeth lawnach ar Hafod 26

⁸¹ *GDG*, t. cxvii-iii

cyn diwedd y traethawd lle ceisir pwyso a mesur arwyddocâd y cerddi ‘annilys’ hyn yng nghyd-destun gweddill y cerddi a dderbyniwyd i’r canon.

Mae’n ymddangos bod dau gasgliad arall sydd yn ôl Daniel Huws yn rhannu’r un math o ddyddiad â Peniarth 49 (1590au), hefyd yn tarddu o’r un gynsail, sef Llanstephan 120 a Gwynedd 3. Mae’r ddau gasgliad hyn o’u cydio wrth ei gilydd yn ffurfio casgliad o gerddi Dafydd ap Gwilym wedi’u trefnu yn nhrefn yr wyddor yn ôl llinell gyntaf y gerdd. Yn ôl Daniel Huws, Jaspâr Griffiths biau’r ddau gasgliad, ac er i Thomas Parry enwi Jaspâr Griffiths fel copiwr Llanstephan 120 nid ydyw’n ei enwi yng nghyswllt Gwynedd 3, ac yn wahanol i Daniel Huws nid yw Parry fel pe bai o’r farn bod y ddau gasgliad erioed wedi ffurfio un casgliad cyflawn. Fodd bynnag, mae Thomas Parry a Daniel Huws ill dau yn gytûn bod Llanstephan 120 a Gwynedd 3 yn rhannu perthynas â’r gynsail y copiwyd Peniarth 49 a Hafod 26 ohoni. Felly, trwy gymryd y pedair ffynhonnell hyn gyda’i gilydd byddai modd adlunio’r cyfan o gynnwys y *Vetustus*.

Fel y nodwyd, mae casgliadau megis Peniarth 49 a Hafod 26, yn ogystal â Gwynedd 3 a Llanstephan 120, yn rhyw fath o fan canol rhwng y llawysgrifau cynharaf a’r copïau lu o waith Dafydd ap Gwilym a ymddangosodd yn ystod yr 16eg ganrif ac yn ddiweddarach, a hynny am fod modd olrhain eu ffynonellau yn weddol sicr. Hawdd deall bod ansawdd y copïau’n dirywio ac yn mynd yn fwy llwgr o gael eu copïo drosodd a thro ac wrth iddynt fynd ymhellach o’r gwreiddiol. Gwelir hefyd bod y syniad o Dafydd fel rhyw fardd gwahanol i’r cyffredin yn dechrau magu tir yn ystod y cyfnod hwn, gyda’r copïwyr yn awchu i gael y casgliadau mwyaf posibl o waith y bardd ac yn anochel yn cambriodoli cerddi iddo wrth fynd ar drywydd y casgliad ‘cyflawn’. Yn ei drafodaeth ar y gynghanedd yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym⁸², mae Peredur I. Lynch yn cyfeirio at effaith y gaseg eira, sy’n darlunio i’r dim y duedd gynyddol i gambriodoli cerddi i Dafydd. Mae hyn wrth gwrs yn cyrraedd penllanw gyda chasgliad Owen Jones a William Owen yn 1789.

Wrth grynhoi ei drafodaeth ar dystiolaeth y llawysgrifau, meddai Thomas Parry:

⁸² Peredur I. Lynch, ‘Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym’, yn *Iestyn Daniel et al. (goln), Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), t. 131

...tair tarddell derfynol sydd i'r holl Isgrau. – Cynsail Morgannwg, Llyfr Gwyn Hergest, a Chynsail y Gogledd. (Yr unig Isgr. o bwys na ellir ei gosod yn y dosbarthiad hwn yw P54.)⁸³

Fodd bynnag, y teimlad erbyn heddiw yw bod y darlun hwn a roir gan Parry yn rhy gyfyng ac wedi ei orsymleiddio o bosibl. Mae Daniel Huws yn ei drafodaeth yntau yn codi cwestiwn ynghylch 'cynsail y Gogledd' fel y'i henwyd gan Parry ac yn awgrymu nad oedd y gynsail y copïwyd prif gasgliadau'r gogledd ohoni o reidrwydd yn gasgliad a ffurfiwyd yn y Gogledd. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'n bosibl y gellid dadlau bod y traddodiad llafar wedi parhau'n hirach yn y gogledd a bod hwnnw yn ei dro wedi bwydo i mewn i rai o'r casgliadau a ffurfiwyd yno.

Dyna felly fwrw golwg bras ar y traddodiad llawysgrifol ac mae'r tablau sy'n dilyn yn ymgais i fapio datblygiad y traddodiad a'i berthynas â gwaith Dafydd ap Gwilym. Fel y crybwyllwyd ar ddechrau'r drafodaeth, er gwaetha'r holl waith arloesol a gyflawnwyd ganddo, mae yna le i amau a fu Parry yn gwbl gyson yn y modd y cymhwysodd faen prawf tystiolaeth y llawysgrifau wrth ddewis a dethol cerddi i'w cynnwys yn ei gasgliad. Yn aml, gwelir bod Parry'n dewis hepgor cerdd am fod tystiolaeth y llawysgrifau'n 'wan'. Ond ni cheir ganddo fyth ddiffiniad o'r hyn a olygir wrth dystiolaeth dda neu dystiolaeth wan. Bwriedir i'r tablau sy'n dilyn felly roi darlun cwbl wrthrychol i ni o dystiolaeth y llawysgrifau y gellir ei ddefnyddio maes o law wrth drafod yr anghysondeb sydd i'w weld o dro i dro yng nghasgliadau a phenderfyniadau Parry. At hynny, gan gofio'r dyfyniad a gafwyd gan Dafydd Johnston ar ddiwedd pennod gyntaf y traethawd mae'r tabl cyntaf yn ymgais i greu 'craidd' o gerddi cynnar. Er i'r drafodaeth hyd yma ganolbwyntio ar lawysgrifau'r 15fed ganrif a phrif gasgliadau hanner cyntaf yr 16eg ganrif, gwelir mai'r ffin a ddefnyddir wrth ddiffinio'r 'craidd o gerddi cynnar' yw llawysgrifau'r 15fed ganrif. Er y gellid dadlau bod y ffin yn un artiffisial a mympwyol ceisiwyd dangos yn y drafodaeth uchod bod yna ryw fath o ffin rhwng y casgliadau llai o faint a mwy detholus a'r casgliadau mwy o faint a llai detholus, a bod y Vetustus hwyrach yn rhyw fath o fan canol. A dyma mae'n debyg yw'r unig ffin realistig y gellid ei defnyddio, gan na fyddai cynnwys casgliadau'r 16eg ganrif yn cynnig i ni graidd o unrhyw fath, yn wir bron na fyddent yn cynnig y corpws cyfan. Yn y tabl cyntaf felly, ceir y cerddi sydd â'r dystiolaeth gynharaf o'u plaid. Cwestiwn arall wrth gwrs

⁸³ *GDG*, t. clxx

yw a yw'r dystiolaeth gynharaf gyfystyr â'r dystiolaeth orau. Mae'r ail dabl yn rhestru'r cerddi hynny sy'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy'r Vetustus, Hen Lyfr Arall a Llyfr Wiliem Mathew, ac mae'r trydydd tabl yn rhestru'r cerddi nad ydynt yn ymddangos yn llawysgrifau'r 15fed ganrif nac yn Llyfr Wiliem Mathew, Hen Lyfr Arall a'r Vetustus. Yn y tabl hwn, tynnwyd sylw at y cerddi hynny sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26 gan y byddant yn berthnasol i'r drafodaeth mewn rhannu eraill o'r traethawd.

Y bwriad yn y bennod nesaf yw mynd ati i edrych ymhellach ar y wybodaeth a geir yn y tablau a dechrau ystyried pa mor ddefnyddiol yw tystiolaeth y llawysgrifau wrth geisio pennu awduraeth.

TABL I

Rhif yn GDG	Craidd o gerddi sydd i'w cael mewn llawysgrifau cyn 1500	Ffynhonnell
-	Englynion y Grog o Gaer	Llawysgrif Hendregadredd
-	Englynion y Cusan	Llyfr Gwyn Rhydderch
4	Lluniau Crist a'r Apostolion	P48, P57
5	Awdl i Ifor Hael	LIGH*
8	Basaleg	P54
9	Diolch am Fenig	P52
12	Mawl Llywelyn ap Gwilym	LIGH
13	Marwnad Llywelyn ap Gruffudd	LIGH
15	I Hywel ap Goronwy	P51
16	Marwnad Angharad	Llawysgrif Hendregadredd
20	Marwnad Gruffudd Gryg	P48
22	Y Llwynog	P48
24	Yr Haf	LIGH
30	Yr Adarwr	LIGH
31	Cae Bedw Madog	LIGH
34	Talu Dyled	LIGH
36	Digalondid	LIGH
38	Yr Euryches	LIGH, P54
41	Merch Gyndyn	P54
44	Penwisg Merch	P54
48	Merched Llanbadarn	P54
52	Gofyn Cymod	LIGH
54	Rhagoriaeth y Bardd ar Arall	P54
55	Taeru	LIGH, Ll27, P57
56	Campau Bun	LIGH, P54
64	Y Ffenestr	P54
70	Noson Olau	P54
71	Y Don ar Afon Dyfi	P54
72	Trech a Gais nog a Geidw	LIGH, P54
74	Y Serch Lledrad	P54
75	I Ddymuno Boddi'r Gwr Eiddig	P54, P57
76	Rhag Hyderu ar y Byd	LIGH
77	Amau ar Gam	P48
79	Morfudd a Dyddgu	LIGH
82	Erfyn am ei fywyd	LIGH
84	Hudoliaeth Merch	P51
86	Y Llw	LIGH
87	Hwsmonaeth Cariad	P57, P67, LIGH
88	Merch o Is-Aeron	P57
89	Dan y Bargod	P54

Rhif yn GDG	Craidd o gerddi sydd i'w cael mewn llawysgrifau cyn 1500	Ffynhonnell
90	Cystudd Cariad	LIGH
91	Y Rhew	LIGH, P57
93	Y Cariad a wrthodwyd	P54
94	Galw ar Ddwynwen	P54
95	Dagrau Serch	LIGH
97	Angof	LIGH
100	Saethu'r Ferch	LIGH, LI27
101	Merch Fileinaidd	P48
102	Cystudd y Bardd	LIGH
103	Canu'n Iach	P54
104	Y Mab Maeth	P54
105	Y Drych	LIGH
107	Gwadu	LIGH
109	Yr Uchenaid	LIGH, P57
110	Difrawdwr	LIGH
112	Yr Annerch	LIGH, LI27
115	Y Cyffyllog	LIGH
119	I Wahodd Dyddgu	LIGH
120	Merch ac Aderyn	LIGH
123	Y Ceiliog Bronfraith	P52
125	Y Rhugl Groen	LIGH
126	Y Cwt Gwyddau	P55
127	Y Pwll Mawn	P54
131	Doe	P54
132	Cyfeddach	LIGH
133	Cusan	P48
136	Cyngor gan Frawd Llwyd	P48
140	Caer Rhag Cenfigen	P54, P57
142	Y Gainc	P54, P57
143	Y Cleddyf	LIGH
CYFANSWM = 70		
	Cerddi a wrthodwyd o'r canon sydd i'w cael mewn llawysgrifau cyn 1500	Ffynhonnell
-	Cywydd y Brithyll	LIGH
-	Digiais am na chawn degau	LIGH
-	Credaf i Naf o nefoedd	LIGH, P48
-	Yr haul deg ar fy neges	P54
-	Gwae fi o gariad gwiw fun	P54
-	Caru'r wyf pwy a'i cerydd	P57
-	Dydd da yt gog serchogfwyn	P57
-	Fy swydd ers llawer blwyddyn	P57

* Sylwer bod y cerddi a restrwyd uchod fel rhai sy'n ymddangos yn Llyfr Gwyn Hergest yn cynnwys nid yn unig y cerddi hynny a gofnodwyd rhwng rhifau 44 a 70 yn Peniarth 49, ond hefyd y cerddi hynny yn y rhannau eraill o'r llawysgrif honno sydd â chyfeiriad wrth eu hymyl yn nodi eu bod i'w cael yn y Llyfr Gwyn (gweler tudalen 29 uchod).

Cerddi'r canon sy'n ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig trwy Lyfr Willem Mathew, Hen Lyfr Arall a'r Vetustus fel y'u ceir yn Peniarth 49 a Hafod 26

TABL II

Rhif yn GDG	Teitl	Ffynhonnell
1	I Iesu Grist	H26,ii,116 (Vet), P49,122 (Vet)
3	Da Fu'r Drindod	H26,ii,111(Vet), P49, 121 (Vet)
7	Cywydd i Ifor Hael	H26,ii,21(Vet), P49, 80 (Vet)
10	Ymado ag Ifor Hael	H26,ii,19 (Vet), P49, 78 (HLA)
18	Marwnad Gruffudd ab Adda	H26,ii,24 (Vet), P49, 81 (Vet)
19	Marwnad Madog Benfras	H26,ii,53 (Vet), P49, 95 (Vet)
21	Dychan i Rys Meigen	H26,ii,135 (Vet), P49, 137 (Vet)
28	Y Ceiliog Bronfraith	P49, 4 (LIWM)
29	Y Llwyn Celyn	P49, 74 (HLA)
32	Gerlant o Blu Paun	H26,ii,133 (Vet), P49, 135 (Vet)
33	Y Bardd yn Onest	P49, 31 (LIWM)
35	Gwadu Iddo fod yn Fynach	H26,ii,50 (Vet), P49, 93 (Vet)
37	Caru merch Fonheddig	H26,ii,38 (Vet), P49, 88 (Vet)
40	Amnaid	H26,ii,89 (Vet), P49,113 (Vet)
42	Morfudd fel yr Haul	H26,ii,91 (Vet)
43	Llw Morfudd	H26,ii,76 (Vet)
45	Dyddgu	H26,ii,34 (Vet), P49, 85 (Vet)
46	Serch fel Ysgyfarnog	P49, 33 (LIWM)
47	Bargeinio	P49, 18 (LIWM)
49	Merch yn Ymbincio	H26,ii,57 (Vet), P49,97 (Vet)
50	Chwarae Cnau i'm Llaw	H26,ii,102 (Vet), P49, 116 (Vet)
51	Rhagoriaeth ei Gariad	H26,ii,33 (Vet), P49,84 (Vet)
53	Breichiau Morfudd	P49, 9 (LIWM)
58	Merch yn Edliw ei Lyfrdra	H26, ii, 72 (Vet), P49, 104 (Vet)
59	Yr Het Fedw	H26,ii,51 (Vet), P49, 72 (HLA)
60	Anwadalrwydd	H26,ii,88 (Vet), P49, 112 (Vet)
61	Y Cyffyllog	H26,ii,67 (Vet), P49, 73 (HLA), P49,101 (Vet)
62	Y Mwdwl Gwair	H26,ii,42 (Vet)
63	Cyngor y Biogen	H26,ii,126 (Vet), P49, 129 (Vet)
65	Y Fiaren	H26,ii,134 (Vet), P49,136 (Vet)
66	Y Cloc	H26,ii,80 (Vet), P49, 106 (Vet)
67	Y Seren	H26,ii,71 (Vet)
68	Y Niwl	H26,ii,117 (Vet)
69	Mis Mai a Mis Ionawr	H26,ii,69 (Vet), P49,103 (Vet)
73	Gwallt Morfudd	H26,ii,73 (Vet), P49, 105 (Vet)
78	Serch Dirgel	H26,ii,87 (Vet), P49, 105 (Vet)
80	Tri Phorthor Eiddig	H26,ii,124 (Vet), P49, 127 (Vet)

Rhif yn GDG	Teitl	Ffynhonnell
81	Llychwino Pryd y Ferch	H26,ii,43 (Vet), P49, 42 (LIWM)
83	Taith i Garu	H26,ii,.35 (Vet), P49, 86 (Vet)
85	Siom	H26, ii, 75 (Vet) P49, 12 (LIWM)
92	Achau Hiraeth	H26,ii,29 (Vet), P49, 75 (HLA)
96	Blinder	H26,ii,70 (Vet)
98	Dewis Un o Bedair	H26,ii,64 (Vet), P49,100 (Vet)
99	Pererindod Merch	H26,ii,128 (Vet), P49, 131 (Vet)
106	Edifeirwch	H26,ii,106 (Vet), P49, 120 (Vet)
108	Y Galon	H26,ii,55 (Vet)
111	Y Gwayw	H26,ii,44 (Vet), P49, 90 (Vet)
113	Cyrchu Lleian	H26,ii,68 (Vet), P49, 102 (Vet)
117	Y Gwynt	H26,ii,60 (Vet), P49, 2 (LIWM)
118	Yr Wylan	H26,ii,125(Vet), P49, 128 (Vet)
121	Y Deildy	H26,ii,84 (Vet), P49,107 (Vet)
122	Offeren y Llwyn	H26,ii,84 (Vet), P49, 109 (Vet)
128	Athrodi ei Was	H26,ii 25 (Vet), P49, 35 (LIWM), P49, 71 (HLA),
129	Y Wawr	H26,ii,40 (Vet) P49,26 (LIWM)
134	Niwbwrch	H26,ii,47 (Vet), P49, 91 (Vet)
135	Lladrata merch	H26,ii,62 (Vet), P49,98 (Vet)
137	Y Bardd a'r Brawd Llwyd	H26,ii,118 (Vet), P49, 123 (Vet)
141	Ei Gysgod	H26,ii,130 (Vet), P49,133 (Vet)
144	Yr Adfail	H26,ii,127 (Vet), P49, 130 (Vet)
146	Disgwyl yn Ofer	H26,ii,82 (Vet), P49, 108 (Vet)
CYFANSWM = 60		

Ni restrwyd yma y cerddi o'r llawysgrifau hyn a wrthodwyd o'r canon.

Cerddi'r canon nad ydynt yn ymddangos yn llawysgrifau'r 15fed ganrif nac yn Llyfr Wiliem Mathew, Hen Lyfr Arall a'r Vetustus fel y'u ceir yn Peniarth 49 a Hafod 26

(nodir y rheiny sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26 gan eu bod yn berthnasol i'r drafodaeth sy'n dilyn yn rhannau nesaf y traethawd)

TABL III

Rhif yn GDG	Teitl	Ffynonellau
2	Englynion yr Offeren	
6	Englynion i Ifor Hael	H26,ii,190
11	Marwnad Ifor a Nest	
14	I Ieuan Llwyd o Enau'r Glyn	
17	Marwnad Rhydderch	
23	Mis Mai	H26,ii,15
25	Yr Eos	H26,ii,13
26	Y Dylluan	
27	Mawl i'r Haf	H26,ii,148
39	Y Breuddwyd	H26,ii,152
57	Y Fun o Eithinfynydd	
114	Yr Ehedydd	H26,ii,184
116	Y Carw	H26,ii,151
124	Trafferth mewn Tafarn	H26,ii,2
130	Y Garreg Ateb	
138	Rhybudd y Brawd Du	H26,ii,185
139	Morfudd yn Hen	H26,ii,17
145	Caru yn y Gaeaf	H26,ii,186
CYFANSWM = 18		

Pennod 3 – Ystyried tystiolaeth y llawysgrifau

Yn y bennod flaenorol ceisiwyd mapio rhywfaint ar dystiolaeth y llawysgrifau ac mae'r tablau ar ddiwedd y bennod yn dangos y craidd o gerddi sydd i'w cael yn y casgliadau cynharaf, y cerddi sy'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy'r Vetustus, Hen Lyfr Arall a Llyfr Wiliem Mathew a'r cerddi yn y canon nad ydynt i'w cael yn yr un o'r casgliadau hynny. Y bwriad yn yr adran hon felly yw ceisio cymryd rhyw gam bach yn ôl gan ystyried dilysrwydd ac awduraeth rhai o'r cerddi hyn o'r newydd, a hynny y tu allan i ffiniau'r canon a grëwyd gan Parry.

Dywedwyd bod yna le i amau a fu Parry'n gwbl gyson yn y modd y cymhwysodd y maen prawf hwn. Yn ei nodiadau ar y cerddi unigol mae Parry'n tynnu sylw at ambell gerdd y teimla fod ei hawduraeth yn amheus, am resymau'n ymwneud â thystiolaeth y llawysgrifau, yn ogystal â rhesymau eraill yn ymwneud ag iaith ac arddull ac ati. Er enghraifft, meddai Parry am y gerdd 'Cyngor gan Frawd Llwyd' (GDG 136): 'Nid oes dystiolaeth gref i'r cywydd hwn yn y llsgrau., ac oni bai ei gael yn P48 gellid ystyried ei wrthod'.⁸⁴

Mae'r sylw hwn gan Parry'n amlygu rhywfaint o wrthdaro a gwrth-ddweud. Yn gyntaf, mae Parry'n nodi bod dystiolaeth y llawysgrifau'n wan er gwaetha'r ffaith bod y cywydd yn ymddangos yn Peniarth 48 a'r Vetustus, dwy ffynhonnell y rhoddai bwys mawr arnynt. Yn wir, mae'n nodi mai'r hyn a 'achubodd' y gerdd yw'r ffaith ei bod yn ymddangos yn Peniarth 48. Eto i gyd, roedd Parry eisoes wedi gwrthod 'Credaf i Naf o nefoedd' o'r canon er ei bod i'w chael yn y llawysgrif honno.

Yn wir, o oedi am ychydig gyda'r ddwy gerdd hyn ('Cyngor gan Frawd Llwyd' a 'Credaf i Naf o nefoedd') gwelwn eu bod yn amlygu nifer o faterion y mae angen eu hystyried wrth drafod dilysrwydd ac awduraeth cerddi.

Mae'r ddwy gerdd hyn yn ymddangos yn Peniarth 48, un o'r llawysgrifau cynharaf sydd gennym sy'n cynnwys gwaith Dafydd ap Gwilym. Gwrthodwyd y naill o'r canon, ac er bod y llall wedi'i chynnwys, mae Parry fel y gwelwyd, yn mynegi amheuaeth yn ei chylch. Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun mae Parry wedi dewis hepgor y

⁸⁴ GDG, t. 540

gerdd â'r dystiolaeth gryfaf o safbwynt y llawysgrifau ac wedi cynnwys y gerdd â'r dystiolaeth wannaf o'r ddwy. Mae hyn felly yn codi cwestiwn ynghylch gwerth y llawysgrifau cynharaf a'r dystiolaeth a geir ynddynt.

Gan droi at 'Cyngor gan Frawd Llwyd' (*GDG* 136) gwelwn fod hon yn un o ddwy gerdd yn y canon lle mae'r bardd yn ymddiddan â'r brawd llwyd, a cheir enghraifft ohono hefyd yn ymddiddan â'r brawd du ar fwy nag un achlysur. Yn sicr, yr un yw'r neges a geir yn 'Cyngor gan Frawd Llwyd' a'r gerdd ddilynol 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd' (*GDG* 137), er bod honno'n gerdd dipyn mwy cyflawn a datblygedig.

Byrdwn neges y brawd yn y ddwy gerdd yw annog y bardd i roi'r gorau i glera, mercheta a diota gan droi yn hytrach at yr eglwys. Meddai'r brawd yn 'Cyngor gan Frawd Llwyd':

Dod ar awen dy enau
Nawdd Duw, ac na ddywed au... (ll. 9-10)
Paid â bod gan rianedd,
Cais er Mair casâu'r medd. (ll. 13-14)

ac yna yn y 'Bardd a'r Brawd Llwyd', mae'r brawd yn cynghori'r bardd i dewi:

â'r cywyddau
Ac arfer o'th baderau. (ll. 25-26).

Er y tebygrwydd yn natur a neges y ddwy gerdd, nid yw Parry, yn ei ychydig nodiadau ar y gerdd, yn crybwyll y maen prawf 'dau gywydd ar yr un testun' nac yn awgrymu y gallai'r naill fod wedi dylanwadu ar y llall mewn rhyw fodd.

Mae'r 'Bardd a'r Brawd Llwyd', sy'n ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig trwy'r *Vetustus*, wedi'i datblygu'n fwy helaeth na'r gerdd gyntaf ac awgryma Parry mai darn o gerdd yn unig a geir yn 'Cyngor gan Frawd Llwyd'. Yr hyn sy'n ddiddorol nodi yw bod pedair llinell olaf y gerdd hefyd i'w cael yn y gerdd 'Edifeirwch' (*GDG* 106). Mae'n siŵr bod lle i ddadlau bod y llinellau'n fwy perthnasol yn y gerdd honno nag ydynt ar ddiwedd 'Cyngor gan Frawd Llwyd' fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd.

Fel y dangosodd Gwyn Thomas yn ei ddarlith 'Dafydd ap Gwilym: Y gŵr wrth gerdd',⁸⁵ nid yw cwpledi neu linellau crwydrol o'r fath yn beth anghyffredin yng

⁸⁵ Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: Y gŵr wrth gerdd* (Aberystwyth, 2003)

nghanu'r cyfnod na chanu Dafydd ap Gwilym. Cofiw'n i'r llinell 'Goris clust goreuwas clod' ymddangos yn y cywydd 'Breichiau Morfudd' (*GDG* 53, ll.29) ac yn 'Yr Adfail' (*GDG* 144, ll.18). Mae'n siŵr bod hyn yn deillio i raddau o drosglwyddiad llafar y cerddi y buwyd yn ei drafod yn gynharach, ond mae hefyd yn bosibl bod beirdd yn mynd ati'n fwriadol i godi llinellau a chwpledi gan feirdd eraill i'w cynnwys yn eu cerddi eu hunain neu'n adleisio eu cerddi eu hunain o bryd i'w gilydd, ac yn y ddarlith y cyfeirir ati uchod mae Gwyn Thomas yn rhestru rhai o'r adleisiau sydd i'w cael yng ngwaith Dafydd. Anodd penderfynu beth yn union yw arwyddocâd hyn yn achos y ddwy gerdd y cyfeiriwyd atynt ('Cyngor gan Frawd Llwyd' ac 'Edifeirwch').

Er bod 'Cyngor gan Frawd Llwyd' yn ymddangos yn Peniarth 48 a'r rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o'r *Vetustus*, mae Parry'n nodi nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n gadarn o'i phlaid. Yr hyn sy'n peri dryswch ac yn amlygu rhywfaint o anghysondeb yw'r ffaith fod Parry fel pe bai'n mynd allan o'i ffordd i dynnu sylw at y gerdd hon, pan fo cerddi eraill â thystiolaeth dipyn gwannach wedi eu cynnwys heb sylw o'r fath. Cymerer, er enghraifft, rai o'r cerddi hynny nad ydynt i'w cael yn yr un o'r ffynonellau cynnar y dychwelwn atynt eto cyn diwedd y drafodaeth. O edrych ar y ffynonellau a restrir ar ddiwedd y cerddi a geir yn y canon gwelir bod 'Cyngor gan Frawd Llwyd' yn rhannu'r un math o dystiolaeth ag amryw o gerddi eraill, e.e. 'Cusan' (*GDG* 133), ac eto nid yw Parry'n gwneud unrhyw sylw ynghylch tystiolaeth y llawysgrifau yn achos y gerdd honno.

Yn achos 'Cyngor gan Frawd Llwyd', yn wahanol i 'Credaf i Naf o nefoedd', mae Parry'n pwysu ar dystiolaeth Peniarth 48 yn benodol i gyfiawnhau cynnwys y gerdd yn ei gasgliad, er bod ganddo amheuan yn ei chylch, ac yn wir, anodd penderfynu beth yw gwir sail yr amheuan hynny. Mae'n amlwg fel y gwelwn, bod Parry'n teimlo bod modd cyfiawnhau diystyru tystiolaeth y llawysgrifau ar rai adegau tra'i fod yn pwysu'n drwm, os nad yn dibynnu'n llwyr arni, ar adegau eraill.

Diddorol nodi bod Parry hefyd yn mynegi amheuaeth ynghylch dilysrwydd un arall o gerddi Peniarth 48, sef 'Merch Fileinaidd' (*GDG* 101), ac eto mae'n ymddangos mai'r ffaith bod y gerdd i'w chael yn Peniarth 48 sydd wedi'i hachub. Meddai Parry:

‘Er bod y cywydd hwn i’w gael yn Peniarth 48, nid afresymol amau ei awduriaeth.’⁸⁶ Yn ei nodiadau ar y gerdd mae Parry’n nodi y gallai’r cyfeiriad at Gweirful a geir yn y gerdd fod yn arwydd mai Gruffudd Gryg oedd awdur y gerdd gan mai dyna oedd enw un o’i gariadon yntau. Mae’n bosibl fodd bynnag, bod Parry wedi camddeall ergyd y gerdd yn gymaint ag y gallai’r cyfeiriad ffafriol at Gweirful fod yn fodd o gystwyo’r ferch y cenir iddi am ei chreulondeb tuag at y bardd.

Mae’n bosibl y byddai rhai yn dadlau y dylid bod wedi cynnwys ‘Credaf i Naf o nefoedd’ yn y canon a hynny am fod tystiolaeth y llawysgrifau yn bwysicach nag unrhyw ystyriaeth arall. Rhaid cofio mai hon oedd yr unig gerdd o blith yr 8 a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym yn Peniarth 48 a gafodd ei gwrthod gan Parry. Mae Parry’n dadlau nad yw’r gerdd wedi’i phriodoli i Dafydd yn y llawysgrif hon am nad yw’r gerdd yn gyflawn yno, a’r diwedd ac felly enw’r bardd wedi’u hepgor. Mae’r gerdd fodd bynnag yn ymddangos ar ddiwedd cyfres o saith o gerddi eraill a briodolwyd i Dafydd. Ar y llaw arall, byddai eraill yn dadlau bod y ffaith bod ‘Credaf i Naf o nefoedd’ yn gerdd ‘annilys’ yn gwanhau ac yn tanseilio awdurdod Peniarth 48 ac felly’n rhoi mwy o gyfiawnhad dros wrthod ‘Cyngor gan Frawd Llwyd’ a ‘Merch Fileinaidd’ o’r canon os oes rhesymau eraill dros amau eu dilysrwydd.

Nodwyd eisoes bod y bwlch sylweddol rhwng adeg marw Dafydd ap Gwilym a dyddiad y llawysgrifau cynharaf sy’n cynnwys ei waith yn achosi anawsterau i’r rheiny sy’n ceisio astudio’r cerddi heddiw. Nid lleiaf o’r anawsterau hynny yw’r ffaith bod gwahanol llawysgrifau’n priodoli’r un gerdd i wahanol feirdd. Fel y gwelwyd, mae Daniel Huws ac eraill wedi dadlau bod hyn yn arwydd o drosglwyddiad llafar y cerddi hynny.

Yn ôl cofnodion Maldwyn⁸⁷ mae 70 o llawysgrifau’n priodoli ‘Credaf i Naf o nefoedd’ i Dafydd ap Gwilym. Yn eu plith mae Hafod 26 (ond nid y Vetustus), Peniarth 48 a’r rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest.⁸⁸ Yn ei nodiadau yntau ar y gerdd hon yn y rhestr o gerddi gwrthodedig mae Parry’n nodi ei

⁸⁶ *GDG*, t. 523

⁸⁷ Cofnodion Maldwyn 10/06/02

⁸⁸ Dylid nodi nad yw’r gerdd ‘Credaf i Naf o nefoedd’ yn ymddangos yn ei chyfanrwydd yn y rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest. Yr hyn a geir yn hytrach yw’r llinell gyntaf ac enw Dafydd ap Gwilym ynghyd â’r nodyn ‘cais yn y llyfr arall C.1’.

bod i'w chael dan enw Dafydd mewn 41 o lawysgrifau ac mae'n cydnabod bod rhai o'r rheiny'n llawysgrifau da. Mae hyd yn oed yn mynd mor bell â chyfaddef y byddai'n 'Anodd dychmygu gwell tystiolaeth o safbwynt y llsgrau...'.⁸⁹ Fodd bynnag, mewn llawysgrifau eraill mae'r gerdd hefyd yn cael ei phriodoli i feirdd eraill a rhaid gofyn felly beth yw arwyddocâd a goblygiadau hyn i unrhyw drafodaeth yn ymwneud ag awduraeth?

Cyfeiriwyd eisoes at y duedd erbyn yr 17eg ganrif a'r 18fed ganrif (a chyn hynny), i briodoli i Dafydd unrhyw gywydd yn ymwneud â serch a natur, ond beth felly am y gerdd hon? Dyma gerdd grefyddol sy'n amlwg wedi perthyn i'r traddodiad llawysgrifol o'r cyfnod cynharaf, sef canol y 15fed ganrif.

Mae Parry'n rhoi sylw i briodoli i fwy nag un awdur yn ei ragymadrodd i'r canon ac mae'n nodi'n rhesymol ddigon, pan fydd cerdd wedi'i phriodoli i Dafydd ap Gwilym a bardd arall, ei bod hi'n fwy tebygol bod y bardd llai adnabyddus wedi colli ei gerdd i'r bardd enwocaf un. Mae Parry'n dadlau: '...fod gweld enw heblaw Dafydd wrth gywydd yn ddigon o reswm dros amau'r awduriaeth yn syth...'.⁹⁰

Dylid nodi fodd bynnag bod y canon yn cynnwys ambell gerdd a briodolwyd i fardd arall yn ogystal â Dafydd. Yn ei herthygl ar gerddi Cymraeg i leianod mae Helen Fulton, wrth drafod priodoli i fwy nag un bardd, yn nodi i Parry gynnwys 'Tri Phorthor Eiddig' (*GDG* 80) yn y canon er i'r gerdd honno gael ei phriodoli i Bedo Brwynllys mewn saith llawysgrif, gan gynnwys Llanstephan 6 ac meddai:

...so it is not impossible for a poem to have other attributions and yet still be regarded as a genuine Dafydd ap Gwilym poem...⁹¹

Lle bo cerdd yn cael ei phriodoli i fwy nag un bardd felly, gwelir bod prosesau eraill yn cael eu rhoi ar waith wrth geisio torri'r ddadl o blaid y naill fardd neu'r llall. Yn gyntaf, rhaid ceisio asesu statws a gwerth y llawysgrifau sy'n priodoli'r gerdd i fardd arall. Yn ail, fel y nododd Parry, rhaid pwysu'n drymach fyth ar y meini prawf eraill i weld a ydynt hwythau yn cynnig rhyw arwydd neu sicrwydd ynghylch awduraeth y gerdd dan sylw. Meddai:

⁸⁹ *GDG*, t. clxxiv

⁹⁰ *Ibid.*, t. lxxx

⁹¹ Helen Fulton, 'Medieval Welsh Poems to Nuns', *CMCS* 21 (1991), t. 92

...fe welir...mai cyfyngedig yw gwerth astudio'r llsgrau. i bennu awduriaeth neu destun, a rhaid cyfnerthu'r astudiaeth hon ag ystyriaethau eraill.⁹²

Yn rhan o'r broses hon rhaid ceisio cymharu'r gerdd â cherddi eraill y mae eu hawduraeth yn fwy sicr, hynny yw, cerddi y gellir bod yn bur siŵr mai Dafydd ap Gwilym yw eu hawdur a cherddi'r bardd arall y priodolwyd y gerdd iddo. A'r cwestiwn sydd wrth wraidd y traethawd hwn wrth gwrs yw a oes yna graidd o gerddi y gellir bod yn bur siŵr mai Dafydd ap Gwilym yw eu hawdur (boed hwnnw'n graidd o gerddi cynnar, yn graidd o gerddi poblogaidd, neu'n graidd o unrhyw fath arall)? At hynny, mae'r dasg o gymharu yn un anodd a llai defnyddiol os nad oes llawer o gerddi wedi'u cadw ar enw'r bardd arall, er mae'n siŵr y gallai hynny ynddo'i hun fod yn arwyddocaol. Pa mor debygol yw hi y byddai cerdd yn cael ei chambriadoli i fardd anadnabyddus ac anghyfarwydd?

Mae Parry'n nodi bod 'Credaf i Naf o nefoedd' wedi'i phriodoli i Huw Arwystl, Dafydd Llwyd a Ieuan Brydydd. Beth felly yw statws a gwerth y llawysgrifau sy'n priodoli'r gerdd i'r beirdd hyn? O'u rhoi at ei gilydd, mae amryw o llawysgrifau'n priodoli'r gerdd i un o'r tri bardd arall, ond ni cheir enghraifft o'r gerdd ar enw'r un o'r tri ymysg y casgliadau 'cynnar' y buwyd yn eu trafod yn y bennod flaenorol.

Yn ôl cofnodion Maldwyn⁹³ mae tair ffynhonnell yn priodoli'r gerdd i Dafydd Llwyd o Fathafarn, sef Cw 454, Gwyneddon 2 a Llanstephan 155. O'r tri bardd arall y priodolir y gerdd hon iddynt, hwn yw'r un sydd agosaf at gyfnod Dafydd. Mae'r *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*⁹⁴ yn cynnig y dyddiadau c. 1395-1486 ar ei gyfer. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos mai dwy llawysgrif yn unig (sef Caerdydd 84 a Llanstephan 117), sy'n priodoli'r gerdd i Ieuan Llwyd Brydydd, bardd a oedd yn canu yn ystod chwarter olaf y 15fed ganrif, canrif a mwy efallai ar ôl cyfnod Dafydd ap Gwilym. Gwelir bod yr enw Llwyd yn ymddangos yn enwau'r ddau fardd hyn ac o gofio bod un o'r cerddi cynharaf o eiddo Dafydd ap Gwilym a geir yn llawysgrif Hendregadredd wedi'i chofnodi dan yr enw 'Dafydd Llwyd fab Gwilym Gam', a fyddai hyn yn cynnig rhyw esboniad am y dryswch a'r cambriadoli posibl?

⁹² GDG, t. lxxviii

⁹³ Cofnodion Maldwyn 30/12/02

⁹⁴ *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Adargraffiad diwygiedig, Caerdydd, 1992), t. 132

Mae rhyw 8 ffynhonnell llawysgrif yn priodoli'r gerdd 'Credaf i Naf o nefoedd' i Huw Arwystl. Eto yn ôl y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*⁹⁵, roedd Huw Arwystl yn ei flodau rhwng 1542-78, sef dwy ganrif ar ôl cyfnod Dafydd ap Gwilym. Anodd meddwl erbyn heddiw bod yr un gerdd yn cael ei phriodoli i dri bardd gwahanol a oedd yn canu mewn tair canrif wahanol. Dylid nodi hefyd bod y gerdd wedi'i chofnodi yn Peniarth 48 ymhlith y gyfres honno o gerddi a briodolwyd i Dafydd bron i ganrif cyn i Huw Arwystl ddechrau ar ei yrfa fel bardd.

O edrych yn fryslog arni felly, teg fyddai casglu nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n pwysu'n drwm o blaid yr un o'r tri bardd arall. Rhaid felly dychwelyd at y cwestiwn pa mor awdurdodol yw'r llawysgrifau cynnar a faint o werth y gellir ei roi arnynt wrth geisio pennu awduraeth? Er bod 'Credaf i Naf o nefoedd' wedi ei phriodoli i Dafydd yn Llyfr Gwyn Hergest a'i bod ymhlith cerddi eraill a briodolwyd iddo yn Peniarth 48, ac er nad oes yr un llawysgrif gynnar arall yn priodoli'r gerdd i fardd arall, dewisodd Parry hepgor y gerdd o'i gasgliad. Onid yw'n debygol bod Peniarth 48 a Llyfr Gwyn Hergest yn ffynonellau sicrach a mwy awdurdodol na'r llawysgrifau sy'n priodoli'r gerdd i'r beirdd eraill?

Yn ei nodiadau arni, mae Parry'n nodi bod rhai o nodweddion eraill y gerdd yn awgrymu ei bod yn perthyn i gyfnod diweddarach na Dafydd ap Gwilym: '...y mae odli *gwedi* a *cyfodi*, a'r arddull ddisangiad a'r cyfartaledd isel o gynganeddion Sain yn awgrymu'n gryf mai cynnyrch cyfnod diweddarach na DG ydyw'.⁹⁶ Mae'n amlwg felly i Parry deimlo ar yr achlysur hwn bod y meini prawf eraill hyn yn dystiolaeth fwy cadarn a dibynadwy na thystiolaeth y llawysgrifau.

Ond o oedi am ychydig gyda'r pwynt ynghylch cyfartaledd isel y cynganeddion sain, gwelwn fod T. D. Crawford yn ei erthygl yntau ar y gynghanedd sain yng ngwaith Dafydd ap Gwilym⁹⁷ yn cofnodi 28% o gynganeddion sain yn y gerdd hon. Mae ffigurau T. D. Crawford hefyd yn dangos bod i amryw o'r cerddi yng nghasgliad Thomas Parry gyfartaledd is o gynganeddion sain; yn wir mae gan 25 o gerddi gyfartaledd tebyg neu is ac yn eu plith 'Cyngor gan Frawd Llwyd' (er mae'n rhaid cofio mai cwta 20 llinell yw'r gerdd fel y'i cofnodwyd yn *Gwaith Dafydd ap*

⁹⁵ *Ibid.*, t. 284

⁹⁶ *GDG*, t. clxxiv

⁹⁷ T.D. Crawford, 'Cyfartaledd y Gynghanedd Sain yng Nghwyddau Dafydd ap Gwilym', *YB XII* (1982), tt. 131-142

Gwilym). Teg gofyn felly a oedd Parry'n iawn i bwysu ar feini prawf o'r fath ar draul tystiolaeth y llawysgrifau?

Cerdd arall y mae Parry'n tynnu sylw penodol ati yw 'Caru yn y Gaeaf' (*GDG* 145).⁹⁸ Yn ei nodiadau arni meddai: 'Nid cryf y dystiolaeth o blaid y cywydd hwn. Ni ddigwydd gan John Davies yn P49 nac yn yr un o Isgrau. Llywelyn Siôn. Fe ddichon yn hawdd mai gwaith un o efelychwyr DG ydyw'.⁹⁹ Yn wir, o edrych ar y tablau ar ddiwedd y bennod flaenorol, gwelwn fod hon yn un o'r cerddi nad yw ar gael yn yr un o'r llawysgrifau cynnar. Mae'r ffynonellau a restrir gan Parry'n dangos bod y gerdd i'w chael yn y rhan honno o Hafod 26 nad yw'n rhannu'r un gynsail â'r *Vetustus* a lle ceir nifer o gerddi a gambriodolwyd i Dafydd ap Gwilym. Mae Parry hefyd wedi dangos, trwy gymharu darlenniadau, bod nifer o'r ffynonellau, megis *Bl e i*, *Llanstephan 133* a *Mostyn 212* hefyd yn perthyn yn agos i'w gilydd. Sut felly mae cyfiawnhau cynnwys y gerdd hon yn y canon a gwrthod cerdd fel 'Credaf i Naf o nefoedd'?

Fel y nodwyd eisoes, mae Parry'n nodi nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n ddigon ynddi'i hun i bennu awduraeth a gwelwn yn achos y gerdd hon fod rhaid pwysu'n drymach ar y meini prawf eraill.

Mae'r gerdd yn perthyn o ran ei thema a'i naws i'r grŵp o gerddi 'rhwyrstr' a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym, cerddi megis 'Y Ffenestr' (*GDG* 64), 'Tri Phorthor Eiddig' (*GDG* 80), 'Dan y Bargod' (89) a 'Y Cwt Gwyddau' (*GDG* 126). Ym mhob un o'r cerddi hyn mae yna ryw rwystr rhwng y bardd a'r ferch. Fel y dangosodd Dafydd Johnston yn ei drafodaeth 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym',¹⁰⁰ mae'r syniad yma o rwystr yn cael ei gyfleu trwy'r ymadrodd 'Am...â...'. Yn 'Dan y Bargod' meddai'r bardd wrth y ferch wrth edliw iddi'r drws cloëdig a oedd yn ei ddisgwyl:

Mau wal am y wialen
Â thi, rhaid ym weiddi, wen (ll. 13-14).

⁹⁸ Tybed a oes arwyddocâd i'r ffaith bod sawl un o'r cerddi sydd am wahanol resymau yn amheus yn nhyb Parry yn ymddangos tua diwedd y casgliad (gweler cerddi 125, 129, 130, 136, 145, 146)?

⁹⁹ *GDG*, t. 547.

¹⁰⁰ David Johnston, 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym', *CMCS* 5 (1983), tt. 1-19

Ceir enghraifft bellach o'r adleisio y cyfeiriwyd ato eisoes wrth i'r llinell 'Am y maenfur â meinferch' ymddangos yn 'Tri Phorthor Eiddig' a 'Caru yn y Gaeaf' (*GDG* 80, ll. 56, *GDG* 145, ll. 14).

Ym mhob un o'r cerddi hyn mae ymdrech y bardd i gyrraedd y ferch yn chwethinllyd o aflwyddiannus. Yn 'Caru yn y Gaeaf', fel yn y gerdd enwocaf un, 'Trafferth mewn Tafarn' (*GDG* 124) (y dychwelir ati eto cyn diwedd y traethawd), mae'r arddull sangiadol yn gymorth i gyfleu'r cyffro a'r symud wrth i wŷr y ferch synhwyro bod rhyw ddrygioni ar droed:

Cynt y clybu, bryd cytun,
Gerwin fu, y gŵr no'i fun...(ll.32-33)
Dug am fy mhen, daith enbyd,
Dorf o gas y dref i gyd. (ll.43-44).

Mae'r bardd yn gorfod cilio i'r coed, ond am mai gaeaf ydyw nid oes yno ddim i'w gysgodi:

Nithiodd y gaeaf noethfawr
Dyli las, y dail i lawr. (ll. 61-62).

Mae hyn eto yn cyd-fynd â syniadaeth Dafydd am y gaeaf a'r haf y rhoddir mwy o sylw iddi yn y man; mae'r naill yn dymor 'dig du/A gerydd i bawb garu' (*GDG* 69, ll.31-32) a'r llall yn 'Cyfaill cariad ac adar' (*GDG* 69, ll.5).

Er gwaethaf tystiolaeth y llawysgrifau felly, mae elfennau eraill megis arddull, thema a syniadaeth fel pe baent yn cefnogi'r ddadl mai Dafydd yw awdur y gerdd. Y perygl yw wrth gwrs bod ein syniadau am arddull, themâu a syniadaeth ei ganu wedi'u diffinio i raddau helaeth gan gynnwys y canon a'n bod yn defnyddio'r canon i lunio rhestr o nodweddion canu Dafydd.

Mae'r cywydd 'Y Fun o Eithinfynydd' (*GDG* 57) yn wahanol eto. Unwaith eto, gwelwn Parry'n mynegi amheuaeth ynghylch awduraeth y gerdd hon a gwelir mai gwan iawn yw tystiolaeth y llawysgrifau o'i phlaid. Yn wir, mae'n wannach na'r hyn a geir o blaid 'Caru yn y Gaeaf'. Nid yw'n ymddangos yn Peniarth 49 nac yn yr un o'r casgliadau cynnar eraill. Fodd bynnag, yn wahanol i 'Caru yn y Gaeaf' gwelir, o droi at y meini prawf eraill, mai bach iawn o bwysau y maent hwythau yn ei ychwanegu i'r ddadl mai Dafydd ap Gwilym yw gwir awdur y cywydd hwn.

Fel y noda Parry mae iaith ac arddull y gerdd yn syml drwodd ac ni cheir y torymadroddi na'r geiriau cyfansawdd y tybir eu bod yn nodweddu gwaith Dafydd ap Gwilym. Mae'r ailadrodd cyson o'r rhagenw dibynnol blaen 'fy' ar ddechrau'r gerdd yn dwyn i gof farwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab bychan. Wrth reswm, nid oes yn y cywydd serch hwn yr un ing ac angerdd ag a geir ym marwnad y tad i'r mab ond yr un yw'r arddull a'r delweddu syml:

Fy ngwynfyd rhag trymfryd tranc,
Fy nwywes addfwyn ieuanc,
Fy nrych llewych mewn lliwaur,
Fy rhan yw, fy rhiaian aur... (GDG 57, ll. 5-8)

Yn ogystal, mae yna ambell beth ynghylch cynganeddion y gerdd hon sydd hefyd yn codi cwestiwn ynghylch ei dilysrwydd fel un o gerddi Dafydd. Fel y nodwyd ar ddechrau'r traethawd, mae Parry yn ei ragymadrodd i'r casgliad, ac mewn erthyglau eraill yn rhoi cryn sylw i ddatblygiad y gynghanedd yn ystod cyfnod y cywyddwyr a thynnwyd sylw eisoes at y modd yr honnodd Parry na cheir yr un enghraifft o'r gynghanedd groes o gyswllt yng ngwaith Dafydd ap Gwilym: 'Ni sylwais ar yr un enghraifft ynghanol y ganrif, ac nid oes dim un yng ngwaith dilys Dafydd ap Gwilym'.¹⁰¹ Gwelwyd hefyd bod Parry hyd yn oed yn mynd mor bell â gwrthod cerdd o'r canon am fod ynddi enghraifft o'r gynghanedd groes o gyswllt, gweler er enghraifft rif 138 yn y rhestr o gerddi gwrthodedig. Fodd bynnag, mae Saunders Lewis wedi dadlau yn ei erthygl ar Dafydd ap Gwilym yn *Llên Cymru* II, bod yn 'Y Fun o Eithinfynydd' ddwy enghraifft o'r gynghanedd groes o gyswllt:

Nid adwaeniad odineb,
Ni fynnai 'nyn fi na neb. (GDG 57, ll. 21-22)

Mae'r amheuan ynghylch cynganeddion y gerdd hon yn cael eu cadarnhau ymhellach gan yr ymchwil ddiweddaraf. Yn ei erthygl ar y gynghanedd yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym, mae Peredur Lynch yn mynd ati i ddadansoddi'r cynganeddion yng ngwaith Dafydd ap Gwilym mewn pedair llawysgrif, sef Peniarth 57 (rhan i), Peniarth 48, Peniarth 54 a Peniarth 49 (Llyfr Gwyn Hergest), ac ar sail y dadansoddiadau hynny mae'n casglu bod yn 'Y Fun o Eithinfynydd':

...rai hynodion mydryddol na cheir mohonynt yn y cywyddau cynharaf o eiddo Dafydd ap Gwilym a roed ar glawr. Ceir ynddo enghraifft gwbl reolaidd o'r gynghanedd groes o gyswllt, math ar gynghanedd na cheir

¹⁰¹ GDG, t. xcvi

enghraifft sicr ohoni yn nhestunau'r pedair llawysgrif. Yn fwy arwyddocaol efallai, ni cheir yn y cywydd yr un enghraifft o'r gynghanedd lusg, cynghanedd y ceir enghreifftiau ohoni ym mhob un testun a ddadansoddwyd...¹⁰²

Ond er gwaethaf y dystiolaeth yn erbyn y gerdd hon mae'n amlwg bod Parry wedi dewis ei chynnwys a hynny hwyrach oherwydd y cyfeiriadau a geir ynddi at Morfudd. Mae hyn hefyd yn codi ambell gwestiwn. Yn y lle cyntaf, gwrthodwyd amryw o gerddi a oedd yn cynnwys enw Morfudd (er enghraifft, cerddi 22 a 169 yn y rhestr o gerddi gwrthodedig). At hynny, mae'n debygol iawn bod rhai beirdd wedi mynd ati'n fwriadol i ffugio gwaith Dafydd ap Gwilym. Y peth amlycaf i'w wneud wrth geisio efelychu gwaith Dafydd fyddai cynnwys cyfeiriad at Morfudd. Cymerer er enghraifft y llinellau ychwanegol sydd i'w cael mewn rhai copïau o'r gerdd 'Cyngor gan Frawd Llwyd' (*GDG* 136); ai enghraifft sydd yma o rywun yn mynd ati i ffugio gwaith Dafydd ap Gwilym (neu ychwanegu ato yn yr achos hwn) ac yn cynnwys enw Morfudd yn fwriadol? Yr hyn sy'n ddiddorol am y ddau gyfeiriad a geir at Morfudd yn 'Y Fun o Eithinfynydd', yw bod y naill yn cael ei gadarnhau gan y gynghanedd a'r llall ddim.

Mae lleoliad Eithinfynydd, a goblygiadau posibl hynny o safbwynt cynorthwyo i bennu awduraeth, wedi bod yn destun trafod gan rai beirniaid. Yn wir, yn ei erthygl 'The Literary Tradition to c.1560'¹⁰³, mae G. Aled Williams yn honni bod y drafodaeth ar leoliad Eithinfynydd wedi profi bod yr amheuon ynghylch awduraeth y gerdd hon yn ddi-sail, ac mae'n cyfeirio'n benodol at nodiadau gan E. I. Rowlands a ymddangosodd yn *Llên Cymru* VI.¹⁰⁴ Wedi darllen y nodiadau hynny fodd bynnag, anodd cytuno eu bod yn cynnig ateb digonol i'r amheuon ynghylch awduraeth y gerdd. Y cyfan a wneir yn y nodiadau hyn, sy'n trafod ai o Fôn neu o Feirionydd y deuai Morfudd, yw gwneud y cysylltiad rhwng y cyfeiriad a geir yn y gerdd 'Cystudd y Bardd' (*GDG* 102) at Ynyr (gan gymryd mai Ynyr Nannau a olygir), a'r ffaith bod y fferm Eithinfynydd wedi'i lleoli gerllaw Nannau. Mae E. I. Rowlands hefyd yn dadlau ymhellach bod traddodiad o'r deunawfed ganrif yn lleoli Morfudd yn Mryn-y-llyn, sydd hefyd yn yr un ardal. Ar y gorau, yr hyn a wna'r nodiadau yw

¹⁰² Peredur I. Lynch, 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym', yn Iestyn Daniel *et al.* (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), t. 137

¹⁰³ Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c.1560', yn J. Beverley Smith a Llinos Beverley Smith (goln), *History of Merioneth II* (Cardiff, 2001), tt. 507-628

¹⁰⁴ E. I. Rowlands, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru* VI (1960-1), tt. 105-108

ychwanegu pwysau at y ddadl bod Morfudd yn hanu o ardal Nannau, ac nid ydynt yn ychwanegu rhyw lawer at y dadleuon ynghylch awduraeth y gerdd hon. Wedi'r cyfan, oni allai'r gerdd fod wedi'i llunio gan ffugiwyr a oedd yn gyfarwydd â'r traddodiad a oedd yn cysylltu Morfudd â'r ardal?

Cerdd arall sy'n darlunio pa mor gymhleth ac ansicr yw tystiolaeth y llawysgrifau yw 'Yr haul deg ar fy neges'. Yn ôl cofnodion Maldwyn,¹⁰⁵ priodolwyd y gerdd hon i 6 o wahanol feirdd, yn eu plith Dafydd ap Gwilym a Iolo Goch, dau o'r cywyddwyr mwyaf adnabyddus.

Noda Parry fod 9 llawysgrif o blaid Dafydd ap Gwilym, 11 o blaid Gruffudd Llwyd, 4 o blaid Iolo Goch ac 1 o blaid Ieuan ap Gruffudd Gwent. Ond, fel y crybwyllwyd eisoes, nid nifer y copïau sy'n bwysig, ond yn hytrach ansawdd ac awdurdod y copïau hynny.

Mae'r gerdd i'w chael mewn dwy o'r llawysgrifau cynharaf sef Peniarth 54 a Peniarth 57. Nodwyd eisoes bod rhyw ganrif rhwng cyfnod Dafydd ap Gwilym a dyddiadau'r llawysgrifau cynharaf hyn; ni waeth am hynny, mae'n amlwg bod y deng mlynedd ar hugain sydd rhwng dyddiadau Peniarth 54 a Peniarth 57 yn hen ddigon o amser i awduraeth cerdd fynd yn ansicr gan i'r ddwy briodoli'r gerdd i wahanol feirdd.

Yn Peniarth 54, mae 'Yr haul deg ar fy neges' ymhlith 23 o gerddi sydd wedi'u priodoli i Dafydd ap Gwilym. Mae'r rhain yn cynnwys cerddi megis 'Basaleg', 'Merched Llanbadarn', 'Y Don ar Afon Dyfi' a 'Caer Rhag Cenfigen'. Fodd bynnag, mae Parry'n dewis gwrthod dwy o'r cerddi hyn o'r canon, sef 'Yr haul deg ar fy neges' a 'Gwae fi o gariad gwiw fun'. Eto rhaid gofyn pa oblygiadau sydd gan y cerddi gwrthodedig hyn i awdurdod y llawysgrif ac o ganlyniad i'r cerddi hynny a gynhwyswyd yn y canon?

Trafodwyd eisoes y ddwy ran annibynnol sy'n ffurfio llawysgrif Peniarth 57 ac mae rhan gyntaf y llawysgrif, sy'n cynnwys 5 o gerddi a dderbyniwyd i'r canon, yn

¹⁰⁵ Cofnodion Maldwyn 17/02/03

priodoli 'Yr haul deg ar fy neges' i Ieuan ap Gruffudd Gwent, bardd nad oes yr un cywydd arall wedi'i gadw ar ei enw. Fel y crybwyllwyd eisoes mae gweld cerdd wrth enw bardd anadnabyddus yn codi cwestiynau amlwg; meddai Helen Fulton:

It could be argued that, since Ieuan ap Gruffudd Gwent is such an obscure poet, there would be no reason to attribute the poem to him unless it were actually his.¹⁰⁶

Mae'n amlwg felly bod un, os nad dwy, o'r llawysgrifau cynnar hyn wedi priodoli'r gerdd i'r bardd anghywir. Dyma ddangos unwaith eto nad yw'r llawysgrifau cynnar yn awdurdod di-ffael o bell ffordd a go brin bod modd penderfynu ai Peniarth 54 ynteu Peniarth 57 sydd fwyaf awdurdodol.

Yr hyn sy'n ddidorol nodi wrth gwrs yw bod y darn hwn o Peniarth 54, fel yr awgrymwyd gan Daniel Huws,¹⁰⁷ wedi ei ysgrifennu gan Gwilym Tew a oedd ei hun yn fardd. Fel y nododd Daniel Huws yn ei erthygl ar y traddodiad llawysgrifol mae'n siŵr y byddai gan fardd fynediad i unrhyw draddodiad ysgrifenedig a llafar a fodolai. A yw hyn yn rheswm dros gredu felly y byddai ei gofnodion yntau'n fwy cywir na'r llawysgrifau eraill ynteu ai arwydd sydd yma bod hyd yn oed bardd a oedd yn gyfarwydd â'r traddodiad barddol yn methu gwahaniaethu'n gywir rhwng gwaith dilys Dafydd ap Gwilym a gwaith beirdd eraill? Teg nodi fodd bynnag bod yna ryw ganrif rhwng cyfnod Gwilym Tew a chyfnod Dafydd ap Gwilym.

Didorol nodi hefyd bod ymchwilwyr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd wedi anwybyddu tystiolaeth y ddwy lawysgrif gynharaf ac wedi priodoli'r gerdd i Gruffudd Llwyd sef y bardd yr oedd Parry'n ei ffafrio fel yr awdur tebygol. Yn y nodiadau ar y gerdd yn y gyfrol *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*¹⁰⁸ cyfeirir at erthygl gan T. Roberts sy'n awgrymu bod tystiolaeth mewn dau gywydd arall sy'n profi mai Gruffudd Llwyd yw awdur y cywydd hwn.¹⁰⁹

Er mai yn gymharol frysiog y mae Parry'n egluro'i resymau dros wrthod 'Yr haul deg ar fy neges,' mae ei ddadleuon neu ei resymeg yn ymddangos yn eithaf simsan a heb fod yn rhyw wyddonol iawn. Digon teg honni bod rhywrai o bosibl wedi

¹⁰⁶ DGA, t. 229

¹⁰⁷ Gweler troednodyn 78

¹⁰⁸ *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)

¹⁰⁹ Ymddangosodd yr erthygl 'Cywydd gyrru'r haul i Forgannwg' yn *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* (1921-3), tt. 235-7

cambriodoli'r gerdd i Dafydd ap Gwilym oherwydd bod y cyfeiriadau at Forgannwg yn creu'r cyswllt ag Ifor Hael y bu Dafydd yn canu iddo. Fodd bynnag, go sigledig, yn fy marn i, yw'r awgrym bod y gerdd wedi'i chambriodoli i Ieuan ap Gruffudd Gwent oherwydd 'mai Gwent yw'r dalaith nesaf at Forgannwg'.¹¹⁰ Fel y nododd Fulton, roedd Gruffudd Llwyd yn hanu o Bowys ac felly gellid dadlau ei fod yn annhebygol o fod wedi canu cerdd o fawl i Forgannwg. Cofiwn i Parry ddefnyddio dadl o'r fath wrth wrthod yr englynion i'r 'Grog o Gaer' fel gwaith dilys Dafydd ap Gwilym gan ei fod o'r farn na fyddai Dafydd wedi canu cerdd i Gaer (Chester), a hefyd wrth wrthod 'Cywydd y Brithyll' lle mae'r bardd yn ei alw ei hun yn 'groyw awdur o Fôn', er rhaid cydnabod bod cyfeirio at gynefin yn y modd hwn ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yn y cywydd 'Yr haul deg ar fy neges'.

Yn achos 'Yr haul deg ar fy neges', felly, mae tystiolaeth y naill llawysgrif gynnar yn gwrth-ddweud ac yn gwanhau tystiolaeth y llall. Ond a oes modd creu dadl dros awdurdod unrhyw un o'r llawysgrifau cynnar; hynny yw, a ellid honni bod pob cerdd a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym yn unrhyw un o'r llawysgrifau cynnar yn waith dilys y bardd hwnnw?

Rhodddwyd eisoes sylw i Peniarth 48 lle mae Parry'n dewis gwrthod un gerdd o blith yr 8 a briodolwyd i Dafydd. Ceisiwyd dangos uchod bod hyn mewn gwirionedd yn creu mwy o anawsterau i Parry wrth iddo wedyn fynd ati i gyfiawnhau cynnwys cerdd yn y canon ar sail y ffaith ei bod yn Peniarth 48.

Cyfeiriwyd hefyd at Peniarth 54, lle cambriodolwyd, ym marn Parry, 'Yr haul deg ar fy neges' i Dafydd. Yn ogystal mae Parry'n dewis hepgor 'Gwae fi o gariad gwiw fun' o'r canon er ei fod yn ôl ei gyfaddefiad ei hun yn y llawysgrifau gorau a hynaf i gyd a'i fod yn gywydd da. Mae Parry'n casglu mai Madog Benfras a gyfansoddodd y gerdd hon a'i bod yn rhyw fath o gymar i'r gerdd 'Yr Eos' (*GDG* 25), er nad yw'n ymddangos i'r ddwy gerdd gylchredeg gyda'i gilydd am nad ydynt i'w cael yn yr un llawysgrifau.

¹¹⁰ *GDG*, t. lxxx

Dylid nodi bod Dafydd Johnston hefyd wedi mynegi amheuaeth ynghylch y cywydd ‘Penwisg Merch’ (*GDG* 44) sydd i’w gael yn Peniarth 54.¹¹¹ Mae’r cywydd hefyd i’w gael yn y rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr Wiliem Mathew. Yn y fan honno mae’r gerdd wedi’i lleoli nesaf at y cywydd ‘Y ferch a gar ruddell fain’ sydd bellach wedi’i phriodoli i Llywelyn Goch. Mae Dafydd Johnston wedi dangos bod llinellau 7-8 ‘Penwisg Merch’ hefyd i’w cael mewn rhai copïau o Farwnad Lleucu Llwyd, gan beri iddo amau mai Llywelyn Goch yw awdur y cywydd hwn hefyd. Os gwir hynny, mae’n tanseilio awdurdod Peniarth 54 ymhellach.

Wrth drafod amrywiol adrannau Peniarth 49 yn rhan flaenorol y traethawd, nodwyd bod wyth cerdd wedi’u codi o ffynhonnell a elwir yn Hen Lyfr Arall, nas gwyddys dim byd arall yn ei chylch. Mae pob un o’r cerddi hyn, sef ‘Athrodi ei Was’ (*GDG* 128), ‘Yr Het Fedw’ (*GDG* 59), ‘Y Cyffyllog’ (*GDG* 61), ‘Y Llwyn Celyn’ (*GDG* 29), ‘Achau Hiraeth’ (*GDG* 92), ‘Y Llwynog’ (*GDG* 22), ‘Basaleg’ (*GDG* 8) ac ‘Ymado ag Ifor Hael’ (*GDG* 10), wedi’u cynnwys yn y canon. Wrth reswm, am nad yw’r ffynhonnell hon bellach ar gael i ni, does dim modd i ni wybod a oedd hefyd yn cynnwys rhai cerddi ‘annilys’.

Beth felly am Peniarth 57? Fel y nodwyd eisoes, mae dwy ran i Peniarth 57. Y rhan gyntaf yw’r rhan gynharaf ac mae Parry’n dewis cynnwys yn ei ganon y 5 cerdd a briodolir i Dafydd yn y rhan hon o’r llawysgrif. Dyma felly yw’r unig ‘gasgliad’ awdurdodol yn nhyb Parry. Ond cofiwn y drafodaeth ynghylch y gerdd ‘Yr Haul Deg ar fy Neges’ a’r posibilrwydd bod y rhan hon o Peniarth 57 yn cambriodoli’r gerdd honno i Ieuan ap Gruffudd Gwent.

Mae ail ran y llawysgrif yn ddiweddarach ac o’r saith cerdd a briodolir i Dafydd ap Gwilym mae Parry’n dewis gwrthod 3 ohonynt. Mae’r gerdd wrthodedig gyntaf, ‘Caru’r wyf pwy a’i cerydd’, wedi’i hargraffu fel gwaith Dafydd ab Edmwnd ac mae Thomas Parry o’r farn bod y gerdd yn ‘bur annhebyg i ddull DG’.¹¹² Priodolwyd yr ail gerdd, ‘Fy swydd ers llawer blwyddyn’, i Bedo Brwynllys a Dafydd ab Edmwnd yn ogystal â Dafydd ap Gwilym ac fe’i cyhoeddwyd yn *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*.

¹¹¹ Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition’, *Studia Celtica* XXXVII (2003), t.154

¹¹² *GDG*, t. clxxiii

Meddai Parry eto: ‘... Y mae’n llawer rhy rwydd i fod yn waith DG’.¹¹³ Yn Peniarth 57 mae’r gerdd ‘Dydd da i’r gog serchogfwyn’ yn ddienw, ond heblaw hynny, dim ond wrth enw Dafydd ap Gwilym y mae’r gerdd yn ymddangos a hynny mewn rhyw 20 o llawysgrifau. Noda Parry fod arddull y gerdd yn ddigon tebyg i arddull y 14eg ganrif ar y cyfan er bod nifer y cynganeddion sain yn isel yn ei farn ef. (Ceir 25% o gynganeddion sain yn ôl ffigurau T. D. Crawford sydd fel y nodwyd eisoes yn ffigur tebyg os nad uwch na’r hyn a geir mewn rhyw 15 o gerddi’r canon).

Yr hyn sy’n gwneud i Thomas Parry wrthod y gerdd yw’r ffaith bod awdur y gerdd yn sillafu enw’r ferch, rhywbeth y tybia Parry ‘...na wneir mohono yn yr un o gerddi cwbl ddilys DG’.¹¹⁴ Dyma ddarlunio i’r dim felly y perygl o ddadl gylch y cyfeiriwyd ato eisoes. Mae Parry’n dewis anwybyddu’r ffaith bod tystiolaeth y llawysgrifau a nodweddion arddull yn awgrymu’n gryf mai Dafydd yw awdur y cywydd gan ddefnyddio ei ganon ei hun i ‘brofi’ nad oedd Dafydd wedi canu cerddi tebyg. Mae’r un peth yn wir am y sylwadau a ddyfynnwyd uchod yng nghyswllt y ddwy gerdd arall lle mae Parry’n casglu bod y naill yn ‘bur annhebyg’ i arddull Dafydd a’r llall yn llawer ‘rhy rwydd’ i fod o waith Dafydd. Mae’n siŵr bod arddull yn sail ddigon cadarn i’w defnyddio i bennu awduraeth ond y drafferth yn yr achos hwn wrth gwrs yw mai canon Parry ei hun sy’n diffinio’r hyn yw (a’r hyn nad yw) arddull Dafydd ap Gwilym.

Beth felly am y cerddi a wrthodwyd o Lyfr Gwyn Hergest? Fel y nodwyd eisoes yn y drafodaeth ar y llawysgrifau, dyma un o’r casgliadau ‘mawr’ hynaf y gwyddys amdano o waith Dafydd ap Gwilym. Er ei chynhared fodd bynnag, nid yw Parry’n barod i dderbyn bod y llawysgrif hon yn gwbl awdurdodol ac mae’n dewis gwrthod 3 o’r cerddi a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym. Hwyrach mai yn achos y llawysgrif hon y mae’r ddadl gryfaf dros dderbyn dilysrwydd yr holl gerddi a briodolir i Dafydd gan nad yw dadleuon Parry dros wrthod yr un o’r tair cerdd yn argyhoeddi’n llwyr.

Cyfeiriwyd eisoes at ‘Credaf i Naf o nefoedd’ sydd hefyd yn ymddangos yn Peniarth 48 ac sydd â thystiolaeth gadarn iawn o’i phlaid o safbwynt y llawysgrifau. Yn ogystal â’r gerdd hon mae Parry’n dewis gwrthod ‘Digiais am na chawn Degau’. Yn

¹¹³ *Ibid.*, t. clxxvii

¹¹⁴ *Ibid.*, t. clxxvi

Llanstephan 186 priodolir y gerdd i Gruffudd Llwyd ac mae Parry'n barod i dderbyn yr awgrym hwnnw er bod y llawysgrif honno'n un diweddar iawn (1778). Mae'r gerdd hon eto wedi'i chyhoeddi fel atodiad yn y gyfrol *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, lle nodir bod y 'diffyg priodoliad yn y llawysgrifau...yn faen tramgwydd, ac ni ellir cymryd bod mater yr awduraeth wedi'i ddatrys'.¹¹⁵

Mae Parry hefyd yn gwrthod y cywydd 'O frithyll fyfyr ieithydd' sydd yn ôl ei gyfaddefiad ei hun yn nodweddiadol o ganu'r 14eg ganrif. Mae'n hepgor y gerdd am nad yw 'tystiolaeth y copïau yn gryf iawn'.¹¹⁶ Wedi cymharu darlleniadau mae Parry'n nodi mai 'dwy ffynhonnell sydd i'r cywydd hwn mewn gwirionedd ac ni ellir dweud fod y ddwy hyn yn gwbl annibynnol'.¹¹⁷ Unwaith eto, fel y cawn weld yn y man, mae'n ymddangos nad oes cysondeb yn y modd y mae Parry'n tynnu sylw at 'ddiffyg' tystiolaeth neu dystiolaeth 'wan' y llawysgrifau. Fel y crybwyllwyd eisoes, yn y gerdd hon mae'r bardd hefyd yn cyfeirio ato'i hun fel 'croyw awdur o Fôn' ac mae Parry'n defnyddio'r maen prawf tystiolaeth fewnol gan ddweud, 'os yw hyn i'w gymryd yn llythrennol, nid DG yw'r awdur'.¹¹⁸ Mae Parry'n holi tybed ai Gruffudd Gryg yw awdur y cywydd, a hynny, fel y nododd Helen Fulton, er gwaetha'r ffaith nad yw'r un o'r llawysgrifau'n priodoli'r gerdd iddo.

Darlun cymysglyd iawn a gawn felly o dystiolaeth y llawysgrifau ac mae'n ymddangos nad yw hyd yn oed y casgliadau cynharaf yn gwbl awdurdodol. Ar brydiau mae'r modd y defnyddiodd Parry'r dystiolaeth hon i lunio ei gasgliad hefyd braidd yn ddryslyd. Weithiau, mae'n pwyso'n drwm iawn arni, er enghraifft wrth gyfiawnhau cynnwys 'Cyngor gan Frawd Llwyd' yn y canon. Dro arall, mae'n ei hanwybyddu'n llwyr, er enghraifft wrth hepgor 'Credaf i Naf o nefoedd' a 'Dydd da i'r gog serchogfwyn'.

¹¹⁵ *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000), t. 316

¹¹⁶ *GDG*, t. clxxxii

¹¹⁷ *Ibid.*

¹¹⁸ *Ibid.*

Pennod 4 – Hafod 26

Wrth fapio cefndir y llawysgrifau yn ail bennod y traethawd, nodwyd y byddid yn dychwelyd i edrych yn fanylach ar Hafod 26, a hwyrach ei bod yn briodol gwneud hynny nawr. Os yw'r darlun a gafwyd wrth ystyried tystiolaeth y llawysgrifau cynharaf yn ddryslyd, dwysáu y mae'r anawsterau wrth fynd ati i ystyried y llawysgrif hon a ymddangosodd ychydig yn ddiweddarach.

Dangosodd Thomas Parry fod llawer o gerddi'r Vetustus hefyd i'w cael yn Hafod 26 a chasglodd bod y ddau gasgliad, (h.y. rhan olaf Peniarth 49 a Hafod 26) yn perthyn yn agos i'w gilydd er nad oedd yn tybio iddynt gael eu codi o'r un gynsail. Wrth drafod cerddi'r Vetustus fel y'u ceir yn rhan olaf Peniarth 49, meddai Parry:

Y mae'n amlwg fod perthynas bur agos rhwng y 60 cywydd hyn a rhai cywyddau yn H 26, sef y casgliad a ysgrifennwyd gan Thomas Wiliems tua 1574. Tebyg iawn yw darlleniadau'r ddwy Isgr., er nad yn ddigon tebyg i beri credu godi un o'r llall na chodi'r ddwy o'r un cynsail uniongyrchol.¹¹⁹

Fodd bynnag, o boptu'r craidd o gerddi yn Hafod 26 sy'n rhannu perthynas â cherddi'r Vetustus ceir dau gasgliad llai o gerddi sydd, yn ôl pob golwg, yn gwbl annibynnol ar y Vetustus. Y bwriad yw edrych ar gynnwys ac arwyddocâd y ddau gasgliad hynny nawr.

Gan gyfeirio at y ddau gasgliad llai ar ddechrau a diwedd Hafod 26 meddai Thomas Parry:

Ar ddechrau H 26 ceir 14 o gywyddau, 13 yn cael eu priodoli i Ddafydd ac un i Ieuan ap Tudur Penllyn. O'r rhain un yn unig a geir yn P 49, sef H 26, 1b. Y mae'n drawiadol fod saith ohonynt yn amheus eu hawduriaeth. Gellir casglu nad yw'r 13 hyn o'r un ffynhonnell â rhan ganol H 26...Yn gyffelyb am ran olaf H 26...Ceir yma 30 o gerddi ar enw Dafydd, ond ni ddigwydd yr un ohonynt yn P49, ac y mae'n drawiadol fod 17 ohonynt yn ansicr eu hawduriaeth...¹²⁰

Mae'r tabl ar ddiwedd y bennod hon yn rhestru'r cerddi a geir ar ddechrau a diwedd Hafod 26. O'r 51 o gerddi (sydd 7 yn fwy na'r hyn a awgrymir gan Parry yn y dyfyniad uchod), 17 yn unig sydd wedi'u cynnwys yn y canon a 7 yn unig sydd i'w cael yn y llawysgrifau 'cynharaf'. O'r 7 hynny, gwrthodwyd dwy o'r canon, 'Dydd da i'r gog serchogfwyn' a 'Cosbwr y marwol bechawd.' Mae'r naill yn ymddangos

¹¹⁹ *GDG*, t. cxvi-ii

¹²⁰ *Ibid.*, t. cxviii

yn Peniarth 57, ond yn ddiennw yno, ac mae'r llall yn ymddangos yn Peniarth 54, sy'n ei briodoli i Madog Benfras.

A yw'r cerddi hyn a geir ar ddechrau a diwedd Hafod 26 felly yn dystiolaeth o'r awgrym gan Daniel Huws, bod y traddodiad llafar wedi parhau'n hwy mewn rhai ardaloedd nag eraill? Mae amryw o'r cerddi hyn fel pe baent yn ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig am y tro cyntaf trwy Hafod 26 a chasgliadau cysylltiedig eraill, sydd rhyw ganrif yn ddiweddarach na llawysgrifau megis Peniarth 54, Peniarth 48, Peniarth 57 a Llyfr Gwyn Hergest a rhyw hanner canrif yn ddiweddarach na dyddiad y Vetustus. Felly er bod y Vetustus yn rhan o gynsail y gogledd, mae edrych ar gasgliadau gogleddol eraill fel Hafod 26, Caerdydd 7 a Llanstephan 120 yn dangos bod amryw o gerddi yn cylchredeg yn y gogledd nad oeddent yn rhan o'r Vetustus nac unrhyw draddodiad llawysgrifol a'i rhagflaenodd.

O edrych ar y rhestr o gerddi sydd i'w cael ar ddechrau a diwedd Hafod 26, gwelir bod yma gyfuniad go ryfedd o gerddi. Fel y nodwyd, mae rhai eisoes wedi'u cofnodi yn y casgliadau cynnar megis Llyfr Gwyn Hergest, Peniarth 54, Peniarth 57, Llyfr Wiliem Mathew (er nid o dan enw Dafydd ap Gwilym bob tro), tra bo eraill fel pe baent yn ymddangos o unman rhyw ddau gan mlynedd ar ôl ei farwolaeth. Mae rhai wedi tyfu i fod ymhlith cerddi enwocaf a mwyaf poblogaidd Dafydd, tra bo eraill bron iawn wedi mynd yn angof, a hynny am iddynt gael eu gwrthod o'r canon.

Ymhlith y cerddi sydd, i bob golwg, yn ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig yn y llawysgrif hon a chasgliadau cysylltiedig, mae cerddi megis 'Trafferth mewn Tafarn', 'Mis Mai', 'Mawl i'r Haf' a 'Morfudd yn Hen'. Rhyfedd meddwl bod y copïau cynharaf sydd gennym o'r cerddi hyn yn ymddangos ddwy ganrif a mwy ar ôl cyfnod Dafydd ap Gwilym. Tybed a fyddai'r cerddi hyn yn cael eu hystyried yn rhai o glasuron ein llên pe na bai Thomas Parry wedi'u cynnwys yn ei ganon?

Ar ddechrau'r traethawd, cyfeiriwyd at y modd y mae beirniaid llenyddol wedi seilio'u trafodaethau am waith Dafydd ar y casgliad a luniwyd gan Parry i raddau helaeth, ac wrth reswm mae rhai cerddi wedi dod yn fwy poblogaidd ac wedi cael mwy o sylw nag eraill. Yn y man, bwriedir edrych ar y casgliadau llai o waith Dafydd ap Gwilym a gyhoeddwyd ar hyd y blynyddoedd, er mwyn gweld pa gerddi

y mae'r beirniaid a luniodd y casgliadau hynny yn teimlo eu bod yn cyfleu ac yn crynhoi holl hanfod canu Dafydd ap Gwilym.

Am y tro fodd bynnag, mae'n werth oedi gyda'r cerddi hynny sydd i'w cael ar ddechrau a diwedd Hafod 26 er mwyn ystyried sut y mae Parry wedi dewis a dethol o blith y cerddi sy'n ymddangos yn y casgliadau mwy diweddar hyn, o gofio bod nifer ohonynt yn rhannu'r un math o dystiolaeth lawysgrifol.

Trafodwyd eisoes y gerdd 'Dydd da i'r gog serchogfwyn' a'r modd y mae Parry'n gwrthod y gerdd (er cyfaddef bod ei harddull yn ddigon tebyg i arddull y 14eg ganrif), a hynny am fod y bardd yn sillafu enw'r ferch, sef rhywbeth na welir mohono yn yr un o gerddi 'dilys' Dafydd ap Gwilym.

Digon tebyg yw dadleuon Parry yn achos y gerdd 'Dal neithiwr, delwi wneuthum'. Yn wahanol i 'Dydd da i'r gog serchogfwyn', nid yw'r gerdd hon wedi'i chofnodi yn yr un o'r llawysgrifau 'cynnar' ac mae'n ymddangos am y tro cyntaf yn y don newydd hon o lawysgrifau sy'n ymddangos yn y gogledd yn ystod ail hanner yr 16eg ganrif. Un o resymau Parry dros wrthod y gerdd yw'r ffaith bod un arall o'r llawysgrifau hynny, sef Caerdydd 7, yn priodoli'r gerdd i Hywel ap Dafydd.

Gan mai rhyw ddeng mlynedd yn unig sydd rhwng dyddiadau'r llawysgrifau, go brin y byddai modd penderfynu p'un ai Caerdydd 7 neu Hafod 26 sydd fwyaf awdurdodol yn yr achos hwn. Wedi dweud hynny, byddai rhai'n dadlau bod presenoldeb yr holl gerddi 'annilys' neu amheus eu hawduraeth, yn y rhan hon o Hafod 26 yn gwanhau ei hawdurdod yn sylweddol.

A dychwelyd at y cywydd ei hun, mae Parry'n ei ddisgrifio fel un 'rhagorol'. Er hynny, mae'n mynd yn ei flaen i ddweud: "Er bod yr iaith yn dra choeth, y mae'r arddull ar y cyfan yn gypledol."¹²¹ Fodd bynnag, mae edrych ar natur a chynnwys y gerdd yn mynd â ni'n ôl at rai o'r dadleuon a grybwyllwyd eisoes gan Saunders Lewis, D. J. Bowen a Helen Fulton, wrth iddynt geisio dangos bod arddull cywydd yn aml yn dibynnu ar ei destun, ei gywair a'i natur.

¹²¹ *Ibid.*, t. clxxvi

Cerdd i leian yw'r gerdd hon ac ynddi mae'r bardd yn mynegi ei rwystredigaeth bod merch mor brydferth yn gaeth dan ei gwisg ddu. Yn dilyn y llinellau agoriadol, sy'n gosod y cefndir fel petai, â'r bardd yn ei flaen i ddyfalu'r ferch, a dyma lle ceir y canu cypledol y cyfeiria Parry ato. Meddai'r bardd am aeliau'r ferch:

Diliau yw ei haeliau hi
Dail sabl, fel dwyael Sibli. (*OBVV* t. 104)

Ac mae'n disgrifio ei bochau fel:

Dwy sêl o liw grawn celyn,
Dagrau gwaed ar deg eiry gwyn. (*OBVV* t. 105)

Yn ei thrafodaeth ar gerddi i leianod¹²² mae Helen Fulton wedi dangos sut y mae'r bardd yn gwrthgyferbynnu rhwng prydfferthwch y ferch a düwch ei gwisg. Mae Fulton hefyd, yn ei nodiadau ar y gerdd yn ei chasgliad o gerddi'r apocryffa yn tynnu sylw at y tebygrwydd rhwng y gerdd hon a'r gerdd 'ddilys' i Dyddgu (*GDG* 45), yn defnydd a wneir o liw wrth ddisgrifio nodweddion y ddwy ferch dan sylw.

Gan ddychwelyd at arddull y gerdd, diddorol yw nodi'r hyn sydd gan Saunders Lewis i'w ddweud amdani. Dyfynnwyd eisoes o erthygl Saunders Lewis sy'n codi rhai cwestiynau ynghylch meini prawf Thomas Parry, ac yn yr erthygl honno, mae'n ymateb i haerriad Parry fod y canu yn y gerdd hon yn rhy gypledol trwy ddweud:

Trigain llinell sydd i'r cywydd a cheir torymadroddi helaeth yn yr 16 agoriadol; wedyn daw dyfalu ac anfynech y ceir torymadroddi mewn dyfaliad. Ymddengys cywydd yr Ehedydd (114) i mi yn ddigon mwy cypledol ei rediad ...¹²³

Ac yn wir, tasg gymharol hawdd yw dod o hyd i enghreifftiau o ganu cypledol ymhlith y cerddi sydd wedi'u cynnwys yn y canon. Meddai Dafydd yn y gerdd honno i Dyddgu a grybwyllwyd uchod:

Gwyn yw'r tâl dan wialen,
Du yw'r gwallt, diwair yw gwen.
Duach yw'r gwallt, diochr gwŷdd,
No mwyalch neu gae mywydd. (*GDG* 45, ll. 27-30)

¹²² Helen Fulton, 'Medieval Welsh Poems to Nuns', *CMCS* 21 (1991), tt. 87-112

¹²³ Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', *LIC* II (1952-3), t. 201

Ond nid yr arddull gypledol yw'r unig beth sy'n peri i Thomas Parry wrthod 'Dal neithiwr, delwi wneuthum' o'i gasgliad. Cyfeiriwyd eisoes at y modd y gwrthodwyd 'Dydd da i'r gog serchogfwyn' am ei fod yn cynnwys cyfeiriad at ferch o'r enw Annes, a'r un math o ddadleuon a ddefnyddir yn achos y gerdd hon. Mae Parry'n defnyddio'r ffaith bod y bardd yn cyfeirio at ei gariad fel Gwenonwy fel cyfiawnhad dros wrthod y gerdd, a hynny ar sail y ffaith na cheir yr un enghraifft arall o Dafydd ap Gwilym yn gwneud hynny.

A dyma ddychwelyd felly at y ddadl gylch, lle mae Parry yn defnyddio ei ganon ei hun fel llinyn mesur ac yn gwrthod cerdd am nad yw'n cydymffurfio â nodweddion y cerddi eraill yr oedd wedi eu cynnwys yn ei gasgliad ef. Ni cheir unrhyw sylw gan Parry ynghylch y gerdd 'Cusan' (*GDG* 133), er mai hon yw'r unig gerdd lle mae Dafydd yn cyfarch merch o'r enw Luned (er y defnyddir yr enw yn drosiadol neu'n ffigurol mewn mwy nag un gerdd). Dylid nodi fodd bynnag, bod y cywydd hwn i'w weld yn Peniarth 48 a bod yr arddull yn fwy sangiadol a chymhleth na'r hyn a geir yn 'Dal neithiwr, delwi wneuthum'. Yn yr un modd y gerdd 'Angof' (*GDG* 97) a godwyd i Peniarth 49 o Lyfr Gwyn Hergest. Egyr y gerdd hon trwy gyfarch merch o'r enw Efa, ac mae Parry yn ei nodiadau ar y gerdd yn gofyn: 'Ai defnydd trosiadol o enw Efa llyfr Genesis, ai cyfeiriad at ferch o'r enw ?'¹²⁴ Mae'n debyg mai cyfeiriad at ferch go iawn sydd yma, ac os felly, dyma'r unig gerdd a genir iddi, ond nid yw Parry'n awgrymu y gallai hynny fod yn rheswm dros amau ei hawduraeth.

Nid ceisio dadlau dros ddilysrwydd 'Dal neithiwr, delwi wneuthum' yw bwriad y drafodaeth uchod, ac nid wyf yn awgrymu chwaith bod gan Parry ryw reswm cudd dros wrthod y gerdd arbennig hon, fel yr oedd ganddo, rwy'n siŵr, yn achos y cerddi maswedus neu'r cerddi llai celfydd. Yn wir mae'n dweud bod hwn yn gywydd rhagorol, ac fe aeth ati i'w gyhoeddi yn yr *Oxford Book of Welsh Verse*. Bwriad y drafodaeth yn hytrach yw codi cwestiwn ynghylch gwrthrychedd a chysondeb y rhesymau a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau gwrthod y gerdd.

Mae'n ddiddorol i Saunders Lewis gyfeirio at 'Yr Ehedydd' (*GDG* 114), fel enghraifft o gerdd yn y canon sy'n gypledol ei rhediad. Mae'r gerdd hon hefyd

¹²⁴ *GDG*, t. 520

ymhlith y cerddi sy'n ymddangos am y tro cyntaf yn y casgliad hwn o lawysgrifau mwy diweddar (mae'r gerdd yn ymddangos ar ddiwedd Hafod 26 ac yn Caerdydd 7, Llanstephan 120 a Mostyn 212), a diddorol yw edrych ar y gerdd hon ochr yn ochr â'r gerdd wrthodedig i'r Eryr, sydd hefyd ymhlith y cerddi a geir ar ddiwedd Hafod 26.

Er mai dau gywydd llatai a geir yma, ac er bod y ddau'n ymddangos yn yr un math o lawysgrifau, mae yna gryn wahaniaeth yn y modd y mae Parry'n eu trin. Gwelwyd yn nhrydedd bennod y traethawd y modd y mae Parry'n mynegi amheuaeth ynghylch dilysrwydd 'Cyngor gan Frawd Llwyd', gan ddweud nad oes tystiolaeth gref i'r cywydd yn y llawysgrifau, a hynny er bod y cywydd i'w gael yn Peniarth 48. Rhyfedd meddwl felly, na cheir unrhyw gyfeiriad o gwbl at dystiolaeth lawysgrifol yn y nodiadau ar y gerdd i'r Ehedydd, er nad yw honno'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol tan ail hanner yr 16eg ganrif, ac er ei bod i'w chael ymhlith y cerddi amheus eu hawduraeth yn Hafod 26.

Ar y llaw arall, wrth wrthod y gerdd i'r Eryr, mae Parry'n rhoi cryn sylw i'r llawysgrifau ac yn mynd ati i ddangos bod amryw o'r llawysgrifau y ceir y gerdd ynddynt yn perthyn i'w gilydd, ac nad oes 'ond dwy ffynhonnell wreiddiol i'r cywydd'.¹²⁵ Mae Parry hefyd yn gwrthod cerddi eraill am resymau tebyg, gweler rhifau 107 ac 171 yn y rhestr o gerddi gwrthodedig.

Mae'n amlwg felly bod yma rywfaint o anghysondeb, nid yn unig yn y modd y mae Parry'n trin cerddi sydd wedi'u gwrthod, ond hefyd o gofio ei sylwadau am 'Cyngor gan Frawd Llwyd', yn y modd y mae'n trin cerddi sydd wedi'u cynnwys yn y canon.

Wrth drafod ei resymau dros wrthod y cywydd i'r Eryr, â Parry yn ei flaen i ddweud:

Ychydig iawn o nodau rhethreg y 14g. sydd yma, a chreffft ddatblygedig y 15g. sef rhoi ei le dyladwy i'r cwpled, yw prif nodwedd y mynegiant.¹²⁶

Eto cofiwn sylwadau Saunders Lewis ynghylch y cywydd i'r Ehedydd. Yn y naill gerdd, disgrifir yr Eryr fel un:

¹²⁵ *Ibid.*, t. cxc

¹²⁶ *Ibid.*

Mireingorff uwch mariangoed.
Milwr cylch ymylau'r coed. (*DGA* 36, ll. 3-4).

ac yn y llall, disgrifir yr Ehedydd fel un sy'n :

Llunio cerdd uwchben llwyn cyll,
Lledneisgamp llwydion esgyll. (*GDG* 114, ll.7-8).

Teg dweud na cheir rhyw lawer o dorymadroddi yn y naill gerdd na'r llall.

Wedi cyflwyno'r Eryr yn gryno yn y tri chwpled agoriadol, mae bardd y gerdd honno'n symud ei sylw at neges yr aderyn, ac meddai wrtho: 'Cyrch at lys lân rianedd... Ymddiddan â'r feingan ferch' (*DGA* 36, ll.9, ll.15). Gwyddys bod cerddi llatai'r cyfnod yn gallu bod yn fformiwläig ac yn ôl y traddodiad, mae'r bardd yn erfyn ar y llatai i gludo'i neges cyn gynted ag y gall: 'Brysia hyd ei bro... Brenin adar gwâr a gwyllt' (*DGA* 36, ll. 33-34).

Mae datblygiad y gerdd i'r ehedydd ychydig yn wahanol, ac mae hyn hefyd yn rhywbeth y mae Parry'n tynnu sylw ato. Wrth wrthod y gerdd i'r Eryr, meddai:

Mewn cywydd llatai fel hwn, y mae DG fel rheol yn rhoi cyfran helaeth o'r gerdd i ddisgrifio'r llatai, ond yma nid oes ond chwe llin. yn disgrifio'r eryr.¹²⁷

Yn sicr mewn cerddi sydd wedi'u cynnwys yn y canon megis 'Y Gwynt' (*GDG* 117) a 'Y Seren' (*GDG* 67) (er nad cywydd llatai yw hwnnw fel y cyfryw), gwelir mai prif fwriad y bardd yw dyfalu'r gwrthrychau hynny, gan bentyrru delweddu un ar ôl y llall. Mae'n ymddangos mae eilbeth yw neges y bardd i'r ferch. Yn wahanol i'r 6 llinell a geir i ddisgrifio'r Eryr, ceir rhyw 40 o linellau i ddisgrifio'r Gwynt a dros 20 i ddisgrifio'r Seren.

Yn hynny o beth, mae'r cywydd i'r Ehedydd yn ymdebygu i'r cywyddau hynny gan fod y bardd yn neilltuo cryn dipyn o'r gerdd i drafod y llatai ei hun yn hytrach na neges y llatai neu'r ferch yr anfonir y llatai ati. Ond eto i gyd, mae arddull 'Yr Ehedydd' ychydig yn wahanol i'r hyn a geir mewn cerddi megis 'Y Gwynt' (*GDG* 117), 'Y Carw' (*GDG* 116) (sydd hefyd yn ymddangos am y tro cyntaf yn Hafod 26), 'Y Seren' (*GDG* 67) a'r 'Don ar Afon Dyfi' (*GDG* 71).

¹²⁷ *Ibid.*

Un o nodweddion y cerddi hynny yw'r defnydd a wna'r bardd o'r ffurfiau negyddol, wrth gyfeirio at bethau na allant rwystro neu lesteirio'r llatai. Mae hyn ar ei amlycaf yn 'Y Gwynt' lle mae'r bardd yn cyfarch y gwynt gan ddweud:

Nid rhaid march buan danad,
Neu bont ar aber, na bad...
Ni'th dditia neb, ni'th etail
Na llu rhugl, na llaw rhaglaw,
Na llafn glas na llif na glaw. (*GDG* 117, ll. 9-16)

Ac wrth gyfarch y Carw meddai:

Fy ngwas gwych, ni'th fradychir,
Ni'th ladd cŵn, hardd farwn hir. (*GDG* 116, ll. 15-16).

Ac er nad cywydd llatai mohono fel y cyfryw, mae'r bardd yn diolch am olau'r Seren sy'n hwyluso'i daith at ei gariadferch, ac mae'n dweud:

Nis diffydd gwynt hynt hydref,
Afrlladen o nen y nef.
Nis bawdd dwfr llwfr llifeiriant,
Disgwylwraig, dysgl saig y saint. (*GDG* 67, ll. 27-30)

Mae'r cywydd i'r Ehedydd yn wahanol felly am na cheir ynddo yr un defnydd o'r ffurf negyddol.

Er nad yw'n dilyn yr un patrwm â'r cerddi uchod, nid yw ychwaith yn cadw mor gaeth at gonfensiynau'r cyfnod ag a wneir yn y gerdd i'r Eryr. Fel y crybwyllwyd, mae'r bardd yn rhoi'r sylw mwyaf i'r ehedydd ei hun yn y gerdd hon, ac nid disgrifiadau a delweddau ystrydebol a geir yma. Fel mewn amryw o gerddi sydd wedi'u cynnwys yn y canon, ceir yma ddelweddaeth sy'n cysylltu byd natur â'r eglwys; yr enghraifft amlycaf o hyn yn y canon wrth gwrs yw 'Offeren y Llwyn' (*GDG* 122).

Mae'r bardd yn dweud bod gan yr aderyn ei fryd ar bregethu, ac mae'n ei ddisgrifio fel 'Cantor o gapel Celi'. Pwysleisia hefyd y modd y mae'r aderyn yn hedfan yn uchel yn yr awyr:

Fry yr ai...
Ac fry y cany bob cerdd;

Mygr swyn gerllaw magwyr sêr
Maith o chwyldaith uchelder. (*GDG* 114, ll. 13-16).

O gyfuno'r delweddau crefyddol a'r modd y mae'r ehedydd yn cyrraedd yr entrychion, cyflêir y syniad bod yr aderyn yn agos at Dduw. Nid brigau'r coed sy'n cynnal yr aderyn hwn ond yn hytrach:

...rhadau y deau Dad
Ai firagl aml a'i fwriad. (*GDG* 114, ll. 39-40).

Yr awgrym a geir felly, yw bod Duw yn rhoi ei fendith ar y serch rhwng y bardd a'r ferch mae'r ehedydd yn ei chyrchu ar ei ran, '...nawdd Duw ar d'esgyll', meddai'r bardd. Eto mae'r math hwn o syniad i'w weld yn rhai o gerddi eraill y canon. Wrth drafod cerddi a gweledigaeth Dafydd meddai Gwyn Thomas:

The joy of life and the joy of love is, according to Dafydd, God-given...the joys that he sees in life are manifestations of God's goodness.¹²⁸

Mae'n siŵr y byddwn yn dychwelyd at y weledigaeth hon cyn diwedd y traethawd.

Ni cheir yma bentyrru delweddau fel a geir yn 'Y Gwynt'. Yn hytrach mae'r bardd yn oedi gydag un syniad ac yn ei ddatblygu'n llawn a cheir cerddi eraill yn y canon sydd hefyd yn adeiladu ar un ddelwedd ganolog, gyda phob cymhariaeth a chyfeiriad yn cryfhau ac yn cyfoethogi'r ddelwedd honno, e.e. 'Hwsmonaeth Cariad' (*GDG* 87), 'Morfudd fel yr Haul' (*GDG* 42).

I'r rheiny sy'n mynnu bod Dafydd ap Gwilym yn fardd gwahanol i'r cyffredin ac yn fardd a godai uwchlaw confensiynau'r cyfnod, ceir yn y gerdd hon ddelweddu cyfoethog a gweledigaeth fwy cymhleth na'r hyn a geir yn y gerdd i'r Eryr, dyweder, ac felly er gwaetha'r tebygrwydd rhwng y dystiolaeth lawysgrifol o blaid y naill gerdd a'r llall, byddai rhai'n dadlau bod y gwahaniaeth hwn yn y weledigaeth yn ddigon o reswm dros dderbyn un a gwrthod y llall. Ond mae perygl i ystyriaethau o'r fath, sy'n seiliedig ar bethau mwy haniaethol megis dyfnder gweledigaeth, ein harwain unwaith eto at y ddadl gylch sy'n dechrau gyda syniadau neu ragdybiaethau am y math o fardd oedd Dafydd ap Gwilym a'r math o waith a ganai.

¹²⁸ Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Cardiff, 2001), t. xx

Cerdd arall sydd i'w chael yn y casgliad ar ddiwedd Hafod 26 yw 'Oed â'm rhaiin addfeindeg'. Mae'r gerdd hon hefyd i'w chael yn Llanstephan 120 ac amryw o lawysgrifau eraill. Yn ôl Helen Fulton, mae'r gerdd wedi'i chofnodi mewn 46 o lawysgrifau gyda'r cyfan ond un llawysgrif o'r 18fed ganrif, yn ei phriodoli i Dafydd ap Gwilym.¹²⁹ Yn ei drafodaeth yntau ar y gerdd, mae Parry'n nodi mai mewn 27 o lawysgrifau y ceir y cywydd hwn.

Cerdd ddyfalu ydyw a'i thestun yw'r niwl, ac yn anochel felly, mae'n cael ei chymharu â'r gerdd enwog i'r niwl a gynhwyswyd yn y canon ('Y Niwl' *GDG* 68). Mae'r gerdd 'ddilys' i'w chael mewn 18 o lawysgrifau ond nid yw'r naill na'r llall yn ymddangos yn yr un o lawysgrifau'r 15fed ganrif.

Wrth drafod 'Oed â'm rhaiin addfeindeg' mae Parry'n cymhwyso'r maen prawf 'dau gywydd ar yr un testun' ynghyd â'r meini prawf eraill. Wrth gymharu'r gerdd wrthodedig hon â'r gerdd 'Y Niwl', mae Parry'n tynnu sylw at amryw o wahaniaethau rhyngddynt, gan ddechrau trwy dynnu sylw at rai pethau 'amheus' yn iaith y gerdd 'Oed â'm rhaiin addfeindeg'. Gan gyfeirio at y ffurf 'mynd' sydd i'w gweld yn y gerdd mae Parry'n dweud:

Ni wn pa mor hen yw'r ffurf hon ond nid yw yn yr un o gywyddau dilys DG.¹³⁰

Onid yw'n bosibl mai'r hyn sydd i gyfrif am y ffurf 'ddiweddar' hon yw'r ffaith nad yw'r gerdd yn ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig tan yr 16eg ganrif? Beth bynnag am hynny, mae sylw o'r fath yn awgrymu unwaith eto bod Parry wedi pennu ffiniau'r canon cyn dechrau cynnwys cerddi i'w blith.

Dywed Parry hefyd nad oes yn y gerdd 'fawr o eiriau cyfansawdd'. Anodd gwybod beth a feddyliai wrth 'fawr', yn sicr ceir amryw o enghreifftiau yma, e.e. 'uffernbarth' 'ffwrnbell', 'ellyldân', 'ucheldop', 'adargopwe', 'barthlwyth', 'trwstanwaith', 'mingeimion'.¹³¹ Mwy cywir yw haerid Parry nad oes 'odid ddim torymadroddi', ac mae'r gerdd yn symud fesul cwpled i bob pwrpas. Eto, cofiwn y

¹²⁹ *DGA*, t. 231

¹³⁰ *GDG*, t. ci

¹³¹ Tynnwyd yr enghreifftiau hyn o'r gerdd fel y'i hargraffwyd yn *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Bangor, 1914)

dadleuon ynghylch y cyswllt rhwng natur cerdd a'i harddull a'r awgrym bod darnau o ddyfalu yn fwy tebygol o symud fesul cwpled.

Wrth drafod y cywydd dilys i'r niwl yn ei erthygl ar 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', dangosodd D. J. Bowen fel y mae amryw o gerddi Dafydd yn dilyn yr un math o batrwm, sef 'agor ag arddull sangiadol gyda dyfalu cypledol yn dilyn, ac yna gyledau syml i gloi.'¹³² Ymhlith y cerddi sy'n dilyn y patrwm hwn mae D. J. Bowen yn rhestru 'Y Llwynog' (*GDG* 22), 'Y Dylluan' (*GDG* 26), 'Y Mwdwl Gwair' (*GDG* 62), 'Y Seren', (*GDG* 67) a 'Y Rhugl Groen' (*GDG* 125). Mae'r gerdd wrthodedig i'r niwl felly yn wahanol yn hynny o beth gan ei bod yn agor mewn modd digon syml:

Oed a'm rhiaid addfeindeg
 A wnaethwn yn dalgrwn deg,
 I fyned, wedi 'mgredu,
 Ymaith, ac oferdaith fu. (*DGG* xxxix)

Mae'r llinellau hyn yn dra gwahanol i'r agoriad cymhleth a geir ar ddechrau'r gerdd 'ddilys' i'r niwl, ond eto, nid ydynt yn rhy annhebyg i'r agoriad syml a geir ar ddechrau'r cywydd i'r Ehedydd.

Mae Parry'n mynd yn ei flaen i dynnu sylw at adleisiau posibl rhwng y ddwy gerdd, ac yn casglu bod y gerdd wrthodedig wedi'i llunio ar ôl y gerdd ddilys, gan fardd a oedd yn gwybod am gerdd Dafydd. Yn wir, mae yna gyfatebiaeth rhwng y darluniau a grëir gan y ddau fardd, â'r ddau yn darlunio'r niwl fel 'carthen', 'cnu', 'gwe adrgop', 'mwig', a'r ddau yn cyfeirio ato fel rhywbeth sy'n codi o Annwn. Mae Fulton yn rhyw led ddadlau bod y rhain yn gymariaethau y byddai unrhyw fardd gwerth ei halen yn eu llunio:

[Parry] lists some verbal echoes between the two poems but these are not significant enough, given the common theme, to prove direct influence of one poem on the other. It is no surprise...that in two poems about the mist, both should use the image of *mwig*...¹³³

Er hynny, anodd meddwl, o ddarllen y ddwy gyda'i gilydd, nad oedd un gerdd wedi dylanwadu ar y llall. Ac yn wir, o wybod am syniadau Parry ynghylch Dafydd ap

¹³² D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', *LIC* VIII (1964-65), t. 23

¹³³ *DGA* t. 231

Gwilym, nid oedd disgwyl iddo wneud dim ond hawlio'r gerdd fwyaf cywrain a chymhleth i Dafydd a throi'r llall o'r neilltu. Teg nodi fodd bynnag fod y gerdd 'ddilys' i'r niwl, neu o leiaf ran ohoni, wedi'i chofnodi yn y rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr Wiliem Mathew, sydd â'i ddyddiad rhyw 20 mlynedd cyn Hafod 26. Os ydym yn derbyn casgliadau Thomas Parry, rhaid i ni hefyd dderbyn mai effaith y gaseg eira y cyfeiriwyd ati eisoes, sydd i gyfrif am y ffaith bod cynifer o llawysgrifau mwy diweddar yn cambriodoli 'Oed â'm rhain addfeindeg' i Dafydd ap Gwilym.

Fel yn achos pob llawysgrif felly, rydym yn gweld bod Parry'n dewis cynnwys rhai o'r cerddi a geir ar ddechrau a diwedd Hafod 26 tra'i fod yn gwrthod eraill. Wrth symud i edrych ar y craidd o gerddi 'poblogaidd' gwelwn fod gan y llawysgrif hon eto ran bwysig i'w chwarae yn y broses o lunio'r canon.

TABL IV

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26						
Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Lisgrau. Eraill	Sylwadau	
-	Llawen nos Iau Iluniais oed		1		'...mae'r mynegiant yn llawer rhy rwydd a'r cwpledi'n rhy drawiadol i fod yn waith DG.' (GDG t. clxxxix) Mae Hafod 26 hefyd yn enwi Robert ap Gruffith Leiaf fel awdur posibl.	
28	Mawr yw'r gelfyddyd a maith	Y Ceiliog Bronfraith	1b	L16, M 212, P 49,4		
124	Deuthum i ddinas dethol	Trafferth Mewn Tafarn	2	C7, 72L, G 3, 217a		
-	Dydd da i'r gog serchogfwyn		3	P57	'Y mae'r arddull ar y cyfan yn ddigon tebyg i eiddo'r 14g., ond bychan yw rhif y cynganeddion Sain, ac y mae'r awdur yn sillafu enw'r ferch, sef Annes, peth na wneir mohono yn yr un o gerddi cwbl ddilys DG...' (GDG t. clxxxvi)	
-	Mi a gerddais wyth milltir		4			
-	Dydd daed, y rhagor forwyn		8			
-	Dal neithiwyr delwi wneuthum		9	C7 yn ei briodoli i Hywel ap Dafydd, G 3, 75	'Y mae o leiaf 16 o gopïau o'r cywydd rhagorol hwn yn ei roi i DG... Er bod yr iaith yn dra choeth, y mae'r arddull ar y cyfan yn gypledol. Nid oes enghr. ychwaith yn unman o DG yn galw ei gariad yn Wenonwy fel y gwneir yma.' (GDG t. clxxxv)	

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Llsgrau. Eraill	Sylwadau
-	Cerais ferch yn dra serchog		10		'...mae tystiolaeth y llsgrau. yn weddol gryf. Ond y mae'r grefft yn gwbl annheilwng o DG.' (GDG t. clxxiv)
-	Cefais oed cofus ydwy		11		
-	Caru'r wyf pwy ai cerydd		12		Mae Hafod 26 hefyd yn awgrymu mai Rhes ai Howell dd llwyd yw'r awdur 'Y mae'n bur annhebyg i ddull DG.' (GDG t. clxxiii)
25	Madog ap Gruffydd wyddaer	Yr Eos	13	L1 120, 76 M 212, 91	'Y mae rhai pethau yn iaith y cywydd hwn sy'n peri ei amau yn y ffurf sydd arno yn y llsgrau...Ond y mae arddull a chrefft y cywydd a'r sôn am Fadog Benfras a Dafydd ei hun yn gryf o blaid ei ddilysrwydd...Cwestiwn arall gwerth ei ystyried yw a eill y cywydd fod yn waith Madog Benfras, ac mai tric o'i eiddo ef yw rhoi geiriau yng ngenau Dafydd yn y 14 llin. cyntaf. Y mae hynny lawn cyn debyced o leiaf â bod Dafydd yn rhoi 42 o linellau yng ngenau Madog...' (GDG t. 466)
-	Cannaid yw'r nwyf a'm cynnail		14		'Nifer y cynganeddion Sain yn fychan, ac un enghraifft o Groes o Gyswilt...' (GDG t. clxxiii)
23	Duw gwyddiad mae da gweddai	Mis Mai	15	M 212, 55	
-	Cosbwr y marwol bechawd		16	P54 yn ei briodoli i Madog Benfras	

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Lsgrau. Eraill	Sylwadau
139	Rhoed Duw hoedl rhad didlawd	Morfudd yn Hen	17	M 212, 94	
13	Dyfed a somed, symud	Marwnad Llywelyn ap Gwilym	136	M212, 83 P49, 65 (LIGH)	
90	Balcha oeddwn gwn ganclwyf	Cystudd Cariad	137	P 49, 62 (LIGH)	
104	Mau gariad mewn magwriaeth	Y Mab Maeth	138	G 3, 56a, L1 6, 173 P49, 40, (LIWM) P 54, i, 91	
-	Oed â'm rhain addfeindeg		139	L1 120, 86	Cerdd arall i'r niwl.
29	Y celyllwyn coel iawnllwyth	Y Llwyn Celyn	140	C 7, 343 L1 120, 71 M 212, 27 P49, 74	
-	Y lleian ddoeth a'i lliw'n dda		141		'Priodolir i DG mewn amryw Isgrau., gan gynnwys M 212, H 26, a B 24, ond hefyd i BBr yn C 49, M 129, a B 14,966. Ond nid arddull DG sydd yma, ac ni fyddai ef yn cyfarch y ferch yn y lluosog fel y gwneir yma.' (GDG t. clxxxix)

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Llsgrau. Eraill	Sylwadau
-	Nid oes dychymyg ym Môn		142		Thomas Parry'n nodi bod cyswllt agos rhwng y copïau (GDG t. clxxxii).
-	Fal yr oedd fawr ei hafrad		143		
-	A mi ar deg foregwaith		145		Thomas Parry'n nodi bod cyswllt agos rhwng y copïau (GDG t. clxxxii).
-	A mi noswaith nid gwaith gwych		146		Thomas Parry'n nodi bod cyswllt agos rhwng y copïau (GDG t. clxxxii).
-	Y frân dreigl ymwan draw		147		'Er bod yr arddull ar y cyfan yn debyg i'r 14g., y mae yma rai ymadroddion llac yn y sangiadau nad ydynt ddiim amgen na geiriau llanw.' (GDG t. clxxxvii)
27	Tydi'r Haf tad y rhyfyg	Mawl i'r Haf	148	M212, 31	
-	Mawr yw'r drafel na'th welwn		149		'Dau gopi yn unig, sef H 26 a M 212, a rhyw gyswllt rhyngddynt yn ddiau...Er bod enw rhyw Forfudd yn llin. 2, nid DG yw'r awdur.' (GDG t. clxxx)
-	Yr eryr hardd arwyrain		150	Maldwyn – M212, 58	'Y chydig iawn o nodau rhexreg y 14g. sydd yma, a chreffft ddatblygedig y 15g., sef rhoi ei le dyladwy i'r cwpled, yw prif nodwedd y mynegiant...Mewn cywydd llatai fel hwn, y mae DG fel rheol yn rhoi cyfran helaeth o'r gerdd i ddisgrifio'r llatai ond nid oes ond chwe llin. yn disgrifio'r eryr.' (GDG t. cxc)
116	Tydi'r caeriwrch ffwrch ffoawdr	Y Carw	151	M212, 59	

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Llsgrau. Eraill	Sylwadau
39	Gwen a wnaeth gwan iawn a wyf	Y Breuddwyd	152	M 212, 24	
-	Y ddyn fwyn addwyn faenawl		153		Thomas Parry'n nodi bod cyswllt gweddol agos rhwng y copïau. (<i>GDG</i> t. clxxxv)
-	Y fun ŵyl yw fy nolur		154		
-	Dyfi wendon dwf feindeg		155		Yn ôl cofnodion Maldwyn, Hafod 26 yw'r unig gopi.
-	Yr anwylferch ganolvain		156		Argraffwyd yn <i>CMOC</i> . 'Dengys arddull lac y cywydd hwn fod y llawysgrifau'n anghywir yn ei briodoli i Ddafydd ap Gwilym.' (<i>CMOC</i> t. 78)
-	Fal yr oeddwn gwn gynnydd		157		H26 yw'r unig gopi.
-	Gweirful ferch Ierwerth gerth gain		158		'Nid oes fawr o raen ar ei iaith na'i fydryddiaeth, a chypledol ydyw. Prin y gellir cyfiawnhau ei roi ar enw DG.' (<i>GDG</i> t. clxxxviii) Argraffwyd yn <i>CMOC</i> . 'Priodolir y cywydd hwn i Ddafydd ap Gwilym ym mhob un o'r copïau llawysgrif niferus, ond dengys yr arddull yn glir nad gwaith dilys y bardd mohono. I'r 15fed ganrif y perthyn, yn ôl pob tebyg.' (<i>CMOC</i> t. 46)
-	Mae gair i mi o gariad		160		
-	Caru dyn ieuanc ydwyf		160b		
	Gwae fab bu gu gohelyth		161		

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Lsgrau. Eraill	Sylwadau
-	Mae dyn a wisg amdani		182		Yn ôl nodiadau Thomas Parry, dim ond rhan o'r gerdd hon a geir yn Hafod 26 ac nid oes enw awdur wrthi. Mae'r gerdd hefyd wedi'i phriodoli i feirdd eraill mewn llawysgrifau eraill. (GDG t. clxxx)
-	Gofal am ferch a gefais		183		'H 26 yw'r unig gopi; 12 llin. gyfan a darnau o bump arall. Nid yw enw DG o danynt, ond y maent yng nghanol cywyddau eraill o'i waith...Nid DG yw'r awdur, yn sicr.' (GDG t. clxxvii)
-	Y ferch a'r ael winau fain		182n		Ceir nodyn yn y llawysgrif sy'n dweud 'Robert ap Gr. Leiaf neu D. ap Gilm'.
91	Deincryd mawr o led ancrain	Y Rhew	183b	M 212, 102 P49, 60 (LIGH) P57, 154	
114	Oriau hydr yr ehedydd	Yr ehedydd	184	C7, 899 L1120, 142 M212, 103	
138	Modd elw ydd wy'n meddyliaw	Rhybudd Brawd Du	185	M 212, 95	
145	Gwae a garo, gwag eiriawl	Caru yn y Gaeaf	186	M212,63	
6	O haelder fy ner fy nudd	Englynion i Ifor Hael	190	G 3, 174b	

Cerddi sy'n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26

Rhif yn GDG	Llinell Gyntaf	Teitl	Rhif yn H26	Llsgrau. Eraill	Sylwadau
-	Y mae ym dwlc ni am dyn		191		
-	Yr eogwas or eigiawn		192		
-	Dydd da i'r draenllwyn a wynnai		195		Ceir nodyn yn y llawysgrif sy'n dweud 'D. ap Gwilim ai D ap Edmwnd' 'Yn H 26 awgrymir mai DE yw'r awdur. Y mae'r cywydd yn rhy anghelfydd i fod yn waith yr un o'r ddau fardd. Cerdd ydyw i fis Mai, yn odli ar <i>-ai</i> trwodd, yn amlwg yn ddynwarediad o gywydd DG...? <i>GDG</i> t. clxxxvi

Pennod 5 – Y cerddi poblogaidd

Cofiw'n i Dafydd Johnston awgrymu bod yna'r fath beth â chraidd o gerddi y gellir bod yn bur sicr mai Dafydd ap Gwilym yw eu hawdur. Yn rhannau blaenorol y traethawd buwyd yn edrych ar y craidd hwnnw o gerddi sydd â'r dystiolaeth gynharaf o'u plaid. Y bwriad yn awr yw ceisio gweld a oes modd creu craidd arall o gerddi gan ddefnyddio maen prawf ychydig yn wahanol.

O gofio bod 146 o gerddi wedi'u cynnwys yng nghanon Thomas Parry (heb gynnwys cywyddau'r ymryson â Gruffudd Gryg), nid yw'n syndod bod rhai wedi dod yn fwy poblogaidd ac wedi cael mwy o sylw nag eraill. Gan dderbyn nad yw poblogrwydd yn rhywbeth y gellir ei fesur yn wyddonol gywir nac yn gwbl wrthrychol, yn y bennod hon bwriedir ystyried rhai casgliadau llai o waith Dafydd ap Gwilym a rhai trafodaethau beirniadol yn y gobaith y byddant yn datgelu rhywfaint ynghylch y cerddi y teimlwyd ar hyd y blynyddoedd eu bod yn crynhoi ac yn cynrychioli holl hanfod canu Dafydd.

Aethpwyd ati felly i edrych ar drawstoriad o gasgliadau llai, un ohonynt yn rhagflaenu *Gwaith Dafydd ap Gwilym* ac felly'n cynnwys nifer o gerddi nad ydynt yn y canon, a thri arall a gyhoeddwyd ar ôl *Gwaith Dafydd ap Gwilym*. Mae dau ohonynt yn gasgliadau Cymraeg a'r ddau arall yn gyfieithiadau. Mae hyn yn bwysig i'w gofio pan ddown i edrych yn fanylach ar y grŵp o gerddi sydd yn y casgliadau dan sylw gan fod gofynion cyfieithu'r cerddi o bosibl wedi dylanwadu ar y cerddi a gynhwyswyd ynddynt. Mae tabl V ar ddiwedd y bennod hon yn rhestru'r holl gerddi sy'n ymddangos yn y casgliadau hyn.

Mae *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*¹³⁴ yn cynnwys 64 o gerddi dan enw Dafydd ap Gwilym. Rhaid nodi fodd bynnag bod 21 wedi'u gwrthod gan Thomas Parry, yn eu plith rai o'r cerddi y buwyd yn eu trafod eisoes megis y cywyddau i'r Sêr a'r Eira a'r cywydd i'r Eryr. Er gwaethaf enw'r gyfrol, 48 o gerddi sy'n cael sylw yn *50 o Gywyddau*¹³⁵ gan fod 'Morfudd yn Hen' a 'Cyngor y Biogen' yn cael eu trafod ddwywaith. Mae *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*¹³⁶ yn

¹³⁴ *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Bangor, 1914)

¹³⁵ *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980)

¹³⁶ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982)

cynnwys 56 o gerddi a *Medieval Welsh Poems*¹³⁷ yn cynnwys 58 o gerddi dan enw Dafydd, gan gynnwys un, sef Cywydd y Gal, na chyhoeddwyd mohoni yn y canon.

Er nad yw hynny'n cael ei ddatgan yn yr un o'r casgliadau, nid afresymol yw tybio bod unrhyw un sy'n mynd ati i ddewis a dethol 50-60 o gerddi o blith 150 a mwy yn gwneud hynny gyda'r bwriad o ddewis y cerddi sy'n cyfleu orau hanfod y canu dan sylw, a hynny o ran iaith, arddull a gweledigaeth farddol.

Gyda'i gilydd, mae'r casgliadau'n cynnwys 96 o wahanol gerddi (y mae 95 ohonynt yn ymddangos yn y canon). Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu bod yna 50 o gerddi, dros draean y canon, sydd heb eu cynnwys yn yr un o'r casgliadau cynrychioliadol hyn. Un deg saith o gerddi sy'n ymddangos yn y pedwar casgliad ac mae 21 pellach yn ymddangos mewn tri. At ddiben y drafodaeth hon felly, ystyrir mai'r 38 hyn yw'r cerddi mwyaf 'poblogaidd', gweler tabl VI ar ddiwedd y bennod hon.

Yn ogystal ag ystyried cynnwys y casgliadau a grybwyllir uchod, edrychwyd hefyd ar y cerddi sy'n cael sylw mewn dwy astudiaeth o waith Dafydd ap Gwilym, sef *Llên y Llenor*¹³⁸ a *Writers of Wales*¹³⁹ gan dybio bod y ddwy yn astudiaethau sylfaenol a chynhwysfawr sy'n cyflwyno gwaith y bardd i'r darlennydd cyffredin. Unwaith eto felly, nid afresymol fyddai cymryd y byddai'r astudiaethau hyn yn ceisio edrych ar groestoriad o gerddi sy'n darlunio nodweddion canu'r bardd. Dylid nodi nad yw'r un o'r ddau awdur yn oedi'n hir gyda'r un gerdd nac yn mynd ati i ddadansoddi cerddi unigol yn fanwl.

Mae i'r ddwy astudiaeth strwythur digon pendant. Mae hyn yn golygu bod rhai cerddi'n cael sylw am eu bod yn cyflawni rhyw swyddogaeth yn nhrafodaeth yr awdur yn hytrach nag am eu bod yn dangos rhywbeth am ganu Dafydd. Er enghraifft, mae'r ddau awdur yn cyfeirio at 'Taith i Garu' (*GDG* 83) wrth sôn am fro enedigol y bardd. Ac wrth gloi'u trafodaethau mae'r ddau'n cyfeirio at y gerdd 'Edifeirwch' (*GDG* 106), a hynny o bosibl, am ei bod yn cynnig ffordd hwylus o gau pen y mwddwl yn daclus.

¹³⁷ *Medieval Welsh Poems An Anthology*, Translation and Commentary by Richard Loomis and Dafydd Johnston (New York, 1992)

¹³⁸ R. Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym yn y gyfres Llên y Llenor* (Caernarfon, 1987)

¹³⁹ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym yn y gyfres Writers of Wales* (Cardiff, 1974)

Mae'r ddwy astudiaeth hefyd yn rhoi tipyn o sylw i'r cerddi 'traddodiadol' lle mae Dafydd ap Gwilym yn canu mawl a marwnad i'r rheiny a fu'n ei noddi ac i'w gyd-feirdd, gan fod y rhain yn cyfrannu at y darlun o fywyd Dafydd y mae'r ddau awdur yn ceisio'i greu yn rhannau rhagarweiniol eu trafodaeth. At ei gilydd, nid yw'r cerddi hyn wedi'u cynrychioli'n dda yn y casgliadau llai. Mae un cywydd i Ifor Hael (*GDG* 7) a Marwnad Rhydderch (*GDG* 17) yn ymddangos mewn tri o'r casgliadau tra bod y Farwnad i Gruffudd ab Adda (*GDG* 18), un o gyd-feirdd Dafydd, yn ymddangos yn y pedwar casgliad dan sylw.

Yn ogystal, mae tuedd i grwpio cerddi gyda'i gilydd, er enghraifft, cerddi natur, cerddi i gariadon Dafydd, cerddi llatai, cerddi sy'n sôn am droeon trwstan ac ati. Mae'n anochel felly, bod cerddi sy'n eistedd yn ddestlus o fewn y grwpiau hyn yn cael mwy o sylw na'r cerddi nad ydynt yn gwneud hynny.

Wedi dadansoddi'r casgliadau a'r astudiaethau hyn, y bwriad yw ceisio tynnu ynghyd y wybodaeth a gafwyd o'r ymarfer hwn a'r wybodaeth a gafwyd wrth edrych ar gynnwys y llawysgrifau cynnar er mwyn gweld faint o orgyffwrdd, os o gwbl, sydd yna rhwng y cerddi 'poblogaidd' a'r cerddi o waith Dafydd ap Gwilym sydd i'w cael yn y llawysgrifau cynharaf.

Cyn gwneud hynny fodd bynnag, mae'n werth dychwelyd at y craidd hwnnw o gerddi sy'n ymddangos yn y llawysgrifau cynharaf y buwyd yn ei drafod yn gynharach yn y traethawd. O edrych ar y 70 o gerddi a geir yn y craidd hwn (gweler y tabl ar dudalen 37-38), gwelwn eu bod yn drawstoriad sy'n cwmpasu'r holl fathau o ganu a'r holl themâu y mae beirniaid ar hyd y blynyddoedd wedi'u cysylltu â Dafydd ap Gwilym.

Cawn ganu i fyd natur a'r tymhorau yn 'Yr Haf', tra bo 'Merch ac Aderyn' yn darlunio ymhellach y rhyddid y mae'r haf yn ei roi i'r bardd garu yn y goedwig. Cawn hefyd gerddi sy'n tynnu ar draddodiadau canu Ffrainc ac sy'n adrodd am anturiaethau serch y bardd a'r troeon trwstan sy'n digwydd iddo, e.e. 'Noson Olau', 'Y Cwt Gwyddau', 'Y Pwll Mawn', 'Y Rhugl Groen'. Mae 'Y Don ar Afon Dyfi', 'Y Rhew' a 'Y Cyffyllog' yn rhoi i ni gerddi llatai a cherddi dyfalu. Cawn gerddi sy'n seiliedig ar un ddelwedd estynedig yn 'Hwsmonaeth Cariad' a 'Caer Rhag

Cenfigen’. Yn wrthbwynt llwyr i’r rhain cawn y cerddi byrion enigmatig megis ‘Taeru’ a ‘Gwadu’ ac mae Daniel Huws yn ei erthygl ar y traddodiad llawysgrifol yn sylwi ar y ffaith bod amryw o’r cerddi byrion hyn ymhlith y cerddi a gofnodwyd yn y llawysgrifau cynharaf, er y byddai dyn yn tybio bod y rhain yn haws i’w cadw ar gof na rhai o’r cerddi hwy nad ydynt yn cael eu cofnodi tan yn ddiweddarach. Meddai Daniel Huws:

It is noteworthy that these early manuscripts contain a high proportion of the shorter poems in the canon.¹⁴⁰

Cawn hefyd gerddi mawl a marwnad traddodiadol gan gynnwys rhai o’r rheiny i Ifor Hael, a chawn gerddi i Morfudd a Dyddgu gan gynnwys y gerdd sy’n dwyn y teitl hwnnw ac sy’n cyflwyno’r ddwy i ni.

Yn wir, pe byddid yn edrych ar y cerddi hyn heb wybod dim am Dafydd ap Gwilym a chanon Thomas Parry, go brin y byddid yn tybio mai’r un bardd sy’n gyfrifol am bob un ohonynt gan mor amrywiol yw’r canu, ac mae hyn yn rhywbeth y dychwelwn ato eto wrth gymharu ymhellach y cerddi a geir yn y llawysgrifau cynnar a’r cerddi ‘poblogaidd’.

O edrych ar y ddau graidd hyn ochr yn ochr, mae nifer o bethau yn taro dyn, ac yn ogystal ag edrych ar y cerddi sydd wedi’u cynnwys yn y ddwy restr, rhaid hefyd ystyried y cerddi sydd heb eu cynnwys.

Yr hyn a gawn wrth edrych ar y ddau graidd felly yw grŵp o gerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar ond nad ydynt wedi’u cynnwys yn yr un o’r casgliadau llai, ac nad ydynt o bosibl yn cael sylw yn y ddwy astudiaeth (gweler tabl VII). Mae gennym hefyd grŵp o gerddi nad ydynt yn ymuno â’r traddodiad llawysgrifol tan ail hanner yr 16eg ganrif trwy Hafod 26 a llawysgrifau cysylltiedig, ond sydd yn ymddangos mewn o leiaf tri o’r casgliadau llai, ac yn cael sylw o bosibl yn y ddwy astudiaeth (gweler tabl VIII). Hwyrach bod y grŵp hwn o gerddi yn fwy arwyddocaol a dadlennol na’r grŵp cyntaf. Ac o gymharu’r ddwy restr, cawn weld a oes yna ryw fath o dir canol, hynny yw, cerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar ac sydd hefyd yn gerddi ‘poblogaidd’ - craidd y creiddiau (gweler tabl IX).

¹⁴⁰ Daniel Huws, ‘The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym’, *MWM*, t. 97

Trown at y grŵp cyntaf o gerddi felly, sef y cerddi sydd i’w cael yn y llawysgrifau cynnar ond nad ydynt fel pe baent wedi dod yn gerddi poblogaidd. O’r 70 o gerddi a geir yn y llawysgrifau cynnar, 10 yn unig sy’n ymddangos mewn 3 neu fwy o’r casgliadau llai. Dyna ddangos yn syth felly mai prin iawn yw’r gorgyffwrdd rhwng y ddau graidd a hwyrach y cawn drafod y rheswm dros hyn yn y man.

Mae’n bosibl y byddai rhai’n dadlau bod y maen prawf ‘poblogrwydd’ yn rhy gyfyng ac y dylid ystyried y cerddi hynny sy’n ymddangos mewn 2 o’r casgliadau llai yn gerddi poblogaidd, ond diddorol nodi bod yna gyfran go dda o’r 70 o gerddi sydd yn y llawysgrifau cynnar nad ydynt yn ymddangos yn yr un o’r casgliadau llai. Mae 28 o gerddi sydd i’w cael yn y llawysgrifau cynnar heb ymddangos yn yr un o’r casgliadau llai, ac mae hyn yn codi i 30 o gynnwys Englynion y Grog o Gaer ac Englynion y Cusan sydd i’w cael yn llawysgrifau’r 14eg ganrif ond sydd heb eu cynnwys yn y canon, a dyma’r cerddi a restrwyd yn nhabl VII.

Yn rhannau agoriadol y traethawd hwn dadleuwyd mai’r llawysgrifau yw’r man cychwyn amlwg wrth geisio pennu awduraeth, a chasglwyd bod y llawysgrifau cynharaf, at ei gilydd, yn fwy sicr eu hawdurdod na’r rhai mwy diweddar. Er hynny, mae dadansoddi’r casgliadau llai a gyhoeddwyd o waith Dafydd ap Gwilym yn dangos bod amryw o’r cerddi sydd â’r dystiolaeth sicraf o’u plaid, o safbwynt y llawysgrifau, yn parhau i fod yn gymharol anadnabyddus.

Cymerer er enghraifft y cerddi ‘Taeru’ (*GDG 55*), sy’n ymddangos mewn 1 o’r casgliadau llai, ‘Gwadu’ (*GDG 107*), nad yw’n ymddangos yn yr un o’r casgliadau llai a ‘Yr Annerch’ (*GDG 112*) sydd hefyd yn ymddangos mewn un o’r casgliadau llai.

Mae’r dystiolaeth llawysgrifol o blaid ‘Taeru’ ymhlith y gryfaf o’r holl gerddi gan ei bod yn ymddangos yn Llyfr Gwyn Hergest, Llanstephan 27 a Peniarth 57. Mae ‘Gwadu’ hefyd yn ymddangos yn Llyfr Gwyn Hergest, ac mae’r gerdd ‘Yr Annerch’ i’w chael yn Llyfr Gwyn Hergest a Llanstephan 27. Mae’r cerddi hyn ymhlith y cerddi byrion y cyfeiriwyd atynt eisoes.

Er y dystiolaeth gadarn o’u plaid, mae’n amlwg nad yw’r rheiny a fu’n gyfrifol am lunio’r casgliadau llai o waith Dafydd ap Gwilym yn teimlo bod y cerddi hyn yn crynhoi holl hanfod canu Dafydd neu hyd yn oed yn cyfleu un agwedd ar ganu Dafydd y mae’n werth sôn amdani. Nid ydynt fel pe baent yn cael eu hystyried yn ‘nodweddiadol’ o ganu Dafydd ap Gwilym.

Canu i ryw ferch arbennig a geir yn y tair cerdd, a rhyw elfen o rwystredigaeth yn perthyn i’r tair. Ni chrybwyllir enw’r ferch yn yr un o’r cerddi. Yn ‘Taeru’ disgrifir y ferch fel ‘Y ferch anllad’, ‘eurddyn’ ac ‘Ail Enid’, ac yn ‘Gwadu’ disgrifir hi fel ‘wenferch’ a ‘wen aelfain’. Ni cheir yma ganu helaeth i fyd natur, er bod sôn yn ‘Taeru’ am garu ‘dan fedw fron fad’ a sôn yn ‘Gwadu’ am orwedd ‘dan goed irddail’. Ni cheir chwaith unrhyw fath o ddyfalu neu ddelweddu na sôn am droeon trwstan, er bod synnwyr digrifwch y bardd i’w weld yn amlwg ar ddiwedd ‘Gwadu’. Tybed ai dyma rai o’r rhesymau pam y mae’r cerddi hyn wedi’u hepgor o’r casgliadau mwy diweddar?

Fel y nodwyd uchod, mae’r cerddi sydd i’w cael yn y llawysgrifau cynnar yn amrywio’n fawr, ac mae cerddi megis ‘Gwadu’, ‘Yr Annerch’ a ‘Taeru’ yn wahanol, nid yn unig i’r cerddi poblogaidd sy’n cael eu cysylltu’n draddodiadol ag enw Dafydd ap Gwilym, ond hefyd i amryw o’r cerddi eraill sydd wedi’u cynnwys yn y llawysgrifau cynnar. Mae’r tair cerdd hyn, a ‘Taeru’ yn enwedig, yn fwy llafar eu naws a beiddgar eu cynnwys.

Fel ‘Taeru’, mae’r gerdd ‘Hwsmonaeth Cariad’ (*GDG 87*) hefyd i’w chael yn rhan gyntaf Peniarth 57 a Llyfr Gwyn Hergest (ac mae’n ymddangos hefyd yn Peniarth 67), ond mae’r ddwy gerdd hyn yn gwbl wahanol o ran eu saerniaeth a’u cynnwys. Cwta ddeunaw llinell sydd i’r gyntaf, tra bod i’r ail hanner cant yn fwy o linellau.

Mae ‘Hwsmonaeth Cariad’ yn perthyn i’r un llinach â ‘Caer Rhag Cenfigen’ a ‘Morfudd fel yr Haul’, yn yr ystyr bod y tair cerdd yn adeiladu ar un ddelwedd ac yn ei chynnal drwy’r gerdd. Diddorol nodi mai dim ond ‘Morfudd fel yr Haul’ o’r tair hyn, sydd i’w gweld ymhlith y cerddi poblogaidd, a hi yw’r unig un o’r tair nad yw’n ymddangos yn y craidd o gerddi a geir yn llawysgrifau’r 15fed ganrif.

Yn wahanol i’r iaith lafar a’r mynegiant uniongyrchol a geir yn ‘Taeru’, mae arddull, iaith a delweddaeth ‘Hwsmonaeth Cariad’ yn fwy cymhleth. Gellid tybio bod y cymhlethdod hwn yn un o’r elfennau sydd wedi rhwystro’r gerdd rhag cael ei chynnwys ymhlith y cerddi poblogaidd. Diddorol nodi felly bod y gerdd hon yn ymddangos yn un o’r cyfrolau o gyfieithiadau, sef *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*.

Fel amryw o gerddi enwocaf Dafydd ap Gwilym, ceir llu o eiriau cyfansawdd yn ‘Hwsmonaeth Cariad’, ar y llaw arall, mae ‘Taeru’ yn frith o eiriau unsill. Yn wrthbwynt llwyr i’r mynegiant uniongyrchol a geir yn ‘Taeru’, cymhariaeth estynedig a geir yn ‘Hwsmonaeth Cariad’ a’r bardd yn cyffelybu ei gariad at Morfudd, sy’n cael ei henwi yn y gerdd, i ofal ffermwr am ei gnwd. Mae’r cariad, fel y cnwd, yn cael ei golli pan ddaw storm, ‘Drycin o orllewin llid’, ar ei draws. Mae’r cyfeiriadau at y tywydd garw yn adlewyrchu teimladau’r bardd wrth iddo resynu ei fod wedi colli’r cyfle i gywain ei gariad ‘rhwng dwy gawad.’

Er mor wahanol yw’r ddwy gerdd, ni chodwyd amheuaeth ynghylch awduraeth y naill na’r llall erioed, a hynny, mae’n siŵr, oherwydd y dystiolaeth a geir o’u plaid yn y llawysgrifau cynharaf. Ond mae’n amlwg nad yw hynny’n ddigon i wneud y naill na’r llall yn gerddi ‘poblogaidd’ neu’n gerddi sy’n cael eu cynnig fel enghreifftiau o ganu Dafydd ar ei orau. Ceisir dychwelyd at rai o’r rhesymau posibl dros hyn ar ôl edrych yn fanylach ar rai o’r cerddi poblogaidd.

Nid yw’r casgliadau llai yn trafod dilysrwydd y cerddi fel y cyfryw ac mae hynny hefyd yn wir am y ddwy astudiaeth. Wrth reswm, mae’r tri chasgliad diweddaraf yn seiliedig at ei gilydd ar ganon Thomas Parry. Dim ond *Medieval Welsh Poems* sy’n mentro y tu allan i ffiniau’r canon ac yn cynnwys ‘Cywydd y Gal’ ymhlith y cerddi sydd wedi’u cofnodi dan enw Dafydd ap Gwilym.

Diddorol nodi felly, ymhlith y cerddi sydd wedi dod yn boblogaidd, fod dwy sy’n amheus iawn eu hawduraeth. Yn wir, mae’r ddwy hyn yn dangos i’r dim rym a phŵer y canon fel casgliad cyhoeddedig. Nid yw’r ffaith bod Thomas Parry wedi mynegi peth amheuaeth ynghylch ‘Y Ceiliog Bronfraith’ (*GDG* 28) a mwy fyth o amheuaeth ynghylch ‘Y Fun o Eithinfynydd’ (*GDG* 57) wedi’u rhwystro rhag cael

eu hatgynhyrchu gan eraill fel gwaith Dafydd ap Gwilym. Mae’r gyntaf yn ymddangos yn y 4 casgliad, a’r ail mewn 3 ohonynt. Mae *Llên y Llenor* yn crybwyll ‘Y Fun o Eithinfynydd’ wrth drafod perthynas Dafydd â Morfudd, ac mae *Writers of Wales* yn dyfynnu’r naill gerdd wrth sôn am berthynas Dafydd â Morfudd, ac yn dyfynnu’r llall wrth drafod adar yng ngwaith y bardd.

Trafodwyd eisoes yr elfennau yn y gerdd ‘Y Fun o Eithinfynydd’ sy’n peri amau ei dilysrwydd fel un o gerddi Dafydd ap Gwilym yn nhrydedd bennod y traethawd; elfennau megis tystiolaeth wan y llawysgrifau, yr arddull syml ac elfennau’n ymwneud â’r gynghanedd, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at y pethau hyn yn y casgliadau a’r astudiaethau dan sylw.

Mae’r gerdd i’r Ceiliog Bronfraith yn un o ddwy gerdd yn y canon ar yr un testun, ac er nad yw’n unigryw yn hynny o beth (ceir hefyd ddwy gerdd i’r Cyffyllog, *GDG* 61, 115), mae’r dyblygu hwn yn dod â’i broblemau ei hun. Meddai Parry yn ei nodiadau ar y gerdd:

Y mae peth amheuaeth ynghylch dilysrwydd y cywydd hwn, oherwydd ceir cywydd arall i’r ceiliog bronfraith...a’i arddull yn debycach i arddull DG. Ond y mae celfyddyd y cywydd hwn a chyfartaledd isel y cynganeddion cytsain yn gwahardd ei droi heibio.¹⁴¹

Wrth drafod y maen prawf dau gywydd ar yr un testun, mae Parry’n dadlau bod modd rhannu cerddi o’r fath yn dri chategori. Yn gyntaf, ceir sefyllfa lle “mae un o’r ddau gywydd mor anghelydd a thrwstan fel na ellir tybio am funud ei fod yn waith Dafydd...”. (Mae hyn, wrth gwrs, yn enghraifft bellach o’r syniadau neu ragdybiaethau yr oedd Thomas Parry’n eu coleddu ynghylch gwaith Dafydd ap Gwilym). Yn ail ceir sefyllfa lle mae “un cywydd eto yn amlwg yn ddynewarediad o’r llall ond yn gywydd da, ac efallai yn cael ei briodoli i fardd arall yn y llsgrau...”. Yn olaf, “ceir dau gywydd ar enw Dafydd a’r ddau’n dda ac yn hen. Bydd eto gyfatebiaethau sy’n awgrymu efelychu, ond ni phriodolir yr un o’r ddau i neb ond i Ddafydd...”.¹⁴²

¹⁴¹ *GDG*, t. 470

¹⁴² *Ibid.*, t. xcix

A dyma, mae'n debyg, yw'r achos yn y cerddi i'r Ceiliog Bronfraith. Mae edrych ar *nifer* y copïau o llawysgrifau yn awgrymu mai *GDG 28* fu fwyaf poblogaidd ar hyd y blynyddoedd ac yn wir mae'r dystiolaeth fwyaf diweddar yn ategu hynny gan fod y gerdd hon yn ymddangos yn y pedwar casgliad diweddar a *GDG 123* ddim ond yn ymddangos mewn dau ohonynt. Ond dangoswyd yn rhannau agoriadol y traethawd nad *nifer* y copïau sy'n bwysig ond yn hytrach ansawdd a dibynadwyedd y copïau hynny.

Y llawysgrif gynharaf y ceir *GDG 28* ynddi yw Llawysgrif Wiliem Mathew (a godwyd i Peniarth 49) sy'n dyddio yn ôl i hanner cyntaf yr 16eg ganrif. Ymhlith y cerddi a briodolwyd i Dafydd yn Llyfr Wiliem Mathew mae cerddi megis ‘Merched Llanbadarn’, ‘Y Don ar Afon Dyfi’ a ‘Y Gwynt’ ond ceir hefyd yn y casgliad hwn y cerddi ‘Gwae fi o gariad gwiw fun’ a ‘Y ferch a gar ruddell vein’ a wrthodwyd o'r canon.

Er mai dau gopi yn unig a geir o *GDG 123*, mae'r gerdd wedi'i chadw yn Peniarth 52 sy'n dyddio yn ôl i ail hanner y 15fed ganrif. At hynny, yn wahanol i'r sefyllfa gyda'r llawysgrifau y ceir y gerdd gyntaf ynddynt, lle mae amryw ohonynt yn perthyn i'w gilydd mewn rhyw fodd, mae'r ddwy ffynhonnell y ceir *GDG 123* ynddynt yn gwbl annibynnol ar ei gilydd.

Mae nodiadau Thomas Parry ar y darlenniadau amrywiol yn dangos bod rhai copïau gogleddol o *GDG 28*, ac yn eu plith Hafod 26, yn cynnwys pedwar cwpled ychwanegol i'r hyn a geir yn y fersiwn a gyhoeddwyd yn y canon. Mae'n siŵr bod y rhain yn dystiolaeth o drosglwyddiad llafar y gerdd (awgrymwyd eisoes bod amryw o gerddi Hafod 26 yn rhai a oedd wedi'u cadw ar lafar yn y gogledd am beth amser cyn eu cofnodi ar glawr), ac fe allai hyn fod wedi peri dryswch ynghylch ei hawduraeth.

Beth felly am y meini prawf eraill? Yn ei nodiadau ar *GDG 28* mae Parry'n awgrymu bod *nifer* y cynganeddion sain yn y gerdd hon yn uchel, ac mae hynny'n wir am y ddwy gerdd i'r ceiliog bronfraith. Yn ôl ffigurau T. D. Crawford ceir 47%

yn rhif 28 a 55% yn rhif 123.¹⁴³ Wrth drafod meini prawf Parry meddai Rachel Bromwich:

These notes are very helpful as laying down some guidelines by which we may be helped to distinguish *cywyddau* composed in the fourteenth century from those of the fifteenth; though within the fourteenth century itself we still lack anything approaching secure criteria by which we may in all instances distinguish Dafydd’s own work from that of some gifted contemporary.¹⁴⁴

Ac yn sicr mae hynny’n wir yn yr achos hwn. Mae cyfartaledd uchel y cynganeddion sain yn arwydd digon cadarn bod y ddwy gerdd yn perthyn i’r 14eg ganrif, ond nid yw’n gymorth wrth geisio penderfynu ai Dafydd ynteu un o’i gyfoeswyr a ganodd y gerdd y mae amheuaeth yn ei chylch.

Er tegwch, mae Gwynn ap Gwilym yn ei gyflwyniad i’r cywydd ‘Y Ceiliog Bronfraith’ yn y gyfrol *50 o Gywddau*, yn tynnu sylw at y ffaith bod Thomas Parry wedi mynegi amheuaeth ynghylch awduraeth y cywydd hwn, ond mae’n casglu:

Dengys y cywydd hwn, er gwaetha’r amheuaeth ynghylch ei ddilysrwydd, rai o nodweddion amlycaf canu Dafydd ap Gwilym. Y mae’n gywydd natur hyfryd sy’n cynnwys hefyd ryw amwysedd anystyriol, nodweddiadol o gerddi dyfnaf y bardd.¹⁴⁵

Mae Bromwich hefyd yn ei nodiadau ar y gerdd yn dweud:

Doubts as to the authenticity of this poem are dispelled by Dr Parry on grounds of craftsmanship, and in spite of the fact that the authenticity of Dafydd’s other poem to the Thrush...rests on more assured grounds.¹⁴⁶

Gan droi felly at yr arddull a’r mynegiant, gwelir rhywfaint o adleisio rhwng dechrau’r ddwy gerdd. Yn y naill a’r llall ceir trychiad ar enw’r aderyn a chyfeirir at gân yr aderyn yn y coed. Cyfeiria’r gerdd gyntaf at y ceiliog bronfraith fel un ‘serchog ei sôn’ (*GDG* 28, ll.1) ac yn yr ail disgrifir ef fel ‘cantor hydr’ (*GDG* 123, ll.3).

Yn ogystal, mae’r ddwy gerdd, fel nifer o gerddi eraill Dafydd ap Gwilym, yn dwyn cymhariaeth rhwng yr aderyn a’r bardd. Yn y naill cyfeirir at yr aderyn fel ‘Pencerdd

¹⁴³ T. D. Crawford, ‘Cyfartaledd y Gynghanedd Sain yng Nghywyddau Dafydd ap Gwilym’, *YB* XII (1982), tt. 131- 142

¹⁴⁴ Rachel Bromwich, ‘Dafydd ap Gwilym’, *GWL* ii, t. 117

¹⁴⁵ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 102

¹⁴⁶ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), t. 92

gloyw’ (*GDG* 28, ll.12) a ‘Prydydd cerdd Ofydd’ (*GDG* 28, ll.21) a chofiwn fod amryw o gyfeiriadau at Ofydd yng ngwaith Dafydd. Yn yr ail gerdd cyfeirir at yr aderyn fel ‘Brydydd serch o Baradwys’. Rhaid nodi fodd bynnag nad yw’r gymhariaeth hon yn unigryw i ganu Dafydd.

Fodd bynnag, mae’r ddelwedd ganolog a geir yn y ddwy gerdd ychydig yn wahanol. Yn y cywydd cyntaf, darlunnir yr aderyn fel offeiriad yn ‘darllain deirllith (*GDG* 28, ll.7); cyfeirir ato fel ‘Proffwyd rhiw’ a ‘pregethwr’. Mae’r delweddau hyn wrth gwrs yn adleisio’r gerdd ‘Offeren y Llwyn’ (*GDG* 122), sy’n datblygu’r syniadaeth a’r ddelweddaeth hon yn llawnach nag y gwneir yma.

Yn yr ail disgrifir yr aderyn fel swyddog mewn llys a’r bardd gerbron ei well yn sgil ei helyntion carwriaethol. Cyfeirir at yr aderyn fel ‘Siryf’, ‘Ustus gwiw’ ac ‘Ystiwart llys’. Mae Parry’n cydnabod bod y gerdd gyntaf yn gelfydd ond mae o’r farn bod yr ail yn debycach i arddull Dafydd. Fel y gwelwyd eisoes wrth gymharu’r gerdd i’r Ehedydd a’r gerdd i’r Eryr mae’r adeiladu cyson ar yr un ddelwedd yn fwy effeithiol a thrawiadol yn yr ail gerdd i’r ceiliog bronfraith ac yn debycach i’r math o ddelweddaeth a geir mewn cerddi fel ‘Hwsmonaeth Cariad’ a ‘Morfudd fel yr Haul’.

Gellid dadlau hefyd bod y gerdd gyntaf yn symlach ei mynegiant a’i rhediad tra bo arddull yr ail gerdd yn fwy amrywiol. Trafodwyd eisoes syniadau D. J. Bowen ynghylch y gwahanol fathau o arddull a ddefnyddiai Dafydd o fewn yr un gerdd wrth iddo gyfeirio’n benodol at gywydd ‘Y Niwl’. Yn *GDG* 123, gwelir mai digon syml yw’r cypleddau sy’n disgrifio’r aderyn er bod y delweddau a grëir ymhell o fod yn ystrydebol. Disgrifir yr aderyn fel ‘Ustus gwiw ar flaen gwiaail / Ystiwart llys dyrys dail’ (*GDG* 123, ll. 11-12). Wedi hynny mae’r arddull yn *GDG* 123 yn fwy sangiadol tra bo arddull *GDG* 28 yn syml drwyddi ac mae’n bosibl bod y symlrwydd hwn wedi cyfrannu at boblogrwydd y gerdd ar hyd y blynyddoedd, yn wahanol felly i ‘Hwsmonaeth Cariad’ y buwyd yn ei thrafod uchod.

Gan ddychwelyd at y craidd o gerddi poblogaidd yn ei gyfanrwydd, nodwyd uchod mai 10 cerdd o blith y 38 sy’n cael eu hystyried yn boblogaidd sydd i’w cael yn y llawysgrifau cynnar. Beth felly yw cefndir llawysgrifol y gweddill?

Wrth drafod y llawysgrifau yn ail bennod y traethawd ceisiwyd dangos sut y bu i'r casgliadau o waith Dafydd ap Gwilym amlhau yn ystod yr 16eg ganrif. Dangoswyd mai 68 yn unig o gerddi'r canon sy'n ymddangos yn llawysgrifau'r 15fed ganrif. Mae ymddangosiad y *Vetustus c. 1526* yn ychwanegu rhyw 60 o gerddi pellach at enw Dafydd, ac y mae'r cyfan namyn 7 ohonynt yn cael eu cynnwys yng nghanon Thomas Parry (gweler Tabl II).¹⁴⁷

O'r ffynhonnell hon felly y daw 17 o'r cerddi ‘poblogaidd’. A dyma egluro'n syml ddigon pam y mae cyn lleied o orgyffwrdd rhwng y ddau graidd. Mae trwch y cerddi ‘poblogaidd’, hynny yw, y cerddi sy'n cael eu hystyried gan feirniaid y cyfnod modern yn rhai sy'n deilwng o gael eu hatgynhyrchu, a hynny hwyrach am eu bod yn darlunio canu Dafydd ap Gwilym ar ei orau, yn dod o gasgliad a gofnodwyd dros ganrif a hanner ar ôl ei farwolaeth.

Cyfeiriwyd eisoes at y modd y mae'r craidd o gerddi sydd i'w cael yn llawysgrifau'r 15fed ganrif yn drawstoriad sy'n cynrychioli'r holl fathau o ganu a gysylltwyd ag enw Dafydd ap Gwilym ar hyd y blynyddoedd a gwelwn fod hynny hefyd yn wir am y cerddi sy'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy'r *Vetustus*. Mae'r cerddi hyn fel petaent yn ychwanegu haen arall at y cymeriad barddol a oedd bellach yn adnabyddus fel Dafydd ap Gwilym.

I bob cerdd neu fath o gerdd a geir yn llawysgrifau'r 15fed ganrif, gwelwn gerdd neu gerddi cyfatebol yn ymddangos yn y *Vetustus*. Cawn yma eto ganu i fyd natur a'r tymhorau ym ‘Mis Mai a Mis Ionawr’. Cawn gerddi sy'n tynnu ar draddodiadau canu Ffrainc ac sy'n adrodd am anturiaethau serch y bardd yn ‘Tri Phorthor Eiddig’ a ‘Ei Gysgod’. Ceir cerddi i noddwyr a chyfoeswyr Dafydd a cherddi i Morfudd a Dyddgu hefyd, yn ogystal â cherddi i ferched di-enw eraill. Mae ‘Morfudd fel yr Haul’ yn enghraifft o gerdd sy'n seiliedig ar un ddelwedd estynedig. Ond, yn bwysicach na dim efallai, y *Vetustus* sy'n cyflwyno i ni am y tro cyntaf, rai o'r

¹⁴⁷ Gwrthododd Parry 7 o gerddi o'r *Vetustus*, sef ‘Cyrch, yr edn diaflednais’, ‘Ni chysgaf nid af o dŷ’, ‘Rho Duw hael rhadau helynt’, ‘Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais’, ‘Y ferch o'r fynachlog faen’, ‘Gydag ieir cei dy garu’ a ‘Rho Duw, gal, rhaid yw gwyliaw’. At hynny, gwrthodwyd ‘Gwae fi o gariad gwiw fun’ o Lyfr Wiliem Mathew, ac mae'r nodiadau wrth ymyl y gerdd honno yn P 49 yn nodi ei bod i'w chael yn y *Vetustus* hefyd.

cerddi dyfalu a’r cerddi llatai enwocaf a gysylltir ag enw Dafydd, cerddi megis ‘Y Seren’, ‘Y Niwl’, ‘Y Gwynt’ a ‘Yr Wylan’.

Yn y drafodaeth ar y llawysgrifau yn gynharach yn y traethawd, cyfeiriwyd at y modd yr oedd y casgliadau o waith Dafydd ap Gwilym yn mynd yn fwy o faint, a hefyd yn fwy llwgr, wrth nesáu at yr 16eg ganrif, wrth i’r copiŵyr geisio llunio casgliad ‘cyflawn’ o waith y bardd. Dyma sydd gan Rachel Bromwich i’w ddweud am yr anhawster o lunio canon dibynadwy:

From the fifteenth century onwards, scribes engaged in copying *cywyddau* were tempted to append the name of ‘Dafydd ap Gwilym’ to an increasingly large number of poems, which cannot by any means all have been the poet’s work. The preservation and transmission of these over a long period of time, subsequently to their original composition, by purely oral channels, facilitated these false attributions to Dafydd of any *cywyddau* of doubtful authorship which chanced to be concerned with the twin subjects of love and nature.¹⁴⁸

Mae nifer y cerddi a geir yn y *Vetustus*, a hefyd yn Llyfr Wiliem Mathew yn awgrymu bod y broses honno yn dechrau i ryw raddau gyda’r ddau gasgliad hynny. Byddai modd dadlau bod awydd y copiŵyr i gael casgliad mawr o waith Dafydd ap Gwilym yn eu gwneud yn fwy anfeiriadol ynghylch y cerddi yr oeddent yn eu cynnwys dan ei enw. Ond hyd yn oed ar ôl edrych ar y llawysgrifau cynnar a chynnwys y *Vetustus*, yr hyn sy’n ein taro yw bod rhai o gerddi ‘mawr’ y canon yn dal i fod ar goll.

Yn rhan flaenorol y traethawd, buwyd yn edrych yn benodol ar Hafod 26 a’r ddau gasgliad hynny o gerddi a geir ar ddechrau a diwedd y llawysgrif honno, a gwelwn yn awr, er nad oes i’r rhannau hynny o Hafod 26 ryw dras arbennig, eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig, nid yn unig i ganon Thomas Parry, ond hefyd i’r craidd o’r cerddi hynny sydd wedi dod yn gerddi poblogaidd.

Wrth ddadansoddi’r ddau graidd, gwelwn fod yna grŵp o gerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar ond nad ydynt wedi dod yn boblogaidd (mae’r cerddi nad ydynt yn ymddangos yn yr un o’r cyfrolau llai wedi’u rhestru yn nhabl VII, ond gellid ychwanegu at y rhain y cerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar ac

¹⁴⁸ Rachel Bromwich, ‘Dafydd ap Gwilym’, *GWL* ii, t.116

sydd yn ymddangos mewn un neu ddau o’r cyfrolau llai yn unig). Ceir hefyd grŵp o gerddi sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol ychydig yn hwyrach (h.y. trwy’r *Vetustus*), ond sydd er hynny wedi dod yn gerddi poblogaidd (gweler tabl X). Fodd bynnag, mae yna un grŵp arall o gerddi sydd yn fwy annisgwyl, ac o bosibl yn fwy arwyddocaol, na’r un grŵp arall. Cyfeirio yr wyf at y grŵp o gerddi, sydd heb os yn gerddi poblogaidd, sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol trwy Hafod 26 c. 1574, a hynny ochr yn ochr â nifer o gerddi amheus ac annilys, (gweler tabl VIII).

Rhyfedd meddwl bod cymaint o’r cerddi hyn i’w cael ymysg y craidd o gerddi poblogaidd ag sydd yna o gerddi cynnar. (Ymhlith y craidd o gerddi poblogaidd, ceir 10 o gerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar, a 9 cerdd sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol ar ôl y *Vetustus*). Prin bod angen dadansoddi’r casgliadau llai o gerddi Dafydd ap Gwilym neu’r astudiaethau o’i waith i wybod mai ‘Trafferth mewn Tafarn’ yw un o gerddi mwyaf poblogaidd Dafydd, ac yn sicr, hon yw’r enwocaf. Mae’r *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* yn ei disgrifio fel ‘un o gywyddau mwyaf doniol ac adnabyddus Dafydd’,¹⁴⁹ ac yn wir mae’r ffaith bod y gerdd yn teilyngu ei chofnod ei hun yn y gyfrol honno yn arwydd o’i henwogrwydd.

Er ei henwogrwydd, mae edrych ar y llawysgrifau yn dangos bod ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn ymddangos am y tro cyntaf yn y casgliad bychan hwnnw o gerddi a geir ar ddechrau Hafod 26. Ymhlith y cerddi eraill a geir yn y casgliad hwnnw mae ‘Mis Mai’ a ‘Morfudd yn Hen’, sydd wrth gwrs wedi’u cynnwys yn y canon a hefyd wedi dod yn gerddi ‘poblogaidd’. Ochr yn ochr â’r rhain, ceir amryw o gerddi gwrthodedig y buwyd yn trafod rhai ohonynt eisoes; cerddi megis ‘Dydd da i’r gog serchogfwyn’, ‘Dal neithiwr delwi wneuthum’ a ‘Cerais ferch yn dra serchog’. Yn achos y gerdd olaf hon, mae Thomas Parry yn barnu bod y ‘grefft yn gwbl annheilwng o DG’.¹⁵⁰

Cofiw’n i Thomas Parry dynnu sylw at ddiffyg tystiolaeth llawysgrifol neu dystiolaeth llawysgrifol wan wrth fynegi amheuaeth ynghylch rhai o’r cerddi hynny a gafodd eu cynnwys yn y canon, a’i fod hefyd wedi defnyddio hynny fel rheswm dros wrthod

¹⁴⁹ *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Adargraffiad diwygiedig, Caerdydd, 1992), t. 580

¹⁵⁰ *GDG*, t. clxxiv

rhai cerddi o’r canon. Wrth ystyried tystiolaeth y llawysgrifau yn rhannau blaenorol y traethawd, ceisiwyd dangos na fu Thomas Parry yn gwbl gyson wrth gymhwyso’r maen prawf hwn. Cofiw’n iddo ddweud nad oedd y dystiolaeth o blaid ‘Cyngor gan Frawd Llwyd’ yn gadarn, er bod y gerdd honno i’w chael yn Peniarth 48. Anodd meddwl felly ei fod yn cynnwys cerddi fel ‘Trafferth mewn Tafarn’, ‘Mis Mai’ a ‘Morfudd yn Hen’ i’w ganon, heb unwaith grybwyll tystiolaeth y llawysgrifau.

Er bod y tair cerdd hyn yn ymddangos am y tro cyntaf ymhlith yr un grŵp bach o gerddi, gwelir bod yna wahaniaeth trawiadol rhwng y dystiolaeth lawysgrifol sydd o’u plaid. Mae edrych ar nifer y copïau a geir o ‘Trafferth mewn Tafarn’, waeth beth fo ansawdd neu statws y copïau hynny, yn awgrymu bod y gerdd wedi bod yn boblogaidd ymysg y copïwyr, yn wahanol felly i ‘Mis Mai’ a ‘Morfudd yn Hen’, y mae’r holl copïau ohonynt yn tarddu o’r un gynsail.

Dyfynnwyd eisoes o eiriau Daniel Huws a oedd yn dadlau bod yr amrywiadau a geir yn y gwahanol gopïau o gerddi’r cyfnod yn arwydd clir o’u trosglwyddiad llafar. Mae edrych ar y rhestr faith o amrywiadau y mae Thomas Parry wedi’u nodi yn achos ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn awgrymu’n gryf bod y gerdd hon wedi bod yn cylchredeg ar lafar am gryn amser cyn ei chofnodi ar glawr am y tro cyntaf. Yn wir, mae’r testun a geir yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*¹⁵¹ yn dra gwahanol i’r un a geir gan Thomas Parry. Ar y llaw arall, prin iawn yw’r amrywiadau a nodwyd yn achos ‘Mis Mai’ a cheir llai fyth yn achos ‘Morfudd yn Hen’. Mae hynny’n awgrymu nad oedd y cerddi hynny wedi bod mor boblogaidd ar lafar.

Gan droi i edrych yn benodol ar ‘Trafferth mewn Tafarn’ felly, diddorol nodi mai mewn tri o’r casgliadau mwy diweddar y ceir y gerdd hon, a’i bod wedi’i hepgor o’r gyfrol *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* a gafodd ei gyhoeddi cyn canon Thomas Parry yn 1914. Byddai’n rhesymol casglu nad oedd testun y canu, a’r portread o’r bardd fel un oedd yn diota ac yn mercheta, wrth fodd Ifor Williams, a gan nad oedd yn ceisio llunio casgliad cyflawn o waith Dafydd, roedd yn rhydd i ddewis a dethol cerddi fel y gwelai’n ddoeth. Mae ‘Trafferth mewn Tafarn’ i’w chael yn y tri chasgliad a gyhoeddwyd ar ôl canon Thomas Parry, sy’n awgrymu bod y

¹⁵¹ *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* o grynhoed Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789)

gyfrol honno wedi cyfrannu at boblogrwydd y gerdd, er cofiwn iddi gael ei chyhoeddi yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* yn 1789, dan y teitl ‘Trwstaneiddiwch y Bardd’.

Er mwyn ceisio deall beth sy’n gyfrifol am boblogrwydd y gerdd ac ar ba sail y cafodd ei chynnig dro ar ôl tro gan wahanol feirniaid fel enghraifft o ganu Dafydd ar ei fwyaf arloesol, rhaid edrych yn fanylach ar y gerdd.

Gan dderbyn nad yw tystiolaeth y llawysgrifau yn gryf o blaid y gerdd hon, mae’n debyg y bydd yn rhaid pwysu’n drymach fyth ar feini prawf eraill Thomas Parry. Mae astudiaeth T. D. Crawford o’r gynghanedd Sain yng ngwaith Dafydd ab Gwilym yn dangos bod 36% o gynganeddion y gerdd yn rhai Sain, sydd dipyn yn uwch na’r ffigwr o 25% a bennwyd gan Parry fel rhyw fath o ffon fesur ar gyfer cywyddau’r 14eg ganrif ac yn agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer holl gerddi Dafydd ab Gwilym, er bod yr ystadegyn hwnnw wrth gwrs yn rhan o’r ddadl gylch yr ydym yn ceisio’i hosgoi.

O droi at grefft y cywydd, mae’n amlwg ddigon bod arddull ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn sangiadol, a hynny o’r dechrau i’r diwedd. Ni cheir hyd yn oed ar ddiwedd y cywydd ryw ychydig o ganu cypledol i amrywio’r arddull, a byddai modd dadlau mai’r gerdd hon, o blith holl gerddi’r canon, sy’n gwneud y defnydd helaethaf a mwyaf eithafol o dorymadroddi o’r fath.

Os yw’r arddull sangiadol a chyfartaledd y cynganeddion Sain yn ddigon i brofi cyfnod y cywydd, beth felly am brofi awduraeth?

Wrth drafod awduraeth ‘Caru yn y Gaeaf’ yn ail ran y traethawd, cyfeiriwyd at y grŵp o gerddi ‘rhwystr’ sy’n adrodd am anturiaethau serch y bardd a’r pethau sy’n ei rwystro rhag cyrraedd ei gariadferch, ac mae’n debyg mai i’r llinach hon y mae ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn perthyn. Mae rhai o’r cerddi hyn, megis ‘Y Ffenestr’, ‘Noson Olau’ a ‘Y Cwt Gwyddau’ i’w cael yn y llawysgrifau cynharaf. Mae ‘Tri Phorthor Eiddig’, ‘Y Wawr’ a ‘Lladrata Merch’ yn enghreifftiau o gerddi o’r fath sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol trwy’r *Vetustus*, ac mae ‘Caru yn y Gaeaf’, y buwyd yn ei thrafod eisoes, ymhlith y cerddi sy’n ymddangos am y tro cyntaf yn y

casgliad ar ddiwedd Hafod 26. Mae'n amlwg felly bod cerddi o'r fath wedi'u cysylltu ag enw Dafydd ap Gwilym o'r cychwyn cyntaf, ac wedi parhau i gael eu cysylltu â'i enw drwy'r canrifoedd. Er hynny, o'r cerddi a restrwyd, 'Trafferth mewn Tafarn' a 'Tri Phorthor Eiddig' yw'r unig rai i ymddangos ymhlith y craidd o gerddi poblogaidd.

Mae'r cerddi hyn, fel y crybwyllwyd eisoes, yn tynnu ar rai o draddodiadau canu'r cyfandir, ac mae mwy nag un beirniad wedi trafod y modd y bu i Dafydd ap Gwilym gyfuno rhai o elfennau'r traddodiad barddol Cymraeg a dylanwadau estron; meddai Bromwich:

Dafydd ap Gwilym's supreme achievement was the integration and synthesizing in his poetry of multiple streams of disparate origin.¹⁵²

O edrych ar y cerddi eraill a enwir yn yr un gwynt â 'Trafferth mewn Tafarn' gwelwn ei bod yn debyg iddynt ar lawer ystyr, ond ei bod ar yr un pryd ychydig yn wahanol, ac mae'n siŵr bod hynny'n wir am bob un o'r cerddi. Er bod tuedd i'w gosod mewn un grŵp, mae i bob un ohonynt ei nodweddion ei hun o ran arddull a chynnwys.

Wrth drafod cerddi rhwystr Dafydd, mae Rachel Bromwich yn cyfeirio at yr hyn sy'n eu gwneud yn unigryw:

...Dafydd's treatment of such anecdotes is unique in that he tells them in the first person, and is invariably an actor in his *fabliaux*: they are ironic and self-deprecatory, and the laugh lies in his own discomforture.¹⁵³

Ac yn sicr mae hynny'n wir yn achos 'Trafferth mewn Tafarn' yn ogystal ag yn achos y cerddi eraill a grybwyllwyd. Cerddi wedi'u hadrodd yn y person cyntaf ydynt, ac mae cymeriad a helyntion y bardd yn gwbl ganolog iddynt. Mae'n debyg mai honno yw un o'r nodweddion sy'n clymu'r cerddi wrth ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r term 'fabliaux' braidd yn gamarweiniol.¹⁵⁴ Mae D. S. Brewer yn diffinio fabliau fel:

¹⁵² Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*, t. 116

¹⁵³ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), t. 158

¹⁵⁴ Er tegwch, cyfeirio'n benodol at 'Y Cwt Gwyddau' a 'Trafferth mewn Tafarn' y mae Bromwich yn y fan hon, ond yr awgrym yw bod yna grŵp helaethach o gerddi sy'n perthyn i'r un *genre*.

A versified short story designed to make you laugh, subject matter often indecent, concerned either with sexual or excretory functions; plot usually in the form of a practical joke carried out for love or revenge.¹⁵⁵

Mae John Hines yn ei drafodaeth yntau ar y *fabliau*¹⁵⁶ yn cyfeirio at y ‘*deception*’ neu’r ‘*misdeed*’ sy’n ganolog iddynt.

Mae’n debyg mai’r gerdd ‘Yr Halenwr’ gan Madog Benfras, sydd wedi’i chyhoeddi yn yr *Oxford Book of Welsh Verse*, yw’r enghraifft orau o *fabliau* a geir yn y Gymraeg. Yn y gerdd honno, mae gan y bardd gynllwyn cyfrwys, ac wedi’i wisgo fel un sy’n gwerthu halen, mae’n llwyddo i dwyllo’i ffordd i dŷ ac ystafell wely’r ferch, a hynny er gwaetha’r gŵr Eiddig.

O ystyried diffiniad D. S. Brewer a syniadau John Hines, go brin felly mai enghreifftiau o’r *fabliau* a geir yn y rhan fwyaf o’r cerddi rhwystr a briodolir i Dafydd ap Gwilym. Ac os yw ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn perthyn i’r *genre* hwnnw, nid yw’n cydymffurfio’n llawn â’i nodweddion. Yn ‘Trafferth mewn Tafarn’, yn wahanol i’r *fabliau* eraill, y bardd ei hun sy’n adrodd y stori, ac ef yw testun sbort y gerdd. Nid yw cynllwyn y bardd i gyrraedd y ferch yn gyfrwys nac yn glyfar, a hyd yn oed wedyn, mae’n fethiant llwyr. Y methiant hwnnw, mae’n siŵr, yw’r ail nodwedd sy’n clymu’r holl gerddi rhwystr, ac yn hynny o beth, mae yna gysondeb thematig rhyngddynt. Meddai Dafydd Johnston:

Efallai mai’r rheswm pam na cheir *fabliau* o’r iawn ryw gan Ddafydd ap Gwilym yw bod yn well ganddo greu hiwmor trwy ei fethiant na’i lwyddiant...¹⁵⁷

Er bod rhyw elfen o rwystr yn perthyn i bob un o’r cerddi yn y ‘grŵp’ hwn, nid yw honno’n cael ei chyfleu yn yr un modd bob tro. Gellid dadlau er enghraifft, bod yr elfen o ffars yn fwy amlwg mewn cerddi fel ‘Trafferth mewn Tafarn’, ‘Tri Phorthor Eiddig’ a ‘Y Cwt Gwyddau’ nag ydyw mewn rhai o’r cerddi rhwystr eraill, megis ‘Y

¹⁵⁵ D.S. Brewer, ‘The Fabliaux’, yn Beryl Rowland (gol.), *Companion to Chaucer Studies* (Oxford, 1968), t. 247.

¹⁵⁶ John Hines, *The Fabliau in English* (New York, 1993)

¹⁵⁷ Dafydd Johnston, ‘Canu Serch y Cywyddwyr Cynnar’, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 150

Ffenestr’ a ‘Noson Olau’. Mae’n siŵr bod yr elfen hon o hiwmor a ffars yn cyfrannu’n fawr at boblogrwydd ‘Trafferth mewn Tafarn’.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae arddull ‘Trafferth mewn Tafarn’ yn sangiadol iawn, a’r bardd yn defnyddio’r arddull honno i gyfleu’r anhrefn y mae’n ei greu wrth ymbalfalu trwy dywyllwch y llofft:

Trewais, ni neidiais yn iach,
Y grimog, a gwae’r omach,
Wrth ystlys, ar waith ostler,
Ystôl groch ffôl, goruwch ffêr.(GDG 124, ll. 29-32)

Yn ôl Gwyn Thomas mae’r ‘llanast o gystrawen, yn cyfleu i’r dim lanast y digwyddiad...’.¹⁵⁸

Er bod cyffyrddiadau o’r arddull sangiadol hon i’w gweld mewn rhai o’r cerddi rhwystr eraill, nid yw’r un ohonynt yn defnyddio’r arddull hon i’r un graddau ag y gwneir yn ‘Trafferth mewn Tafarn’. Mae’r cydasio hwn rhwng arddull y dweud a’r hyn sy’n cael ei ddweud, yn elfen arall a allai fod yn rhannol gyfrifol am boblogrwydd y gerdd.

Wrth drafod ‘Caru yn y Gaeaf’ yn gynharach yn y traethawd, cyfeiriwyd at drafodaeth Dafydd Johnston, ‘The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym’. Yn y drafodaeth honno, mae’n dangos bod y syniad o rwystr yn aml yn cael ei gyfleu trwy’r ymadrodd ‘Am... â...’ a ddefnyddir gan y bardd wrth gyfeirio at y rhwystr sydd rhyngddo ef a’r ferch. Er enghraifft, defnyddir y llinell ‘Am y maenfur â meinferch’ mewn dwy o’r cerddi (‘Tri Phorthor Eiddig’ a ‘Caru yn y Gaeaf’). Mae’r sylwadau a geir gan Dafydd Johnston yn y drafodaeth honno yn dod â ni at un o’r prif wahaniaethau rhwng amryw o’r cerddi rhwystr a ‘Trafferth mewn Tafarn’. Ym mhob un o’r cerddi eraill, ac eithrio ‘Y Wawr’, mae’r bardd y tu allan i’r adeilad yn erfyn am gael dod i mewn. A dyma ddychwelyd at y defnydd o’r term *fabliau*. Mwy cywir fyddai disgrifio’r rhan fwyaf o’r cerddi rhwystr hyn fel *sérénades*, h.y. cerddi lle mae’r bardd yn sefyll y tu allan i dŷ ei gariadferch yn datgan ei gariad tuag ati ac yn gresynu nad yw’n gallu bod wrth ei hymyl. Nid cerddi rhamantus a geir gan Dafydd, yn hytrach ceir elfen gref o hiwmor ynddynt am

¹⁵⁸ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976), t. 165

fod y bardd, bron yn ddieithriad, yn cael ei hel oddi yno gan ŵr y ferch. Yn ‘Trafferth mewn Tafarn’, ar y llaw arall, mae natur y rhwystr yn wahanol gan na cheir unrhyw awgrym bod y ferch y mae’r bardd yn ceisio’i chyrraedd yn wraig briod. Mwy arwyddocaol na hynny, fodd bynnag, yw’r ffaith bod y bardd yn yr adeilad. Er hynny, mae ei ymdrechion carwriaethol yr un mor aflwyddiannus. Meddai Dafydd Johnston:

...Dafydd is very rarely seen inside any real house. One notable case is ‘Trafferth mewn Tafarn’...He is completely out of his element within the confined space, managing to bump into all the furniture and wake up the other occupants of the inn...¹⁵⁹

Er y byddai modd dadlau bod y cefndir trefol a geir i’r gerdd hon yn ei gwneud yn wahanol i weddill cerddi Dafydd a’i bod yn tynnu’n groes i’r syniadau ynghylch caru yn y coed a delfryd y deildy sy’n cael eu cysylltu mor aml ag enw Dafydd, mae dadleuon Dafydd Johnston yn awgrymu bod aflwyddiant y bardd yn yr adeilad yn cryfhau’r syniadaeth honno yn hytrach na’i thanseilio. Mae ei fethiant yn yr adeilad yn wrthgyferbyniad llwyr i’r llawenydd y mae’n ei brofi yn y coed.

...the house invariably excludes him from the girl. Only in the freedom of the woods does he play the role of the successful lover...¹⁶⁰

Fodd bynnag, mae unrhyw ddadleuon ynghylch y modd y mae themâu neu syniadau rhai cerddi yn cyfoethogi ac yn adlewyrchu’r rheiny a geir mewn cerddi eraill yn ddibynnol i raddau helaeth ar y ddadl gylch. Hynny yw, mae dadlau bod y darlun o’r carwr aflwyddiannus yn yr adeilad yn cael ei atgyfnerthu gan y darlun o’r carwr llwyddiannus yn y coed, yn rhagdybio bod y cerddi olaf hynny yn rhai dilys y gellir eu defnyddio i fesur cerddi eraill yn eu herbyn. Mae hwn yn syniad y byddwn yn dychwelyd ato eto wrth drafod rhai o’r cerddi ‘poblogaidd’ eraill.

Fel y crybwyllwyd uchod, cefndir trefol sydd i’r gerdd ‘Trafferth mewn Tafarn’ ac mae hynny eto yn ei gwneud ychydig yn wahanol i’r cerddi rhwystr eraill. Mae yna gerdd arall, nad yw’n perthyn i’r grŵp o gerddi rhwystr sy’n debyg i ‘Trafferth mewn Tafarn’ mewn sawl ffordd. Y gerdd honno yw ‘Athrodi ei Was’ (GDG 128). Mae’r gerdd hon i’w chael yn Llyfr Wiliem Mathew (Peniarth 49, 35), Hen Lyfr

¹⁵⁹ David Johnston, ‘The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym’, *CMCS* 5, t. 16-17

¹⁶⁰ *Ibid.*, t. 17

Arall (Peniarth 49, 71) a'r Vetustus (Hafod 26, ii, 25), sy'n golygu ei bod wedi'i chofnodi am y tro cyntaf cyn 'Trafferth mewn Tafarn'.

Cefndir trefol sydd i'r gerdd hon hefyd, ac mae'r bardd eto yn rhoi ei fryd ar ryw ferch ar ôl ei gweld o bell. Yn hytrach na cheisio mynd at y ferch ei hun, mae'r bardd yn anfon ei was ar ei hôl gyda gwin i'w gynnig yn rhodd iddi. Nid yw'r 'tactegau' hyn yn tycio chwaith, ac mae'r elfen o fethiant a hiwmor yn amlwg yma eto wrth i'r ferch wrthod y bardd gan arllwys y gwin am ben y gwas.

Er y cysylltiadau â cherddi eraill, nid oes i 'Trafferth mewn Tafarn' gymar amlwg o fewn y canon, yn wahanol felly i'r gerdd 'Mis Mai', sydd hefyd i'w chael ar ddechrau Hafod 26. Yn achos y gerdd hon, hawdd gweld, ar yr olwg gyntaf, i ba gerddi eraill yn y canon y mae'n perthyn. Felly er bod tystiolaeth y llawysgrifau yn wan, mae'r ffaith ei bod fel petai yn perthyn yn agos i grŵp o gerddi yn gymorth i gyfiawnhau ei chynnwys yn y canon.

Disgrifiwyd Dafydd droeon fel bardd serch a natur, a does dim dwywaith bod y gerdd hon yn ychwanegu pwysau at y disgrifiad ohono fel bardd natur. Cerdd o fawl i dymor y gwanwyn a geir yn y gerdd hon, disgrifia'r bardd y tymor fel 'harddwas teg' a gŵr 'mawr hael'. Er mai cerdd natur ydyw yn bennaf, yn islais trwy'r gerdd ceir darlun o fis Mai fel tymor y cariadon, cyfeiria'r bardd at y modd y bu iddo ddofi merch 'dan gôr Mai'. Cerdd hyderus yw hon felly, sy'n ymfalchïo yn y cyfan sydd gan y tymor i'w gynnig heb unwaith boeni am fyrhoedledd y pethau hynny.

Un o'r cerddi sy'n cael ei chynnig fel cymar amlwg i 'Mis Mai' yw'r gerdd 'Mis Mai a Mis Ionawr'. Mae'r cywydd hwn yn perthyn i gyfnod ychydig yn gynharach o safbwynt y llawysgrifau, gan iddo ymuno â'r traddodiad ysgrifenedig trwy'r Vetustus. Ceir yma yr un syniadau ynghylch y gwanwyn ag a geir ym 'Mis Mai', ond fel y mae'r teitl yn awgrymu, mae'r bardd yn mynd gam ymhellach trwy ddarlunio'r gwrthgyferbyniad rhwng y gwanwyn a'r gaeaf. Disgrifir mis Mai fel 'Cadarn farchog serchog sâl', a 'Cyfaill cariad ac adar', dyma'r tymor sy'n gwisgo 'bob lle â'i we wyrdd' ac yn rhoi i ni 'wybren loyw hoyw'. Tra gwahanol ydyw felly i'r mis 'dig du / A gerydd i bawb garu'.

Ceir yma gyfeiriad uniongyrchol at Morfudd ac ymhlyg yn y gerdd mae'r syniad bod y gwanwyn yn dymor sy'n rhoi rhyddid i'r bardd garu yn y coed, tra bo'r gaeaf ar y llaw arall yn rhwystro pob ymgais i wneud hynny. Mae'n gas gan y bardd y gaeaf ac mae hynny'n amlwg yn y cytseiniaid caled a ddefnyddia i ddisgrifio'r tymor hwnnw, 'llaesglog a chenllysglaw', 'llifeiriaint llwyd'. Er i'r bardd ymhyfrydu yn nyfodiad y gwanwyn ar ddechrau'r gerdd, ni cheir yma yr un hyder ag a geir yn 'Mis Mai', ond yn hytrach sylweddoliad, hyd yn oed ar ddechrau'r gwanwyn, bod y gaeaf gerllaw.

Cerdd arall sy'n aml yn cael ei chysylltu â'r ddwy gerdd a grybwyllwyd eisoes yw'r gerdd 'Mawl i'r Haf'. Fel 'Mis Mai', mae hon hefyd yn gerdd sy'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy Hafod 26 ac mae ymhlith y grŵp o gerddi ar ddiwedd y llawysgrif honno. Unwaith eto, prin yw'r copiâu o'r gerdd hon ac ychydig o amrywiadau sydd wedi'u nodi gan Thomas Parry, sydd eto'n awgrymu na fu'r gerdd hon yn cylchredeg yn helaeth ar lafar.

Fel y mae'r teitl yn awgrymu, cerdd o fawl i'r haf a geir yma, ond mae naws y gerdd yn wahanol iawn i'r hyn a geir yn y ddwy gerdd a drafodwyd eisoes. Fel y gerdd i 'Mis Mai' gellid disgrifio hon hefyd fel cerdd natur, ond cerdd natur bur ydyw. Ni cheir yma unrhyw gyfeiriadau at serch a merched, ac yn wahanol i 'Mis Mai' ni ellir dadlau bod syniadau ynghylch y cysylltiad rhwng y tymor a rhyddid y bardd i garu ymhlyg dan yr wyneb.

Yr hyn a geir yn y gerdd hon yw'r bardd yn cyfarch y tymor yn uniongyrchol, fel ag y gwneir yn aml yn y cerddi mawl i noddwyr. Yn y gerdd 'Mis Mai', mae'r bardd yn dweud mai 'Duw mawr a roes doe y Mai', ac mae'n dweud ymhellach: 'O'r nef y doeth...'. Yn wrthgyferbyniad i hyn felly, mae naws y gerdd 'Mawl i'r Haf' yn baganaidd iawn gyda'r disgrifiad o'r haf fel 'pair' a'r cyfeiriadau at Annwn. Yn hytrach na moli'r tymor fel rhodd gan Dduw, mae'r bardd yn gweld yr haf fel duw i'w foli yn ei rinwedd ei hun. Dyma'r tymor sy'n rhoi dail ar y coed a chnydau yn y caeau.

Unwaith eto felly, fel yn y gerdd 'Mis Mai a Mis Ionawr' mae'r bardd yn ymwybodol iawn mai yma dros dro y mae'r haf. Meddai:

Pennod 5 – Y cerddi ‘poblogaidd’

A drwg yw yn dragywydd
Nesed Awst, ai nos ai dydd,
A gwybod...
...yr aut ymaith (*GDG 27*, ll. 23-26).

Mae'r bardd yn gofyn i'r haf i ble y mae'n mynd ar ddiwedd Gorffennaf, ac mae'r tymor yn dweud ei fod, ar ôl gwneud ei waith, yn mynd i Annwfn i guddio rhag y gaeaf.

Fel yn y cerddi marwnad traddodiadol, mae'r bardd yn defnyddio'r ffurf 'Yn iach' wrth ffarwelio â'r haf a'r holl bethau a fydd yn diflannu gydag ef:

Yn iach, hin Fehefin fainc,
Yn iach, yr haul yn uchel... (*GDG 27*, ll. 46-47).

Er y tristwch, nid yw'r gerdd yn gorffen ag anobaith, oherwydd cerdd i gylch y tymhorau a throad y rhod yw hon, ac mae'r bardd yn gwybod y bydd yr haf yn dychwelyd drachefn:

Oni ddêl...
Eilwaith yr haf a'i lethr hardd. (*GDG 27*, ll. 51-52)

Cerdd arall sy'n aml yn cael ei chrybwyll yn yr un gwynt â'r cerddi y buwyd yn eu trafod hyd yma yw 'Yr Haf' (*GDG 24*). Mae'r gerdd hon i'w chael ymhlith y craidd o gerddi poblogaidd a hefyd ymhlith y craidd o gerddi cynnar gan ei bod yn un o'r cerddi a godwyd o Lyfr Gwyn Hergest. Mae tuedd efallai i weld y gerdd hon fel cymar i 'Mis Mai' a hynny am fod y ddwy yn gerddi sydd wedi'u hysgrifennu ar un odl. Mae tuedd hefyd i'w chyplysu â'r gerdd 'Mawl i'r Haf' a hynny am resymau amlwg, ond fel y gwelwn, er mai'r un yw'r thema, mae'r weledigaeth a geir yn 'Yr Haf' yn wahanol iawn.

Daw'r gwahaniaeth yn amlwg o linell gyntaf 'Yr Haf', lle mae'r bardd yn mynegi ei ofid ynghylch byrhoedledd yr haf:

Gwae ni, hil eiddil Addaf,
Fordwy rhad, fyrred yr haf.

Yn wahanol i'r ddelweddaeth baganaidd a geir yn 'Mawl i'r Haf', cefndir Cristnogol sydd i'r gerdd hon, ac mae'r cyfeiriad at Adda ar ddechrau'r gerdd yn fwriadol yn

ein hatgoffa o’r modd y bu i Adda ac Efa golli eu paradwys, yn union fel ag y mae’r bardd yn colli ei baradwys yntau wrth i’r gaeaf ddisodli’r haf. Fel yn y gerdd ‘Mis Mai a Mis Ionawr’ felly, mae’r bardd, hyd yn oed yng nghanol hyfrydwch yr haf, yn boenus o ymwybodol o dreigl amser.

O ganlyniad i’r odl -af a geir trwy’r gerdd, mae’r bardd yn aml yn defnyddio person cyntaf y ferf a gradd eithaf yr ansoddair i gynnal yr odl honno. Canlyniad hyn yw bod y gerdd yn un eithafol a phersonol. Meddai’r bardd:

Gweled mor hardd, mi chwarddaf
Gwallt ar ben hoyw fedwen haf.

Yn aml, defnyddir y gerdd hon, a’r dyfyniad hwn, yn sail i amryw o’r sylwadau a geir gan feirniaid ynghylch diniweidrwydd a brwdfrydedd Dafydd ap Gwilym yn wyneb y byd naturiol, ond fel y crybwyllwyd, ceir tristwch ochr yn ochr â hynny.

O blith y pedair cerdd a drafodwyd, mae’r cyswllt rhwng yr haf a chariadon ar ei amlycaf yn y gerdd hon. Dyma’r tymor sy’n caniatáu i’r bardd dreulio ei ddiwrnodau mewn ‘tai llwyn’, heb ddim ond ‘mentyll haf’ amdano. Yn wrthbwynt i hyn, gwneir y cysylltiad rhwng y gaeaf a’r gŵr eiddig; meddai’r bardd amdano: ‘Ni ddawr hwn oni ddaw’r haf...’. Wrth drafod y math o syniadau a geir yn y gerdd hon a’r gerdd ‘Mis Mai a Mis Ionawr’, meddai Helen Fulton:

The attraction of summer therefore lies not merely in its physical beauties but in the opportunities for idyllic woodland love-meetings...Conversely, winter is evoked through images of cold and gloom as an explicitly hostile agent with regard to love.¹⁶¹

Os yw’r bardd yn ‘Mawl i’r Haf’ yn ffyddiog y bydd yr haf yn dychwelyd yn ei dro, nid felly y mae yn ‘Yr Haf’. Nid tŷn hyderus a geir yma, ond yn hytrach nodyn hiraethus, wrth iddo ofyn yn drist ‘Mae’r haf?’. Mae Dafydd Johnston yn ei erthygl ‘Paradwys Dafydd ap Gwilym’ yn crynhoi’r gwahaniaeth yn safbwynt y ddwy gerdd:

Amser cylchynol byd natur sydd dan sylw yn ‘Mawl i’r Haf’, byd a ailenir o’r newydd o hyd, ond dynol yw’r safbwynt yn ‘Yr Haf’...Nid yw amser yn gylchynol i’r ddynoliaeth, mae’n symud ymlaen yn ddi-droi’n ôl.¹⁶²

¹⁶¹ Helen Fulton, ‘Popular Traditions in Dafydd’s Love-Poetry’, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989), t. 169

¹⁶² Dafydd Johnston, ‘Paradwys Dafydd ap Gwilym’, *YB XX* (1995), t. 120



Crybwyllwyd y gerdd ‘Morfudd yn Hen’ fel un arall o’r cerddi sydd i’w chael am y tro cyntaf ar ddechrau Hafod 26. Nodwyd hefyd bod y dystiolaeth lawysgrifol o’i phlaid yn wan. Er hynny, mae hon hefyd ymhlith y cerddi poblogaidd, er ei bod, fel ‘Trafferth mewn Tafarn’ wedi’i hepgor o gasgliad Ifor Williams a Thomas Roberts. Mae hyn eto’n awgrymu bod canon Thomas Parry wedi cyfrannu at ei phoblogrwydd, ac wedi cynorthwyo i ddod â hi i sylw’r beirniaid. Mae’n debyg bod y ffaith bod Morfudd yn cael ei henwi yn y gerdd o’i phlaid, er i ni gofio bod Thomas Parry wedi dewis gwrthod cerddi eraill sy’n enwi Morfudd.

Er nad cerdd i natur mo hon, ceir cysylltiad rhyngddi a ‘Yr Haf’ a ‘Mis Mai a Mis Ionawr’ am fod y bardd eto yn dangos pa mor ymwybodol ydyw o dreigl amser. Mae’r gerdd hefyd yn perthyn i’r grŵp o gerddi i’r brodyr, y buwyd yn trafod rhai ohonynt eisoes. Dameg a geir yma gan y Brawd Du sy’n rhybuddio’r bardd mai rhywbeth dros dro yw harddwch cnawdol, a’r bardd ar sail hynny yn mynd yn ei flaen i ddisgrifio Morfudd yn hen, a hynny, hwyrach fel rhybudd iddi hi i wneud yn fawr o’i hamser.

Gan i Dafydd, yn ôl pob tebyg, farw yn ifanc, bu rhai’n gofyn sut felly y gallai ganu cerdd i Morfudd yn hen, ac mewn ymateb i hynny bu eraill yn dadlau mai ffrwyth dychmyg y bardd yw’r ddelwedd ohoni wedi heneiddio. Meddai Gwynn ap Gwilym yn ei nodiadau ar y gerdd yn y gyfrol *50 o Gywyddau*:

Nid wyf mor siŵr fy hun fod yn rhaid derbyn sylwadau Dafydd ar henaint Morfudd yn llythrennol. Onid yw’n llawn mor debygol mai dychmygu Morfudd yn hen y mae, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i sylwadau’r brawd du ar freuder tegwch merch?¹⁶³

Bellach, mae’r un a fu mor brydferth yn:

Ysgubell ar briddell brag,
Ysgawen lwydwen ledwag. (*GDG* 139, ll. 37-38)

Mae llais y bardd ar ei dristaf pan ddywed ‘Breuddwyd yw; ebrwydded oes’, ac wrth gwrs cawn y llinell enwog honno i gloi’r gerdd, ‘Hafod oer; hi a fu deg.’ Diddorol nodi nad yw’r llinell honno yn ymddangos yn y copi a geir yn Hafod 26.

¹⁶³ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 111

Sut felly mae cysoni'r gwahaniaeth sylweddol yng ngweledigaeth y cerddi hyn y buwyd yn eu trafod? Ceisiwyd dangos bod ‘Mis Mai’ a ‘Mawl i’r Haf’, er yn wahanol iawn o ran eu delweddaeth, yn gwbl hyderus eu tŷn, a chofiwn i’r ddwy gerdd hyn ymuno â’r traddodiad llawysgrifol yn gymharol hwyr, trwy Hafod 26. Ar y llaw arall, er bod ‘Mis Mai a Mis Ionawr’, a ‘Yr Haf’ hefyd yn gerddi natur, ac er eu bod yn aml yn cael eu trafod yn yr un gwynt â’r ddwy gerdd arall, nid oes yma yr un hyder, yn hytrach, darlunnir ymwybyddiaeth y bardd o freuder bywyd. Mae’r weledigaeth honno yn cael ei hategu gan gerddi fel ‘Morfudd yn Hen’, a hefyd ‘Yr Adfail’, nad ydynt yn gerddi natur, ond sy’n darlunio teimladau’r bardd ynghylch treigl amser.

Pe byddem yn cymryd am eiliad bod modd i ni fod yn hollol siŵr bod y gerdd ‘Yr Haf’ yn gerdd ddilys, am ei bod wedi’i chofnodi yn un o’r ffynonellau cynharaf sydd ar gael i ni, rhesymol fyddai tybio bod Dafydd ap Gwilym yn fardd a oedd yn ymhyfrydu ym myd natur, ond a oedd hefyd yn ymwybodol o fyrhoedledd yr hyfrydwch hwnnw. Byddai casgliad o’r fath yn cael ei gadarnhau wedyn gan gerdd fel ‘Mis Mai a Mis Ionawr’ sy’n ymuno â’r traddodiad ysgrifenedig ychydig yn ddiweddarach, trwy’r Vetustus ac yn cael ei ategu gan ‘Yr Adfail’ sydd hefyd i’w chael yn y casgliad hwnnw. Sut felly mae egluro’r weledigaeth a geir yn ‘Mis Mai’ a ‘Mawl i’r Haf’ lle mae’r bardd yn mwynhau’r hyn sydd gan fyd natur i’w gynnig heb boeni am fyrhoedledd y pethau hynny? Ac yn wir, er mai’r un dŷn hyderus a geir yn y ddwy gerdd hyn, tybed a yw’r gwahaniaeth sylfaenol yn nelweddaeth a naws y ddwy yn ddigon i beri i ni ofyn ai’r un bardd a’u canodd?

Mae disgrifio Dafydd fel bardd ‘amlochrog ei lais’, yn ffordd hwylus o gysoni’r weledigaeth wahanol a geir yn y cerddi a briodolir iddo, ac yn wir, o gymryd bod cerddi fel ‘Yr Haf’ a ‘Mis Mai a Mis Ionawr’ yn ddilys, gwelwn fod yna ddeuoliaeth yn ei ganu, mae’n ymfalchïo yn hyfrydwch byd natur ar y naill law, ond hefyd yn ymwybodol iawn o freuder bywyd dyn ar y llaw arall. Ond rhywbeth gwahanol eto yw’r hyder a geir yn ‘Mis Mai’ a ‘Mawl i’r Haf’. O grwpio cerddi gyda’i gilydd, ac o gymryd yn ganiataol mai’r un bardd sydd wedi’u canu, mae modd creu unoliaeth a chysondeb er gwaetha’r gwahaniaethau sylfaenol a geir ynddynt a gwelwyd hynny hefyd i ryw raddau wrth drafod ‘Trafferth mewn Tafarn.’

Yn wyneb y gwahaniaethau hyn felly, tybed a yw’n werth ailystyried syniadau Helen Fulton a oedd yn dadlau nad gwaith un bardd yw’r holl gerddi a briodolir i Dafydd ap Gwilym, ond yn hytrach mai’r hyn sydd gennym yn y canon a’r apocryffa yw gwaith ysgol o feirdd nad oeddent yn cyfyngu’u hunain i ganu mawl a marwnad traddodiadol? Meddai yn ei chyflwyniad i gerddi’r apocryffa:

I am inclined to doubt that all the poems in *GDG* were composed by a single author, and the most I can say about them is that they, along with the apocrypha and all the other *cywyddau* of the 14th and 15th centuries, represent the work of a school of poets of whom Dafydd ap Gwilym was evidently a prominent member.¹⁶⁴

¹⁶⁴ *DGA*, t. xvi

TABL V

Cerdd (a'i rhif yn GDG)	Ffynonellau heblaw GDG
2. Englynon yr Offeren	DAGP
4. Lluniau Crist a'r Apostolion	HCG
7. Cywydd i Ifor Hael	DGG, DAGP, MWP
8. Basaleg	DAGP
9. Diolch am Fenig	MWP
17. Marwnad Rhydderch	DGG, DAGP, HCG
18. Marwnad Gruffudd ab Adda	DGG, DAGP, HCG, MWP
19. Marwnad Madog Benfras	DGG, DAGP
20. Marwnad Gruffudd Gryg	DGG
22. Y Llwynog	DAGP
23. Mis Mai	DGG, DAGP, HCG, MWP
24. Yr Haf	DGG, DAGP, HCG, MWP
26. Y Dylluan	DAGP, HCG, MWP
27. Mawl i'r Haf	DGG, DAGP, MWP
28. Y Ceiliog Bronfraith (Y ceiliog serchog...)	DGG, DAGP, HCG, MWP
29. Y Llwyn Celyn	DAGP, MWP
30. Yr Adarwr	HCG
32. Gerlant o Blu Paun	MWP
35. Gwadu iddo fod yn fynach	HCG, MWP
34. Talu Dyled	DGG, DAGP, MWP
38. Yr Euryches	MWP
39. Y Breuddwyd	DGG, DAGP, HCG, MWP
40. Amnaid	DGG
41. Merch Gyndyn	DAGP, MWP
42. Morfudd fel yr Haul	DAGP, HCG, MWP
43. Llw Morfudd	MWP
44. Penwisg Merch	MWP
45. Dyddgu	DAGP, MWP
48. Merched Llanbadarn	DGG, DAGP, HCG, MWP
49. Merch yn ymbincio	DGG, HCG, MWP
50. Chwarae Cnau I'm Llaw	HCG
52. Gofyn Cymod	HCG
53. Breichiau Morfudd	DGG, HCG, MWP
54. Rhagoriaeth y Bardd ar Arall	MWP
55. Taeru	MWP
56. Campau Bun	DGG
57. Y Fun o Eithinfynydd	DGG, HCG, MWP
58. Merch yn edliw ei lyfrdra	DGG, HCG, MWP, DAGP
59. Yr Het Fedw	MWP
62. Y Mwdwl Gwair	DAGP, MWP
63. Cyngor y Biogen	DGG, DAGP, HCG, MWP
64. Y Ffenestr	MWP
66. Y Cloc	DAGP, MWP
67. Y Seren	DGG, DAGP, HCG, MWP
68. Y Niwl	DAGP, MWP, HCG
69. Mis Mai a Mis Ionawr	DGG, DAGP, HCG, MWP
71. Y Don ar Afon Dyfi	DGG, DAGP, HCG, MWP

Cerdd (a'i rhif yn GDG)	Ffynonellau heblaw GDG
72. Trech a Gais nog a Geidw	DGG
73. Gwallt Morfudd	MWP
74. Y Serch Lledrad	DGG, DAGP, HCG, MWP
75. I Ddymuno Boddi'r Gŵr Eiddig	DGG
76. Rhag Hyderu ar y Byd	DGG
79. Morfudd a Dyddgu	DAGP, HCG
80. Tri Phorthor Eiddig	DGG, HCG, MWP
81. Llychwino Pryd y Ferch	HCG, MWP, DAGP
83. Taith i Garu	DAGP
84. Hudoliaeth Merch	DAGP
85. Siom	DGG, MWP
87. Hwsmonaeth Cariad	DAGP
89. Dan y Bargod	DGG, DAGP
90. Cystudd Cariad	DGG, DAGP, HCG, MWP
94. Galw ar Ddwynwen	DAGP, MWP, HCG
97. Angof	HCG, MWP
98. Dewis un o bedair	DAGP
99. Pererindod Merch	MWP
100. Saethu'r Ferch	MWP
102. Cystudd y Bardd	DGG, DAGP, HCG
105. Y Drych	DGG, DAGP, MWP
106. Edifeirwch	DAGP, MWP
111. Y Gwayw	DGG, DAGP, HCG
112. Yr Annerch	DGG
113. Cyrchu Lleian	DAGP
114. Yr Ehedydd	DGG, DAGP, MWP
115. Y Cyffyllog	DGG, HCG
116. Y Carw	DAGP
117. Y Gwynt	DGG, DAGP, HCG, MWP
118. Yr Wylan	DGG, DAGP, HCG, MWP
119. I Wahodd Dyddgu	DGG, HCG, MWP
121. Y Deildy	DAGP
122. Offeren y Llwyn	DGG, DAGP, HCG, MWP
123. Y Ceiliog Bronfraith 'Y mae bob Mai...'	DAGP, HCG
124. Trafferth Mewn Tafarn	DAGP, HCG, MWP
125. Y Rhugl Groen	HCG
126. Y Cwt Gwyddau	DAGP
127. Y Pwll Mawn	HCG
128. Athrodi ei Was	MWP
129. Y Wawr	DAGP, MWP
130. Y Garreg Ateb	HCG
136. Cyngor gan Frawd Llwyd	DGG
137. Y Bardd a'r Brawd Llwyd	DGG, DAGP, HCG, MWP
138. Rhybudd Brawd Du	HCG
139. Morfudd yn Hen	DAGP, HCG, MWP
141. Ei Gysgod	DAGP, HCG, MWP
144. Yr Adfail	DAGP, HCG
145. Caru yn y Gaeaf	DGG
Cywydd y Gal	MWP
CYFANSWM – 96	

TABL VI

Cerdd (a'i rhif yn <i>GDG</i>)	Ffynonellau heblaw <i>GDG</i>
7. Cywydd i Ifor Hael	DGG, DAGP, MWP
17. Marwnad Rhydderch	DGG, DAGP, HCG
18. Marwnad Gruffudd ab Adda	DGG, DAGP, HCG, MWP
23. Mis Mai	DGG, DAGP, HCG, MWP
24. Yr Haf	DGG, DAGP, HCG, MWP
26. Y Dylluan	DAGP, HCG, MWP
27. Mawl i'r Haf	DGG, DAGP, MWP
28. Y Ceiliog Bronfraith (Y ceiliog serchog ei sôn)	DGG, DAGP, HCG, MWP
34. Talu Dyled	DGG, DAGP, MWP
39. Y Breuddwyd	DGG, DAGP, HCG, MWP
42. Morfudd fel yr Haul	DAGP, HCG, MWP
48. Merched Llanbadarn	DGG, DAGP, HCG, MWP
49. Merch yn ymbincio	DGG, HCG, MWP
53. Breichiau Morfudd	DGG, HCG, MWP
57. Y Fun o Eithinfynydd	DGG, HCG, MWP
58. Merch yn edliw ei lyfrdra	DGG, HCG, MWP, DAGP
63. Cyngor y Biogen	DGG, DAGP, HCG, MWP
67. Y Seren	DGG, DAGP, HCG, MWP
68. Y Niwl	DAGP, MWP, HCG
69. Mis Mai a Mis Ionawr	DGG, DAGP, HCG, MWP
71. Y Don ar Afon Dyfi	DGG, DAGP, HCG, MWP
74. Y Serch Lledrad	DGG, DAGP, HCG, MWP
80. Tri Phorthor Eiddig	DGG, HCG, MWP
81. Llychwino Pryd y Ferch	HCG, MWP, DAGP
90. Cystudd Cariad	DGG, DAGP, HCG, MWP
94. Galw ar Ddwynwen	DAGP, MWP, HCG
102. Cystudd y Bardd	DGG, DAGP, HCG
105. Y Drych	DGG, DAGP, MWP
111. Y Gwayw	DGG, DAGP, HCG
114. Yr Ehedydd	DGG, DAGP, MWP
117. Y Gwynt	DGG, DAGP, HCG, MWP
118. Yr Wylan	DGG, DAGP, HCG, MWP
119. I Wahodd Dyddgu	DGG, HCG, MWP
122. Offeren y Llwyn	DGG, DAGP, HCG, MWP
124. Trafferth Mewn Tafarn	DAGP, HCG, MWP
137. Y Bardd a'r Brawd Llwyd	DGG, DAGP, HCG, MWP
139. Morfudd yn Hen	DAGP, HCG, MWP
141. Ei Gysgod	DAGP, HCG, MWP
CYFANSWM – 38	

TABL VII

Cerdd a'i rhif yn <i>GDG</i>	Ffynhonnell Lawysgrifol
Englynion y Grog o Gaer	Llawysgrif Hendregadredd
Englynion y Cusan	Llyfr Gwyn Rhydderch
5. Awdl i Ifor Hael	LIGH
12. Mawl Llywelyn ap Gwilym	LIGH
13. Marwnad Llywelyn ag Gruffudd	LIGH
15. I Hywel ap Goronwy	P51
16. Marwnad Angharad	Llawysgrif Hendregadredd
31. Cae Bedw Madog	LIGH
36. Digalondid	LIGH
70. Noson Olau	P54
77. Amau ar Gam	P48
82. Erfyn am ei fywyd	LIGH
86. Y Llw	LIGH
88. Merch o Is-Aeron	P57
91. Y Rhew	LIGH, P57
93. Y Cariad a wrthodwyd	P54
95. Dagrau Serch	LIGH
101. Merch Fileinaidd	P48
103. Canu'n Iach	P54
104. Y Mab Maeth	P54
107. Gwadu	LIGH
109. Yr Uchenaid	LIGH, P57
110. Difrawder	LIGH
120. Merch ac Aderyn	LIGH
131. Doe	P54
132. Cyfeddach	LIGH
133. Cusan	P48
140. Caer Rhag Cenfigen	P54, P57
142. Y Gainc	P54, P57
143. Y Cleddyf	LIGH
CYFANSWM – 30	

TABL VIII

Cerdd (a'i rhif yn <i>GDG</i>)	Ffynhonnell lawysgrifol	Ffynonellau heblaw <i>GDG</i>
17. Marwnad Rhydderch	M212, 81	DGG, DAGP, HCG
23. Mis Mai	H26, ii 15	DGG, DAGP, HCG, MWP
26. Y Dylluan	L1120, 98 M212, 42	DAGP, HCG, MWP
27. Mawl i'r Haf	H26, ii, 148	DGG, DAGP, MWP
39. Y Breuddwyd	H26,ii, 152	DGG, DAGP, HCG, MWP
57. Y Fun o Eithinfynydd		DGG, HCG, MWP
114. Yr Ehedydd	H26,ii,184	DGG, DAGP, MWP
124. Trafferth mewn Tafarn	H26, ii, 2	DAGP, HCG, MWP
139. Morfudd yn Hen	H26, ii, 17	DAGP, HCG, MWP
CYFANSWM - 9		

TABL IX

Cerdd (a'i rhif yn <i>GDG</i>)	Ffynhonnell lawysgrifol	Ffynonellau heblaw <i>GDG</i>
24. Yr Haf	LIGH	DGG, DAGP, HCG, MWP
34. Talu Dyled	LIGH	DGG, DAGP, MWP
48. Merched Llanbadarn	P54	DGG, DAGP, HCG, MWP
71. Y Don ar Afon Dyfi	P54	DGG, DAGP, HCG, MWP
74. Y Serch Lledrad	P54	DGG, DAGP, HCG, MWP
90. Cystudd Cariad	LIGH	DGG, DAGP, HCG, MWP
94. Galw ar Ddwynwen	P54	DAGP, HCG, MWP
102. Cystudd y Bardd	LIGH	DGG, DAGP, HCG
105. Y Drych	LIGH	DGG, DAGP, MWP
119. I Wahodd Dyddgu	LIGH	DGG, HCG, MWP
CYFANSWM – 10		

TABL X

Cerdd (a'i rhif yn <i>GDG</i>)	Ffynhonnell Lawysgrifol	Ffynonellau heblaw <i>GDG</i>
7. Cywydd i Ifor Hael	H26,ii,21 (Vet), P49, 80 (Vet)	DGG, DAGP, MWP
18. Marwnad Gruffudd ab Adda	H26,ii,19 (Vet), P49, 81 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
28. Y Ceiliog Bronfraith	P49, 4 (LIWM)*	DGG, DAGP, HCG, MWP
42. Morfudd fel yr Haul	H26,ii,91 (Vet)	DAGP, HCG, MWP
49. Merch yn Ymbincio	H26,ii,57 (Vet), P49,97 (Vet)	DGG, HCG, MWP
53. Breichiau Morfudd	P49, 33 (LIWM) Exr per vetust (ond ddim yn H26)	DGG, HCG, MWP
58. Merch yn edliw ei lyfrdra	H26,ii,72 (Vet), P49,104 (Vet)	DGG, HCG, MWP
63. Cyngor y Biogen	H26,ii,126(Vet), P49, 129 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
67. Y Seren	H26,ii,71 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
68. Y Niwl	H26,ii,117 (Vet)	DGG, DAGP, MWP
69. Mis Mai a Mis Ionawr	H26,ii,69 (Vet), P49,103 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
80. Tri Phorthor Eiddig	H26,ii,124 (Vet), P49,127 (Vet)	DGG, HCG, MWP
111. Y Gwayw	H26,ii,44 (Vet), P49,90 (Vet)	DGG, DAGP, HCG
117. Y Gwynt	H26,ii,60 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
118. Yr Wylan	H26,ii,125 (Vet), P49, 128 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
122. Offeren y Llwyn	H26,ii,84 (Vet), P49,109 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
137. Y Bardd a'r Brawd Llwyd	H26,ii,118 (Vet), P49,123 (Vet)	DGG, DAGP, HCG, MWP
141. Ei Gysgod	H26,ii,130 (Vet), P49,130 (Vet)	DAGP, HCG, MWP
CYFANSWM - 18		

* Dylid nodi mai trwy Lyfr Wiliem Mathew ac nid y Vetustus y mae'r gerdd hon yn ymuno â'r traddodiad llawysgrifol.

Pennod 6 – Y chweched synnwyr ac ystyriaethau mwy haniaethol

Mae geiriau Helen Fulton a ddyfynnwyd ar ddiwedd y bennod flaenorol yn mynd â ni yn ôl at un o'r ystyriaethau sydd wrth wraidd y traethawd hwn, sef y syniad o'r ddadl gylch ac i ba raddau y mae modd i'r beirniad modern dorri allan o'r ddadl honno. Rhaid ceisio pwysu a mesur a yw syniadau Fulton yn rhy eithafol a phesimistaidd, neu a yw'r gwahaniaeth mewn gweledigaeth a amlygwyd yn y drafodaeth uchod yn ychwanegu pwysau at ddadleuon Fulton?

Wrth drafod ychydig ar y canu i fyd natur uchod, dyfynnwyd hefyd o eiriau Rachel Bromwich. Fel Fulton, mae Bromwich yn cydnabod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth lunio canon a chyfeiria at y duedd i gambriodoli i Dafydd unrhyw gerddi yn ymwneud â serch a natur. Mae'n cyfaddef hefyd nad yw'r meini prawf sydd gennym ar gyfer dyddio cerddi o reidrwydd yn gymorth wrth bennu awduraeth. Fodd bynnag, yn wahanol i Fulton, nid yw'n teimlo bod y dasg o lunio canon yn amhosibl a cheir un awgrym ganddi y mae'n rhaid ei grybwyll cyn tynnu'r traethawd hwn at ei derfyn.

Wedi ceisio edrych yn wrthrychol ar dystiolaeth y llawysgrifau a thrafod rhywfaint ar y meini prawf eraill, diddorol gweld yr awgrym gan Bromwich, mai'r maen prawf mwyaf dibynadwy hwyrach yw'r un lleiaf gwrthrychol a gwyddonol o'r cyfan, meddai:

Of all the criteria for judging authenticity, that which in the last resort may well be the most reliable is that intuitive 'sixth sense' of a poet's individual style and personality...¹⁶⁵

O gofio rhai o'r anghysondebau ym methodoleg Parry y tynnwyd sylw atynt yn ystod y drafodaeth, teg gofyn a oedd Thomas Parry tybed yn pwysu ar y maen prawf hwn pan nad oedd yr un o'r lleill yn tycio neu pan oedd angen torri dadl y naill ffordd neu'r llall? Yn wir, o gofio amryw o'r dyfyniadau hynny o eiddo Parry sy'n datgelu ei ragdybiaethau ynghylch y math o waith a ganai Dafydd, gellid dweud ei fod wedi defnyddio'r maen prawf hwn llawn cymaint â'r meini prawf eraill, yn enwedig felly wrth wrthod cerddi y teimlai eu bod yn 'annheilwng' o Dafydd.

¹⁶⁵ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*, t.120

Cyn cloi felly, y bwriad yw edrych ar rai o'r elfennau mwy haniaethol a goddrychol hynny sydd hwyrach yn rhan o'r chweched synnwyr y cyfeiriodd Rachel Bromwich ato er mwyn gweld a yw'r rhain o gymorth wrth geisio pennu awduraeth.¹⁶⁶

Gellid dadlau bod yna ryw bedair elfen sy'n ymblethu i'w gilydd, sy'n gyffredin i'r mwyafrif llethol o drafodaethau ar waith Dafydd ap Gwilym ac sydd yn fwy haniaethol eu natur, a bwriedir ystyried y pedair elfen hynny yn ystod y bennod hon. Yn sicr, un sylw sydd wedi codi dro ar ôl tro wrth edrych ar rai o'r cerddi unigol yn ystod y drafodaeth hon yw'r ffaith bod amryw o'r cerddi yn **wahanol i'r cyffredin**. Tybed felly ai dyma un o'r pethau sy'n codi gwaith Dafydd uwchlaw gwaith ei gyfoeswyr?

Wrth drafod yr elfennau hynny sy'n nodweddu gwaith Dafydd ap Gwilym, rhaid gofyn i ba raddau y mae'r elfennau hyn i'w gweld hefyd ym marddoniaeth ei gyfoeswyr a rhaid ceisio gwahaniaethu, os yn bosibl, rhwng yr hyn sy'n *nodweddu* ei waith a'r hyn sy'n *unigryw* i'w waith. Wrth reswm, mae'r ail dasg yn fwy anodd gan i feirdd eraill yn ôl pob tebyg ddynewared ac efelychu gwaith Dafydd, ac fe fyddai cyfoeswyr Dafydd hefyd wedi bod yn agored i'r un dylanwadau ag yntau o gyfeiriadau eraill. Mae synied amdano fel bardd 'gwahanol i'r cyffredin' yn gallu bod yn beryglus felly. Mae Dafydd Johnston, yn ei drafodaeth ddiweddaraf ar Dafydd ap Gwilym, yn ein rhybuddio rhag 'synied amdano fel athrylith cwbl unigryw'.¹⁶⁷ Yn sicr ddigon, roedd yn wahanol iawn i'r beirdd a'i rhagflaenodd ac mae amryw byd o feirniaid wedi trafod y modd y bu iddo weddnewid ein barddoniaeth, a hynny o ran mesur a chynnwys. Meddai R. Geraint Gruffydd amdano:

...fe ddug i fod ddau chwyldro ym myd barddoniaeth Gymraeg, y naill yn ymwneud â ffurf ei gerdd a'r llall yn ymwneud â'i mater.¹⁶⁸

Tasg gymharol hawdd felly yw gwahaniaethu rhwng gwaith Dafydd a gwaith y beirdd hynny a'i rhagflaenodd. Gwyddom yn dda mai tasg dipyn anoddach yw

¹⁶⁶ Dylid nodi bod amryw o feirniaid hefyd wedi trafod nodweddion iaith cerddi Dafydd ap Gwilym, ac mae'n siŵr bod lle i ddadlau bod y nodweddion iaith hynny yn cynnig modd o wahaniaethu rhwng gwaith Dafydd a gwaith ei gyfoeswyr. Fe fyddai hynny, mae'n siŵr, yn destun traethawd ar wahân.

¹⁶⁷ Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 110

¹⁶⁸ R. Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym*, yn y gyfres *Llên y Llenor* (Caernarfon, 1987) t. 22

gwahaniaethu rhwng gwaith Dafydd a gwaith ei gyfoeswyr a hyd yn oed gwaith y beirdd a'i dilynodd. Er bod y dasg yn anodd ac er y byddwn, o bosibl yn troedio tir peryglus o dro i dro, mae'n siŵr y byddai digon yn barod i ddadlau nad yw'n gwbl amhosibl. Meddai Gwyn Thomas:

...y mae barddoniaeth Dafydd yn sicr yn taro dyn fel barddoniaeth wahanol iawn i'r farddoniaeth draddodiadol a'i rhagflaenodd a barddoniaeth draddodiadol ei gyfnod ef ei hun.¹⁶⁹

Mae'n sicr y byddai amryw o feirniaid yn dadlau mai un o'r pethau sy'n gwneud gwaith Dafydd yn wahanol i'r cyffredin yw'r modd y mae'r bardd ei hun, neu o leiaf rhyw bersona a grëwyd gan y bardd, yn chwarae rhan ganolog yn ei gerddi. Gwelwn yn y man bod hynny'n wir am y cerddi sy'n seiliedig ar ymgom rhwng y bardd a rhywun, neu rywbeth arall. Ond mwy amlwg efallai yw'r gyfres o gerddi rhwystr a'r cerddi sy'n adleisio rhai o draddodiadau canu'r cyfandir gan adrodd am y troeon trwstan sy'n britho bywyd carwriaethol y bardd. Meddai Dafydd Johnston:

Efallai mai cyfraniad mwyaf Dafydd ap Gwilym i'r traddodiad barddol oedd ei wneud ei hun yn brif bwnc ei waith...Mae cerddi Dafydd yn gwbl oddrychol, yn seiliedig ar ei deimladau a'i brofiadau ei hun, ac roedd yn barod iawn i greu hwyl ar ei draul ei hun trwy chwarae rôl y clown trwstan...¹⁷⁰

Ac mae sylwadau Rachel Bromwich yn ategu hynny; meddai wrth drafod yr elfennau sydd yn ei barn hi yn nodweddu gwaith Dafydd ap Gwilym:

Distinctive too, and unprecedented in Welsh, is the manner in which Dafydd constantly imbues his poems with his own personality...distinctive too, is his way of constantly presenting himself with ironic self-depreciation as an actor in all his episodic poems...¹⁷¹

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae cerddi rhwystr a cherddi sy'n adrodd am droeon trwstan wedi'u priodoli i Dafydd o'r dechrau, a chyfeiriwyd hefyd at y modd y mae amryw o'r cerddi hyn yn adleisio rhai o'r *genres* a'r traddodiadau a oedd yn gyffredin ar y cyfandir yn ystod y cyfnod. Mae 'Y Wawr' er enghraifft, yn dilyn patrwm yr *aubade* a 'Dan y Bargod' yn dilyn patrwm y *sérénade*. Mae'r cerddi eraill yn disgrifio rhyw rwystr rhwng y bardd a'i gariadferch ac yn amlach na heb, ef yw cyff gwawd y gerdd. Fel yn y cerddi llatai, gwneir defnydd helaeth o ddyfalu yn y

¹⁶⁹ 50 o Gywyddau, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 69

¹⁷⁰ Dafydd Johnston, *Llenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1998), t. 38

¹⁷¹ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*, t. 120

cerddi rhwystr. Fodd bynnag, dyfalu negyddol a geir, a'r bardd yn ddig wrth yr hyn sy'n ei lesteirio a'i rwystro rhag bod gyda'i gariad. Er mai Dafydd yn aml sy'n cael y clod am gyflwyno'r ffurfiau a'r syniadau hyn i ganu Cymraeg y cyfnod nid ydynt yn gwbl unigryw i'w ganu ef. Wrth reswm, nid oes modd i ni wybod a oedd cyfoeswyr Dafydd yn cael eu dylanwadu gan waith Dafydd ei hun ynteu gan y cerddi a ganwyd ar y cyfandir, ond ceir ganddynt hwythau hefyd rai enghreifftiau o gerddi sy'n seiliedig ar y patrymau cyfandirol. Yn wir, yn ei thrafodaeth ar waith cyfoeswyr Dafydd¹⁷² mae Bromwich yn dangos bod amryw o'r elfennau sydd i'w cael yng ngwaith Dafydd hefyd i'w gweld yng ngwaith ei gyfoeswyr, ac mae'n dangos sut y bu iddynt hwythau hefyd ganu cerddi dyfalu a cherddi llatai, cerddi serch a cherddi i ferched yn ogystal â'r cywyddau mawl a marwnad a'r cywyddau gofyn a diolch mwy ffurfiol a ddaeth i'w bri yn ystod cyfnod beirdd yr uchelwyr. Meddai yn benodol am y cerddi sy'n adrodd am helyntion carwriaethol y beirdd:

[another] feature which is also characteristic of Dafydd is their manner of presenting themselves as leading actors in their poems of incident, as does Madog Benfras in his *fabliau* poem 'The Saltman' and Iolo Goch when – again like Dafydd – he tells how he was pursued by *Yr Eiddig*, the stock figure of the 'Jealous Husband' as the result of a game of fortune-telling with the man's wife...¹⁷³

Fodd bynnag, a derbyn bod Dafydd a'i gyfoeswyr wedi'u dylanwadu gan draddodiadau a syniadau o'r cyfandir, tybed a yw'r modd y mae'r beirdd yn defnyddio'r syniadau a'r traddodiadau hynny yn rhoi rhyw sail i'r honiad bod Dafydd yn fardd gwahanol i'r cyffredin? Mewn rhan arall o'r traethawd buwyd yn trafod 'Trafferth mewn Tafarn', sy'n cael ei chynnig fel enghraifft o'r *fabliau* cyfandirol yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, a cheisiwyd dangos nad yw'r gerdd mewn gwirionedd yn cydymffurfio â chonfensiynau canu o'r fath. Hwyrach mai'r confensiynau hynny yw'r man cychwyn, ond nid yw'r gerdd yn gaeth iddynt ar unrhyw gyfri. Ar y llaw arall, cofiwn i gerdd Madog Benfras gadw'n fwy tyn at batrwm y canu cyfandirol; yn wahanol i Dafydd, mae ei ystryw ef yn llwyddiannus ac mae'n llwyddo i gyrraedd y ferch. Meddai Gwyn Thomas wrth drafod gwaith Dafydd yn y gyfrol *50 o Gywyddau*:

¹⁷² Rachel Bromwich, 'The Earlier Cywyddwyr: Poets Contemporary with Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*

¹⁷³ *Ibid.*, t. 132

...Y mae ei farddoniaeth ef yn llawer mwy personol ac yn rhydd o nifer o gonfensiynau'r traddodiad... sylwer nad dweud yr wyf fod Dafydd yn rhydd o holl gonfensiynau barddoniaeth draddodiadol ei ddydd... Nid wyf am honni ychwaith mai bardd digonfensiwn oedd Dafydd: yr oedd, yn sicr, yn gweithio o fewn confensiynau llenyddol Cymraeg ac estron, ond defnyddio ei gonfensiynau a wnaeth, nid cael ei lethu ganddynt...¹⁷⁴

Mae'r un peth yn wir wedyn am amryw o'r cerddi llatai a dyfalu y buwyd yn eu trafod mewn rhannau eraill o'r traethawd a hwyrach bod y gwahaniaeth rhwng Dafydd a'i gyfoeswyr yn fwy amlwg yn achos y cerddi llatai, a hynny am fod amryw o'i gyfoeswyr wedi canu cerddi o'r fath sy'n gwneud y gwaith o gymharu yn haws. Nodwyd eisoes bod cerddi llatai'r cyfnod yn gallu bod yn fformiwläig iawn, ond nid felly'r cerddi llatai a briodolir i Dafydd ap Gwilym a cheisiwyd dangos hynny wrth drafod y gerdd wrthodedig i'r Eryr a'r gerdd i'r Ehedydd a geir yn y canon.

Wrth drafod y ddwy gerdd hynny, dywedwyd y byddid yn dychwelyd i drafod arwyddocâd y llatai yn rhai o gerddi Dafydd a nawr yw'r amser i wneud hynny. Mae edrych ar rai o'r cerddi llatai eraill a briodolir i Dafydd yn dangos bod swyddogaeth y llatai a'i ran yn y gerdd ychydig yn wahanol i'r arfer.

Ar yr olwg gyntaf, mae'r gerdd i'r Wylan (*GDG* 118) yn ymddangos fel pe bai'n dilyn confensiynau'r canu, yn fwy felly na rhai o gerddi llatai eraill Dafydd. Mae'n agor trwy gyfarch yr wylan ac yn gofyn iddi fynd â neges i'w gariadferch: 'Cyrch ystum caer a chastell', meddai wrth yr wylan, 'dos at fun'. Yna, mae'n mynd yn ei flaen i ddatgan ei gariad at y ferch ac yn dweud y bydd yn marw oni chaiff fod gyda hi:

Oni chaf fwynaf annerch,
Fy nihenydd fydd y ferch. (*GDG* 118, ll. 29-30).

Beth felly sy'n gwneud y gerdd hon yn wahanol i gerddi eraill sy'n defnyddio rhyw aderyn neu'i gilydd fel llatai? Wrth drafod y cywydd gwrthodedig i'r Penlöyn, mae Parry'n cyfaddef fod ei 'iaith, arddull a chystrawen... yn dangos ei fod yn gynnyrch y 14g',¹⁷⁵ ac mae'n nodi hefyd bod tystiolaeth y llawysgrifau yn gymharol gadarn o'i blaid. Erbyn heddiw wrth gwrs mae'r gerdd wedi'i chyhoeddi yn y casgliad o waith

¹⁷⁴ 50 o *Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 69

¹⁷⁵ *GDG*, t.cii

Llywelyn Goch ap Meurig Hen.¹⁷⁶ Fodd bynnag, fel yn y gerdd wrthodedig i'r Eryr, gwelir mai ei gariad at y ferch yw prif ddiddordeb y bardd, ac nid yw'r llatai yn ddim mwy na chyfrwng i gludo ei neges ati. Er bod y gerdd, fel y'i hatgynhyrchir yn *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* yn 44 llinell o hyd, dim ond rhyw ddeuddeg o'r rhain sydd wedi'u neilltuo'n benodol i ddisgrifio'r Penlōyn, er y ceir cyfeiriadau pellach ato wrth i'r bardd erfyn arno i fynd â'i neges at ei gariadferch. Digon ystrydebol a ffwrdd â hi yw'r darlun a geir o'r aderyn, wrth i'r bardd ei ddisgrifio fel 'Marchog bedw cangog cyngerth', a 'cerddawr cainc'. Cymaint yw awydd y bardd i gael ei neges at y ferch, bron na ellid dweud y byddai unrhyw aderyn wedi gwneud y tro fel negesydd.¹⁷⁷

Mae'r gerdd i'r Wylan dipyn yn fyrrach na'r gerdd i'r Penlōyn, a hefyd rhai o'r cerddi llatai eraill a gysylltir ag enw Dafydd. Tri deg o linellau sydd i'r gerdd hon, o gymharu â 64 yn 'Y Gwynt' (*GDG* 117) a 62 yn 'Yr Ehedydd' (*GDG* 114). Wrth reswm felly, ni chaiff yr elfen o ddyfalu ei datblygu i'r un graddau yn y gerdd hon. Er hynny, llwydda'r bardd i greu darlun trawiadol o'r aderyn a'r naill ddelwedd yn adeiladu ar y llall mewn modd pwrpasol a hollol fwriadol, fel ag y gwneir yn y gerdd i'r Ehedydd. Mae pob cymhariaeth a throsiad a geir yn y pum cwpled agoriadol yn disgrifio disgleirdeb a gwynder yr Wylan a cheir cyfeiriadau at yr eira, y lloer, yr haul a thonau'r môr. Yn ei nodiadau ar y gerdd¹⁷⁸ mae Dafydd Johnston yn dadlau mai cyfeirio at yr Wylan a wna'r bardd yn yr ymadrodd 'Cyweirglod bun', ac mae'n ymhelaethu ar hynny yn ei drafodaeth ddiweddaraf:

Yr Wylan' yw'r unig gerdd sy'n cynnwys disgrifiad gweledol o'r llatai, ac mae rheswm da dros hynny...Symbol yw'r wylan yma...o harddwch y ferch yr anfonir hi ati, a dyna pam y mae mor bwysig ein bod yn ei gweld yn glir.¹⁷⁹

Felly hefyd y cywydd i'r carw (*GDG* 116). Mae'r cywydd hwn ychydig yn hwy na'r cywydd i'r wylan (44 o linellau), ac felly ceir yma fwy o ddyfalu, ac fel yn y cerddi

¹⁷⁶ *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)

¹⁷⁷ Os yw'r defnydd o'r llatai yn y gerdd i'r Penlōyn braidd yn ystrydebol rhaid nodi wrth gwrs bod Llywelyn Goch ap Meurig Hen wedi gwneud defnydd beiddgar o gonfensiwn y sérénade ym Marwnad Lleucu Llwyd, a gyhoeddwyd yn *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*. Yn y gerdd mae'r bardd yn canu cywydd marwnad uwchben bedd ei gariadferch a go brin y byddai unrhyw un yn dadlau nad yw'r gerdd hon yr un mor drawiadol ag unrhyw beth a geir gan Dafydd ap Gwilym. Gwneir defnydd bwriadol a chreadigol o batrwm y sérénade i ychwanegu at ddyfnder yr emosiwn.

¹⁷⁸ Dafydd Johnston, 'Nodiadau ar waith Dafydd ap Gwilym', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* xxxii (1985), t. 82

¹⁷⁹ Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 130

i'r seren a'r gwynt, gwneir defnydd o'r ffurfiau negyddol wrth ddisgrifio'r pethau na allant rwystro'r llatai:

Ni'th ladd cŵn...

Ni'th fling llaw...

Nid â dy bais am Sais hen... (*GDG* 116, ll. 16, ll. 41-42).

Yn wahanol i'r cywydd i'r Wylan, mae Dafydd yn y gerdd hon yn enwi'r ferch yr anfonir y llatai ati, meddai:

Fy llatai wyd anwydael,

A'm bardd at Ddyddgu hardd hael. (*GDG* 116, ll. 29-30)

Disgrifir y carw fel un 'talmythrgoeth' ac fel 'hardd farwn hir'. O gofio tras fonheddig Dyddgu, a'r modd y disgrifir hi mewn cerddi eraill, gellid dweud bod y bardd wedi dewis y creadur gosgeiddig a phendefigaidd hwn yn fwriadol i adlewyrchu boneddigeiddrwydd Dyddgu ei hun. Ni wnaiff unrhyw latai mo'r tro i'r bardd hwn, yn hytrach mae'n dewis y llatai yn fwriadol ac yn ei ddefnyddio i ddweud rhywbeth am y ferch y cenir iddi. Meddai Eurys I. Rowlands am gerddi dyfalu Dafydd:

Nid disgrifio gwrthrychol a geir ganddo, ond defnyddio disgrifiadau i gyfleu ei deimladau. At hynny, nid mater o chwarae ffansiöol gyda disgrifiadau oedd dyfalu iddo o gwbl, gan amlaf, ond cyfrwng i gyfleu ei weledigaeth bersonol a'i deimladau dyfnaf drwy gyfrwng symbolaeth cerdd gyfan...¹⁸⁰

Os yw'r delweddu yn fwriadol ac yn bwrpasol yn y cerddi llatai hyn, yna mae'n codi i lefel arall yn y gyfres o gerddi sy'n seiliedig ar un ddelwedd estynedig a grybwyllwyd mewn rhannau eraill o'r traethawd. Trafodwyd eisoes y ddwy gerdd i'r Ceiliog Bronfraith, ac awgrymwyd bod yr ail o'r cerddi hyn (*GDG* 123), yn fwy cymhleth o ran ei harddull a'i delweddaeth, gyda'r bardd yn datblygu'r un syniad neu ddelwedd drwy'r gerdd gyfan. Ceir enghreifftiau pellach o hynny mewn cerddi megis 'Hwsmonaeth Cariad' (*GDG* 87), 'Caer Rhag Cenfigen' (*GDG* 140) a 'Morfudd fel yr Haul' (*GDG* 42), ac yn wir gellid dadlau bod cerddi o'r fath yn unigryw i Dafydd, os mai ef, yn wir, piau pob un ohonynt. Nid oes unrhyw beth yn y llawysgrifau i awgrymu fel arall. Mae 'Hwsmonaeth Cariad' wedi'i gofnodi yn ail ran Peniarth 57. Fe'i cofnodir hefyd yn y rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr

¹⁸⁰ Eurys I. Rowlands, 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* 35 (1967), t. 33

Wiliem Mathew, ond ceir nodyn yno i ddweud bod y gerdd hefyd yn ymddangos yn Llyfr Gwyn Hergest a'r Vetustus. Mae 'Caer Rhag Cenfigen' wedi'i gofnodi yn Peniarth 54 a rhan gyntaf Peniarth 57 (ac un llawysgrif arall, sef Peniarth 312), ac mae 'Morfudd fel yr Haul' yn ymddangos am y tro cyntaf yn y Vetustus (Hafod 26).

Rhoddir sylw yn y man i ddyfnder gweledigaeth Dafydd, ond gwelwn fod dyfnder a chyfoeth y cerddi hyn i'w cael yn eu saerniaeth a'u hadeiladwaith lle mae pob gair a delwedd yn cyfrannu, yn y modd mwyaf crefftus, at y cyfanwaith, neu yn hytrach, y campwaith. Yng nghwpledi agoriadol y gerdd 'Morfudd fel yr Haul' ceir cyffelybiaethau digon confensiynol lle mae Dafydd yn cymharu disgleirder Morfudd â gwynder yr eira ac ewyn y don 'Gorlliw eiry mân...Goleuach nog ael ewyn.' (*GDG* 42, ll. 2-4). Yna, yn y chweched linell ceir y gymhariaeth â 'Goleuder haul', sy'n llai ystrydebol ac yn fwy trawiadol, er i John Rowlands yn ei drafodaeth yntau ar y gerdd nodi bod hon yn gymhariaeth a oedd yn cael ei defnyddio gan y gogynfeirdd.¹⁸¹ Fodd bynnag, nid cyflwyno'r gymhariaeth mewn un llinell ffwrdd â hi a wneir yma, yn hytrach mae'n gymhariaeth sy'n cael ei chynnal wedyn am weddill y gerdd, sy'n cynnwys 70 o linellau i gyd. Try'r haul felly yn symbol o Morfudd a chaiff hynny ei hwyluso gan y ffaith bod cenedl *haul* yn fenywaidd yn yr oesoedd canol. Dengys Dafydd nad disgleirder yw'r unig nodwedd y mae Morfudd yn ei rhannu â'r haul. Weithiau mae'n oriog ac yn anwadal, 'Mawr yw ei thwyll a'i hystryw', meddai amdani (*GDG* 42, ll. 15), dro arall yn gynnes ac yn danbaid – dyma'r ferch a ddisgrifiwyd mewn cerdd arall fel 'marworyn rhudd' (*GDG* 79, ll. 18). Ac fel yr haul mae Morfudd hithau yn anghyraeddadwy ac yn amhosibl ei dal. Cofiw'n mai gwraig briod ydyw, ac fel y mae'r haul yn machlud ar ddiwedd y dydd, mae Morfudd yn diflannu 'Dan orddrws y dyn oerddrwg.' (*GDG* 42, ll. 50). Er hynny, nid yw'r bardd yn ddigalon ar ddiwedd y gerdd, a cheir rhyw awgrym ganddo y bydd eu serch yn llewyrchu ac y bydd disgleirder Morfudd yn goleuo'r nos drachefn.

Gwelir fodd bynnag nad yn y delweddau yn unig y mae camp y cywydd hwn. Mae arddull y gerdd hefyd yn arwyddocaol. Mae'r cwpledi agoriadol, lle cenir mawl i Morfudd, wedi'u cysylltu â'r cymeriad llythrennol a chynganeddol a'r awgrym yw bod gwrthrych y gerdd yn deilwng o'r gelfyddyd a'r cywreinrwydd hwn. Mae'r

¹⁸¹ John Rowlands, 'Morfudd fel yr Haul', *YB* VI (1971), tt.16-44

cyfan fel pe bai'n cyrraedd rhyw benllanw wrth i'r cymeriad llythrennol ar y llythyren 'm' ganiatáu i'r bardd gysylltu Morfudd, mis Mai a'r Forwyn Fair mewn un gwead tynn awgrymog ei arwyddocâd. Yn wrthbwynt i hynny, gwelir bod y mynegiant yn llai celfydd ac yn fwy llac wrth i'r bardd fynd ati i sôn am bethau mwy negyddol megis y modd y mae Morfudd yn diflannu o dro o dro a'r ffaith nad oes modd dal gafael arni:

Ni chaiff llaw yrthiaw wrthi,
Nac ymafael â'i hael hi. (*GDG* 42, ll. 41-42)

O dderbyn y cywyddau hyn, sydd wedi'u cofnodi yn y llawysgrifau cynharaf, mae modd derbyn cywyddau a gofnodwyd yn fwy diweddar ond sydd hefyd yn adeiladu ar yr un ddelwedd neu syniad, cerddi megis 'Offeren y Llwyn' (*GDG* 122) a 'Serch Dirgel' (*GDG* 78). Fel mewn cynifer o'r cerddi a gysylltir ag enw Dafydd felly, ceir yma ryw gyfoeth a chydblethu rhwng arddull a chynnwys y byddai rhai hwyrach yn dadlau nad ydynt i'w gweld i'r un graddau yng ngwaith ei gyfoeswyr.

Elfen arall sydd wedi cael cryn sylw mewn trafodaethau ar waith Dafydd ap Gwilym yw **ymateb y bardd i fyd natur**. Mae'n amlwg ddigon na ellir honni bod hyn yn rhywbeth unigryw i Dafydd. Er gwaethaf ymdrechion y copiwr mwyaf brwd i briodoli iddo bob cerdd ar y thema hon gwelir hefyd ymhlith cerddi'r apocryffa gerddi sy'n dyfalu rhai o elfennau byd natur. Byddai rhai yn dadlau, fel ag y gwnaeth Parry, bod amryw o'r cerddi hyn wedi'u llunio gan feirdd a oedd yn gyfarwydd â gwaith Dafydd ap Gwilym ac wedi'u dylanwadu ganddo. Cofiwn wrth gwrs am y cerddi gwrthodedig i'r Eira a'r Sêr a drafodwyd ar ddechrau'r traethawd. Crybwyllwyd hefyd y cywydd i'r Haul a briodolwyd i fwy nag un bardd, gan gynnwys Dafydd ei hun, a'r cywydd gwrthodedig i'r Niwl. Ond ceir hefyd gywyddau Gruffudd Gryg i'r Lleuad a'r Don a rhyw fath o gywydd mawl i'r Fedwen gan Gruffudd ab Adda, sy'n flin bod y goeden a fu unwaith yn llety iddo ef a'i latai wedi'i dadwreiddio a'i chludo i Lanidloes.

Fodd bynnag, mae trafodaethau'r beirniaid yn awgrymu bod rhaid edrych y tu hwnt i'r thema ei hun, gan ystyried yn hytrach ymdriniaeth y bardd â'r thema honno ac ansawdd y canu. O wneud hynny, hwyrach bod modd gwahaniaethu rhwng gwaith Dafydd ap Gwilym a gwaith ei gyfoeswyr a'i efelychwyr.

Bu llawer o feirniaid yn gofyn ai natur ynteu serch yw prif destun ei ganu, gyda rhai yn defnyddio'r cerddi llatai a'r disgrifiadau a geir ynddynt o greaduriaid ac elfennau naturiol i ddadlau mai byd natur oedd bwysicaf iddo. Er iddynt o bosibl anghytuno ynghylch pa elfen sydd fwyaf blaenllaw yn ei waith, mae'r beirniaid yn gytûn bod y modd y mae Dafydd yn ymateb i fyd natur a'r modd y mae'n cysylltu natur a serch yn rhywbeth sy'n nodweddu ei waith ac yn ei wneud yn wahanol i waith ei gyfoeswyr. Meddai Bromwich am ei ymdriniaeth â thema serch:

...often enough this theme is itself only ostensibly to the fore, and is in reality little more than a pretext for giving expression to a quality which is far more striking and impressive... This is Dafydd's acutely sensitive response to the manifold aspects of beauty in nature as it lay around him, his imaginative presentation of this beauty in detail, and his wonder and delight, combined with reverential awe, before the inexhaustible variety of God's created works.¹⁸²

Mae beirniaid eraill hefyd wedi cyfeirio at ryfeddod Dafydd yn wyneb y byd naturiol ac yn wir wedi cymharu hynny â rhyfeddod plentyn. Dyfynnwyd eisoes y llinellau o'r gerdd i'r Haf (*GDG* 24), 'Gweled mor hardd, mi chwarddaf / Gwallt ar ben hoyw fedwen haf' a ddefnyddir yn aml i ddarlunio diniweidrwydd a brwdfrydedd Dafydd ac roedd Thomas Parry yn sicr o'r farn bod hyn yn rhywbeth a oedd yn nodweddu canu Dafydd. Meddai:

Y mae Natur yn peri adwaith arall yng nghalon y bardd, sef syndod neu ryfeddod, agwedd y plentyn sy'n methu deall anghydweddiad pethau... Yn wir, y mae holl ymdrafod Dafydd â Natur yn peri meddwl ei fod yn edrych arni am y tro cyntaf ac yn ymhyfrydu fyth yn ffresni ei welediad...¹⁸³

Cofiw'n fodd bynnag i Parry fynegi'r farn hon yn y gyfrol *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, a gyhoeddwyd yn 1944, wyth mlynedd cyn cyhoeddi *Gwaith Dafydd ap Gwilym*. Rhaid gofyn felly i ba raddau yr oedd y dybiaeth hon wedi dylanwadu ar y gwaith o lunio'r canon a hefyd i ba raddau yr oedd, ac y mae, syniadau Parry a'i gyhoeddiad o waith y bardd yn dylanwadu ar farn beirniaid eraill?

Trafodwyd rhai o'r cerddi natur a geir yn y canon yn y bennod flaenorol a gwelwyd mai un o'r pethau sy'n cysylltu thema serch a thema natur yw'r tymhorau. Ceisiwyd

¹⁸² Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), t. 3

¹⁸³ Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t. 89

dangos sut yr oedd Dafydd yn gwahaniaethu rhwng yr haf a'r gaeaf a'r hyn yr oedd y naill dymor a'r llall yn ei olygu iddo. Yng ngeiriau Gwyn Thomas:

Prif thema canu natur Dafydd yw'r gwahaniaeth rhwng haf a gaeaf. Y mae egni cyforiog hafau Dafydd yn troi'n symbolau o ieuencid a hoywder bywyd ac y mae sŵn angau a henaint i'w glywed yn ei aeafau.¹⁸⁴

Mae amryw o'r cerddi a geir yn y canon yn chwarae ar y syniadaeth honno, a gwelir hynny eto wrth drafod 'Cyngor y Biogen' isod. Roedd y gaeaf felly yn dymor 'dig du' a oedd yn rhwystro cariadon rhag cyfarfod. Roedd yr haf ar y llaw arall yn dymor a oedd yn hwyluso'r oed yn y goedwig, a dyna'r eilbeth sy'n cysylltu thema serch a natur yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Meddai Bromwich eto:

Love and nature are the prime subjects of his poetry, and the two are very frequently blended, for he presents his love-theme most characteristically in an idealized woodland setting, in which he imagines himself as building a *deildy*...in which to shelter with his chosen sweetheart...¹⁸⁵

'Gwell yw ystafell os tyf', meddai'r bardd yn y cywydd a ganodd i'r deildy (*GDG* 121) a thro ar ôl tro defnyddir y goedwig fel lleoliad ar gyfer y cerddi serch. Mae'n amlwg mai yno y mae'r bardd hapusaf ac adlewyrchir hynny yn y canu telynegol a geir ganddo wrth ddisgrifio'i baradwys. Yn 'Y Serch Lledrad' (*GDG* 74) mae'r bardd am unwaith yn llwyddo i gael y ferch i'r goedwig, er bod y gŵr 'drygdafod' eto'n taflu'i gysgod dros yr oed. Mae'r modd y mae'r bardd yn ailadrodd yr elfen 'cyd' ar ddiwedd y gerdd yn cyfleu i'r dim ddedwyddwch y cariadon, a chwbl wahanol yw'r mynegiant syml a geir yma i'r arddull sangiadol cymhleth a ddefnyddir wrth ddisgrifio'i helyntion carwriaethol mewn cerddi megis 'Trafferth mewn Tafarn' a 'Dan y Bargod'. Yn y goedwig, does dim yn rhwystro'r bardd a'i gariad rhag 'cydgerdded coed', 'cydchwerthin', 'cydyfed medd' a 'cydorwedd'. Er y gwahaniaeth yn naws ac arddull cerddi megis 'Y Serch Lledrad' a 'Trafferth mewn Tafarn' onid yr un yw'r syniadaeth sylfaenol yn y pen draw? Hynny yw, mae'r cerddi'n dod i'r un casgliad ond o wahanol gyfeiriadau.

Mae edrych ar y casgliad a gyhoeddwyd gan Helen Fulton hefyd yn dangos bod amryw o gerddi i'r deildy ymhlith yr apocryffa, yn wir ceir ganddi adran gyfan o

¹⁸⁴ *50 o gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 65

¹⁸⁵ Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), t. xiv

gerddi dan y teitl ‘*Love in the Woodland*’. Un enghraifft yw’r cywydd ‘Herber o ddail gwiail gwiw’ (DGA 21). Yn ôl Fulton, mae’r naw llawysgrif y ceir y gerdd hon ynddynt yn ei phriodoli i Dafydd. Fodd bynnag, mae Parry, yn ei nodiadau yntau ar y gerdd yn y rhestr o gerddi gwrthodedig, yn dweud nad yw’n ymddangos yn yr un o’r ‘casgliadau mawr’, ac mae’n ei disgrifio fel ‘dynwarediad go fusgrell’. Mae’r gerdd hon, fel amryw o’r cerddi a gynhwysir yn y canon yn disgrifio sut y bu’r bardd yn ‘aros dyn feindlos fwyn...dan irlwyn’ (DGA 21, ll. 17-18). Ac er bod y bardd hefyd yn disgrifio’r deildy fel rhywle i guddio rhag gŵr y ferch, ni ellid dweud bod yma’r un tensiwn a rhwystredigaeth ag a geir mewn llawer o’r cerddi sy’n cael eu hystyried yn gerddi dilys Dafydd ap Gwilym, lle mae’r hapusrwydd a brofa’r bardd yn y deildy yn aml yn cael ei wrthbwysio gan ryw ymwybod na fydd yr hapusrwydd hwnnw’n para.

Mae’r un peth hefyd yn wir i raddau am y cywydd sy’n dechrau ‘Y llwyn bedw diannedwydd’. Ceir disgrifiad hyfryd o’r deildy ar ddechrau’r cywydd a’r bardd yn gwneud defnydd o’r cymeriad llythrennol i ddisgrifio’r deildy a rhestru ei nodweddion; dyma: ‘Lle glwys bron, lle golas brig, / Lle deuddyn er llid i Eiddig,’ (DGA 27, ll. 7-8). Er bod amryw o’r llawysgrifau yn priodoli’r gerdd hon i Dafydd, ac er bod enw Morfudd hefyd yn ymddangos mewn rhai copïau, mae Parry o’r farn bod y ‘mynegiant yn llawer rhy lithrig i fod yn gynnyrch neb yn y 14g.’¹⁸⁶ Disgrifiad syml a delfrydol a geir felly, heb gymhlethdod na dyfnder.

A dyma ddod â ni at y ddwy elfen arall a grybwyllir dro ar ôl tro wrth drafod rhai o’r cerddi a briodolir i Dafydd ap Gwilym. Mae’r ddwy yn gyd-ddibynnol ac ill dwy yn gyfrifol am wneud ei waith yn wahanol i’r cyffredin. Mae’r rhain eto yn elfennau mwy goddrychol y gellid eu defnyddio i geisio adnabod ei waith. Cyfeirio yr wyf at y cyfeiriadau mynych a geir mewn trafodaethau ar waith Dafydd ap Gwilym at ei **bersonoliaeth farddol a dyfnder ei weledigaeth**, ac anodd os nad amhosibl trafod y naill heb y llall.

Mae’r ysgrifau beirniadol a gyhoeddwyd ar hyd y blynyddoedd yn frith o gyfeiriadau at y ddwy elfen hyn. Meddai Gwyn Thomas am ei waith: “Y mae ei bersonoliaeth

¹⁸⁶ GDG, t. clxxxix

farddol yn pelydru trwy'r cwbl".¹⁸⁷ Ac meddai Eurys I. Rowlands: "...Nid oes ...unrhyw unigolyn arall o fardd y mae nodweddion ei bersonoliaeth ef ei hun mor amlwg yn marcio cynnwys ac ysbryd ei holl gerddi".¹⁸⁸ Gan gyfeirio at y pethau sy'n dyrchafu Dafydd ap Gwilym uwchlaw ei gyfoeswyr mae Dafydd Johnston yn cyfeirio at "...cymhlethdod ei weledigaeth ar fywyd, sy'n cyfoethogi ac yn dyfnhau llawer o'i gerddi".¹⁸⁹

Mae amryw o'r cerddi a geir yng nghyfrol Thomas Parry yn amlygu rhyw ddeuoliaeth arbennig sydd i'w gweld nid yn unig rhwng cerddi (fel y gwelwyd wrth drafod rhai o'r cerddi natur yn y bennod flaenorol), ond hefyd o fewn cerddi unigol. Yn aml ceir digrifwch ochr yn ochr â difrifoldeb, a'r ddwy elfen uchod, sef personoliaeth y bardd a dyfnder ei weledigaeth sydd i gyfrif am y ddeuoliaeth honno. Byddai rhai yn dadlau bod y cymhlethdod a'r cyfoeth sy'n deillio o'r ddeuoliaeth honno yn cynnig i ni fodd o adnabod gwaith Dafydd ap Gwilym.

Cerdd sy'n darlunio hyn i'r dim, ac sydd heb ei chrybwyll hyd yma yn y drafodaeth hon, yw 'Cyngor y Biogen' (*GDG* 63). Mae'r gerdd hon yn ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy'r *Vetustus*, ac mae nifer y copiâu a'r amrywiadau yn y darlenniadau yn awgrymu iddi fod yn gerdd boblogaidd. Ynnddi ceir golwg ar bersonoliaeth y bardd a'i weledigaeth. Wrth drafod barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, meddai Eurys I. Rowlands:

...Y mae digonedd o arwyddion yng nghanu Dafydd ap Gwilym mai ar wahanol lefelau o gyfleu y lluniodd ei gerddi, nes bod eu cynnwys yn dangos yn eglur mai ar wahanol lefelau o ddeall y mae eu dehongli.¹⁹⁰

Ac os yw'r dyfyniad hwn yn wir am unrhyw gerdd yn y canon, 'Cyngor y Biogen' yw honno. Mae'r gerdd yn un o'r mwyaf cyfoethog yn y canon ac mae modd ei dehongli ar sawl lefel. Dyfynnwyd eisoes o eiriau Rachel Bromwich a oedd yn awgrymu mai un o'r pethau sy'n nodweddu gwaith Dafydd ap Gwilym yw'r modd y mae'r bardd ei hun yn chwarae rhan ganolog yn ei gerddi, a'r hyn a geir ar ddechrau'r gerdd hon yw darlun syml o'r bardd yn disgwyl am ei gariad yn y

¹⁸⁷ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 69

¹⁸⁸ Eurys I. Rowlands, 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* 35 (1976), t. 15

¹⁸⁹ Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 110

¹⁹⁰ Eurys I. Rowlands, 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* 35 (1976), t.33

goedwig ar ddiwrnod o wanwyn. Cerdd syml i fyd natur ydyw felly ar yr olwg gyntaf, mae'r bardd mewn hwyliau da ac o'i amgylch mae'r adar yn canu. Disgrifia'r 'eos ar ir wiail' y 'fwyalch deg ar fwlch dail', a'r 'ehedydd lonydd lais'.

Fodd bynnag, buan y daw'r biogen a'i llais cras i darfu ar y bardd. Yn wahanol i'r adar eraill, y mae'r bardd yn amlwg yn ymuniaethu â nhw, mae'r aderyn hwn yn gwneud hwyl am ben y bardd. Mae'n ei gyfarch fel 'henwr' a 'gŵr llwyd hen', ac yn dweud wrtho y byddai'n well iddo fod gartref wrth y tân yn hytrach nag yn y goedwig yn aros am ei gariad. Mae'r gerdd yn datblygu yn ymgom ddigrif wrth i'r bardd ymateb i'r aderyn ac mae'n defnyddio dau lais wrth ei gyfarch. Gyda'r prif lais, mae'r bardd yn cymryd arno ei fod yn gwerthfawrogi cyngor yr aderyn, ond defnyddia'r bardd gyfres o sangiadau, neu islais, i sarhau'r aderyn ac mae'n ei ddisgrifio fel 'Uffernol edn tra ffyrnig' (*GDG* 63 ll. 50).

A dyma ddod â ni felly at y ddeuliaeth yn y gerdd. Wrth reswm mae dyfnder a chyfoeth y gerdd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddehongliad y darllenydd. Fel y nodwyd, ar yr olwg gyntaf, mae'r gerdd hon yn un syml a hwyliog, ond ochr yn ochr â'r digrifwch a geir yn y cyfnewid geiriau rhwng y bardd a'r biogen, mae yma hefyd neges fwy difrifol. Gwelir bod yna wahaniaeth amlwg rhwng y bardd a'r byd naturiol sydd o'i gwmpas. Tra bo'r olaf yn ei adnewyddu'i hun ar ddechrau'r gwanwyn, tyfu'n hŷn y mae'r bardd heb unrhyw obaith y bydd yn profi'r un adnewyddiad. Adlais o neges 'Yr Haf' a geir yma felly, a'r bardd yn darlunio'r modd y mae amser yn symud mewn cylch i fyd natur, ond yn symud mewn llinell syth yn achos dyn. Meddai Dafydd Johnston am y gerdd:

O dan yr hiwmor arwynebol fe geir themâu dwys iawn yn y gerdd gyfoethog hon. Datgelir yr hunan-dwyll a ddeillia o gredu fod cylch y tymhorau'n berthnasol i fywyd dyn yn ogystal ag i fyd natur. Mae'r haf ar fin dod yn ôl i'r byd, ond ei dwyllo ei hun y mae'r bardd wrth gredu fod yr un adnewyddiad am ddod i'w ran yntau. Mewn llinell syth y symuda amser iddo ef, a dyna ergyd gwawd y biogen.¹⁹¹

Mae'r un peth yn wir hefyd am y gerdd 'Caru yn y Gaeaf' y buwyd yn ei thrafod mewn peth manylder mewn rhan arall o'r traethawd. Mae hon eto yn gerdd ysgafn a hwyliog ar yr olwg gyntaf sy'n gwneud sbort am ben aflwyddiannau'r bardd fel

¹⁹¹ Dafydd Johnston, 'Paradwys Dafydd ap Gwilym', *YB* XX (1995), t. 123

carwr. Darlunnir y modd y bu'n rhaid iddo gilio i'r coed rhag gŵr ei gariadferch, ond gan mai gaeaf ydyw nid yw'r coed yn cynnig cuddfan iddo. Er bod Parry wedi mynegi amheuaeth ynghylch awduraeth y gerdd hon, mae'r syniadau a fynegir ynddi fel pe baent yn cydblethu â'r syniadau a geir mewn cerddi eraill sydd wedi'u priodoli i Dafydd. Gan gyfeirio at ddiweddglo'r cywydd meddai Gwyn Thomas:

Y mae yn nhôn y geiriau olaf hyn o'r gerdd dinc o wir golled y gaeaf, a rhywbeth y tu hwnt i hynny. Mae'r geiriau'n gwneud inni deimlo amser yn mynd heibio a rhywfaint o ias cysgod marwolaeth.¹⁹²

Os yw'r neges ddifrifol yn cuddio dan yr hiwmor yn y gerdd 'Cyngor y Biogen', mae'n sicr mai'r gwrthwyneb sy'n wir am y gerdd 'Morfudd yn Hen' (*GDG* 139). Fel y trafodwyd eisoes, nid yw'r gerdd hon i'w chael yn llawysgrifau'r 15fed ganrif ac mae ymhlith y cerddi sydd i'w cael ar ddechrau Hafod 26, ond er ei bod yn rhannu'r un math o dystiolaeth llawysgrifol â 'Caru yn y Gaeaf' nid yw Parry'n mynegi unrhyw amheuaeth yn ei chylch. Os nad yw maen prawf tystiolaeth y llawysgrifau yn gadarn o blaid y gerdd hon, gellid dadlau ei bod yn bodloni maen prawf y 'chweched synnwyr' gystal â'r un gerdd o safbwynt y weledigaeth a geir ynddi.

I bob golwg, mae hon yn gerdd ddifrifol iawn lle mae'r bardd eto yn mynegi ei bryderon ynghylch breuder bywyd dyn. Fodd bynnag, o durio o dan y difrifoldeb, gellid dadlau bod direidi'r bardd yn brigo i'r wyneb. Yma, fel yn 'Cyngor y Biogen', ceir sgwrs rhwng y bardd a chymeriad arall, a'r tro hwn, defnyddir y brawd du yn rhyw fath o wrthbwynt i'r bardd ei hun. Eto, mae'r bardd yn defnyddio sangiadau, fel ag y gwnaeth yn 'Cyngor y Biogen', er mwyn canmol y brawd du ar y naill law a'i ddifriio ar y llaw arall. Mae'n agor y gerdd drwy ofyn i Dduw fendithio'r brawd, cyn mynd ati, mewn rhyw fath o islais i'w ddisgrifio fel un 'Noeth droed, ŵr unwallt nyth drain.' (*GDG* 139, ll. 6).

Cyn mynd ati i ystyried neges ac ergyd y gerdd 'Morfudd yn Hen', mae'n werth oedi am ychydig gyda'r defnydd hwn o ddau lais, gan ofyn tybed a yw hon yn un nodwedd sy'n unigryw i waith Dafydd ap Gwilym? Gwyddom nad Dafydd oedd yr unig fardd i ddefnyddio ymgom neu ddeialog yn ei gerddi. Mae Rachel Bromwich

¹⁹² 50 o *Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 67

eto'n dangos bod amryw o'i gyfoeswyr hefyd wedi defnyddio'r ddyfais hon i fywiogi eu gwaith. Meddai:

Another characteristic which more than one of these early *cywyddwyr* share with Dafydd ap Gwilym is an expertise in the embodiment of colloquial dialogue in their verse, undaunted by the restrictions imposed by *cynghanedd* and by the *cywydd*'s obligatory rhyme-scheme...¹⁹³

Mae'n debyg mai gan Iolo Goch y ceir yr enghraifft amlycaf o hyn yn yr ymgom a luniodd rhwng y corff a'r enaid. Onid yw'r cywydd hwn yn dangos yr un ffraethineb a ffresni sydd yn ôl nifer o feirniaid yn gwneud gwaith Dafydd yn wahanol i waith ei gyfoeswyr? Er cydnabod bod y gerdd hon yn ffraeth ac yn wahanol i'r cerddi a ganwyd yn y cyfnod cyn y cywyddwyr, byddai rhai yn dadlau nad yw'r gerdd hon gan Iolo Goch yn dangos yr un gwreiddioldeb ag a welir yng ngwaith Dafydd, ac mae'r defnydd a wna Dafydd o islais yn wahanol i'r defnydd o ddeialog a geir yn ei gerddi ef a cherddi ei gyfoeswyr.

Cerdd arall lle gwelir y bardd yn defnyddio dau lais yw'r gerdd 'Ei Gysgod' (*GDG* 141), sy'n ymuno â'r traddodiad llawysgrifol trwy'r *Vetustus*. Mae'r gerdd hon, fel y gerdd gan Iolo Goch y cyfeiriwyd ati uchod, yn barodi ar y cerddi ymddiddan rhwng corff ac enaid a oedd yn gyffredin yn y cyfnod. Unwaith eto, gwelir bod Dafydd yn defnyddio'r traddodiad at ei ddibenion ei hun. Fel yn 'Cyngor y Biogen', mae'r gerdd yn agor gyda'r bardd yn aros am ei gariad yn y goedwig pan ddaw ei gysgod ei hun i dorri ar ei draws. Mae'r cysgod yn dweud ei fod wedi dod i ddangos i'r bardd sut un ydyw; ymateb y bardd yw ei ddisgrifio fel 'ŵr hael' cyn ychwanegu'r ergyd 'anwr hyll' mewn islais.

Yna, wrth i'r bardd fynd ati i ddisgrifio'i gysgod cawn enghraifft arall o'r dyfalu negyddol sydd i'w weld mewn amryw o'r cerddi a briodolwyd i Dafydd. Disgrifir y cysgod fel: 'Bugail ellyllon bawgoel, / Bwbach ar lun mynach moel' (*GDG* 141, ll. 29-30). Cyn i'r cysgod gael cyfle i ddatgelu'i gamweddau, mae'r bardd yn rhestru'r holl bethau nad yw'n euog ohonynt a cheir adlais eto o rai o'r cywyddau llatai: 'Ni theflais ieir â thafll fain, / Ni fwbechais rai bychain.' (*GDG* 141, ll. 47-48). Yng

¹⁹³ Rachel Bromwich, 'The Earlier Cywyddwyr: Poets Contemporary with Dafydd ap Gwilym', *GWL* ii, t. 132

ngwadiad olaf y bardd y mae ergyd y gerdd hon wrth iddo ddatgan: ‘Ni rwystrais wraig gŵr estrawn’ (*GDG* 141, ll 50).

Trafodwyd eisoes y modd y mae Dafydd yn ei ddarlunio’i hun fel carwr aflwyddiannus mewn cynifer o’i gerddi; ond os mai bwriad y biogen yn y gerdd uchod oedd ein hatgoffa o’i fethiannau yna mae’r gwrthwyneb yn wir am y cysgod yn y gerdd hon. Â’i dafod yn ei foch, mae’r bardd yn defnyddio’i gysgod i awgrymu nad ofer oedd ei ymdrechion bob tro. Meddai Gwynn ap Gwilym:

Dull doniol a chyfrwys iawn o ymffrostio sydd yn y cywydd hwn. Dafydd yn ffugio diniweidrwydd, a’r cysgod yn ymffrostio yn ei le.¹⁹⁴

Mae Dafydd Johnston yn dangos mai’r un yw’r bwriad yng nghywydd ‘Y Gal’, ‘lle mae’r bardd yn lladd ar ran ohono’i hun fel pe bai ar wahân iddo, ac ar yr un pryd yn awgrymu ei weithredoedd ef ei hun’.¹⁹⁵ Yn yr ystyr honno felly, mae’r cerddi hyn yn debycach i rai o’r cerddi a geir gan ei gyfoeswyr, megis cywydd Iolo Goch i’w farf.

Gellid dadlau bod defnyddio dau lais, fel ag y gwneir yn ‘Cyngor y Biogen’, ‘Morfudd yn Hen’ a ‘Ei Gysgod’ yn dangos bod Dafydd eto’n mynd gam ymhellach na’i gyfoeswyr. Mae’r nodwedd hon yn ychwanegu rhyw haen arall i’r cerddi (yn enwedig felly yn achos y ddwy gerdd gyntaf), ac yn cyfrannu at gymhlethdod yr arddull ar y naill law ac at gymhlethdod y weledigaeth ar y llaw arall. Hwyrach bod defnyddio’r term islais ychydig yn ddryslyd. Mae’n arwydd o gymhlethdod y gwaith ein bod yn cyfeirio nid yn unig at yr islais llythrennol sydd i’w gael yn y sangiadau a’r geiriau y mae’r bardd yn eu hyngan dan ei wynt, ond hefyd at yr islais ffigurol sy’n treiddio trwy syniadaeth neu weledigaeth y cerddi. Mae’r bardd yn defnyddio dau gymeriad, gyda’r naill yn wrthbwynt i’r llall, i fynegi’r ddeuoliaeth a welai yn y byd o’i gwmpas. Fel y cawn weld wrth ddychwelyd at ‘Morfudd yn Hen’ isod, mae’n ymddangos ar yr olwg gyntaf mai ym mhregeth y brawd du y mae prif neges y gerdd, ond o edrych yn fanylach, gwelir bod Dafydd yn defnyddio’r bregeth honno i gyflwyno ei neges ei hun a bod honno fel rhyw islais drwy’r gerdd.

¹⁹⁴ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 115

¹⁹⁵ Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym’, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), t. 144

Trafodwyd eisoes y cerddi ‘Cyngor gan Frawd Llwyd’ (*GDG* 136) a ‘Y Bardd a’r Brawd Llwyd’ (*GDG* 137), lle mae’r brawd yn annog y bardd i gefnu ar bleserau’r byd hwn a throi ei olygon at bethau mwy difrifol. Yn y gerdd ‘Rhybudd Brawd Du’ (*GDG* 138), mae’r brawd yn dadlau nad oes diben i’r bardd ymserchu’n ormodol yn ei gariadferch gan na fydd ei phrydferthwch yn para; meddai ‘Ystyr pan welych y dyn / Ebrwydded yr â’n briddyn’ (ll. 15-16). A dyna hefyd yw neges y brawd du yn ‘Morfudd yn Hen’ lle mae’n rhybuddio’r bardd bod einioes dyn yn fyr ac mai peth dros dro yn unig yw prydfferthwch merch. Mae’r brawd yn darlunio hynny trwy ddweud wrth y bardd am wisgo crys gwyn am wythnos gyfan, ac fel y bydd y crys hwnnw yn dwyno gydag amser, felly hefyd y mae prydfferthwch merch yn edwino wrth iddi heneiddio.

Wedi clywed geiriau’r brawd, â’r bardd yn ei flaen i ddisgrifio Morfudd yn hen. Bellach mae ‘Brenhines bro anhunedd’, yr un y bu ei phrydferthwch yn ei gadw’n effro, yn ‘Ysgubell ar briddell brag, / Ysgawen lwydwen ledwag.’ (*GDG* 139, ll. 37-38). Wrth drafod y gerdd ‘Morfudd yn Hen’ yn ei gyfrol *Y Traddodiad Barddol* mae Gwyn Thomas yn dadlau bod y disgrifiad o Morfudd yn hen yn ddigon i godi amheuaeth ynghylch y dybiaeth i Dafydd farw yn gymharol ifanc.¹⁹⁶ Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, y duedd erbyn heddiw yw derbyn mai dychmygu Morfudd yn hen y mae’r bardd yn y gerdd hon. Fel y nodyn o bryder a geir ar ddechrau ‘Yr Haf’ wrth i’r bardd resynu at fyrhoedledd y tymor hwnnw, mae’r bardd eto yn ymwybodol iawn o dreigl amser cyn iddo ddigwydd ac mae’n gwybod mai darfod y bydd ieuenctid a phrydferthwch Morfudd hefyd.

A dyma ddod â ni at yr elfen honno o ddeuliaeth a dyfnder sydd i’w chael mewn amryw o’r cerddi a briodolwyd i Dafydd, ac at yr elfen o ddireidi sy’n rhan o’r ddeuliaeth honno. Mae yma neges ddifrifol yn ddi-os a ninnau’n cael ein hatgoffa unwaith eto o freuder bywyd dyn. Fodd bynnag, er bod yna ddau gymeriad gwrthgyferbyniol yn y gerdd ‘Morfudd yn Hen’, cofiwn mai’r bardd ei hun sy’n rhoi’r geiriau yng ngenau’r brawd du, ac er y byddai brodyr y cyfnod wedi defnyddio dadleuon o’r fath i geisio cael y werin i droi eu meddyliau at bethau heblaw pleserau’r byd hwn, gellid dadlau bod y bardd yn troi’r neges hon ar ei phen ac yn ei

¹⁹⁶ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976)

defnyddio mewn modd gwyrddoedig. O ddehongli'r gerdd ar lefel arall, gellid dadlau mai rhybudd tafod mewn boch sydd yma i Morfudd a bod y bardd, wrth ei darlunio yn hen, yn ei hannog i wneud yn fawr o'i phrydferthwch tra pery. Meddai Gwynn ap Gwilym am y gerdd:

Gellir dychmygu Dafydd yn adrodd y cywydd hwn i Forfudd, ac yn ei rhybuddio, trwy'r llinellau a'r delweddau cignoeth, i fod yn llai difater yn ei gylch, ac i achub ar ei chyfle, cyn i henaint ei llychwino a'i hagra...¹⁹⁷

Y cymar amlwg i'r gerdd hon o safbwynt y ddelweddau a'r weledigaeth a geir ynddi yw 'Yr Adfail' (*GDG* 144). Yn y gerdd hon, sy'n cael ei chofnodi am y tro cyntaf yn y *Vetustus*, mae'r bardd yn cyfarch bwthyn adfeiliedig, ac yn hel atgofion am yr amserau da a gafodd yn yr adeilad hwnnw cyn iddo fynd â'i ben iddo. Mae'n cofio sut y bu'n gorwedd ochr yn ochr â'i gariad, 'A braich pob un.../ Yn gwlm amgylch ei gilydd.' (*GDG* 144, ll. 15-16). Yn hynny o beth, fel yr awgrymodd Dafydd Johnston yn ei drafodaeth 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym',¹⁹⁸ mae'r gerdd hon yn wahanol i'r rhan fwyaf o gerddi a briodolir i Dafydd. Fel rheol, dim ond yn yr awyr agored a'r deildy y mae ei ymgais i gydorwedd gyda'i gariadferch yn llwyddiannus. Rhaid gofyn a oes yna unrhyw arwyddocâd i'r anghysondeb hwn, ynteu ai diben y darlun cynnes o'r bywyd gwâr a fu yn yr adeilad yw dyfnhau'r ymdeimlad o golled? Mae'r bwthyn bellach yn adfail ac mae'r bardd yn gwrthgyferbynnu rhwng dedwyddwch y gorffennol a thristwch y presennol:

Doe'r oeddud mewn gradd addwyn
Yn glyd uwchben fy myd mwyn;
Hawdd o ddadl, heddiw'dd ydwyd,
Myn Pedr, heb na chleddr na chlwyd. (*GDG* 144, ll. 35-38).

Meddai Gwynn ap Gwilym yn ei drafodaeth ar rai o gerddi Dafydd yn y gyfrol *50 o Gywyddau*:

Dengys nifer fawr o gywyddau Dafydd ryw ymwybod ingol â threigl amser. Daw'r haf i sathru ar degwch Mai, buan y cwmp cartref dedwydd yn adfail maluriedig, â harddwch Morfudd hyd yn oed yn ysglyfaeth i raib y blynyddoedd...¹⁹⁹

¹⁹⁷ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 130

¹⁹⁸ David Johnston, 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym', *CMCS* 5 (1983), tt. 1-19

¹⁹⁹ *50 o Gywyddau*, gol. Alan Llwyd (Abertawe, 1980), t. 94

Mae'n ymddangos felly bod y chweched synnwyr yn seiliedig i bob pwrpas ar y weledigaeth a geir yn y cerddi. O edrych ar waith cyfoeswyr Dafydd, gwelir bod amryw o'r technegau, y traddodiadau a'r themâu a geir yng ngherddi Dafydd i'w cael yn eu cerddi hwythau hefyd. Yr hyn sy'n gosod Dafydd ar wahân felly yw ei ymdriniaeth â'r pethau hynny. Ceisiwyd dangos bod natur ac ansawdd y dyfalu yn ei waith ef yn wahanol i'r dyfalu a geir yng ngwaith ei gyfoeswyr, ceisiwyd dangos y dyfnder a'r ddeuoliaeth yn ei waith, nad ydynt i'w cael yng ngwaith ei gyfoeswyr, a cheisiwyd dangos ei fod wedi gwneud defnydd mwy beiddgar a gwreiddiol o'r traddodiadau a ddaeth o'r cyfandir, a'r cyfan hyn yn cyfuno i greu rhyw gyfoeth hollbresennol ond anodd ei ddiffinio. Hwyrach na fyddai casgliadau o'r fath wrth fodd y rheiny sy'n chwilio am brawf pendant a hollol wrthrychol, ond gellid dadlau bod lle i gyfuno ystyriaeth o'r fath ag elfennau mwy gwrthrychol er mwyn adnabod yr hyn y mae Dafydd Johnston yn cyfeirio at fel 'stamp arbennig [Dafydd ap Gwilym]...sy'n ei osod uwchlaw ei gyd-feirdd ac yn teilyngu lle iddo ymhlith llenorion mawr Ewrop yr Oesoedd Canol'.²⁰⁰

²⁰⁰ Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300 – 1525* (Caerdydd, 2005), t. 110

Diwedd glo

Dywedwyd ar ddechrau'r traethawd nad ceisio adfer cerddi i'r canon na throi cerddi allan ohono oedd y bwriad, a dywedwyd y byddai'r traethawd yn siŵr o godi cwestiynau yn hytrach na chynnig atebion, ac mae'n debyg ei fod wedi llwyddo yn hynny o beth os nad mewn dim byd arall.

Ar ddechrau'r traethawd crynhowyd rhai o'r dadleuon a gafwyd ynghylch methodoleg Thomas Parry gan amryw feirniaid. Yn y bennod agoriadol honno rhoddwyd cryn sylw i ddadleuon Helen Fulton sydd wedi mynegi ei hamheuon ynghylch y broses o lunio canon mewn amryw o ysgrifau ac erthyglau. Yn y cyflwyniad i'w chasgliad o gerddi'r apocryffa, mae Fulton yn tynnu sylw at y ddadl gylch gan ddisgrifio'r hyn y mae hi'n ei weld fel:

...an alarming circularity to some of Parry's arguments for accepting or rejecting cywyddau as 'genuine'...Parry is supposed to be establishing the canon, but he also uses the canon as if it were itself evidence on which to base his definition of the canon.²⁰¹

Un o'r cwestiynau mwyaf sylfaenol y mae'r traethawd hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef yw a oes modd torri allan o'r ddadl gylch y mae Fulton yn cyfeirio ati, neu a yw pob ymdrech i bennu awduriaeth yn gaeth wrth y ddadl honno yn y pen draw? Yn gysylltiedig â'r syniad o ddadl gylch gofynnwn a all y beirniad modern fod yn hyderus yn ei adnabyddiaeth o Dafydd ap Gwilym ynteu ai'r gorau y gellir gobeithio amdano yw adnabyddiaeth o'r bardd a grëwyd rhwng cloriau cyfrol Thomas Parry? Ac mewn ymgais i dorri'r ddadl gylch rhaid gofyn a oes yna'r fath beth â chraidd o gerddi y gellir bod yn bur sicr mai Dafydd ap Gwilym yw eu hawdur?

Mae'r traethawd yn ceisio dod at y cwestiwn olaf hwnnw o ddau gyfeiriad. Yn y lle cyntaf, rhoddwyd cryn sylw i dystiolaeth y llawysgrifau a'r anghysondebau sydd i'w gweld yn y modd y defnyddiodd Parry y dystiolaeth honno wrth ddewis a dethol cerddi i'w cynnwys yn ei gasgliad. Gan ddefnyddio 'Credaf i Naf o nefoedd' a 'Cyngor gan Frawd Llwyd' yn enghreifftiau, ceisiwyd dangos fel y mae Parry wedi dewis diystyru tystiolaeth un o'r llawysgrifau cynharaf yn achos y naill gerdd a dibynnu'n drwm ar dystiolaeth yr un llawysgrif yn achos y llall. Cyfeiriwyd hefyd at y modd y mae Parry, yn y rhestr o gerddi gwrthodedig, yn dadlau bod tystiolaeth y

²⁰¹ DGA, t. xxviii

llawysgrifau yn ‘wan’ yn achos ambell gerdd, heb fyth diffinio’r hyn y mae’n ei olygu wrth ‘wan’. Y gobaith yw, felly, bod y traethawd yn cynnig dadansoddiad mwy gwrthrychol o dystiolaeth y llawysgrifau.

Gan edrych ar y llawysgrifau hynny sy’n cynnwys cerddi sydd wedi’u priodoli i Dafydd ap Gwilym, aethpwyd ati i ddsbarthu’r llawysgrifau yn dair ‘haen’ i bob pwrpas. Yn gyntaf, ceir y llawysgrifau ‘cynharaf’, sef llawysgrifau’r 15fed ganrif. Yn y rhain y ceir yr hyn y cyfeirir ato fel y craidd o gerddi ‘cynnar’, a chofiwn mai rhyw draean yn unig o gerddi’r canon sydd wedi’u cofnodi yn y llawysgrifau hyn. Yn ail, ceir y Vetustus, sydd â dyddiad o c. 1526, a gwelwyd wrth ddod at y craidd o gerddi poblogaidd, bod y Vetustus wedi gwneud cyfraniad pwysig a sylweddol i’r canon. At y Vetustus ychwanegwyd y cerddi sydd wedi’u cynnwys yn Llyfr Wiliem Mathew a Hen Lyfr Arall. Yn drydydd, ceir y llawysgrifau sy’n ymddangos yn ystod chwarter olaf yr 16eg ganrif, a chanolbwyntiwyd yn bennaf ar Hafod 26. Wrth i’r traethawd fynd rhagddo, ceisiwyd dangos bod y llawysgrif hon yn bwysig ac yn ddiddorol, nid yn unig oherwydd ei bod, yn ôl pob tebyg, yn rhannu perthynas â’r cerddi a gofnodwyd yn y Vetustus, ond hefyd oherwydd y cerddi sydd i’w cael yn y casgliadau bychan ar ddechrau ac ar ddiwedd y llawysgrif, sy’n dod o ffynhonnell neu ffynonellau hollol wahanol i brif gorff y llawysgrif.

Y cwestiwn amlwg wrth sôn am y llawysgrifau cynharaf a chyfeirio at dystiolaeth gynnar, yw a yw cynnar yn gyfystyr â gorau? Go brin y byddai unrhyw un yn dadlawn nad yw’r ychydig gasgliadau bychan sydd wedi goroesi o’r 15fed ganrif yn ffynhonnell fwy sicr na’r casgliadau niferus a helaeth sy’n ymddangos yn yr 16eg a’r 17eg ganrif, ond mae’r ffaith bod Parry, ar adegau, yn mynd yn groes i dystiolaeth hyd yn oed y llawysgrifau cynharaf hynny yn peri i ni ofyn a oes yna’r fath beth â llawysgrif gwbl awdurdodol?

Mae’n amlwg bod Parry o’r farn nad oedd dystiolaeth yr un o’r llawysgrifau cynharaf yn gwbl ddi-ffael, gan iddo wrthod o leiaf un gerdd o bob un ohonynt, ar wahân i’r pum cerdd a geir yn rhan gyntaf Peniarth 57 a’r wyth cerdd a godwyd i Peniarth 49 o ‘Hen Lyfr Arall’. Yn absenoldeb casgliad sylweddol ac awdurdodol o gerddi, ac o gofio bod gwahanol lawysgrifau weithiau’n priodoli’r un gerdd i wahanol feirdd, gwelwn nad yw dystiolaeth y llawysgrifau bob amser yn gymorth i ateb cwestiynau

ynghylch awduraeth a'i bod, ar adegau, yn gallu cymhlethu'r sefyllfa ymhellach yn hytrach na chynnig sicrwydd. At hynny, gwelwyd mai cymharol ddiweddar yw'r dystiolaeth llawysgrifol yn achos mwyafrif helaeth y cerddi (a hynny gan gofio bod hyd yn oed y dystiolaeth 'gynnar' wedi'i dyddio rhyw gan mlynedd ar ôl oes y bardd). Does dim dewis felly ond cyfuno tystiolaeth y llawysgrifau ag ystyriaethau eraill.

Ceisiwyd dangos y broses hon ar waith yn achos y cerddi 'Caru yn y Gaeaf' a 'Y Fun o Eithinfynydd'. Mae'r ddwy yn enghreifftiau o gerddi y mae Parry wedi dewis eu cynnwys yn y canon er gwaethaf yr amheuon a oedd ganddo yn eu cylch. Nid yw'r naill na'r llall ohonynt i'w cael ymysg y craidd o gerddi cynnar. Rhaid felly chwilio am ryw gyfiawnhad arall dros eu cynnwys. Yn rhan o'r broses honno, mae'n anochel ein bod ni'n ceisio cymharu'r gerdd amheus â cherddi eraill y mae eu hawduriaeth yn fwy sicr.

A allwn ni felly gymryd bod y dystiolaeth o blaid y cerddi hynny sy'n ymddangos yn y llawysgrifau cynnar yn ddigon sicr i ganiatáu i ni eu defnyddio yn y modd hwn? Ceisiwyd dangos bod y craidd hwn o gerddi yn amrywiol iawn a phe byddid yn ceisio eu defnyddio fel ffon i fesur dilysrwydd cerddi eraill yn ei herbyn, bron na fyddai modd dadlau o blaid pob math o gerddi. Ymhlith y craidd cynnar ceir cerddi natur a cherddi serch, cerddi byrion a cherddi hir, cerddi sy'n adrodd am helyntion serch y bardd a'r troeon trwstan sy'n dod i'w ran, cerddi dyfalu a cherddi sy'n seiliedig ar un ddelwedd estynedig yn ogystal â cherddi crefyddol a cherddi mawl a marwnad.

Gwelwyd bod yr ail a'r drydedd haen o gasgliadau llawysgrifol yn adeiladu ar y sylfaen gynnar hon, a cheir ynddynt hwythau hefyd gerddi amrywiol eu natur a'u cynnwys. Yr hyn y mae'n rhaid gofyn felly yw ble y mae gwaith dilys Dafydd ap Gwilym yn gorffen a ble y mae effaith y gaseg eira yn dechrau?

A dychwelyd at 'Caru yn y Gaeaf' a 'Y Fun o Eithinfynydd', dangoswyd bod ystyried y ddwy hyn ochr yn ochr â cherddi eraill sydd wedi'u cynnwys yn y canon yn dwyn mwy o ffrwyth yn achos y gyntaf nag yn achos yr ail. Mae'n amlwg bod 'Caru yn y Gaeaf' yn perthyn, o ran ei harddull a'i thema, i'r grŵp o gerddi rhwystr

Diweddgllo

sydd i'w cael yn y canon, ac os ydym yn derbyn bod y rheiny yn gerddi dilys mae modd derbyn 'Caru yn y Gaeaf' hefyd. Fel amryw o'r cerddi sydd wedi'u priodoli i Dafydd o ddechrau'r traddodiad llawysgrifol, cerddi megis 'Noson Olau' a 'Y Cwt Gwyddau', mae 'Caru yn y Gaeaf' yn darlunio'r bardd fel carwr aflwyddiannus ac anobeithiol. Er gwaetha'r sefyllfa ddigri a ddarlunnir ynddi, mae'r gerdd hefyd yn cyflwyno mewn modd cynnil, syniadaeth y bardd am y tymhorau a'u pwysigrwydd a'u perthnasedd iddo. Mae'r syniadaeth hon wrth gwrs yn ganolog i amryw o gerddi'r canon. Wedi iddo ffoi i'r goedwig o afael y gŵr eiddig, mae'r bardd yn sylweddoli nad yw'r coed yn cynnig eu croeso arferol gan mai gaeaf ydyw.

Mae'r gwrthwyneb yn wir am 'Y Fun o Eithinfynydd' gan nad oes i'r cywydd hwn gymar amlwg ymhlith cerddi'r canon. Er y ddau gyfeiriad a geir at Morfudd yn y gerdd hon, mae yna rai nodweddion cynganeddol sy'n peri amau ei bod yn perthyn i gyfnod mwy diweddar na chyfnod Dafydd ac at hynny mae'r arddull a'r delweddu yn syml heb y cymhlethdod yn y mynegiant a'r weledigaeth sydd i'w weld mewn cynifer o'r cerddi sy'n cael eu priodoli i Dafydd.

Er bod ystyriaethau fel y rhain yn ddefnyddiol a ellir honni eu bod yn torri'r ddadl gylch gan ein bod, fel yr awgrymodd Fulton, yn defnyddio cerddi'r canon i bennu'r hyn sy'n nodweddiadol o ganu Dafydd?

Wedi ystyried tystiolaeth y llawysgrifau aethpwyd ati wedyn i geisio ffurfio craidd arall o gerddi. I'r perwyl hwnnw edrychwyd ar rai o'r detholiadau mwy diweddar a gyhoeddwyd o waith Dafydd ap Gwilym gan ragdybio bod y rheiny a fu'n gyfrifol am lunio'r casgliadau hynny wedi dewis yn fwriadol y cerddi y teimlent eu bod yn nodweddiadol o waith Dafydd ap Gwilym ac yn dangos ei waith ar ei orau. Edrychwyd ar bedwar cyhoeddiad yn benodol a daethpwyd i'r casgliad bod y cerddi hynny a oedd i'w cael mewn tri neu fwy o'r cyhoeddiadau hynny (38 i gyd), yn ffurfio craidd o gerddi 'poblogaidd'.

Teg dweud nad yw cynnwys y craidd o gerddi poblogaidd yn peri dim syndod ynddo'i hun. Yr hyn a geir yma yw rhestr o'r cerddi y byddid yn disgwyl eu gweld mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud â Dafydd ap Gwilym. Dyma'r cerddi sydd wedi cael eu trafod a'u dadansoddi gan amryw feirniaid a'r cerddi sy'n cael eu

Diwedd glo

cydnabod yn rhai o glasuron ein llên, cerddi megis ‘Trafferth mewn Tafarn’, ‘Mis Mai’, ‘Yr Haf’, ‘Mis Mai a Mis Ionawr’, ‘Y Gwynt’ ac ati. Fodd bynnag, mae ystyried y cerddi nad ydynt yn gerddi poblogaidd, a dadansoddi’r cerddi poblogaidd ochr yn ochr â’r craidd cynnar yn fwy dadlennol a diddorol.

Gwelwyd nad oes yna ryw lawer o orgyffwrdd rhwng y ddau graidd. Hynny yw, prin yw’r cerddi sy’n ymddangos yn y llawysgrifau cynharaf sydd wedi dod yn gerddi poblogaidd erbyn heddiw. Cyfeiriwyd at gerddi megis ‘Gwadu’, ‘Taeru’ a ‘Yr Annerch’ sydd â thystiolaeth gadarn iawn o’u plaid o safbwynt y llawysgrifau. Er hynny, o edrych ar y casgliadau llai o waith Dafydd ap Gwilym, mae’n amlwg nad yw’r rhain yn cael eu hystyried yn gerddi sy’n ‘nodweddiadol’ o’i waith. Yn wir, mae’r cerddi sy’n cael eu cynnig erbyn heddiw yn enghreifftiau o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym ar ei gorau yn rhai sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol trwy’r ail a’r drydedd haen o llawysgrifau.

Hwyrach mai datgeliad mwyaf arwyddocaol y traethawd, ac yn sicr yr hyn a’ m synnodd i fwyaf, yw’r ffaith nad yw rhai o’r cerddi enwocaf a gysylltir ag enw Dafydd, sydd i’w cael ymysg y craidd o gerddi poblogaidd, yn ymuno â’r traddodiad ysgrifenedig tan ryw ddau gan mlynedd ar ôl marwolaeth y bardd. Mae’r traethawd yn dangos sut y mae amryw o’r cerddi hyn, sy’n cynnwys ‘Trafferth mewn Tafarn’, ‘Mis Mai’, ‘Mawl i’r Haf’ a ‘Morfudd yn Hen’, yn ymuno â’r traddodiad llawysgrifol yn y casgliadau digon di-nod a llygredig sydd i’w cael ar ddechrau a diwedd Hafod 26, sydd â dyddiad o tua 1574. A dyma, mae’n debyg, sy’n cynnig yr her fwyaf wrth geisio torri allan o’r ddadl gylch. Os ydym yn casglu ar y cyfan mai’r llawysgrifau cynharaf yw’r rhai gorau a mwyaf dibynadwy, sut felly y mae cysoni’r ffaith bod amryw o’r cerddi hynny y cyfeirir atynt dro ar ôl tro fel rhai o gerddi gorau ac enwocaf Dafydd yn gwbl absennol o’r casgliadau cynnar hynny? Ac ar ba sail y mae Thomas Parry yn cyfiawnhau derbyn yn ddigwestiwn gerddi sy’n ymuno â’r traddodiad llawysgrifol ochr yn ochr â cherddi annilys y mae ef ei hun yn barnu nad ydynt yn deilwng o Dafydd, a hynny ar ôl iddo wrthod cerddi â thystiolaeth dipyn cryfach o’u plaid? Ac yn wir, sut y mae dewis a dethol o blith y cerddi hynny sy’n ymddangos ar ddechrau a diwedd Hafod 26, o gofio bod y mwyafrif ohonynt yn rhannu’r un dystiolaeth llawysgrifol?

Wrth drafod Hafod 26 ac yn benodol y cerddi hynny sy'n ymddangos o boptu'r craidd sy'n rhannu perthynas â'r Vetustus, gwelwyd eu bod yn gasgliad go ryfedd o gerddi, a defnyddir 'casgliad' yn yr ystyr fwyaf llac gan nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu iddynt gylchredeg gyda'i gilydd cyn cael eu cofnodi yn Hafod 26. Mae rhai o'r cerddi eisoes wedi'u cofnodi yn y llawysgrifau cynharaf, ond mae eraill fel pe baent yn ymddangos yn sydyn o unman. Mae'n siŵr bod hyn yn rhoi sail i ddadleuon Daniel Huws ac eraill ynghylch trosglwyddiad llafar y cerddi a'r ffaith i'r traddodiad llafar barhau'n hirach yn y gogledd nag a wnaeth yn y de.

Ceir yma gerddi y mae Parry'n cydnabod eu bod yn gelfydd ac yn grefftus, ond eto yn eu gwrthod o'r canon am nad yw'n teimlo eu bod yn rhannu'r un nodweddion â cherddi 'dilys' Dafydd. Yna ceir cerddi sy'n cael eu cynnwys i'r canon yn ddigwestiwn. Ac yn olaf ceir y cerddi y mae Parry'n eu hwfftio'n llwyr fel rhai nad ydynt yn deilwng o gael eu cysylltu ag enw Dafydd.

Gan gymryd y cerddi llatai i'r Eryr a'r Ehedydd yn enghreifftiau, ceisiwyd dangos unwaith eto na fu Thomas Parry yn gwbl gyson yn y modd y cymhwysodd faen prawf tystiolaeth y llawysgrifau. Mae'r ddwy gerdd yn ymuno â'r traddodiad llawysgrifol yn rhan olaf Hafod 26 ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at hyn yn achos y cywydd i'r Ehedydd, sydd wedi'i gynnwys yn y canon. Ond, yn achos y cywydd i'r Eryr mae Parry'n rhoi cryn sylw i dystiolaeth y llawysgrifau ac yn casglu nad oes 'ond dwy ffynhonnell wreiddiol i'r cywydd'.²⁰² Fodd bynnag, ceisiwyd dangos hefyd fel y mae Parry'n defnyddio ystyriaethau eraill wrth wrthod y naill gerdd a derbyn y llall. Mae'n gwrthod y gerdd i'r Eryr am fod y canu yn gypledol ei rediad, ond o gyfeirio yn ôl at bennod gyntaf y traethawd, cofiwn i amryw o feirniaid ddadlau bod enghreifftiau o ganu cypledol i'w gweld yng nghywyddau dilys Dafydd, a bod arddull cerdd yn aml yn dibynnu ar ei thestun. Mae Parry hefyd yn dadlau nad yw'r bardd a ganodd y gerdd i'r Eryr yn datblygu'r disgrifiad o'r llatai i'r un graddau ag y gwneir yng nherddi dilys Dafydd, gan gynnwys y cywydd i'r Ehedydd. Mae'r hyn y mae Parry yn ei ddweud yn ddigon gwir, yn yr ystyr bod cerddi megis 'Y Gwynt' a 'Y Niwl' yn rhoi'r sylw mwyaf i'r llatai ei hun yn hytrach na neges y llatai a'r ferch yr anfonir y llatai ati. Mae yna hefyd ryw ddyfnder a chyfoeth i'r delweddu yn y

²⁰² *GDG*, t. cxc

cywydd i'r Ehedydd sy'n gwbl absennol o'r cywydd i'r Eryr. Y perygl unwaith eto, fodd bynnag, yw bod dadleuon o'r fath yn seiliedig ar y ddadl gylch sy'n rhagdybio bod cerddi megis 'Y Gwynt' a 'Y Niwl' yn gerddi dilys y gellir eu defnyddio i fesur cerddi eraill yn eu herbyn.

Cafwyd yn ogystal drafodaeth ar y ddwy gerdd i'r niwl. Unwaith eto nid yw'r gerdd ddilys i'r niwl na'r gerdd wrthodedig i'r niwl yn ymddangos yn llawysgrifau'r 15fed ganrif. Mae rhan o'r gerdd ddilys wedi'i chofnodi yn y rhan honno o Peniarth 49 a godwyd o Lyfr Wiliem Mathew, a hefyd yn y rhan honno o Hafod 26 sy'n rhannu perthynas â'r Vetustus. Mae'r gerdd wrthodedig i'w chael ar ddiwedd Hafod 26. Gwelwn felly fod yn rhaid i Parry ddefnyddio meini prawf eraill i wahaniaethu rhyngddynt, a theg dweud mai canlyniad hyn yw bod Parry yn dewis y gerdd fwyaf crefftus o'r ddwy i'w chynnwys yn ei gasgliad.

Gwelwyd bod Fulton wedi honni mai'r hyn a geir yng nghasgliad Thomas Parry yw'r 'cream of the entire corpus' (gweler troednodyn 55). Mae'n dadlau bod ganddo ragdybiaethau ynghylch Dafydd ap Gwilym a'r math o waith a ganai, a bod y rhagdybiaethau hynny wedi peri iddo gynnwys cerddi a oedd yn gyson â'i ragdybiaethau a gwrthod cerddi a oedd yn groes iddynt. Braidd yn eithafol fyddai dadlau bod rhagdybiaethau Parry yn sail i'r canon cyfan, ond hwyrach bod yna rywffaint o wirionedd i'r honiad yn achos y cerddi a geir ar ddechrau a diwedd Hafod 26. Anodd fyddai dadlau nad y goreuon o blith y cerddi hyn sydd wedi cael lle yn y canon. Yr hyn sydd braidd yn eironig wrth gwrs yw bod amryw o'r rhain bellach ymhlith rhai o gerddi enwocaf Dafydd, a hynny er gwaethaf eu dechreuadau digon amheus.

Cyfeiriwyd eisoes at yr arfer o grwpio cerddi ynghyd a gwelwyd bod yr arfer hwnnw wedi galluogi beirniaid i gyfeirio at Dafydd fel bardd natur neu fardd serch neu fardd sy'n barod i wneud hwyl am ei ben ei hun. Wrth ystyried y cerddi poblogaidd, oedwyd am ychydig â rhai o'r cerddi natur a briodolir i Dafydd ap Gwilym. Mae 'Mis Mai' a 'Mawl i'r Haf' i'w cael yn Hafod 26, y naill ar ddechrau'r llawysgrif a'r llall ar ddiwedd y llawysgrif. Fel y mae'r teitlau'n awgrymu cerddi natur ydynt a hwyrach bod y ffaith eu bod yn perthyn i grŵp ehangach o gerddi wedi bod o gymorth i gyfiawnhau eu cynnwys yn y canon. Fodd bynnag, yn y drafodaeth a geir

ar rai o'r cerddi natur ym mhumed bennod y traethawd, ceisiwyd dangos, er gwaetha'r cysondeb yn y thema, bod yr ymdriniaeth â'r thema honno yn amrywio'n fawr rhwng y naill gerdd a'r llall.

Am resymau amlwg, mae tuedd i gysylltu 'Mis Mai' a 'Mawl i'r Haf' â cherddi eraill megis 'Yr Haf' a 'Mis Mai a Mis Ionawr' sydd â thystiolaeth lawysgrifol fwy cynnar o'u plaid. Er bod natur yn hollbresennol ym mhob un o'r cerddi hyn, nid yr un weledigaeth a geir ynddynt. Ar y naill law mae 'Mis Mai' a 'Mawl i'r Haf' ill dwy yn gerddi hyderus eu tôn sy'n ymfalchïo yn y tymhorau hyn a'r oll sydd ganddynt i'w gynnig. Ond dyna lle mae'r tebygrwydd rhyngddynt yn gorffen, a cheisiwyd dangos bod yna wahaniaeth sylfaenol yn y ddelweddaeth, gyda'r naill yn cynnwys cyfeiriadau Cristnogol a'r llall yn cynnwys cyfeiriadau paganaidd. Ar y llaw arall, nid yw 'Yr Haf' a 'Mis Mai a Mis Ionawr' yn rhannu'r un hyder ag a geir yn y ddwy gerdd gyntaf. Ydy, mae bardd y cerddi hyn hefyd yn canu mawl i'r tymhorau mwyn, ond mae hefyd yn boenus o ymwybodol mai yma dros dro y maent. Yn y cerddi hyn, ceir ymwybod o fyrhoedledd yr haf ac mae hynny yn fwy ingol oherwydd y cysylltiad a wneir rhwng yr haf ac ieuentid. Fel y mae'r haf yn darfod, felly hefyd ieuentid y bardd. Y cwestiwn sy'n codi yn sgîl y drafodaeth hon yw a yw disgrifio Dafydd fel bardd amlochrog ei lais yn fodd cyfleus a hwylus i anwybyddu'r gwahaniaeth sylfaenol yng ngweledigaeth y cerddi natur hyn?

Wrth drafod meini prawf Thomas Parry ym mhennod agoriadol y traethawd, gwelwyd bod mwy nag un ohonynt yn seiliedig ar brofi cyfnod, ac mae hynny'n arwydd o gymhlethdod y sefyllfa. Ochr yn ochr â'r cerddi a luniwyd gan Dafydd ap Gwilym a'i gyfoeswyr, ceir yn y llawysgrifau gerddi a luniwyd gan eu dilynwyr, a'r rheiny weithiau yn feirdd a oedd yn eu blodau ganrif a mwy ar ôl Dafydd ei hun. Yn y bennod gyntaf cyfeiriwyd at yr erthyglau a gyhoeddwyd gan Thomas Parry sy'n olrhain datblygiad y gynghanedd a'r cywydd rhwng y 14eg ganrif a'r 15fed ganrif. Ynddynt, mae'n dadlau bod y cywydd ei hun wedi symleiddio gyda'r beirdd mwy diweddar yn cefnu ar arddull sangiadol eu rhagflaenwyr ac yn canu cywyddau mwy cypledol. Mae Parry hefyd yn dadlau bod y gynghanedd yn mynd yn fwy cymhleth wrth i'r cywyddwyr mwy diweddar gaboli a mireinio'r grefft. Mae pennod gyntaf y traethawd hefyd yn dangos i feirniaid megis D. J. Bowen, Saunders Lewis a Helen Fulton dymheru rhywfaint ar ddadleuon Parry trwy ddweud bod gan Dafydd ap

Gwilym a'i gyfoeswyr hefyd enghreifftiau o ganu cypledol a bod arddull cerdd, fel y nodwyd uchod, yn aml yn dibynnu ar y testun y cenir iddo.

Fodd bynnag, a derbyn bod modd gwahaniaethu'n fras rhwng cywyddau'r 14eg ganrif a'r 15fed ganrif, rhaid cofio mai un cam yn y broses o bennu awduraeth yw hynny. Mae pennod ola'r traethawd felly yn dechrau ystyried y gwahaniaeth rhwng profi cyfnod a phrofi awduraeth ac yn ceisio archwilio'r syniad a geir gan Rachel Bromwich bod rhaid dibynnu, yn y pen draw, ar rywbeth tipyn llai gwrthrychol, sef yn ei geiriau hi, 'that intuitive 'sixth sense' of a poet's individual style and personality'.²⁰³

Mae pennod ola'r traethawd yn rhestru rhyw bedair elfen sy'n gyffredin i'r trafodaethau beirniadol ar waith Dafydd ap Gwilym, sef yn gyntaf y syniad ei fod yn fardd gwahanol i'r cyffredin, yn ail ei ymateb i fyd natur, yn drydydd ei bersonoliaeth farddol, ac yn bedwerydd ddyfnder ei weledigaeth. Mae'r rhain i gyd yn bethau mwy haniaethol, ac yn aml yn dibynnu ar ddehongliad y darllenydd o'r cerddi. Wrth edrych ar yr elfennau sy'n nodweddu gwaith Dafydd ap Gwilym, dechreuwyd ystyried i ba raddau, os o gwbl, y gellid dweud bod y rhain yn unigryw i'w waith? I'r perwyl hwn, edrychwyd ar y ddwy erthygl sydd gan Rachel Bromwich yn y gyfrol *A Guide to Welsh Literature II*. Mae'r gyntaf yn edrych ar waith Dafydd ap Gwilym a'r ail yn edrych ar waith rhai o'i gyfoeswyr. Yn yr erthygl ar Dafydd ap Gwilym, mae Bromwich yn ceisio disgrifio rhai o'r elfennau sy'n nodweddu ei waith, megis y modd y mae cymeriad y bardd ei hun yn ganolog i'w gerddi a'r modd y mae'n gwneud hwyl am ei ben ei hun yn y cerddi sy'n sôn am ei anturiaethau serch. Cyfeiria hefyd at y darnau o ddyfalu a geir yn ei waith a'i ryfeddod amlwg at fyd natur. Yn yr ail erthygl, mae Bromwich yn trafod gwaith rhai o gyfoeswyr Dafydd a'r hyn sy'n taro dyn yw bod amryw o'r elfennau a grybwyllwyd yng nghyswllt gwaith Dafydd hefyd i'w cael yng ngwaith ei gyfoeswyr. Cyfeiria Bromwich at y defnydd o ddyfalu a phersonoli a'r modd y mae'r beirdd hyn hefyd yn cyflwyno'u hunain fel cymeriad yn y cerddi sydd wedi'u llunio ar batrwm y canu cyfandirol. Awgrymwyd felly bod rhaid defnyddio rhyw chweched synwyr i wahaniaethu rhwng cerddi Dafydd a cherddi ei gyfoeswyr.

²⁰³ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*, t. 120

Diweddglo

Ceisiwyd dangos fel y mae beirniaid ar hyd y blynyddoedd wedi gweld yng ngwaith Dafydd ddifrifoldeb a direidi, ffraethineb a ffresni, dyfnder a deuoliaeth - elfennau mwy haniaethol a goddrychol sy'n anodd eu diffinio. Anodd penderfynu a yw'r syniad o 'chweched synnwyr' a'r trafodaethau ynghylch personoliaeth a gweledigaeth y bardd yn rhoi rhwydd hynt i ni gynnwys a gwrthod cerddi yn fympwyol ac yn anfeirniadol, ynteu a yw'r pethau hyn yn cynnig i ni faen prawf dilys i'w ddefnyddio, ochr yn ochr â'r meini prawf eraill, wrth bwysu a mesur pa rai o'r cerddi sy'n gynnwys yr un bardd? Wrth reswm, mae yna berygl mawr bod ystyriaethau sy'n seiliedig ar elfennau mwy haniaethol yn ddibynnol ar y ddadl gylch lle mae rhai cerddi'n cael eu cynnig fel rhai sy'n diffinio'r hyn yw barddoniaeth a gweledigaeth Dafydd ac yn cael eu defnyddio wedyn i gyfiawnhau cynnwys neu wrthod cerddi eraill. Mae'r anawsterau'n cael eu dwysáu gan y ffaith bod y cerddi a briodolir i Dafydd ap Gwilym o'r cyfnod cynharaf i'r llawysgrifau mwy diweddar yn amrywiol iawn o ran eu harddull a'u cynnwys, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i feirniaid roi eu bys ar yr hyn sy'n nodweddu gwaith Dafydd. Ar y naill law, wrth drafod rhai o'r cerddi natur, ceisiais ddangos bod cyfeirio at ddyfnder a deuoliaeth yn caniatáu i ni gynnwys cerddi sy'n wahanol iawn eu safbwynt a'u gweledigaeth. Ar y llaw arall, ceisiais ddangos yn y drafodaeth uchod bod cyfeirio at ddyfnder a deuoliaeth yn caniatáu i ni ddod o hyd i rai elfennau sy'n nodweddu cyfresi o gerddi ac yn eu clymu ynghyd. Mae'n siŵr y byddai rhai yn dadlau nad yw hynny gyfystyr â phrofi awduraeth, ond o gysylltu'r ystyriaethau haniaethol hyn ag ystyriaethau eraill megis tystiolaeth y llawysgrifau a'r meini prawf eraill a gynigiwyd gan Parry, hwyrach bod lle i rannu hyder Rachel Bromwich pan ddywed:

...it is now possible...to propose certain features as characteristic, and even in some cases as distinctive of the poetry of Dafydd ap Gwilym...²⁰⁴

²⁰⁴ Rachel Bromwich, 'Dafydd ap Gwilym', *GWL ii*, t. 120

Atodiad A – Dadansoddi Peniarth 49

DADANSODDI PENIARTH 49

1-43 = Rhan A – Llyfr Wiliam Mathew o Landaf

44-70 = Rhan B – Llyfr Gwyn Hergest

71-78 = Rhan C – Hen Llyfr Arall

70 – diwedd = Rhan D – Vetustus

Rhif P49	Ffynh.	Linell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
1	LIWM	Peunydd y gwelir yno (dam)	42	Morfudd fel yr Haul	-
2	LIWM	Yr wybrwynt helynt hylaw (dam)	117	Y Gwynt	Ex ¹ per vetust
3	LIWM	Tir a gudd i ddeurydd ddygn (dam)	68	Y Niwl	-
4	LIWM	Y ceiliog serchog ei sôn	28	Y Ceiliog Bronfraith	Ex ¹ per alium
5	LLWM	Gwae fi o gariad gwiw fun	-	-	Ex ¹ per vetust
6	LIWM	Euryches y cae mangoed	38	Yr Euryches	Ex ¹ per llyfr gwyn o hergest et per vetust
7	LIWM	Anfon a wnaeth rhieinferch	31	Cae Bedw Madog	Ex ¹ per llyfr gwyn o hergest et per vetust
8	LIWM	Y don bengrychlon grochlais	71	Y Don ar Afon Dyfi	Ex ¹ per vetust
9	LIWM	Twf y dyn tyfiad Enid	53	Breichiau Morfudd	Ex ¹ per vetust
10	LIWM	Clo a roed ar ddrws y ty	89	Dan y Bargod	-
11	LIWM	Hoed cas, er hyd y ceisiwyf	101	Merch Fileinaidd	Ex ¹ per vetust
12	LIWM	Cariad ar ddyd anwadal	85	Siom	Ex ¹ per vetust et per alium
13	LIWM	Gwewyr, cyfeddachwyr cof	100	Saethu'r Ferch	Ex ¹ per llyfr gwyn o hergest et per vetust
14	LIWM	Plygu rhag llid yr ydwyf	48	Merched Llanbadarn	Ex ¹ per vetust

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
15	LIWM	Hydr y gwyddost, ail Indeg	103	Canu'n Iach	Ex ^r per vetustum
16	LIWM	Heddiw y gwelaf, Ddafydd	44	Penwisg Merch	-
17	LIWM	Y ferch a gar ruddell fain	-	-	-
18	LIWM	Ni chwsig bun gyda i hunben	47	Bargeinio	-
19	LIWM	Ai llai fy rhan o anan	62	Y Mwdwl Gwair	Ex ^r etiam per vetustum codicem
20	LIWM	Caru y bum, cyd curiwyf	87	Hwsmonaeth Cariad	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest Ex ^r per vetust
21	LIWM	Dy gariad, Indeg oroen	96	Blinder	Ex ^r per vetustum
22	LIWM	Oio galon fergron fach	108	Y Galon	Ex ^r per vetust
23	LIWM	Uchenaid wedn aflednais	109	Yr Uchenaid	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest et per alium vetustum
24	LIWM	Eiddun dewisaf serchawg	120	Merch ac Aderyn	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest et per vetust
25	LIWM	Y ferch borffor ei thoryn	56	Campau Bun	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest et per alium
26	LIWM	Uchel y bum yn ochi	129	Y Wawr	Ex ^r per vetust
27	LIWM	Y feinferch, hwde f' anfodd	54	Rhagoriaeth y Bardd ar Arall	-
28	LIWM	Tydy ehediad tewdwrw	115	Y Cyffyllog	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest et per vetust
29	LIWM	Dysgais ddwyn cariad esgud	74	Y Serch Lledrad	Ex ^r per vetust et per alium
30	LIWM	Caru 'ddwyf, gwaith hynwyf gwyllt	86	Y Llw	Ex ^r per llyfr gwyn o hergest
31	LIWM	Cerddais yn gynt, helynt hir	33	Y Bardd yn Onest	-
32	LIWM	Da Forfudd, sinoblrudd syw	35	Gwadu iddo fod yn fynach	est et 93
33	LIWM	Llyma bwnc, lle mae y bydd	46	Serch fel Ysgyfamog	Exr et per vetustum

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
34	LLWM	Caeau, silltaerynnau serch	84	Hudoliaeth Merch	Ex ¹ per vetust
35	LIWM	Gŵyl Bedr y bûm yn edrych (2 gopi)	128	Athrodi ei Was	Ex ¹ per vetust Idem 71
36	LIWM	Y fun glaeer fwnwgl euraid	82	Erfyn am ei Fywyd	Ex ¹ per llyfr gwyn o Hergest et per vetustum et per alium
37	LIWM	Morfudd weddaidd anghywir	77	Amau ar Gam	Ex ¹ per vetust
38	LIWM	Gwell eniwed, fforfed ffug	43	Llw Morfudd	Ex ¹ per vetust
39	LIWM	Adarwr o rew dwyrain	30	Yr Adarwr	Ex ¹ per llyfr gwyn o Hergest
40	LIWM	Mau gariad mewn magwriaeth	104	Y Mab Maeth	-
41	LIWM	Cerddais o fewn cadleisiau	64	Y Ffenestr	-
42	LIWM	Y ferch a alwn f'eurchwaer	81	Llychwino Pryd y Ferch	Ex ¹ per vetustum codicem
43	LIWM	Digio 'dd wyf am liw ewyn	67	Y Seren	Ex ¹ per vetust
44	LIGH	Mau aflwyddiant, coddiant cawdd	76	Rhag Hyderu ar y Byd	Ex ¹ per vetust
45	LLGH	O frithyll fyfyr ieithydd	-	-	-
46	LIGH	Gwae ni hil eiddil Addaf	24	Yr Haf	Ex ¹ per alium
47	LIGH	Dyddgu liw dydd goleuaf	95	Dagrau Serch	Ex ¹ per vetust et per alium
48	LIGH	Un agwedd oferedd fu	110	Difrawder	Ex ¹ per vetust
49	LIGH	Y ferch anllad a'm gwadodd	55	Taeru	Ex ¹ per vetust
50	LIGH	Annerch nac annerch gennad	112	Yr Annerch	Ex ¹ per vetustum
51	LIGH	Ceisio yn lew heb dewi	72	Trech a Gais Nog a Geidw	Ex ¹ per vetustum et per al
52	LIGH	Hoywdeg riain a'm hudai	102	Cystudd y Bardd	Ex ¹ per vetust
53	LLGH	Digiais am na chawn degau	-	-	Ex ¹ per alium
54	LIGH	Digrif fu fy ngwaith neithiwr	36	Digalondid	-
55	LIGH	Cywyddau, twf cywiwddoeth	34	Talu Dyled	Ex ¹ per vetustum
56	LIGH	Gildiais fal gildiwr ar fin	132	Cyfeddach	-

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
57	LIGH	Efa fonheddig ddigawn	97	Angof	Ex ¹ per vetust
58	LIGH	Dyn cannaid, doniog gynneddf	119	I Wahodd Dyddgu	Ex ¹ per vetust
59	LIGH	Ni thymbais, ddewdras ddirdra	105	Y Drych	Ex ¹ per vetust et per alium
60	LIGH	Deincryd mawr o led ancraen	91	Y Rhew	Ex per alium
61	LIGH	Ochan fi drueni drum	79	Morfudd a Dyddgu	Ex ¹ per vetustum et per alium
62	LIGH	Curiodd anwadal galon	90	Cystudd Cariad	-
63	LIGH	Traserch ar wenferch winfaeth	107	Gwadu	Ex ¹ per alium
64	LIGH	Llyfr dwned Dyfed dyfyn	12	Mawl Llywelyn ap Gwilym	-
65	LIGH	Dyfed a somed, symud ei mawrair	13	Marwnad Llywelyn ap Gwilym	-
66	LIGH	Da y rhed ar waered, arw oror	5	Awdl i lfor Hael	Ex ¹ per vetustum et per alium
67	LLGH	Credaf i Naf o nefoedd (llinell gyntaf yn unig)	-	-	Cais yn y llyfr arall C.1.
68	LIGH	Fal yr oeddwn, fawl rwyddaf	125	Y Rhugl Groen	Ex ¹ per vetust et per alium
69	LIGH	Teg Forfudd, Tegau eurfalch	52	Gofyn Cymod	Ex ¹ per vetustum
70	LIGH	Rhyir wyd, gyflwyd gyflun	143	Y Cleddyf	Ex ¹ per vetustum
71	HLA	Gwyl Bedr y bwm yn edrych (2 gopi)	128	Athrodi ei Was	Idem 35
72	HLA	Yr het fedw, da y'th gedwir	59	Yr Het Fedw	Ex ¹ per vetustum
73	HLA	A fu ddim, ddamwain breiddfyw (2 gopi)	61	Y Cyfflog	73 & 101
74	HLA	Y celynlwyn, coel iawnllwyth	29	Y Llwyn Celyn	Ex ¹ per alium
75	HLA	Digwsg fwm am ail Degau	92	Achau hiraeth	Ex ¹ per vetust
76	HLA	Doe yr oeddwn, dioer eddyl	22	Y Llwynog	Ex ¹ per vetust

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
77	HLA	Cerdda, was, câr ddewiswyrdd	8	Basaleg	Ex ¹ per vetustum per alium
78	HLA	Ufudd serchogion ofeg	10	Ymado ag Ifor Hael	Ex ¹ per vetust et per alium
79	Vet	Gwae fardd a fai gyfa ei om	127	Y Pwll Mawn	-
80	Vet	Ifor aur o faerwriaeth	7	Cywydd i Ifor Hael	-
81	Vet	Rhagawr mawr ger mur gwyngalch	18	Marwnad Gruffudd ab Adda	-
82	Vet	Ef aeth heddiw yn ddiwael	75	I Ddymuno Boddi'r Gŵr Eiddig	-
83	Vet	Fal yr oeddwn gynt noswaith	126	Y Cwt Gwyddau	-
84	Vet	Tair gwragedd â'u gwedd fel gwawn	51	Rhagoriaeth ei Gariad	-
85	Vet	Ieuan, iôr gwaywdan gwiwdad	45	Dyddgu	-
86	Vet	A gerddodd neb er gorrderch	83	Taith i Garu	-
87	Vet	Dwynwen deigr arien degwch	94	Galw ar Ddwynwen	-
88	Vet	Dyddgu ddiwaradwyddgamp	37	Caru Merch Fonheddig	-
89	Vet	Dyddgwaith dibeth oedd echdoe	131	Doe	-
90	Vet	Y ferch dan yr aur llathroyw	111	Y Gwayw	-
91	Vet	Hawddamawr, mireinwawr maith	134	Niwbwtrch	-
92	Vet	Drud yr adwaenwn dy dro	93	Y Cariad a Wrthodwyd	-
93	Vet	Da Forfudd, sinoblrudd syw	35	Gwadu iddo fod yn fynach	est per 32
94	Vet	Rho Duw gal rhaid yw gwyliaw	-	-	-
95	Vet	Rhidyll hudolaidd rhydwn	19	Marwnad Madog Benfras	-
96	Vet	Da ar feirdd, dewr o ŵr fu (Madog Benfras)		Marwnadau II	-
97	Vet	Rhai o ferched y gwledydd	49	Merch yn Ymbincio	-
98	Vet	Lleidr i mewn diras draserch	135	Lladrata Merch	-
99	Vet	Dysgais ryw baradwysgaine	142	Y Gainc	-

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
100	Vet	Ei serch a roes merch i mi	98	Dewis un o Bedair	-
101	Vet	A fu ddim, ddamwain breiddfyw (2 gopi)	61	Y Cyfflog	101 & 73
102	Vet	Dadlittia'r diwyd latai	113	Cyrchu Lleian	-
103	Vet	Hawddamor, glwysgor glasgoed	69	Mis Mai a Mis Ionawr	-
104	Vet	Yr edlaesferch wawr dlofain	58	Merch yn Edliw ei Lyfdra	-
105	Vet	Dodes Duw, da o dyst wyf	73	Gwallt Morfudd	-
106	Vet	Cynnar fodd, cain arfeddyd	66	Y Cloc	-
107	Vet	Heirdd feirdd, f'eurddyn diledryw	121	Y Deildy	-
108	Vet	Deg nithiad, doe y gwneuthum	146	Disgwyl yn Ofer	-
109	Vet	Lle digrif y bwm heddiw	122	Offeren y Llwyn	-
110	Vet	Pwytiau afrwydd drwy'r flwyddyn	70	Noson Olau	-
111	Vet	Myfi y sydd, deunydd dig	78	Serch Dirgel	Ex ^r per alium
112	Vet	Ysnyfarnog yng nghartref	60	Anwadalrwydd	-
113	Vet	Fal yr oeddwn ymannos	40	Amnaid	-
114	Vet	Cyrch yr edn diafednais	-	-	-
115	Vet	Hawddamawr ddeulawr ddilyth	133	Cusan	-
116	Vet	Salm yw 'nghof o lyfr Ofydd	50	Chwarae Cnau i'm Llaw	-
117	Vet	Doe ym mherigl y ciglef	136	Cyngor gan Frawd Llwyd	-
118	Vet	Da y lluniwyd, dull iawnwedd	4	Lluniau Crist a'i Apostolion	-
119	Vet	Gydag ieir y cei dy garu	-	-	-
120	Vet	Prid o swydd prydais iddi	106	Edifeirwch	-
121	Vet	Da fu'r Drindod heb dlodi	3	Da fu'r Drindod	-
122	Vet	Oesbraff'wyd, Siesus (dwy linell yn unig)	1	I Iesu Grist	-
123	Vet	Gwae fi na wŷr y forwyn	137	Y Bardd a'r Brawd	-

Rhif P49	Ffynh.	Llinell Gyntaf	Rhif GDG	Teitl yn GDG	Sylwadau wrth ymyl y gerdd yn P49
124	Vet	Ni chysgaf nid af o dŷ	-	Llwyd	-
125	Vet	Rho Duw hael rhadau helynt	-	-	-
126	Vet	Hudol doe fu hoedl Dafydd (Iolo Goch)		Marwnadau I	
127	Vet	Tri phorthor, dygfor dig	80	Tri Phorthor Eiddig	-
128	Vet	Yr wylan deg ar lanw dioer	118	Yr Wylan	-
129	Vet	A mi'n glaf er mwyn gloywferch	63	Cyngor y Biogen	-
130	Vet	Tydi y bwth tinrhwth twn	144	Yr Adfail	-
131	Vet	Gwawr ddyhuddiant y cantref	99	Pererindod Merch	-
132	Vet	Y ferch o'r fynachlog faen	-	-	-
133	Vet	Doe'r oeddwn dan oreuddail	141	Ei Gysgod	-
134	Vet	Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais	-	-	-
135	Vet	Boreddydd, bu wawr eiddun	32	Gerlant o Blu Paun	-
136	Vet	Cwrs digar, cerais Degau	65	Y Fiaren	-
137	Vet	Cerbyd lled ymfyd llydanfai	21	Dychan i Rys Meigen	-
138 (darn)	Vet	Fal yr oeddwn yn myned	41	Merch Gyndyn	-

Llyfryddiaeth

- Bowen, D. J., 'Sylwadau ar Waith Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru* VI (1960-61), 36-45
- Bowen, D. J., 'Awduriaeth y Cywyddau i'r Eira a'r Sêr', *Llên Cymru* VII (1962-63), 193-205
- Bowen, D. J., 'Dafydd ap Gwilym a Datblygiad y Cywydd', *Llên Cymru* VIII (1964-65), 1-32
- Brewer, D.S., 'The Fabliau', yn Beryl Rowland (gol.), *Companion to Chaucer Studies* (Oxford, 1968)
- Bromwich, Rachel, 'Dafydd ap Gwilym', yn A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (goln), *A Guide to Welsh Literature 1282 – c.1550* (argraffiad diwygiedig, gol. Dafydd Johnston, Caerdydd, 1997), 95-125
- Bromwich, Rachel, 'The Earlier Cywyddwyr: Poets Contemporary with Dafydd ap Gwilym', yn A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (goln), *A Guide to Welsh Literature 1282 – c.1550* (argraffiad diwygiedig, gol. Dafydd Johnston, Caerdydd, 1997), 126-149
- Bromwich, Rachel, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986)
- Bromwich, Rachel, *Dafydd ap Gwilym yn y gyfres Writers of Wales*, (Cardiff, 1974)
- Bromwich, Rachel, (gol.), *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982)
- Crawford, T. D., 'Cyfartaledd y Gynghanedd Sain yng Nghywyddau Dafydd ap Gwilym', *Ysgrifau Beirniadol* XII (1982), 131-142
- Evans, J. Gwenogvryn, *Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898-1910)
- Fulton, Helen, 'Awdurdod ac Awduraeth: Golygu'r Cywyddwyr', yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 50-76
- Fulton, Helen, 'Medieval Welsh Poems to Nuns', *Cambridge Medieval Celtic Studies* 21 (1991), 87-112
- Fulton, Helen, 'The Editor as Author: Reproducing the Text. A case study of Parry's *Gwaith Dafydd ap Gwilym*', *Bulletin of the Bibliographical Society of Australia and New Zealand Volume 19* (1995), 67-78
- Fulton, Helen, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989)
- Fulton, Helen, (gol.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996)
- Gruffydd, R. Geraint, *Dafydd ap Gwilym*, yn y gyfres Llên y Llenor (Caernarfon, 1987)
- Gruffydd, R. Geraint, 'Englynion y Cusan by Dafydd ap Gwilym', *Cambridge Medieval Celtic Studies* 23 (1992), 1-6
- Hines, John, *The Fabliau in English* (New York, 1993)
- Huws, Daniel, 'Apocryffa Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* CLII (1997), 200-204
- Huws, Daniel, 'John Davies and his Manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Caerdydd, 2004), 88-120
- Huws, Daniel, 'The Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', yn Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2003), 84-103
- Ifans, Rhiannon, (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000)
- Jacobs, Nicolas, 'Kindly Light or Foxfire? The Authorial Text Reconsidered', yn Vincent P. McCarren a Douglas Moffat (goln), *A Guide to Editing Middle English* (Michigan U.P. 1998), 3-14

- Johnston, Dafydd, a Parry Owen, Ann, 'Tri darn o farddoniaeth yn Llawysgrif Peniarth 10', *Dwned* 5 (1999), 35-41
- Johnston, Dafydd, 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition', *Studia Celtica* XXXVII (2003), 143-161
- Johnston, Dafydd, 'Nodiadau ar Waith Dafydd ap Gwilym', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* XXXII (1985), 79-83
- Johnston, Dafydd, 'Paradwys Dafydd ap Gwilym', *Ysgrifau Beirniadol* XX (1995), 114-24
- Johnston, Dafydd, (gol.), *Canu Masweddd yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1991)
- Johnston, Dafydd, (gol.), *Gwaith Iolo Goch*, (Caerdydd, 1998)
- Johnston, Dafydd, (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998)
- Johnston, Dafydd, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- Johnston, Dafydd, *Llenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1998)
- Johnston, David, 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym', *Cambridge Medieval Celtic Studies* 5 (1983), 1-19
- Jones, Owen (Owain Myfyr), ac Owen, William (Dr. W. Owen Pughe), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789)
- Lewis, Saunders, 'Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru* II (1952-53), 199-208
- Lewis, Saunders, 'Dafydd ap Gwilym', Pennod v yn *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932)
- Llwyd, Alan, (gol.), *50 o Gywyddau* (Abertawe, 1980)
- Loomis, Richard a Johnston, Dafydd, *Medieval Welsh Poems An Anthology* (New York, 1992)
- Lynch, Peredur I., 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym', yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 109-147
- Owen, Ann Parry ac Evans, Dylan Foster, (goln), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hodnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996)
- Owen, Ann Parry, 'Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i'r Grog o Gaer', *YB* XXI (1996), 15-36
- Parry, Thomas, 'Cywydd yr Eira a Chywydd y Sêr', *Llên Cymru* VI (1960-61), 176-8
- Parry, Thomas, 'Dafydd ap Gwilym a'r Cyfrifiadur', *Ysgrifau Beirniadol* XIII (1985), 114-122
- Parry, Thomas, 'Datblygiad y Cywydd', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 1939, 209-231
- Parry, Thomas, 'Twf y Gynghanedd', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 1936, 143-160
- Parry, Thomas, (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952)
- Parry, Thomas, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944)
- Parry, Thomas, *Peniarth 49* (Caerdydd, 1929)
- Parry, Thomas, (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962)
- Rowlands, E. I., 'Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru* VI (1960-61), 105-108
- Rowlands, E. I., 'Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Ail Argraffiad)', *Llên Cymru* VIII, (1964-65), 107-112
- Rowlands, Eurys I., 'Dafydd ap Gwilym', *Y Traethodydd* 35 (1967), 15-35
- Rowlands, John, 'Morfudd fel yr Haul', *Ysgrifau Beirniadol* VI (1971), 16-44
- Stephens, Meic, (gol.), *Cydymaith i Llenyddiaeth Cymru*, Adargraffiad diwygiedig (Caerdydd, 1992)
- Thomas, Gwyn, *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Cardiff, 2001)

Thomas, Gwyn, *Dafydd ap Gwilym: Y gŵr wrth gerdd* (Aberystwyth, 2003)

Thomas, Gwyn, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976)

Thomas, Gwyn, 'Nodiadau ar Adleisiau ym Marddoniaeth Dafydd ap Gwilym', *Llên Cymru* 21 (1998), 174-176

Williams, G. Aled, 'The Literary Tradition to c.1560', yn J. Beverley Smith a Llinos Beverley Smith (goln), *History of Merioneth II* (Cardiff, 2001), 507-628

Williams, Ifor a Roberts, Thomas, (goln), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Bangor 1914; ail argraffiad, Caerdydd, 1935)

Williams, Ifor, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938)

Cyfeiriwyd hefyd at gofnodion Maldwyn – Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau: <http://maldwyn.llgc.org.uk>